# Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru

Astudiaeth Ddichonoldeb Ragarweiniol a Gwerthusiad Opsiynau

Gorffennaf 2018




event

Cleient: Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD), Llywodraeth Cymru
Awduron Event: Lucie Branczik a Becky Schutt
Diwygiad rhif: 02
Dyddiad: Gorffennaf 2018
Event Communications Ltd
India House
45 Curlew Street
Llundain SE1 2ND

+44 (0) 20 7378 9900
info@eventcomm.com
www.eventcomm.com

© Event Communications Ltd 2018

Mae Event Communications Ltd wedi datgan ei hawl dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 i gael ei gydnabod fel awdur y gwaith hwn.

Clawr blaen:
Laura Ford, gŵyl Caerdydd Gyfoes
Ffynhonnell: Laura Ford

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 7 |
| 1. Cyflwyniad | 17 |
| 2. Canfyddiadau a Chyfleoedd | 23 |
| Celf Gyfoes yng Nghymru | 25 |
| Y Cyflenwad: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol | 30 |
| Y Galw: Cynulleidfaoedd | 51 |
| Cyd-destunau Allweddol | 61 |
| Uchelgais y Sector | 86 |
| 3. Pwrpas a Gweledigaeth | 91 |
| 4. Yr Opsiynau | 97 |
| 5. Argymhellion | 103 |
| 6. Manylion y Model | 119 |
| 7. Y Camau Nesaf a Argymhellir | 131 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: Rhestr Ymgyngoreion | 138 |
| Atodiad 2: Ymweliadau â Safleoedd | 140 |
| Atodiad 3: Llyfryddiaeth | 142 |
| Atodiad 4: Rhestr o Ffigyrau | 144 |
| Atodiad 5: Y Farchnad | 147 |
| Atodiad 6: Opsiynau Rhestr Hir | 155 |
| Atodiad 7: Enghreifftiau o Weledigaethau a Chenadaethau | 227 |

"Ym Mhrydain, pryd bynnag y daw pobl ar draws rhywbeth newydd a chyffrous, ond heriol, maen nhw'n tueddu i redeg oddi wrtho, i fod eisiau cael yr hyn y maen nhw'n ei adnabod ac yn gyfforddus ag ef. Mae dylunio adeilad newydd gwych yn gofyn am gryn ddewrder ar ran pawb. Rwy'n credu bod gennym lawer mwy o egluro i'w wneud."

**Zaha Hadid, 1995**

Jonathan Glancey, "A monumental spot of local trouble" (The Independent, Ionawr 1995)

Kelly Best, cip o'r gosodwaith.
Ffrâm (dyfrlliw ar bapur) ac Apex #1
(dur meddal)
Ffynhonnell: Kelly Best

# Crynodeb Gweithredol



# Crynodeb Gweithredol

"Yr her i sefydliadau ac arweinwyr Cymru, y rhai sydd ag adnoddau a dylanwad, yw rhannu adnoddau a newid yr hyn y maent yn ei wneud er mwyn hwyluso a chefnogi gweithredu ar lefel leol. Rydym yn deall faint o her yw hyn i'r meddylfryd sydd ohoni. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn ei fod yn gyfle na ellir ei golli os ydym am gael cymunedau mwy cyfartal, bywiog ac iach."

**Y Farwnes Glenys Thornton, Prif Weithredwr, Sefydliad Young, 2016**

Yn 1969 lansiodd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) raglen Celf a Chymdeithas, sef rhaglen thematig o arddangosfeydd a oedd yn archwilio pynciau cyfoes – Rhyfel (1969), Gwaith (1970), Addoliad (1971) a Rhyw (1973) – trwy arddangosfeydd celf rhyngddisgyblaethol. A hithau wedi para saith mlynedd, roedd y rhaglen wedi dileu ac ehangu ffiniau artistig a chymdeithasol, wedi ymgorffori diwylliant mewn trafodaethau cyhoeddus, wedi herio'r sefyllfa oedd ohoni ynghylch sut a lle y dylid creu a gweld celf, ac wedi bod yn fwy na bodlon derbyn y risg o fod yn bwnc llosg, o gael ei beirniadu a hyd yn oed bod methiant yn elfen o'i huchelgais. Yn anad dim, roedd cwmpas y rhaglen wedi'i sbarduno gan y gred y gallai Cymru ddod yn wir gartref hanfodol a pherthnasol i gelf gyfoes, gan gael model diwylliant wedi'i ddiffinio gan gynwysoldeb yn lle'r model mwyfwy darfodedig, aristocrataidd, elitaidd.[1]

1 Ken Baynes, 'The Art and Society Project of the Welsh Arts Council', Leonardo, Cyfrol 6, (Pergamon Press, 1973) 97-102; Huw David Jones, 'Redefining Art and Culture: The Welsh Arts Council's "Art and Society" Exhibition Series 1969–76', Visual Culture in Britain, Cyfrol 15, 2014, Rhifyn 1, 28-49

Bron i hanner can mlynedd yn ddiweddarach, mae gan y Gymru sydd ohoni rwydwaith gweithgar o sefydliadau, orielau a lleoliadau amlbwrpas i gelf weledol yn ogystal ag ymarfer celf gyfoes ffyniannus sydd wedi'i gryfhau drwy ei gynrychiolaeth yn Cymru yn Fenis. Sefydlwyd Gwobr Artes Mundi, sef arddangosfa ryngwladol eilflwydd yng Nghaerdydd, yn 2002 gan yr artist Cymreig William Wilkins gyda chymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac mae llwyddiant y wobr i'w weld yn yr 800 a mwy o geisiadau a ddaeth i law yn 2016 gan artistiaid o fri o 90 gwlad. Ceir casgliadau o gelf gyfoes a modern sy'n cyson dyfu – ac yn cynnwys paentiadau, lluniau, cerfluniau, ffotograffiaeth, crefftau, gosodweithiau a gwaith cyfryngau cymysg – yn Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ymhlith sefydliadau eraill.

Eto, os llwyddwyd i wireddu llawer o ysbryd rhaglen 1969 Cyngor y Celfyddydau, mae yna un diffyg amlwg. Bron i hanner can mlynedd ers y rhaglen arloesol honno, nid oes yn dal blatfform pwrpasol, poblogaidd, cenedlaethol ar gyfer celf gyfoes a modern yng Nghymru.

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru i bennu'r potensial ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru. Mae'r astudiaeth yn seiliedig ar ymgynghori helaeth, ac ar ôl dadansoddi opsiynau, mae'n gwneud argymhellion uchelgeisiol ynghylch datblygu celf gyfoes yng Nghymru gyda sefydliad cenedlaethol yn greiddiol iddo.

Sail y dyhead sy'n codi'i ben yn rheolaidd i gael Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yw'r ymdeimlad, er bod pocedi o ragoriaeth, nad oes gan Gymru ganolbwynt i artistiaid gweledol cyfoes a chynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Teimla llawer y gallai sefydliad newydd gynrychioli'r wlad ar y llwyfan byd-eang. Fodd bynnag, mae ymdeimlad nad adeilad *eiconig* safonol sy'n aml yn cael ei barasiwtio i mewn i ddinas yw'r unig ateb, neu yn wir yr ateb gorau i Gymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sialensiau creu sefydliad o'r fath: daearyddiaeth y genedl a dosbarthiad ei phoblogaeth (gogledd a de, trefol a gwledig), yr amrywiaeth iaith a diwylliant, yn ogystal â'r rheidrwydd i beidio â thynnu buddsoddiad cyfalaf a refeniw oddi ar y sefydliadau a'r rhaglenni diwylliannol sy'n bodoli eisoes ac sy'n llwyddiannus. Dadleua'r adroddiad y gellir ystyried yr heriau hyn fel asedau i adeiladu arnynt wrth archwilio'r model ar gyfer oriel genedlaethol newydd.

Os llwyddir i gael hyn, ynghyd â gweledigaeth sy'n codi uwchlaw trafodaethau am werth cynhenid a chyfryngol y celfyddydau, gallai'r canlyniad fod yn Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol sy'n wirioneddol o Gymru ac i Gymru. Byddai ei hegwyddorion yn golygu creu rhwydweithiau cynaliadwy a gwydn ar bob lefel yn ecoleg y celfyddydau. Byddai'n anelu at wneud celf gyfoes Gymreig yn eiconig, ynghyd â'r tirluniau, y bobl a'r diwylliant sy'n ei hysbrydoli. Mae'n gofyn am fuddsoddiad cychwynnol gan y sector cyhoeddus, ond mae ganddo'r potensial i greu modelau busnes newydd a fydd yn helpu i gynyddu'r holl adnoddau sydd ar gael.

Yn ogystal, byddai oriel newydd yn meithrin artistiaid trwy gydol eu gyrfaoedd a chyfranogwyr a chynulleidfaoedd hwythau trwy gydol eu hoes. Y nod fyddai ymgorffori'r celfyddydau mewn addysg, iechyd, y diwydiannau creadigol ac economi twristiaeth, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan ysbrydoledig ym mhob cam o fywydau pobl. Drwy adeiladu ar asedau sy'n bodoli eisoes, a neidio dros fodelau cyfredol yn ymwneud ag adeiladu orielau, gallai Cymru ddod yn arweinydd byd-eang mewn dinasyddiaeth greadigol, gan fynd i'r afael â'i huchelgeisiau diwylliannol pennaf yn ogystal â'i hymrwymiad i gymdeithas fwy cynaliadwy, cyfiawn a chynhwysol.

**Cefndir**

Yn 2008, cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru ynghyd ag astudiaeth opsiynau ar gyfer Canolfan Genedlaethol ar gyfer Celf Gyfoes, ac eto ni fwriwyd ymlaen â'r un o argymhellion yn yr Astudiaethau hyn, sef lleoli Oriel Gelf Genedlaethol mewn safle wedi'i ailwampio ym Mharc Cathays; ac i ddod â Chanolfan Genedlaethol ar gyfer Celf Gyfoes i leoliad *blwch gwyn* yng Nglan yr Afon Casnewydd neu Abertawe.[2]

O fewn y cyd-destun hwn yr ymrwymodd Llywodraeth Cymru i Astudiaeth Ddichonoldeb yn nyraniad cyllideb 2017-18. Mae hyn yn anfon neges bwysig y dylid datblygu ac archwilio'r syniad o Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, a gallai fod mewn sefyllfa dda i fod yn rhan o helpu i greu 'Y Gymru a Garem' (Dyfodol Cymru 2050).

Mae'r Astudiaeth Ddichonoldeb Ragarweiniol hon a'r Gwerthusiad Opsiynau hwn felly wedi'u cynllunio i archwilio cwestiynau mentrus ynghylch natur, anghenion a chyfleoedd a ddaw yn sgil y celfyddydau gweledol a chymhwysol cyfoes, ar yr un pryd â gwreiddio unrhyw atebion yn realiti bywydau'r cyhoedd, yr artistiaid a'r sefydliadau diwylliannol yng Nghymru. *Beth mae'r genedl ei angen gan gelf ac artistiaid cyfoes? Pa newid sydd ei angen a pha newid rydym ei eisiau yng Nghymru? Beth fydd yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau, i artistiaid ac i'r seilwaith celfyddydau gweledol presennol? Beth yw'r model newydd, pwrpasol neu ddelfrydol i Gymru? Sut y bydd yn cryfhau neu'n ysgogi'r hyn sydd gennym eisoes? A allwn ni gyflawni hynny trwy endid cenedlaethol i gelf gyfoes?*

2 ABL Consulting, The Future Display of Visual Art in Wales (2008)

**Canfyddiadau**

Yn sgil ymgynghoriadau ledled y sector, ymweliadau safle, ymchwil a gweithdai opsiynau a gweledigaeth wedi'u cynnal gan Event, dyma'r hyn a nodwyd:

**Celf ac Ymarfer Celfyddydol yng Nghymru**

Mae celf gyfoes yng Nghymru yn adnabyddus am ei ffocws ar dirwedd ac iaith Cymru, ac er bod arferion celf weledol gyfoes yng Nghymru yn amrywiol, mae llawer o artistiaid ar draws nifer o gyfryngau yn parhau i gael eu hysbrydoli'n ddwys gan eu cysylltiad â'u hamgylchedd ffisegol. Mae'r artistiaid a'r curaduron sydd yn sefydliadau celfyddydau gweledol Cymru, ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a hyperleol, yn torri cwys newydd gydag arferion arloesol o ran cydweithredu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd, gan gynnwys ailystyried awdurdod curaduron a rhaglenni cyd-greadigol.

Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, er enghraifft, eisoes wedi datblygu model arloesol a gydnabyddir yn rhyngwladol o ddemocratiaeth ddiwylliannol, ac yn fodel a ddisgrifir gan Sefydliad Paul Hamlyn fel un sy'n gosod esiampl i'r sector amgueddfeydd ac orielau yn y Deyrnas Unedig. Mae dros 200 o fudiadau cymunedol a thrydydd sector ledled Cymru – gan gynnwys sefydliadau i'r digartref megis y Wallich a Llamau ac elusennau megis Drugaid Cymru – wedi gweithio gyda'r amgueddfa i greu cyfleoedd gwirfoddoli, dylunio adeiladau newydd, creu orielau a gweithio ar y safle gyda staff yr amgueddfa. Mae artistiaid a dylunwyr cyfoes wedi cyfrannu'n sylweddol at y prosiect gwerth £30 miliwn, gan gynnwys datblygu ardal chwarae newydd i blant.

Er bod yr Astudiaeth hon yn canolbwyntio ar

y celfyddydau gweledol a chymhwysol, mae ymagwedd arloesol National Theatre Wales i ymgorffori a chyd-greu theatr â chymunedau yn feincnod o'r radd flaenaf sydd wedi'i leoli yn y wlad hon. A hithau'n dathlu ei degfed pen-blwydd y flwyddyn nesaf, mae model, dysgu, gwerthoedd a llwyddiannau National Theatre Wales yn allweddol i ddatgloi ffordd newydd ymlaen ar gyfer celf weledol yng Nghymru. Yn hollbwysig, mae'r sefydliad yn coleddu nifer o gyfryngau artistig o dan y categori theatr; mae'n trin y genedl fel ei lwyfan; ac mae wedi ymrwymo i berchnogaeth ddatganoledig ar yr endid cenedlaethol.

### Cyflenwi

### Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol yng Nghymru

Mae ecoleg y celfyddydau gweledol a chymhwysol Gymreig yn amrywiol ac yn esblygu, ac mae'n cynnwys sefydliadau celfyddydol sydd wedi'u hariannu'n gyhoeddus, rhai masnachol a rhai ar lawr gwlad. Mae'r sector yng Nghymru yn dynn ei wead a daearyddiaeth y wlad yn hanesyddol wedi cyfyngu arno, gyda dau draean y boblogaeth yn byw yn y De. Mae'r sector wedi'i nodweddu'n rhannol gan gronfa fach o staff curadurol brwdfrydig, broffesiynol, ond hefyd gan gyfleoedd cyllido cyfyngedig.

Er nad oes Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol bwrpasol yng Nghymru, mae'n hollbwysig bod unrhyw endid newydd yn ategu ac yn adeiladu ar asedau ac adnoddau presennol y wlad yn hytrach nag yn ansefydlogi neu'n anwybyddu'r hyn sy'n bodoli eisoes.

### Rhwydweithiau a Phartneriaethau

Ar hyn o bryd mae'r partneriaethau celf weledol yng Nghymru ar ffurf cyfnewid gwybodaeth a sgiliau, rhannu casgliadau a rhywfaint o gydguradu. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth eang gan y sector y gallai'r partneriaethau hyn fod yn fwy strategol, yn fwy rhagweithiol, a bod posibilrwydd eu gwneud yn fwy o faint ac yn fwy dylanwadol. Gallent gynnwys ymchwil ar y cyd, cynnig eiriolaeth, cydgyflwyno ceisiadau am gyllid a chyfnewid arddangosfeydd.

### Proffil Cenedlaethol a Rhyngwladol

Mae gan y sector celf weledol uchelgais i adeiladu ei broffil cenedlaethol a rhyngwladol, a sicrhau bod deialog iach yn parhau ar draws ffiniau'r genedl. Mae llwyfannau uchel eu parch fel Cymru yn Fenis, Artes Mundi a sefydliadau sy'n cynnwys y British Council yn mynd ati'n weithredol i froceru deialog a phartneriaethau rhyngwladol. Eto, mae cyfyngiadau yn amharu ar yr uchelgais hon, gan gynnwys diffyg adnoddau a chapasiti staff; lle annigonol i arddangosfeydd sy'n atal sefydliadau rhag bod yn gyfranogwyr gweithredol ar y gylchdaith ryngwladol, o ran mewnforio ac allforio arddangosfeydd cyfoes; diffyg eiriolaeth ledled y sector neu gysylltiadau strategol â'r wasg genedlaethol; a deunyddiau twristiaeth nad ydynt yn amlwg yn gosod y celfyddydau yn ysgogwr allweddol i Gymru.

### Addysg Greadigol

Gan fod rhaglenni addysg greadigol arloesol yn cael eu cyflwyno ledled Cymru mewn ysgolion ac orielau, mae'r ymrwymiad *o'r brig i lawr* i bynciau STEAM ynghyd ag arbenigedd lleol *o'r llawr i fyny* yn gosod Cymru ar flaen y gad o ran cynnig addysg holistig i blant a phobl ifanc. Drwy ysgogi a meithrin creadigrwydd yn y genhedlaeth hon nawr, mae Cymru'n paratoi'r ffordd ar gyfer dinasyddion arloesol, mynegiannol, gwydn sy'n hanfodol i iechyd a bywiogrwydd cymunedau ac i economi gynhwysol a chreadigol.[3]

### Cylch Proffesiynol Artistiaid

Ysgolion celf a phrifysgolion Cymru yw'r lle amlwg nesaf ar gyfer meithrin talent greadigol. Eto, er eu bod yn arddangos pocedi o ragoriaeth, nid ydynt ar hyn o bryd yn y 50 o ysgolion celf uchaf yn fyd-eang, nac yn y deg uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae artistiaid sy'n graddio i'r byd celf yn cael eu cefnogi'n dda gan seilwaith presennol y celfyddydau gweledol, ond mae llawer o artistiaid datblygol wedyn yn gadael Cymru erbyn canol eu gyrfa ac ychydig iawn o artistiaid sefydledig sy'n dychwelyd. Mae iechyd ecosystem gyffredinol y celfyddydau gweledol yn gysylltiedig â denu orielau masnachol a thalent ddatblygol o'r tu allan i Gymru. Dylai hyn gyd-fynd â chefnogi amgylchedd sy'n galluogi cadw artistiaid sydd yng nghanol eu gyrfa ac artistiaid sefydledig.

### Y Galw

### Cynulleidfaoedd

Dengys ymchwil a gynhaliwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru fod nifer uchel (1,103,436) wedi mynychu sesiynau celfyddydol cyfranogol yn ystod 2015-16 o'i gymharu â ffurfiau celf eraill ac mai pobl ifanc (16-34 oed) sy'n fwyaf tebygol o ymweld ag oriel gelf. Fodd bynnag, ceir cynulleidfaoedd posibl i'r celfyddydau gweledol na fanteiswyd arnynt eto, gan mai dim ond 18% o'r boblogaeth oedd wedi ymweld ag oriel gelf yn y dadansoddiad diweddaraf o ddata cod post.[4] Mae yna ddiffyg dadansoddi ar batrymau traws-leoliad yn ymddygiad cynulleidfaoedd presennol, proffil cynulleidfaoedd na fanteiswyd arnynt, ynghyd â diffyg dadansoddi y cymhellion, ymddygiad a rhwystrau at gelf gyfoes a chael profiad ohoni. Yn arwyddocaol, nid yw ymwelwyr diwylliannol yn cael eu targedu ar hyn o bryd yng ngwasanaeth twristiaeth Cymru, ac mae asedau diwylliannol presennol Cymru yn amlwg yn absennol o ymgyrch twristiaeth newydd 'Ffordd Cymru' Croeso Cymru.

3 Mae twf cynhwysol yn golygu twf economaidd sy'n galluogi cynifer o bobl â phosibl i gyfrannu ac elwa o dwf. Mae'r manteision hyn yn gymdeithasol (o fudd i bobl ar draws sbectrwm y farchnad lafur, gan gynnwys grwpiau sy'n wynebu rhwystrau arbennig o uchel i gyflogaeth o ansawdd uchel) ac yn fanteision sy'n benodol i le (mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyfleoedd rhwng gwahanol rannau o'r wlad ac o fewn daearyddiaethau economaidd). Y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Annog Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnach. https://www.thersa.org/

4 The Audience Agency

### Cyd-destunau allweddol

### Yr Achos Economaidd dros Fuddsoddi mewn Diwylliant a Chreadigrwydd

Mae'r achos economaidd dros fuddsoddi mewn diwylliant a chreadigrwydd yn bwerus ac wedi'i gydnabod yn fyd-eang. Mae sector y celfyddydau gweledol wedi'i ymgorffori yn y diwydiannau creadigol ehangach, sy'n cynhyrchu £8.254m yng Nghymru bob blwyddyn[5] (fel mesur o werth y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir) ac yn tyfu ar gyfradd o 11%, ddwywaith mor gyflym â sectorau diwydiant eraill yn y Deyrnas Unedig. Allforiodd diwydiannau creadigol y DU werth £14.7bn o nwyddau yn 2015, ac roedd eu his-sector allforio uchaf yn cynnwys y celfyddydau gweledol.[6]

Mae swyddi'r sector yn rhagori ar dwf cyflogaeth mewn sectorau eraill, ac mae swyddi creadigol yn rhai sgiliau uchel sy'n gwrthsefyll awtomeiddio.[7] Fel y pwysleisiodd adolygiad annibynnol Peter Bazalgette ar y diwydiannau creadigol yn 2017,

*"Mae sgiliau'r sector hwn... yn rhai y mae llawer o arbenigwyr o'r farn eu bod o bwys cynyddol: sgiliau technegol a chreadigol wedi'u cyfuno; gweithio rhyngddisgyblaethol cydweithredol; entrepreneuriaeth; a menter."*[8]

Caiff clystyrau'r diwydiant creadigol eu datblygu fel strategaeth gadarn ar gyfer cryfhau'r sector ac annog twf y tu allan i Lundain. Mae Rhaglen Clwstwr Diwydiannau Creadigol wrthi'n buddsoddi £80m mewn wyth partneriaeth datblygu ac ymchwil greadigol ledled Prydain ac mae Clwstwr Creadigol / Prifysgol Caerdydd yn un o 22 sydd ar y rhestr fer yn Chwefror 2018.

### Arweinyddiaeth ac Eiriolaeth

Mae arweinwyr Cymru a pholisïau cyfredol y llywodraeth yn cydnabod y cyfraniad economaidd hwn, ynghyd â manteision meithrin a chadw gweithlu creadigol o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac enw da. Fodd bynnag, nid yw cydnabyddiaeth wleidyddol ynghylch pŵer y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol wedi arwain at fuddsoddi cyhoeddus ar raddfa gymharol yn sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru. Nid yw diffyg eiriolaeth gydlynol gydnabyddedig gan artistiaid ac arweinwyr y celfyddydau gweledol wedi helpu'r achos i gael cefnogaeth.

### Buddsoddiad Cyfalaf

Buddsoddiad cyfalaf Cymru yn y celfyddydau gweledol dros y deng mlynedd diwethaf oedd £35.3m (manylir am hyn yn Ffigwr 16, tudalen 68). Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dosbarthu £19.88m o grantiau cyfalaf wedi'u hariannu gan y Loteri ers 2008; mae 9% wedi bod ar gyfer prosiectau'r celfyddydau gweledol. Er bod y ffigyrau hyn yn nodedig o gofio poblogaeth 3.1m Cymru, maent gryn dipyn yn llai o'i gymharu â gwledydd eraill. Yn Ebrill 2018, er enghraifft, ymrwymodd Iwerddon yn gyhoeddus i fuddsoddi €1.2bn mewn diwylliant, treftadaeth ac iaith yn ystod y deng mlynedd nesaf, gyda €725m yn benodol i sefydliadau diwylliannol, gan sicrhau cydbwysedd rhanbarthol, digido'r casgliadau cenedlaethol, cynhyrchu'r cyfryngau a Galway yn Ddinas Diwylliant Ewrop. Mae'r cyfleusterau celfyddydol annibynnol y cyhoeddwyd cyllid iddynt neu sydd wedi'u cwblhau yn cynnwys V&A Dundee (prosiect £80m wedi'i gynllunio gan Kengo Kuma),[9] Sefydliad Courtauld (prosiect £50m wedi'i gynllunio gan Witherford Watson Mann) a The Factory ym Manceinion (£110m wedi'i gynllunio gan OMA/Rem Koolhaas).[10]

### Model Busnes

Mae cyni (*austerity*), ac yn fwy diweddar y bleidlais i adael yr UE, wedi gwaethygu heriau ariannol y sector cyhoeddus[11] ac mae'r model busnes y tu ôl i ecosystem y celfyddydau gweledol yng Nghymru yn fregus, yn enwedig oherwydd methiant ac/neu analluedd i arallgyfeirio. Datgelodd ymgynghoriadau bod pryder ar draws y sector y byddai unrhyw newydd-ddyfodiad cenedlaethol, sy'n gofyn am gymorth cyfalaf mawr a chymorth refeniw parhaus, yn gallu ansefydlogi ac, ar y gwaethaf, ddinistrio'r ecoleg bresennol sy'n cael ei chyllido'n gyhoeddus. Mae'r economi tri-phen ansefydlog presennol (sef ffynonellau incwm wedi'i gyfrannu, incwm wedi'i ennill a chyllid cyhoeddus), ynghyd â chydgystadlu (*co-opetiton* h.y. cydweithredwyr sydd ar adegau yn gorfod cystadlu yn erbyn ei gilydd, ac i'r gwrthwyneb) rhwng sefydliadau celfyddydol Cymru, a chylchoedd cynllunio a chyllido nad ydynt yn alinio â'i gilydd, yn golygu bod angen archwilio ffynonellau incwm eraill y tu hwnt i'r categorïau traddodiadol. Gallai'r rhain gynnwys adeiladu gwaddol, ysgogi cyllido torfol, dyngarwch menter, cyfalaf tymor estynedig, cytundebau benthyciad, ymchwil a datblygu, ac/neu becynnau nawdd corfforaethol integredig, pwrpasol. Yn wir, mae cyfle i endid celf gyfoes cenedlaethol fod yn arweinydd wrth helpu'r sector i ail-lunio ei fodel busnes, er enghraifft, trwy gynnig mynediad uniongyrchol i staff arbenigol sy'n gweithio ar lefel genedlaethol.

5 Amcangyfrifon gwerth ychwanegol gros (GVA) rhanbarthol cyfyngedig (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 22 Mawrth 2017). GVA y Diwydiannau Creadigol yn Lloegr oedd £82,158m, yng Nghymru roedd yn £825m, yn yr Alban roedd yn £3,397m ac yng Ngogledd Iwerddon roedd yn £970m.

6 Yn ogystal â cherddoriaeth, a'r celfyddydau perfformio, crefftau, a chyhoeddi, Ffocws Ystadegau ar Ddiwydiannau Creadigol DCMS 2016, Tabl 2 (Yr Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2016)

7 Hasan Bakhshi, Carl Benedikt Frey, Michael Osborne, Creativity vs. Robots: The Creative Economy and the Future of Employment (Nesta, Hydref 2015)

8 Syr Peter Bazalgette, Independent Review of the Creative Industries (Medi 2017)

9 £63.8m o gyllid gan lywodraeth yr Alban gan gynnwys £22m o Gronfa Model Cyflymydd Twf ar gyfer prosiect ehangach £1bn i adnewyddu'r glannau o Gronfa Dreftadaeth y Loteri; £6.6m drwy godi arian preifat; dyraniad £6.5m cyllideb cyfalaf y Cyngor. 'V&A at Dundee price tag almost doubles to £80m' (BBC News, 16 Ionawr 2018)

10 Ymrwymodd llywodraeth y Deyrnas Unedig £78m yn 2014; a Chyngor Dinas Manceinion yn cyfrannu'r gweddill. Bydd y prosiect hefyd yn elwa o £9m y flwyddyn o gyllid y llywodraeth o 2018-19

11 Dr Simon Thurley CBE, Adolygiad o Amgueddfa Cymru - National Museum Wales, Crynodeb Gweithredol (Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017)

# Crynodeb Gweithredol

**Yr Achos Cymdeithasol dros Fuddsoddi**
At hynny mae twf Buddsoddi mewn Effaith, sy'n cyfuno elw ariannol â'r bwriad i greu newid cymdeithasol neu amgylcheddol cadarnhaol, ar hyn o bryd yn cyfrif am o leiaf £150bn o fuddsoddiadau cyfalaf ymrwymedig mewn buddsoddiadau effaith yn y Deyrnas Unedig yn unig.[12]
Tanlinellir hyn gan fodolaeth ecosystem amrywiol o gyfryngwyr sy'n arbenigo ar Buddsoddiad mewn Effaith a sefydlu'r Grŵp Llywio Byd-eang yn 2015 i olynu'r Tasglu Buddsoddi mewn Effaith Gymdeithasol, a sefydlwyd gan y G8 ddwy flynedd cyn hynny.[13]

Mae Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi cyfalaf cudd sylweddol o fuddsoddwyr manwerthu a sefydliadol sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi twf yn y dyfodol ac mae Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Deyrnas Unedig wedi meintioli hyn, gan awgrymu dros y degawd nesaf y gellid sianelu tua £300bn i Fuddsoddiadau mewn Effaith gan helpu i fynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol hollbwysig.[14]

Nid yw sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru hyd yn hyn wedi gosod ei hun yn strategol yn y gofod Buddsoddi mewn Effaith, er ei fod yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol gwerthfawr.

**Uchelgais y Sector**
Yn olaf, mae atsain ymdrechion degawdau i godi oriel genedlaethol i'r celfyddydau gweledol yn parhau yn y drafodaeth. Mae llawer yn cydnabod y byddai risg uchel i unrhyw oriel genedlaethol newydd ac roedd gan y mwyafrif gwestiynau ynghylch pwy fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch dilyn yr argymhellion hyn ai peidio, a sut. Er gwaethaf yr amheuon, fodd bynnag, mae dyhead a brwdfrydedd pwerus ac eang iawn ar gyfer model newydd i arddangos celfyddyd gyfoes yng Nghymru. Fel y dywedodd un Athro,

*"Mae'n rhaid i mi ddweud – mae'r sgwrs yn mynd rownd mewn cylchoedd... y syniad hwn o oriel wasgaredig neu adeilad hyfryd yn un o'r prif ddinasoedd. Allwn ni wneud penderfyniad bellach?"*

**Opsiynau**
Mae orielau celf cyhoeddus yr 21ain ganrif wedi cynnwys rhychwant eang iawn o fodelau ffisegol a strategol newydd sy'n gwireddu eu huchelgeisiau o ran rhaglenni, curadu ac yn gymdeithasol, ac, yn fwy difrifol, taenlen gytbwys. Efallai mai'r Guggenheim yng ngwlad y Basg arloesodd y dull uchaf ei broffil yn y 1990au cynnar, ac yn 2008 cyhoeddwyd Guggenheim Abu Dhabi yn Ynys Saadiyat yn yr Emiradau Arabaidd Unedig ac mae wrthi'n cael ei ddatblygu heddiw. Bu ymdrechion amlwg (ond nid yn llwyddiannus bob tro) i ailadrodd y cynllun hwn ledled y byd – São Paulo, Vilnius, Tokyo, Hong Kong, Soho (1992-2001), Berlin (1997-2012), Las Vegas (2001- 2008), Salzburg (Awstria), Guadalajara (Mecsico), a Helsinki (2012; 2016). Dechreuodd Cymru ar drafodaethau cynnar iawn gyda Sefydliad Guggenheim ar adeg cystadleuaeth bensaernïol ryngwladol Helsinki.[15]

Parhawyd i ddilyn trywydd y model masnachfraint hwn ynghyd â'r Model Partneriaeth Dramor (er enghraifft, rhoddodd yr Amgueddfa Brydeinig gefnogaeth strategol a rhaglennu i Amgueddfa Genedlaethol Sheikh Zayed yn Abu Dhabi) ac fe'i gwrthbwysir gan ddulliau llai dwys, ond yr un mor strategol ar wasgar, o rannu ac arddangos casgliadau cenedlaethol o gelf gyfoes a modern (er enghraifft, rhwydwaith Plus Tate o 35 sefydliad celf weledol yn y Deyrnas Unedig, ac ar wahân i hynny, teulu o bedwar celf weledol Tate – Tate Prydain, Tate Modern, Tate Lerpwl a Tate St Ives). Mewn mannau eraill, estynnwyd olion traed ffisegol i ddiwallu anghenion newidiol o du artistiaid, curaduron a'r cyhoedd, gydag estyniadau ac allbyst/canghennau yn y dref wreiddiol a thu hwnt yn agor eu drysau mawreddog (V&A Dwyreiniol a V&A Dundee; Oriel Genedlaethol Iwerddon, IMMA Dulyn; Louvre Lens). Mae modelau cydleoli, sef endidau celfyddydau gweledol sefydledig yn cael statws cyfryngwr a deorfa ar gyfer y sector creadigol, hefyd wedi bod yn gwneud eu marc (a chryfhau eu rhwydweithiau) y tu allan i sefydliadau cenedlaethol mewn enghreifftiau fel Strelka (Mosgo), Somerset House a Snape Maltings, i enwi ond rhai.

At ddibenion yr astudiaeth hon, ac yng nghyd-destun y cyfleoedd sy'n benodol i Gymru, datblygwyd deuddeg opsiwn ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, gan eu hastudio a'u dylunio'n helaeth gyda'r Pwyllgor Llywio a'r gweithgorau. Cafodd y rhain eu fetio yn ôl meini prawf a phwysoli manwl, a dyma'r saith categori yn fras:

1. Asesu sut mae'r opsiwn yn cyd-fynd â gweledigaeth a gwerthoedd rhanddeiliaid allweddol;
2. Mynediad i gynulleidfaoedd, yn arbennig i gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
3. Hyfywedd ariannol;
4. Hyfywedd marchnad;
5. Amserlen;
6. Cynaliadwyedd amgylcheddol;
7. Risgiau sy'n parhau ar ôl lliniaru.

Cytunwyd y byddai'n rhy gynnar dadansoddi union leoliadau, gan fod angen sicrhau bod y

12 Growing a Culture of Social Impact Investing in the UK, Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Tachwedd 2017, Trysorlys EM, Tracey Crouch AS, a Stephen Barclay AS
13 Ibid
14 UK NAB, The Rise of Impact: Five steps towards an inclusive and sustainable economy, Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Deyrnas Unedig ar Fuddsoddi mewn Effaith (Hydref 2017)

15 Roedd Sefydliad Guggenheim yn sydyn i roi diwedd ar unrhyw sôn y byddai gan Guggenheim Cymru unrhyw dynfa. Adam Price, Why a Welsh Guggenheim makes sense (The Guardian, 10 Mehefin 2013), https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/22622416

cysyniad a'r cam datblygu model yn gadarn. Fel y dywedodd un artist,

*"Dim ots gen i ble mae o, cyn belled â'i fod o'n bodoli."*

Mae'r deuddeg opsiwn yn gymysgedd o opsiynau sy'n seiliedig ar adeilad a rhai heb adeilad, un safle a safleoedd niferus, rhai sy'n bodoli eisoes a rhai newydd, ac/neu gytundeb gwasanaeth neu bartneriaeth. Dyma'r modelau: y Bartneriaeth Rhannu Celf Gyfoes; Breichled Swyn; Teulu'r Celfyddydau Gweledol; Rhwydwaith Clwb Aelodau; Canfas Cenedlaethol; Syrcas; Estyniad; Allbost yn y Brif Ddinas; Allbost y tu allan i'r Brif Ddinas; Cwch Gwenyn/Cydleoli; Uno; a Gwneud Dim Byd – gyda phwyslais ar ddeall pa effeithiau positif a negyddol allai godi o roi'r gorau'n llwyr i'r syniad nawr.

Er bod y rhestr hir o ddeuddeg opsiwn yn un drylwyr, nid oedd, a hynny ar ôl cryn ystyriaeth, yn y diwedd yn cynnwys y Model Masnachfraint, Model Partneriaeth Dramor neu'r Model Annibynnol (h.y. sefydliad fyddai'n sefyll ar ei ben ei hun yn annibynnol ar Amgueddfa Cymru).

O ran y ddau fodel cyntaf, edrychwyd eto ar yr uchelgais – sef Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol sy'n wirioneddol gan ac ar gyfer pobl Cymru – gan gydnabod bod gan Gymru heddiw yr asedau a'r ymagwedd i sefydlu un ei hun, os yw'n dewis hynny.

Rhoddwyd y Model Annibynnol i'r naill ochr gan fod ein barn, megis barn y Pwyllgor Llywio, yn seiliedig ar gysylltiad llywodraethu ag Amgueddfa Cymru a'r ystyriaeth y byddai safle cenedlaethol annibynnol newydd yn cystadlu â theulu Amgueddfa Cymru, yn hytrach na chael y cyfle i fanteisio ar gasgliadau, arbenigedd, adnoddau a rhwydwaith helaeth Amgueddfa Cymru. Nid yw hyn i ddweud na all yr endid newydd gael hunaniaeth adfywiol a phwerus ynddo'i hun; erys hyn yn uchelgais craidd.

Aeth Event ati i gynnal adolygiad annibynnol o'r opsiynau, ac yn seiliedig ar y Gwerthusiad Opsiynau hwn, dyma gyflwyno ei argymhellion.

**Argymhellion**

*"Gall Cymru roi ei hun ar y map ac mi ddylai hefyd! Gall ddechrau o'r dechrau un yn yr 21ain ganrif a wir bod yn wirioneddol ffres."*
**Cyfarwyddwr Amgueddfa**

Yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a gynigir yw'r gyntaf o'i bath yn y byd. Mae'n arddangos amgylchedd trawiadol Cymru, yn tynnu cymunedau gwledig a threfol i mewn i sgwrs trwy gelf, ac yn dangos ymrwymiad ysgubol a pharhaol o fri rhyngwladol i feithrin ac arddangos creadigrwydd dynol.

Yn hytrach na chymeradwyo un adeilad newydd i gadw ac arddangos celf gyfoes, rydym yn argymell model cenedlaethol deinamig ar wasgar sy'n adeiladu ar 6 i 8 lleoliad celfyddydol sy'n bodoli eisoes ac sydd wrthi'n datblygu ledled Cymru, ynghyd â chanolbwynt canolog parhaol. Caiff y model ar wasgar hwn ei ragflaenu gan gyfres o *waith celf byw* cyfoes fydd newydd ei chomisiynu; fe'u gosodir yn y tirlun ymhlith cymunedau a'u datblygu ar y cyd â chynhyrchwyr creadigol, artistiaid a chymunedau ledled y wlad.

Mae'r argymhellion yn mynd at y syniad o oriel *genedlaethol* mewn modd arloesol: trwy ddatganoli cyllid, nod yr Oriel yw rhannu celfyddyd y genedl gyda phobl Cymru, hybu a chysylltu asedau ac adnoddau presennol y celfyddydau gweledol, a thyfu clystyrau creadigol ymhellach. Bydd yr Oriel yn annog artistiaid i greu mewn mannau traddodiadol ac anhraddodiadol, a defnyddio'r tirwedd ei hun fel y cyfrwng, y canfas a'r oriel.

**Argymhelliad 1:** Bydd hon yn strategaeth flaengar, esblygol a graddadwy a fydd gyda'i gilydd yn Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru. Law yn llaw â hyn dylid mynd ati'n syth i ddechrau ar gasgliad o brosiectau peilot i'w cyflawni ar yr un pryd. Caiff y rhain eu cynllunio i brofi a mireinio'r cysyniad ac i ysgogi diddordeb ac adeiladu momentwm yn ymwneud â datblygu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru.

Mae'r Oriel yn cynnwys tri cham sy'n cydgysylltu â'i gilydd:

**Cam Un: Y Canfas Cenedlaethol**

Bydd yr Oriel yn comisiynu 50 gwaith celf newydd i'w gosod ar draws pum rhanbarth Cymru, a'r rhain wedi'u datblygu gan gynulleidfaoedd, sefydliadau presennol y celfyddydau gweledol, sefydliadau cymunedol, curaduron ac artistiaid, ac wedi'u diffinio gan 6 i 8 o glystyrau daearyddol. Bydd artistiaid datblygol, canol-gyrfa, a sefydledig, o Gymru ac yn rhyngwladol, mewn partneriaeth â chymunedau a churaduron a chynhyrchwyr, yn gnewyllyn creadigol ysgogol a fydd yn gyfrifol am ystyried y ffordd orau o integreiddio tirwedd (gwledig a threfol), celf a syniadau. Mae'r dull cyd-greu yn adeiladu ar waith presennol sefydliadau diwylliannol, gan gynnwys Amgueddfa Cymru a National Theatre Wales sydd wedi bod wrthi'n weithredol yn meithrin rhwydwaith o *lysgenhadon* ledled y wlad.

Yn hytrach na *pharasiwtio* cerflun parhaol ar raddfa fawr i mewn, bydd yr Oriel yn ysbrydoli artistiaid a chymunedau i gyd-greu celfyddyd o ansawdd uchel. Comisiynir cynhyrchwyr, artistiaid a churaduron creadigol, wrth gydweithio â chymunedau, i greu gwaith celf newydd trwy archwilio sut y gall creadigrwydd, tirwedd a mannau cyhoeddus weu drwy'i gilydd. Yn y pen draw, mae Cymru yn parhau i osod ei safon uchel ei hun, a safon newydd o bosibl, ar gyfer celf gyfoes, ac yn herio sut yr ydym yn gweld, gweithio, cyfathrebu a chael profiad o'n hamgylchedd yn ogystal â chwarae ynddo. Dwy enghraifft

lwyddiannus o hyn yw lle chwarae synhwyraidd Nils Norman, *Yr Iard*, Sain Ffagan a Threbanog, a phrosiect *Llysiau'r Vetch*, Owen Griffiths yn Abertawe. Mewn mannau eraill ledled y Deyrnas Unedig, mae *The Abandon Normal Devices* (gŵyl beripatetig) a phrosiectau ar y cyd rhwng artistiaid a chymunedau *Journeys with 'The Wasteland'* ledled Margate yn ddwy enghraifft, o nifer, o'r lleoliad yn ysbrydoliaeth a'r gymuned yn ysgogwr creadigol.

**Cam Dau: Oriel ar Wasgar**

Caiff Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol hefyd ei diffinio gan gasgliad ar wasgar o 6 i 8 oriel ar draws y wlad.

Anogir partneriaid sydd â diddordeb i ymuno â cham cwmpasu ac eiriolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r Byrddau a strwythurau Llywodraethu i archwilio sut y gellid gwireddu'r model ar wasgar yn effeithiol. Dylai hunaniaeth sefydliadau unigol barhau i fod yn gryf, ond yr uchelgais fydd creu cyfanrwydd cenedlaethol, datganoledig, mwy cyflawn. Yn y pen draw, awgrymwn ddewis y 6 i 8 partner trwy broses ymgeisio agored, gan annog timau traws-sector a rhyngddisgyblaethol i gyflwyno'r achos dros eu lleoliad a'u cymuned.

Ar yr un pryd â chadw eu hunaniaeth graidd, eu cylch gwaith a dull rhaglennu, a'u patrwm ffisegol, bydd y sefydliadau sy'n dod yn rhan o'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn cael eu brandio fel y cyfryw. Dynodir y gwahaniaeth ymhellach trwy adeiladu estyniadau lled-barhaol yn benodol i'r safle, ynghyd ag adnewyddu orielau neu adeiladu strwythur cyfagos. Byddant ar y cyd yn arddangos casgliad cynyddol y genedl o gelf gyfoes ac yn meddu ar y capasiti ffisegol a'r adnoddau staffio ac ariannol ychwanegol i arddangos arddangosfeydd teithiol rhyngwladol ar raddfa fawr.

**Cam Tri: Y Pencadlys**

Y cam terfynol cydgysylltiedig fydd adeiladu pencadlys i'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, sef man parhaol, cynaliadwy i ddwyn pawb ynghyd ac yn llwyfan hydraidd a bywiog ar gyfer celf gyfoes. Bydd y canolbwynt hwn yn galluogi dinasyddion Cymru ac ymwelwyr i ymgolli mewn celf newydd, o safon fyd-eang, wedi'i greu gan artistiaid byw yng Nghymru a thramor trwy fynd ati'n weithredol i froceru cysylltiadau â rhwydwaith o grewyr byd-eang a'r safleoedd partner ledled Cymru.

Awgryma costau rhagarweiniol y bydd y gwariant cyfalaf i gyflawni pob un o'r tri cham rhwng £50m a £180m. At ddibenion cyd-destun, mae'r amcangyfrifon hyn – sy'n darparu arlwy celf gyfoes ledled y wlad – yn yr un amrediad costau â sefydliadau diwylliannol annibynnol sydd wedi'u hadeiladu neu sydd wrthi'n cael eu datblygu, megis Hepworth (£35m), estyniad Exhibition Road V&A (£48m), yr Amgueddfa Ddylunio (£83m), Canolfan Mileniwm Cymru (£106m), Amgueddfa Etihad (£120m) ac estyniad Tate Modern (£260m). Yn ogystal, gellir cyflwyno'r costau cyfalaf hyn yn raddol dros gyfnodau hirach.

Er mwyn gweithredu Cam Un a Cham Dau, rydym yn argymell model rhannu adnoddau cenedlaethol sydd â chanolbwynt canolog. Nid oes angen lleoli'r canolbwynt yn ffisegol mewn unrhyw oriel benodol a byddai wedi'i gynllunio i sicrhau bod lleoliadau partner a chymunedau yn elwa o'r cynnydd mewn capasiti, arbenigedd a deialog a chynllunio cenedlaethol wedi'u hwyluso.

Diffinnir y canolbwynt hwn gan dîm arwain cydweithredol a fyddai'n symud yn rheolaidd rhwng lleoliadau a safleoedd. Byddai'r tîm yn gyfrifol am gyd-ddatblygu a safleoli'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol lawn, wedi'i diffinio fel y Canfas Cenedlaethol, yr Oriel ar Wasgar a'r Pencadlys. Byddai'r tîm arwain yn adeiladu'r achos dros gefnogaeth, cydgynllunio arddangosfeydd, datblygu casgliadau a chadwraeth, datblygu rhaglenni addysgol ac iechyd, codi arian, marchnata, ymgysylltu â rhanddeiliaid, eiriolaeth, proffilio cenedlaethol a rhyngwladol, ac asesu effaith.

Y costau gweithredu blynyddol dangosol i'r sefydliad canolog gyd-ddatblygu a chyflawni Camau Un a Dau, a sefydlu rhaglen Cymrodoriaeth a argymhellir isod, yw oddeutu £2.7 miliwn y flwyddyn ar y lleiaf.

Gallai gwariant gweithredu blynyddol pencadlys cenedlaethol ffisegol (Cam Tri) amrywio o unrhyw beth o £2.5m ac uwch (e.e. £15m), yn dibynnu ar raddfa'r gweithredu, y safle ffisegol, a sut y cynllunnir y tîm a'r rhaglen i gydgysylltu â'r Canfas Cenedlaethol a'r Oriel ar Wasgar. Mae cam nesaf yr Astudiaeth Ddichonoldeb yn gofyn am gynllunio busnes helaeth, yn seiliedig ar fodelu nifer o senarios (er enghraifft, rhaglen a ragdybir, metrau sgwâr diffiniedig, nifer rhagamcanedig yr ymwelwyr, y diwrnodau ar agor, lleoliad(au), ac ati).

Mae'r gwariant gweithredu dangosol blynyddol arfaethedig ar gyfer yr endid cenedlaethol yn sylweddol uwch na gwariant gweithredu blynyddol cyfartalog y rhan fwyaf o sefydliadau'r celfyddydau gweledol yng Nghymru. (Er enghraifft, mae gan ddeg cleient Portffolio'r Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol gyllideb weithredu flynyddol gyfartalog o £490k, a dyma'r rhan fwyaf o'r sefydliadau mwyaf eu maint yn ecosystem y celfyddydau gweledol).

Mae cyfanswm dyraniad blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru i'r celfyddydau gweledol a chymhwysol (£1.7m o gyllid refeniw;[16] £520k o gyllid i brosiectau) yn llai na'r hyn a gynigir yma. Fodd bynnag mae'r gwariant gweithredu a gynigir (£2.7m ar gyfer Camau Un a Dau) yn cynnwys adnodd ariannol i'w

16 Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyllid y Celfyddydau Gweledol i Bortffolio Celfyddydol Cymru

rannu ar draws Oriel ar Wasgar (h.y. 6 i 8 o safleoedd partner) a'r Canfas Cenedlaethol.

**Argymhelliad 2:** Sefydlir Panel Cynghori i ddatblygu a gwthio'r weledigaeth, y cysyniad a'r modelau yn eu blaenau. Argymhellir bod aelodau'r panel yn cynnwys arbenigwyr o Gymru a thu hwnt, gan gynnwys rhai o wledydd eraill y DU, yn ogystal â Chroeso Cymru, MALD, cynrychiolwyr Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), buddsoddwyr a dylanwadwyr. Bydd gan yr endid newydd bwyllgor llywio uchel ei broffil a bydd ganddo'r awdurdod i wneud penderfyniadau strategol; bydd cynrychiolwyr Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar y Pwyllgor hwn. Bydd gan y Panel Cynghori berthynas ffurfiol â Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru.

**Argymhelliad 3:** Ar yr un pryd, sefydlir Bwrdd Cynghori Diwylliannol Ieuenctid Cenedlaethol, yn cynnwys pobl ifanc rhwng 9 a 26 oed o bob cwr o Gymru wedi'u gwahodd trwy alwad agored. Bydd y Bwrdd Cynghori Diwylliannol Ieuenctid yn cyd-ddatblygu ac yn helpu i lunio'r cynllun gweithredu ar gyfer yr endid celf gyfoes cenedlaethol. Bydd gan y Bwrdd hwn ymrwymiad clir i rymuso'r genhedlaeth nesaf o artistiaid, meddylwyr creadigol, noddwyr, aelodau bwrdd a buddsoddwyr i lunio eu fersiwn hwy o oriel celf gyfoes genedlaethol berthnasol. Mae'n werth nodi bod buddsoddwyr iau a'r genhedlaeth milflwyddol hefyd yn datblygu i fod yn hyrwyddwyr allweddol y mudiad effaith gymdeithasol.[17]

Mae gan Amgueddfa Cymru saith fforwm ieuenctid, un ar gyfer pob amgueddfa ar hyd a lled Cymru, a'u cynllun yw datblygu'r rhain i fod â rhan wrth lunio polisïau a datblygu prosiectau. Mae'r fforwm ieuenctid yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn trefnu gosodwaith yn yr orielau gwyddorau naturiol eleni ar blastig yn y moroedd.

Yn ogystal, mae Cyngor Celfyddydau Cymru eisoes wedi ymrwymo i sefydlu Bwrdd Ieuenctid rhyng-gysylltiedig fel rhan o'i gynllun gweithredol (wedi'i ysbrydoli, yn rhannol, gan brofiadau Roundhouse [gweler Florence Wilkinson, Roundhouse, Guided by Young Voices]). Argymhellir bod y Byrddau hyn yn gweithio ochr yn ochr, os nad o dan yr un ymbarél.

**Argymhelliad 4:** Y Panel Cynghori a'r Bwrdd Cynghori Diwylliannol Ieuenctid i oruchwylio datblygu a chynnal cyfres o weithdai cysyniadau cydweithredol i archwilio, dylunio ymhellach a chryfhau'r tri cham yn y dyfodol agos. Mae'r agendâu ar gyfer y gweithdai hyn i'w cydgynllunio, ac yn dibynnu ar y pwnc, dylai'r cyfranogwyr fod yn artistiaid blaenllaw a datblygol, yn guraduron, cyfarwyddwyr orielau, athrawon, pobl ifanc a phobl sy'n weithgar yn eu cymunedau. Ar y cam hwn hefyd dylid ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r sectorau iechyd, twristiaeth a thrafnidiaeth, datblygwyr preifat a'r sector preifat, ynghyd ag arbenigwyr brwdfrydig byd-eang o ystod o ddisgyblaethau. Mae'r gweithdai i'w cynllunio i sicrhau bod manylion y tri cham yn gadarn, yn uchelgeisiol, yn ymarferol ac yn bosibl. Gallai'r gweithdai cysyniadau ddod i ben mewn symposiwm uchel ei broffil, digwyddiad deuddydd neu dri, gan ddwyn ynghyd y cyfranogwyr o'r cam cyfan hwn i arddangos a thrafod eu hargymhellion terfynol.

**Argymhelliad 5:** Mae'r Panel Cynghori i recriwtio a phenodi cyfarwyddwr medrus ac arbennig i ddatblygu a gyrru'r Oriel ymlaen.

**Argymhelliad 6:** Mae Astudiaeth Ddichonoldeb Codi Arian yn hollbwysig os penderfynir bwrw ymlaen ag Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol maes o law. Mae hyn i sicrhau bod cefnogaeth barhaus yn bosibiliad realistig, i archwilio sut y bydd model gweithredu cenedlaethol yn effeithio (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar ffrydiau ariannu presennol sydd wedi'u dynodi ar gyfer y celfyddydau gweledol yng Nghymru, ac i ddatgloi ffrydiau ariannu newydd. Rhaid i'r model incwm ar gyfer endid cenedlaethol newydd i gelf gyfoes gael ei bennu gan gyfleoedd refeniw sydd o fudd i'r sector ehangach.

**Argymhelliad 7:** Ystyried sefydlu Cronfa Waddol Creadigrwydd Cyfoes fel opsiwn ar gyfer darparu cymorth refeniw parhaus gyda'r nod o rymuso pobl greadigol Cymru nawr ac yn y dyfodol. Dylid cynllunio'r Gronfa Waddol i gefnogi alinio'r rhaglen gelf gyfoes genedlaethol â blaenoriaethau'r wlad, gan gynnwys iechyd, addysg, cynhwysiant a thwf economaidd. Dylai buddsoddwyr yn y Gronfa, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gredu bod mwynhau celf, cael eich herio ganddi, a'i chreu, fod yn bwysig i'w hymgorffori ym mywydau beunyddiol dinasyddion Cymru.

Gallai'r Gwaddol gefnogi corff canolog y sefydliad, y clystyrau creadigol a chyfres o gymrodoriaethau a gwobrau i feithrin talent, meddyliau a syniadau creadigol a nodwyd yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Byddai angen i'r Gwaddol ddatgloi ffynonellau cyllid a buddsoddi newydd. Mae ei llwyddiant yn dibynnu ar ymgyrch codi arian soffistigedig dan arweiniad hyrwyddwyr sydd mewn sefyllfa dda i adnewyddu'r diwylliant rhoddion i fod yn ddiwylliant buddsoddi yn harddwch a pheiriant creadigol Cymru.

17 'Pro-business, but expecting more.' (The Deloitte Millennial Survey, 2017)

**Argymhelliad 8:** Bydd Cymrodoriaeth Broffesiynol Ddiwylliannol yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol diwylliannol sefydledig a datblygedig yng Nghymru weithio ar draws yr ecosystem. Bydd y Gymrodoriaeth yn croesawu ymgeiswyr o gefndiroedd curadurol yn ogystal ag o ddisgyblaethau eraill y mae eu harbenigedd yn hanfodol i sector ffyniannus y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol ehangach. Mae hyn yn cynnwys profiad mewn addysg, marchnata, cynllunio busnes, y gyfraith, polisi, gweithrediadau, technoleg, gwyddoniaeth data, dylunio, manwerthu, arlwyo, adnoddau dynol, codi arian a rheoli digwyddiadau.

**Argymhelliad 9:** Dylid cynnal ymchwil cynulleidfa ledled y sector ochr yn ochr â Chamau Un a Dau er mwyn mesur y galw am unrhyw newydd-ddyfodiad i sector y celfyddydau gweledol. Mae'n hanfodol cael dealltwriaeth fwy soffistigedig o'r farchnad bresennol a newydd o ran lleoliadau, profiadau ac atyniadau'r celfyddydau gweledol cyfoes yng Nghymru, ynghyd â'r berthynas rhwng y lleoliadau hyn. Mae hefyd yn bwysig bod cymhellion ac ymddygiadau mynychu ac ymweld yn cael eu deall; bod rhwystrau i fynediad yn cael eu nodi'n glir; a bod patrymau ar draws amser a daearyddiaeth yn cael eu holrhain a'u defnyddio. Mae potensial i sicrhau bod sefydliadau yn cael eu grymuso i fynd ati gyda'i gilydd i gynnal ymchwil ar draws y sector ac yn defnyddio'r ymchwil hwnnw yn uniongyrchol i lunio rhaglenni, marchnata, safleoli a gwneud penderfyniadau cynllunio busnes yn lleol ac yn genedlaethol. Byddai rhaglen ymchwil a hyfforddi gynhwysfawr yn etifeddiaeth bwysig i gymuned y celfyddydau gweledol.

**Argymhelliad 10:** Y sectorau diwylliant a thwristiaeth i gymryd camau i alinio eu strategaethau a chydweithio'n agosach er mwyn:

- adeiladu ar y farchnad dwristiaeth bresennol;
- ymgorffori'r celfyddydau gweledol i'r ymgyrch dwristiaeth bresennol, Ffordd Cymru;
- cynnig profiad sy'n unigryw i Gymru na ellir ei ganfod mewn man arall;
- darparu cyfuniad o atyniadau celfyddydol dan do ac awyr agored sydd wedi'u cysylltu'n agos â'r gwahanol gymunedau Cymreig ac ymdeimlad o le i ddiwallu disgwyliadau ymwelwyr rhyngwladol.

**Argymhelliad 11:** Mae'r Panel Cynghori i ddatblygu a chynnal cyfres o brosiectau peilot cydweithredol – rhan o'r 50 gwaith celf yn y Canfas Cenedlaethol – gan fynd ati i wneud hynny'n syth. Bydd y prosiectau hyn yn sicrhau bod buddsoddiad sydd eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer yr Astudiaeth Ddichonoldeb yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon i fwrw ymlaen â'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Dylid llunio'r prosiectau peilot fel ymchwil i weithredu – gan alluogi'r tîm i brofi gwahanol ffyrdd o ymgynnull a grymuso cynulleidfaoedd, archwilio syniadau ar gyfer prosiectau celf gyfoes a darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Dylid rhannu'r dysgu o'r prosiectau hyn yn eang (er enghraifft, mewn cyhoeddiadau, rhan o symposiwm, trafodaethau wedi'u hwyluso) a'u cymhwyso yng nghasgliad nesaf prosiectau'r Canfas Cenedlaethol.

James Richards, Migratory Motor Complex, gosodwaith system seddi modiwlaidd, cyfrifiadurol, sain chwe sianel, 2017. Ffynhonnell: drwy garedigrwydd yr artist a Chapter; prosiect Cymru yn Fenis Ffotograffau Mark Blower

# 1. Cyflwyniad



# Cyflwyniad

"Gofynnwyd i amgueddfeydd celf fodern gyflawni tair rôl wahanol: bod yn fagnet ailddatblygu trefol, yn symbol o fri cenedlaethol, ac yn ysgogwr cyfalaf dynol o ran creadigrwydd ac arloesedd."
**Sharon Zunkin**

*"Mae pob dinas ôl-ddiwydiannol sy'n cael trafferthion yn cael yr un syniad: llogi pensaer enwog (fel Frank Gehry) i ddylunio cangen o amgueddfa enwog (fel y Guggenheim), ac yna gwylio eu dinas yn blodeuo gyda diwylliant. Wedi'r cyfan, mi weithiodd i Bilbao... yn do?"* **Chris Michael, *The Guardian***[18]

**Cefndir**
Ym mis Tachwedd 2017, comisiynwyd yr asiantaeth ymgynghori a dylunio profiad, Event, gan Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD), Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, i asesu dichonoldeb a modelau posibl ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru. Roedd yr Astudiaeth yn gofyn am ddatblygu rhesymeg a gweledigaeth arweiniol ar gyfer endid cenedlaethol newydd, ynghyd â datblygu ac asesu wedyn ar gasgliad o'r opsiynau gorau i gyflawni'r weledigaeth honno.

Gan adeiladu ar Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru – Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2016), roedd tri rhanddeiliad yr Astudiaeth wedi nodi bwlch yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer arddangos celf fodern a chyfoes. Roedd Llywodraeth Cymru cyn hynny wedi comisiynu astudiaeth, a gyflwynwyd yn 2008, sef The Future Display of Visual Art in Wales, dan arweiniad ABL Consulting. Roedd yr astudiaeth hon wedi trafod dau gysyniad cysylltiedig, sef asesu'r angen am Oriel Genedlaethol (un a fyddai'n cynnig man arddangos estynedig a lle atodol mewn safle wedi'i ddatblygu a'i ehangu ym Mharc Cathays yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd), a Chanolfan Genedlaethol Celf Gyfoes newydd gyfochrog ond ar wahân (a fyddai'n arddangos celf gyfoes o Gymru, celf o statws rhyngwladol o rywle arall, ac arddangosiadau dros dro).

Yr uchelgais oedd creu adeilad o ansawdd a allai gymharu â sefydliadau cenedlaethol tebyg mewn mannau eraill yn Ewrop. Roedd yr Astudiaeth wedi adolygu ac adeiladu ar adolygiadau blaenorol o gyfleusterau oriel Cymru, ynghyd â'r galw am gyfleusterau'r 21ain ganrif ar gyfer arddangos celf, a'u manteision diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Roedd astudiaeth ABL hefyd yn argymell ail Oriel Gyfoes Genedlaethol – sef yn ei hanfod, *gofod blwch gwyn* i letya arddangosfeydd dros dro.

Ni fwriwyd ymlaen â'r cysyniad na'r gwerthusiad opsiynau cysylltiedig, ond roedd yr astudiaeth wedi rhoi achos am gyllid ychwanegol a fu'n sail i fuddsoddiad £6m Llywodraeth Cymru yn yr Adain Orllewinol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Heddiw yn yr Adain Orllewinol ceir arddangosfeydd dros dro o gelf gyfoes a modern o gasgliadau Amgueddfa Cymru a benthyciadau gan sefydliadau eraill (megis yn ddiweddar Uffern Rhyfel: Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau a Ffrwydrad Tawel: Ifor Davies a Dinistr Creadigol) yn ogystal ag arddangosfeydd wedi'u cynhyrchu'n allanol (megis gwobr ac arddangosfa eilflwydd, Artes Mundi, a sefydlwyd gan William Wilkins yn 2002).

Rhoddodd Adroddiad 2008 ysgogiad a chymorth ariannol ychwanegol i brosiectau a gynigiai seilwaith i oriel gyfoes, gan ategu ymgyrch Cyngor y Celfyddydau i greu mannau addas i'r 21ain ganrif ledled Cymru. Ddegawd ar ôl Adroddiad 2008, cydnabu Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod Astudiaeth Ddichonoldeb newydd yn cynnig cyfle i adolygu ecosystem a seilwaith presennol y celfyddydau gweledol ac asesu cyfyngiadau posibl ar unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

Nododd y Cynulliad yr angen hanfodol hefyd i ddiffinio uchelgais a phwrpas craidd sefydliad celf gyfoes cenedlaethol. Er bod gan Amgueddfa Cymru gasgliad cenedlaethol o gelf gyfoes, o gymharu â'r tair gwlad cyfagos, mae gan y tair ohonynt gryn dipyn yn fwy o gyfleusterau penodol ar gyfer arddangos celf gyfoes a modern (Ffigwr 1).

18 Chris Michael, The Bilbao Effect: is 'starchitecture' all it's cracked up to be? A history of cities in 50 buildings, day 27 (The Guardian, 30 Ebrill 2015)

| Sefydliad celfyddydol | Cyfanswm ei safle | Cyfanswm arwynebedd lloriau mewnol | Mannau Arddangos | Mannau ategol |
|---|---|---|---|---|
| Tate Modern, Lloegr | 3.43 hectares | 34,500m$^2$ | 7,827m2 ystafelloedd oriel<br>3,300 m2 neuadd Turbine<br>1,300m2 ystafell arddangosfeydd arbennig | Awditoriwm â 240 sedd, dau gaffi â 170 sedd yn ogystal â 30 yn y bar; tair siop; man addysg; Ystafell Aelodau, swyddfeydd, ardal trin |
| Estyniad Switch House, Tate Modern, Lloegr | Wedi'i gynnwys yn yr uchod | 23,000m$^2$ | 7,000m2 o ofod arddangos yn benodol ar gyfer arddangos gwaith cyfoes arloesol o bob cwr o'r byd a rhagor o gasgliad Tate; dwy ardal berfformio tanciau olew newydd | 1,567m2 o ofod dysgu |
| Oriel Celf Fodern Genedlaethol yr Alban | 4.8 hectares | Ddim ar gael | Modern Un: 776.51m2 o gofod arddangos<br>Modern Dau: 495.89m2 o ofod arddangos | 2 gaffi a theras haul, 2 siop, Stiwdio Paolozzi, ystafell ddarllen, llyfrgell, ystafell astudio lluniau ac argraffiadau |
| IMMA, Dulyn | 10.52 hectares | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Caffi, siop, darlithfa, ystafelloedd Johnston, gofod prosiect, iard, orielau gardd |

Ffigwr 1: Cyfleusterau cenedlaethol penodol
ar gyfer celf gyfoes a modern
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

# Cyflwyniad

**Briff**
Cafodd Event y dasg o nodi model hyfyw ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol newydd sy'n cyd-fynd â gofynion ac uchelgeisiau sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i asesu'r canlynol:

- Yr archwaeth am endid cenedlaethol;
- Ecosystem y celfyddydau gweledol ar hyn o bryd yng Nghymru;
- Uchelgeisiau ac anghenion cyfredol sefydliadau celf unigol, artistiaid ac ysgolion celf;
- Y tirwedd polisi
- Proffil, anghenion a chymhellion darpar gynulleidfaoedd a rhai presennol;
- Rhanddeiliaid allweddol a'u rôl(au);
- Meincnodau'r Deyrnas Unedig a rhai rhyngwladol o ran rhaglenni, seilwaith a safleoli.

Yn wreiddiol, rhagwelwyd y byddai'r astudiaeth yn Astudiaeth Ddichonoldeb, ond sylweddolai'r Pwyllgor Llywio pa mor bwysig oedd hi yn y lle cyntaf i ddatblygu rhesymeg i fod yn sail i gysyniad Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a chael model strwythurol ategol hyfyw i wireddu'r cysyniad.

O'r herwydd, cynhaliwyd Gwerthusiad Opsiynau, gan ddatblygu ac asesu'r opsiynau a fyddai orau i gyflawni'r uchelgais a nodwyd ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Ar y cam hwn, nid yw'r Astudiaeth yn cynnwys Dadansoddi Lleoliadau a Safleoedd nac Astudiaeth Codi Arian, gyda'r disgwyl y bydd cam dilynol yn darparu Astudiaeth Ddichonoldeb gynhwysfawr.

**Methodoleg**
Cynlluniwyd dulliau a methodoleg Event i fynd ati gydag eraill i sefydlu achos a chanfod model ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol sy'n dathlu ac yn ymateb i anghenion celf, artistiaid a chynulleidfaoedd yr 21ain ganrif. Er mwyn llunio'r astudiaeth ddichonoldeb a'r gwerthusiad opsiynau, bu i Event wneud y canlynol:

**1. Cynnal dadansoddiad ar y cyd-destun:**
- Ymgynghori â 98 o randdeiliaid ac aelodau o sector y celfyddydau gweledol, gan gynnwys artistiaid, sefydliadau celfyddydol a diwylliannol, prifysgolion / ysgolion celf, cyllidwyr, sefydliadau cenedlaethol, awdurdodau lleol a'r llywodraeth (Atodiad 1);
- Ymweld â 30 o orielau a phrifysgolion ledled Cymru a 7 y tu allan i Gymru (Atodiad 2);
- Cynnal gweithdai gyda Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW), a chynrychiolwyr Fforwm Ieuenctid Amgueddfa Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill;
- Adolygu papurau ymchwil a pholisi (Atodiad 3);
- Archwilio'r data cynulleidfa sydd ar gael am Gymru i asesu'r cynulleidfaoedd presennol a darpar rai, a hynny er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cysyniad ac i adeiladu model busnes/gweithredu hyfyw;
- Nodi'r math o ddata cynulleidfa ledled y sector y dylid ei gasglu, ei ddadansoddi a'i ddefnyddio'n rheolaidd wrth symud ymlaen;
- Mapio orielau'r celfyddydau gweledol a ariannir yn gyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â'r ecosystem celf gyfoes ehangach;
- Ymchwilio meincnodau'r DU a rhai rhyngwladol o ran safleoli, modelau, costau cyfalaf a gweithredu, modelau ar gyfer arferion curadurol ac addysgol, a llywodraethu.

**2. Datblygu pwrpas a swyddogaeth yr endid cenedlaethol**

**3. Cynnal gwerthusiad opsiynau:**
- Datblygu rhestr hir o ddeuddeg opsiwn y gellid eu strwythuro i gyflawni'r weledigaeth hon (Atodiad 6);
- Datblygu casgliad o feini prawf wedi'u pwysoli er mwyn asesu pob opsiwn a gallu nodi'r model a ffefrir;
- Datblygu taflen sgorio ddeinamig i alluogi'r Pwyllgor Llywio i sgorio'r gwahanol fodelau i asesu eu hyfywedd a'u huchelgais;
- Cynnal gwerthusiad opsiynau annibynnol yn seiliedig ar y pwysoli a'r meini prawf y cytunwyd arnynt gyda'r Pwyllgor Llywio.

**4. Cynnig set o argymhellion ar gyfer model hyfyw Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol; cyflwynir yr argymhellion hyn ym Mhennod 5 ynghyd â chasgliad o gamau nesaf a argymhellir.**

**Rhagdybiaethau a Diffiniadau**
At ddiben yr astudiaeth hon, cytunwyd ar nifer o baramedrau gyda'r Pwyllgor Llywio. Mae'r rhain fel a ganlyn:

**Llywodraethu/Perchnogaeth**
- Bydd yr endid newydd yn rhan o deulu Amgueddfa Cymru ac fe'i llywodraethir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru;
- Bydd gan yr endid newydd bwyllgor llywio ac iddo broffil uchel ac awdurdod penderfynu strategol; bydd cynrychiolwyr Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar y Pwyllgor hwn;
- Gall aelodau'r Pwyllgor fod yn aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr;
- Bydd gan y Pwyllgor berthynas ffurfiol â Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru;
- Bydd angen i'r endid newydd benodi uwch gyfarwyddwr ar broffil uchel sy'n adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru.
-

# Cyflwyniad





Gweithdai ymgynghori ag aelodau Grŵp
Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW) yng
Nghaerdydd ac yn y Drenewydd
Ffynhonnell: Event, Ionawr 2018

**1.** **Dadansoddi'r hyn sydd ohoni**

**2.** **Paramedrau safleoli gweledigaeth**

**3.** **Gwerthuso datblygu opsiynau**

**4.** **Yr Opsiwn a Ffefrir**

Ffigwr 2: Methodoleg Event

# Cyflwyniad

**Partneriaeth Strategol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru**

- Mae cyfle i bartneriaeth strategol wedi'i ffurfioli rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru i ddatblygu a sicrhau endid ar gyfer celf gyfoes.

**Polisi a Mynediad at Gasgliadau**

- Bydd y casgliad celf gyfoes a modern cenedlaethol, dan ofal Amgueddfa Cymru, ar gael i bartneriaid ei fenthyg, ei ddehongli a'i arddangos;
- Ystyrir ar wahân y cyfleoedd i rannu casgliad modern a chyfoes Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chasgliad y Werin, ochr yn ochr â chasgliad cenedlaethol celf gyfoes Amgueddfa Cymru, ond maent yn rhan allweddol o rannu casgliadau;
- Ni chaiff celf gyfoes genedlaethol ei chyfyngu i un cyfrwng, ond mae'n cwmpasu pob math o gelf gyfoes – gan gynnwys celf weledol, dylunio, crefft, celfyddyd perfformio, ffilm a digidol a thraws-gyfrwng;
- Diffinnir celf fodern fel gwaith wedi'i greu o ddiwedd y 19eg ganrif hyd at ddiwedd yr 20fed ganrif;
- Diffinnir celf gyfoes fel ymarfer cyfredol, wedi'i chreu gan artistiaid sy'n fyw ac yn gweithio heddiw;
- Rhaid i unrhyw oriel arfaethedig newydd fodloni safonau Achredu Amgueddfeydd y Deyrnas Unedig.

**Amcanestyniadau Ariannol**

- Mae'r ffigyrau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o ran gwariant gweithredu a chyfalaf yn ddangosol yn unig, yn seiliedig ar feincnodau a modelu senarios rhagarweiniol.
- Y disgwyl yw y dylai unrhyw gam dilynol ar ôl yr astudiaeth hon gynnwys cynllunio busnes llawn yn seiliedig ar fodelu nifer o senarios (er enghraifft, rhaglen guradurol a chyhoeddus, metrau sgwâr penodol, nifer ymwelwyr blynyddol, diwrnodau yn agored, lleoliad, ac ati).

**Y Modelau**

Cyflwynir y modelau a ddatblygwyd ar ffurf opsiynau seiliedig-ar-adeilad ac opsiynau heb adeilad, safleoedd niferus – bodoli eisoes neu rai newydd – ac /neu gytundeb gwasanaeth neu bartneriaeth.

**Strwythur yr Adroddiad**

Mae Pennod 2 yn cyflwyno'r canfyddiadau a goblygiadau; Pennod 3 yn nodi'r weledigaeth a blaenoriaethau dangosol; Pennod 4 yn amlinellu'r dull opsiynau; Penodau 5 a 6 yn rhoi argymhellion Event a'r risgiau posib; a Phennod 7 yn sôn am y camau nesaf.

Mae'r Atodiad yn cynnwys rhestr o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy; rhestr o'r safleoedd yr ymwelwyd â hwy; llyfryddiaeth a rhestr o ffigyrau'r ddogfen; manylion am y rhestr hir o opsiynau, yn ogystal â gwybodaeth bellach am y farchnad a gweledigaethau a chenadaethau enghreifftiol orielau celf cenedlaethol a rhanbarthol eraill o bob cwr o'r byd.

Codwyd y dyfyniadau dienw drwy'r adroddiad yn uniongyrchol o gyfweliadau cyfrinachol â rhanddeiliaid a gweithdai a gynhaliwyd gan Event, oni nodir yn wahanol.

Llywiwyd yr astudiaeth gan Bwyllgor Llywio dan arweiniad Peter Owen (Pennaeth Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru) gyda'r cydweithwyr David Alston (Cyfarwyddwr y Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru), David Anderson (Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru), Nick Capaldi (Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru), Kath Davies (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu, Cyngor Celfyddydau Cymru), Lesley-Anne Kerr (Pennaeth Datblygu Amgueddfeydd, MALD), a Nick Thornton (Pennaeth Celf Gain, Amgueddfa Cymru).

Roedd cynrychiolwyr VAGW (Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru, sef y Gymdeithas broffesiynol i leoliadau a sefydliadau yng Nghymru sy'n cynhyrchu ac yn cyflwyno celf weledol gyfoes), wedi'u cydgadeiro gan Chris Brown (g39) a Steffan Jones-Hughes (Oriel Davies), wedi bod yn rhan o sawl gweithdy ac wedi cael gwybodaeth drwy gydol cyfnod yr Astudiaeth.

Cynhaliwyd a lluniwyd yr Astudiaeth hon gan Lucie Branczik, Swyddog Gweithredol Prosiectau a Becky Schutt, Uwch Gydymaith yn Event. Roedd y gefnogaeth i dîm Event wedi cynnwys y canlynol: James Alexander (Prif Swyddog Gweithredol), Mark O'Neill (Uwch Gynghorydd), Esther Dugdale (Cyfarwyddwr Creadigol), Stuart Williams (Cyfarwyddwr Celf) Antonio Porto (Dylunydd Graffeg) a Felicity Hearn (Ymchwilydd).

Mae'r cyd-awduron yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Llywio a'r ystod eang o ymgyngoreion yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig yn ehangach a roddodd eu cefnogaeth i ddatblygu cyfres o opsiynau ar gyfer oriel newydd, opsiynau sydd lawn mor ddilys ag ydynt yn feiddgar, yr un mor strategol ag ydynt yn ddeniadol, yr un mor ymarferol ag ydynt yn uchelgeisiol.

Bedwyr Williams, Tyrrau Mawr, 2016
Artes Mundi 7, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, 2016
Ffynhonnell: Trwy garedigrwydd yr artist ac Oriel Limoncello
Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru

# 2. Canfyddiadau a Chyfleoedd



# Canfyddiadau a Chyfleoedd

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r cyd-destun ynghyd â'n dadansoddiad ni o'r pum thema graidd – Celf Gyfoes yng Nghymru; Cyflenwi; y Galw; Cyd-destunau Allweddol; ac Uchelgais y Sector. Mae'r cyd-destun a'r dadansoddiad hwn wedi bod yn sail uniongyrchol i ddatblygu'r pwrpas; y 12 opsiwn ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol newydd (Atodiad 6); y meini prawf a'r pwysoli i asesu'r opsiynau hyn (Pennod 4); a'n hargymhellion terfynol ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru (Pennod 5).

Mae'n hanfodol deall y cyd-destun a roddir yma er mwyn sicrhau bod unrhyw oriel genedlaethol newydd yn berthnasol i gynulleidfaoedd ac artistiaid heddiw ac yfory; ei bod wedi'i hymgorffori'n ddilys i ecosystem presennol y celfyddydau gweledol; ac yn cyd-fynd â'r uchelgais a'r dyhead ar gyfer y genedl.

Mae'r bennod wedi'i threfnu fel a ganlyn:

**Celf Gyfoes yng Nghymru**
- Celf gyfoes ac ymarfer celfyddydol yng Nghymru.

**Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol**
- Ecoleg y celfyddydau gweledol a chymhwysol yng Nghymru;
- Proffil cenedlaethol a rhyngwladol;
- Cylch proffesiynol artistiaid;
- Cynnwys a chasgliadau.

**Y Galw: Cynulleidfaoedd**
- Cynulleidfaoedd presennol y celfyddydau gweledol a chymhwysol;
- Addysg greadigol;
- Marchnad bosibl twristiaeth ddiwylliannol.

**Cyd-destunau Allweddol**
- Yr achos economaidd dros ddiwylliant a chreadigrwydd;
- Buddsoddiad cyfalaf a phrosiectau ar y gweill;
- Mannau arddangos a storio;
- Model gweithredu a model busnes;
- Yr achos cymdeithasol a thwf buddsoddi mewn effaith;
- Yr agenda iechyd a lles;
- Addysg, creadigrwydd a dinasyddiaeth.

**Uchelgais y Sector**

> "O fod yn 'gwpwrdd hynodion' gwyddoniadurol, i fod yn eglwys gadeiriol atseiniol i weithiau (ac enwau) mwy o faint artistiaid, mae'r amgueddfa bellach yn cyrraedd trydydd cyfnod o fod yn lleoliad cydweithredol, lle mae artistiaid, cynulleidfaoedd a churaduron yn rhyngweithio wrth gydgynhyrchu diwylliant a gwerth."
>
> **Adam Price, AC Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr**





Holly Davey, The Conversation, gosodwaith cyfrwng cymysg, yn g39, Caerdydd, 2017
Ffynhonnell: Holly Davey
Koan Exercises, 2004
Ffynhonnell: Peter Finnemore

**Celf ac Ymarfer Celfyddydol**

**Beth sy'n gwneud celf gyfoes Cymru yn unigryw Gymreig?**

Mae tirwedd Cymru a'r Gymraeg wedi cyfrannu'n aruthrol at arferion celf weledol gyfoes yng Nghymru. Mewn llawer o'r cyfweliadau soniwyd am angerdd artistiaid cyfoes at arferion amgylcheddol a thirwedd Cymru fel prif ffynhonnell ysbrydoliaeth a deunydd. Mae'r tirlun yn ysgogi'r awen yn hen draddodiad yng Nghymru:

*"Mae rhinweddau tirweddau Cymru wrth wraidd pŵer y wlad dros artistiaid – gwyllt, hynafol, eang, hynod."*[19]

Fel y dywedodd un Arweinydd Celf:

*""[Yng Nghymru] mae yna agwedd realistig at bortreadu'r amgylchedd. Mae'n wrol, heb ei ddelfrydu, ddim yn pwysleisio unrhyw arddull. Dim ond bod yn onest. Mae hynny'n rhywbeth gwahanol ym Mhrydain. Mae rhywbeth cydlynol yn digwydd yno"*

Mae artistiaid byw sy'n adlewyrchu Cymru a'i thirwedd yn cynnwys yr artist Darren Hughes o'r gogledd-orllewin, sy'n paentio tirluniau impasto lliwgar Cymru o'i gartref; Kevin Sinnott sy'n portreadu bywiogrwydd cymoedd y De, eu cymunedau a'u bywydau; yr arlunydd a'r gwneuthurwr printiadau, Mary Lloyd Jones, sy'n cael ei hysbrydoli gan y tirwedd creithiog sy'n gysylltiedig ag etifeddiaeth cloddio plwm a'r iaith Gymraeg. Mae llawer o artistiaid eraill, rhai yn fwy poblogaidd a rhai wedi cael mwy o glod gan feirniaid, yn cynnwys Mike Carter, Helen Sear, David Nash, Tim Davies, Mike Perry, Deborah Butler, Gwyn Roberts, Peter Kettle, Janie McLeod, David Tress a William Wilkins. Gyda'i gilydd mae eu gwaith yn rhan sylweddol o fyd celf gyfoes Cymru. Rhagflaenwyd yr artistiaid hyn oll gan y diweddar Kyffin Williams, a ystyrir yn eang i fod yn un o arlunwyr Cymreig pwysicaf yr ugeinfed ganrif; ef a greodd dirweddau tywyll, aruthrol a bythol Eryri a ddaeth i fod â statws eiconig – megis hefyd y dyn ei hun, yn ôl ysgrif goffa iddo yn 2006.[20] Wedi'u lleoli heddiw yn Oriel Ynys Môn, lle bu'n byw am lawer o'i fywyd,[21] ac yn cael eu harddangos ar hyn o bryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ystyrir bod tirweddau Williams yn glasurol berffaith.

Y tu hwnt i'r tirwedd, mae amrywiaeth y dulliau artistig, y defnydd o gyfryngau cymysg, deunyddiau newydd, prosesau byrhoedlog a phrofiadau trochol oll yn ffactorau unigryw mewn celf gyfoes heddiw; nid yw artistiaid Cymreig yn wahanol yn eu diddordebau na'u hymagweddau i ffrâm ehangach ymarfer celf gyfoes y Deyrnas Unedig. Dangosir hyn gan archwiliadau cerfluniau Holly Davey o realiti dychmygol; gweithiau ffotograffig a pherfformiadol Peter Finnemore am y cartref a'r cof mewn cyd-destun diwylliannol Cymreig; mapiau dychmygol Iwan Bala yn archwilio'r cysylltiadau rhwng chwedlau Cymru a materion y dydd: *"cenedligrwydd, hunaniaeth,*

19 Peter Wakelin, Romancing Wales: Romanticism in the Welsh Landscape since 1770 (2016)

20 Rian Evans, Sir Kyffin Williams Obituary, The Guardian, 3 Medi 2006
21 Ibid

*diwylliant a dirywiad di-droi'n-ôl yr iaith"*[22]; a beirniadaethau doniol cyfrwng-cymysg Bedwyr Williams o fywyd bob dydd.

Mae gwaith celf dros dro, a gwaith sy'n canolbwyntio ar y broses o greu, yn holi a yw amgueddfeydd heddiw yn gallu casglu'r anghasgladwy, ac os ydynt sut. Mae hyn yn rhywbeth y mae Amgueddfa Cymru eisoes wedi dechrau ei ystyried, fel y gwelwyd yn fwyaf diweddar yn arddangosfa berfformiad yr artist o Wlad yr Iâ, Ragnar Kjartansson, *Yr Awyr mewn Ystafell*, a dderbyniwyd i gasgliad celf gyfoes Amgueddfa Cymru, a hynny wedi'i wneud yn bosibl gan Wobr Prynu Mundi Ymddiriedolaeth Derek Williams (£30,000) a chymorth gan y Gronfa Gelf.

Tynnodd yr ymgyngoreion sylw at yr angen i gydnabod y dylai unrhyw oriel gelf gyfoes newydd alluogi a hyrwyddo cydweithio traws-ddisgyblaethol fel ffordd o archwilio hunaniaeth genedlaethol. Fel yr esboniodd un artist,

*"Mae continwwm hirach wedi bod i farddoniaeth. Felly rwy'n edrych ar hunaniaeth graidd, hanfod Cymru a Chymreigrwydd dros y canrifoedd trwy weithio gyda beirdd cyfoes."*


Mae artistiaid sydd wedi cydweithredu ar draws y disgyblaethau yn cynnwys Iwan Bala – sydd wedi cydweithio â'r bardd Menna Elfyn ac Angharad Jenkins (merch y bardd Nigel Jenkins) – a Susan Adams – sydd wedi arwain prosiect cydweithredol â phobl gyfoes sy'n clywed lleisiau yng Nghymru. Enghraifft ddiweddar arall yw'r arlunydd David Garner wrth i'w waith cerflunio perfformiadol *Call and Response* 2015 – a gynhaliwyd yn Ogof y Siartwyr ger Trefil – gydweithio gyda'r cyfansoddwr a'r telynor Rhodri Davies. Gwelir y math hwn o gydweithio hefyd yng nghynyrchiadau National Theatre Wales wrth i artistiaid, awduron, dylunwyr a meddylwyr creadigol gael eu hannog i greu syniadau a bod yn rhan o dîm estynedig National Theatre Wales.

Mae ymarfer blaengar o gydweithredu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd, gan gynnwys ailystyried awdurdod curadurol a rhaglenni cyd-greadigol, wrthi'n cael eu datblygu gan artistiaid a churaduron mewn sefydliadau celfyddydau gweledol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yng Nghymru. Mae'r ymarfer a'r ymagwedd sefydliadol hyn yn cynnwys:

- Gwaith cerfluniol yr artist Sean Edwards gyda gwrthrychau bob dydd sy'n gwahodd cynulleidfaoedd i chwarae rôl yn ei greu. Tueddant i fod yn weithiau ar y gweill, sydd ond yn cael eu cwblhau yn y man arddangos – gan danseilio rôl gofod cyflwyno yr oriel, gan ei wneud yn ofod proses;
- PEAK – sefydliad yn y Mynydd Du sy'n gweithio gydag artistiaid proffesiynol a chymunedau i ymateb i'r amgylchedd gwledig;
- Penderfyniad pwy? (Hydref 2017 – Medi 2018), arddangosfa Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a guradwyd gan bobl o'r Wallich, sef elusen sy'n cefnogi pobl sydd wedi dioddef digartrefedd yng Nghymru;
- Agorodd Tŷ Pawb yn Wrecsam ym mis Mawrth 2018 gan ddefnyddio'r cysyniad pensaernïol 'mannau di-siâp' (baggy spaces) i greu model newydd sy'n cynnig gofod mwy llac a mwy arbrofol a rhaglenni sy'n ymgysylltu â chymdeithas sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'r cyhoedd. Ys dywedodd penseiri Tŷ Pawb, Featherstone Young, mae'r cysyniad man di-siâp yn ymwneud â rhoi'r cyffyrddiad digonol i'r amgylchedd, neu cyn lleied â phosibl, i alluogi eraill i lenwi'r bylchau, i feithrin perchnogaeth a chreu man i'w ddefnyddio'n gyson, ac agor potensial profiadau ystyrlon a defnyddiol.[23]

Cadarnhaodd yr ymgynghoriad hefyd y brwdfrydedd amlwg am ymarfer dilys sy'n ymgysylltu â chymdeithas, a hynny i ddigwydd yn aml y tu allan i leoliad traddodiadol oriel, ac mae'r symudiad hwn wedi'i nodi yn ehangach mewn trafodaethau diwylliannol a chyfleoedd ariannu a



Eton mess (The Dis-united Kingdom) 2016-18, Cyfrwng cymysg ar bapur Khadi o'r India. 56x76 cm
Ffynhonnell: Iwan Bala
Penderfyniad pwy? Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Ffynhonnell: Event

22 https://www.iwanbala.com/cy/node/505

23 Sarah Featherstone a Jo Marsh, Designing and Programming in Baggy Space: a case study of the Oriel Wrecsam People's Market project, 2018

rhwydweithiau sy'n dod i'r amlwg.[24] Fel y nododd un Cyfarwyddwr Amgueddfa,

*"Mae yna wir ymdeimlad o ddeinameg yng Nghymru. Mae'n wirioneddol gymdeithasol. Nid dim ond celf ydyw, ond ymgysylltu, cydweithio, modelau newydd, a natur wledig y modelau hyn."*

*"Modelau newydd ar gyfer ymgysylltu â'r gynulleidfa, archwilio arddangosfa a chynulleidfa: cynhyrchu, curadu ar y cyd a chydweithio."*
**Curadur ac ymchwilydd**

Pwysleisiai eraill ein bod yn dychwelyd at ein harferion gwylio cyn-fodern (*'Beth ddigwyddodd i'r ethos gweithredol a chymryd rhan sydd wedi diffinio cynulleidfaoedd [celfyddydol] y Gorllewin ers 2,000 o flynyddoedd?'*)[25]

Mae gan Gymru hen draddodiad o ymarfer sy'n ymgysylltu â'r gymdeithas:

*"Mae 'na wreiddiau hir mewn menter gymdeithasol [yng Nghymru] sy'n mynd yn ôl yn bell iawn. Mae 'na adfywiad mewn celf gymunedol."*

24 Gweler er enghraifft, 'Inquiry into the Civic Role of Arts Organisations' Sefydliad Calouste Gulbenkian; Canolfan y Barbican yn sefydlu'r rhwydwaith 'Co-Creating Change' ar gyfer partneriaethau rhwng artistiaid, cynhyrchwyr a'r gymuned ac wedi'i gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Lloegr drwy eu cronfa 'Ambition for Excellence'.
25 Lynne Connor, In and Out of Dark, goln Steven Tepper a Bill Ivey, A Theory about Audience Behavior from Sophocles to Spoken Word (Efrog Newydd, Routledge Press, 2007) 79-100

Mewn ymgynghoriadau, mynnai artistiaid a churaduriaid fel ei gilydd fod y broses o wneud celf yr un mor bwysig – os nad yn wir yn bwysicach – na'r cynnyrch terfynol.

*"Nid yw'n ymwneud ag arteffact, mae'n ymwneud â'r broses o gymryd rhan, y berthynas rhwng artist, celf a chynulleidfaoedd."*

*"Mae 'na symud i ffwrdd o elitiaeth i ymarfer sy'n fwy egalitaraidd."* **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

*"Mae rhai mentrau gwirioneddol gyffrous yn cael eu datblygu gan guraduron yng Nghymru. Sut y gellir cydnabod y rhain?"*
**Artist**

Gwelwyd y broses greadigol hon ar waith mewn nifer o ymweliadau safle, gan gynnwys:

- g39 – oriel gyfoes a sefydlwyd gan yr artistiaid Chris Brown ac Anthony Shapland yng Nghaerdydd yn 1998. Mae g39 yn cynnal stiwdio agored ar y penwythnos sy'n gadael i gynulleidfaoedd gael mynediad i'r broses fel rhan o'u rhaglen flynyddol UNIT(e);

- Mae'r Gegin gan Oriel Davies yn nodweddiadol o'r ymagwedd hon; dyma fan cymdeithasol creadigol, hyblyg, lle caiff celf, perfformiad, crefft a ffilm eu gwneud, eu rhannu a'u hysbrydoli. Fel y dywed deunydd hyrwyddo'r arddangosfa, "*Wedi'i gynllunio i fod yn amgylchedd hyblyg ar gyfer ystod eang o weithgareddau, roedd y Gegin wedi addasu a newid yn barhaus dros y pedwar mis wrth i ymwelwyr, artistiaid a grwpiau cymunedol greu a rhannu eu gwaith*";

- *Milltiroedd o Greadigrwydd*, sef arddangosfa grŵp[26] yn MOSTYN oedd yn archwilio'r weithred greadigol a'i pherthynas â thref Llandudno. Yn ogystal ag arddangos crefftau creadigol lleol nad ydynt yn cael eu dangos yn draddodiadol mewn oriel gelf, roedd yr arddangosfa'n cynnwys stiwdio wedi'i hymgorffori yn rhan o'r oriel. Yma, gweithiai'r cerflunydd cyfoes Nick Elphick yn fyw ar nifer o ddarnau pwerus, gan gynnwys hunanbortread wrth iddo archwilio ei frwydr personol â dysmorffia'r corff, yn ogystal â siarad ag ymwelwyr am ei waith esblygol a'r ysgogiadau y tu ôl iddo..

I gefnogi'r math hwn o brosiect, mae rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru o'r enw Creu Cymunedau Cyfoes yn rhoi cyllid i bortffolio bychan o brosiectau uchelgeisiol sydd yn wirioneddol wedi'u harwain gan y gymuned.

26 Gyda'r artistiaid Beacon Garage, Trish Bermingham, Lin Cummins, Wendy Dawson, Tim Dickinson, Glyn Ellis, Nick Elphick, Julia S. Greaves, Lizzie Hughes, Mark Hughes, Anna Jones, Richard Cynan Jones, Patrick Joseph, Judith Bond Cakes, Barry Morris, North Wales Vapour, Pea J. Restall, Miguel Roque, Mike Ryder, Alana Tyson, Alan Whitfield, Wild Horse Brewery, Emrys Williams, Gwyn Williams, Susan Williams, Sandra Wynne







Rhaglen UNIT(e), g39, Caerdydd
Ffynhonnell: g39
The Kitchen, Oriel Davies, y Drenewydd
Ffynhonnell: Event
Nick Elphick, MOSTYN, Llandudno
Ffynhonnell: Event

Mae'r rhaglen £2.5m, a lansiwyd yn 2014, wedi'i chynllunio i ymgorffori'r celfyddydau mewn ffyrdd newydd o weithio sy'n esgor ar gydweithio ar draws sectorau, yn profi syniadau a phartneriaethau newydd ac yn ysbrydoli cymunedau i ailddychmygu eu hamgylchedd mewn ffordd greadigol a grymus. Derbyniwyd 29 o geisiadau wrth lansio'r cynllun a derbyniodd saith prosiect grant tair blynedd, a'r rheiny'n cynnwys: :

- Confluence – dyma gydweithredu creadigol rhwng Planed, SpacetoCreate, Idea Architects, Trawsnewid Hwlfforddd a Chyngor Sir Benfro. Mae'n ailddychmygu porthladd hynafol Hwlffordd i fod yn dref farchnad fywiog ac arbennig, wedi ei hailgysylltu â'r afon, yn llawn bywyd, ac yn llawn egni creadigol ei phobl.

- Mae Celfyddyd a Chrebwyll yn rhaglen gelfyddydol adfywiol newydd ym Mlaenau Gwent sy'n canolbwyntio ar gymdogaethau sy'n rhan o dai cymunedol niferus Tai Calon, landlord cymdeithasol mwyaf yr ardal;

- Mae Celfyddyd Ond Nid Felly yn brosiect adfywio cymunedau ym mhentrefi Pen-y-graig, Trebanog a'r Porth. Wedi'i leoli yn Rhondda Cynon Taf, mae'r prosiect yn bartneriaeth tair blynedd o hyd rhwng Trivallis (un o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mwyaf Cymru), Valleys Kids ac Artes Mundi. Ei nod yw gosod celfyddyd wrth galon adfywiad y gymuned. Mae'r prosiect wedi gwahodd artistiaid i weithio gyda chymunedau i archwilio eu hamgylchedd mewn ffyrdd creadigol a diddorol; mae hyn wedi arwain at ddatblygu celf gyhoeddus yn ogystal â dulliau newydd o roi gwelliannau adfywio ac amgylcheddol ar waith.

Fel y disgrifiodd Paul Haywood, Deon Rhaglenni Academaidd ym Mhrifysgol y Celfyddydau, Llundain: Central Saint Martins, ac Athro Gwadd mewn Ymgysylltiad Cymunedol Creadigol ym Mhrifysgol Salford, mae Creu Cymunedau Cyfoes yn dwyn ynghyd ystod eang iawn o bobl a safbwyntiau:

"*Fel unigolion, efallai bod ganddynt unrhyw un o nifer o rolau mewn bywyd; artist, dylunydd, entrepreneur diwylliannol, curadur, rheolwr prosiect, datblygwr, busnes lleol, actifydd, eiriolwr cymunedol, addysgwr – â'r rhestr ymlaen, ond maent i gyd yn ymwneud â lle a rennir mewn amser. Efallai bod ganddynt gymhellion sy'n amrywio'n fawr ond maent wedi creu cymuned sy'n ofalus o gyd-werthoedd sy'n disgrifio'r ddynoliaeth ac yn darlunio'r agweddau gwell ar y natur ddynol mewn perthynas â 'lle'. Mae'r fenter hon a'r gwaith hwn o feithrin cymunedau ffres o bwrpas wedi bod, ac yn dal i fod, yn eiliad o newid. Dyna oedd ei fwriad gwreiddiol. Ond mae hwn yn newid heb drawma, nad yw'n gyflym, mae'n gymedrol ac yn esblygol."*[27]

Yn ystod yr ymgynghoriadau, awgrymodd rhai nad oedd y drafodaeth ar y celfyddydau gweledol yng Nghymru *"yn ddigon beirniadol"*, oherwydd bod y sector yn fach a bod cysylltiadau personol rhwng artistiaid. Awgrymodd rhai fod hyn yn arwain at *"gorddi gwaith cyffredin"*.

*"Mae Cymru yn lle bach. Mae pawb yn adnabod ei gilydd yn rhy dda. Os yw rhywun yn dweud nad ydyn nhw'n hoffi gwaith celf, mae cystal â dweud nad ydych yn eu hoffi nhw."* **Artist sefydledig**

Cynlluniwyd rhaglenni fel WARP g39 i ddarparu amgylchedd diogel er mwyn i artistiaid gael adborth beirniadol gydag aelodau tîm g39 neu artistiaid sy'n ymweld. Mae'r sesiynau hyn ar gael i bob ymarferydd celf weledol waeth beth fo'u hyfforddiant blaenorol neu eu lefel academaidd.

Teimlai mwyafrif yr artistiaid a gyfwelwyd ei bod yn bwysig edrych y tu hwnt i'r blwch gwyn traddodiadol a ddynodwyd i fod yn ofod i oriel, gyda rhai artistiaid yn pwysleisio bod yr amgylchedd hwn yn lle llawer mwy heriol i weithio ynddo oherwydd ei hollbresenoldeb a'i ffiniau di-newid. Mynegwyd dyhead amlwg gan lawer o'r artistiaid hynny a gyfwelwyd i gael gofod apelgar, anhraddodiadol sy'n eu galluogi i ymateb i faint, graddfa a naws gwahanol amgylcheddau.

Fel y sylwodd un rhanddeiliad, *"mae artistiaid y byd sydd ohoni yn gweithio yn erbyn cefndir pensaernïol"* ac mae'n rhaid i'r cefndiroedd hyn amrywio.

*Mae'r adeilad yn rhoi siâp i waith artistiaid. Mae'n rhoi canfas gwag ac ysbrydoliaeth iddynt."* **Cyfarwyddwr Oriel**

Gellir gweld hyn, er enghraifft, yng ngweithiau'r artist arbrofol, Andre Stitt sydd â diddordeb ym mherthynas paentiadau â lleoliadau ac amgylcheddau penodol; a Sean Vicary, sy'n gweithio mewn ffordd sensitif i leoedd i archwilio perthynas pobl â'r byd naturiol, lle a thirwedd.

Ni allai'r ymgynghoriad ond crafu'r wyneb ar y rhyngwyneb rhwng y celfyddydau gweledol a'r celfyddydau cymhwysol, a gallai unrhyw gyflwyno graddol ar rannau'r prosiect archwilio hyn yn fwy defnyddiol, o gofio bod presenoldeb cryf o wahanol fathau o gelfyddyd gymhwysol yng Nghymru.

27 Yr Athro Paul Haywood, Creu Cymunedau Cyfoes: "Myfyrdodau ar daith i ddechreuadau newydd', gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru, http://www.arts.wales/arts-in-wales/creu-cymunedau-cyfoes?diablo.lang=cym

**Celf ac Ymarfer Celfyddydol**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Mae tir Cymru ynddo'i hun yn awen ers erioed ac yn unigryw; gall unrhyw oriel genedlaethol newydd fanteisio ar hyn trwy ddarparu mwy o gyfleoedd i artistiaid cyfoes ymateb iddo a gweithio ynddo;

2. Mae'r berthynas symbiotig sy'n esblygu rhwng artistiaid cyfoes, celf a chynulleidfaoedd, yn gofyn cwestiynau pwysig ynghylch y man arddangos/proses y dylid mynd i'r afael â nhw mewn strategaeth genedlaethol ar guradu celf gyfoes ac unrhyw raglen sy'n ymwneud ag adeilad a gofod ffisegol;

3. Mae cynulleidfaoedd celf weledol yr 21ain Ganrif wedi symud o fod yn gwsmeriaid ac arsylwyr goddefol i fod yn grewyr ac yn gynhyrchwyr eu hunain – mae'r ffocws hwn hyd yn oed yn fwy amlwg yng Nghymru. Dylai unrhyw endid celf gyfoes cenedlaethol sicrhau bod cyfleoedd i gynulleidfaoedd fod yn artistiaid, i artistiaid fod yn gynulleidfa, ac annog pawb i gydfyfyrio ar y profiad dynol;

4. Mae artistiaid cyfoes sy'n gweithio yng Nghymru heddiw angen rhagor o blatfformau, a rhai mwy amrywiol, er mwyn dangos eu gwaith (gweler Mannau Arddangos a Storio, tudalen 76). Mae hyn yn cynnwys mannau oriel gelf anhraddodiadol a'r tirwedd, a allai ategu'r mannau sefydliadol traddodiadol;

5. Gellir gwneud y broses artistig yn fwy hygyrch a thryloyw i artistiaid eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol a gall gynnig cyfleoedd ar gyfer deialog agored a beirniadaeth adeiladol am y gwaith;

6. Dylid cynllunio oriel celf gyfoes newydd ar y cyd ag arbenigwyr o sectorau eraill (e.e. mewn Iechyd ac Addysg) er mwyn mynd ati'n ddilys i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â phapurau polisi allweddol eraill gan gynnwys Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth i Hybu Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru (Y Farwnes Kay Andrews OBE, Mawrth 2015).

.





WAGSTAFF'S, arddangosfa Cyfres Hanes ym MOSTYN. Mawrth 2017.
Ffynhonnell: Lin Cummins
W sydd am bapur Wal
Canolfan Grefft Rhuthun 2015-16
Ffynhonnell: Dewi Tannatt Lloyd

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

**Ecoleg Amrywiol y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol yng Nghymru**
Mae ecoleg[28] y celfyddydau gweledol a chymhwysol Gymreig yn amrywiol ac yn esblygu, ac mae'n cynnwys sefydliadau celfyddydol sydd wedi'u hariannu'n gyhoeddus, rhai masnachol a rhai ar lawr gwlad. Mae'r sector wedi'i ymgorffori yn y diwydiannau creadigol sy'n tyfu'n gyflym. Tanlinellodd ein hymgynghoriadau fod y sector hwn yng Nghymru yn dynn ei wead ac yn hanesyddol wedi'i gyfyngu gan ddaearyddiaeth y wlad, gyda dau draean o'r boblogaeth yn byw yn y De. Mae wedi'i nodweddu'n rhannol gan gronfa fach o staff curadurol brwdfrydig, broffesiynol, a chyfleoedd cyllido cyfyngedigv.

*"Mae pawb yn adnabod pawb. Mae Cymru yn gymuned fechan o artistiaid a sefydliadau celfyddydol..."* **Cyfarwyddwr Oriel**

Er bod nifer fawr o ymgynghoreion wedi dadlau neu awgrymu bod Caerdydd yn elwa o grynhoad anghymesur uchel o sefydliadau celfyddydol yn y brifddinas (Ffigwr 4), mae'r map o Gymru (Ffigwr 3) yn dangos bod gwasgariad daearyddol iach o sefydliadau'r celfyddydau gweledol a chymhwysol ledled y wlad.[29]

Mae gan Gyngor y Celfyddydau 67 o sefydliadau yn ei Bortffolio Refeniw ac o'r rhain mae deg wedi'u categoreiddio yn sefydliadau celfyddydol gweledol a chymhwysol. Mae 15 arall yn dod o dan ddosbarthiad Celfyddyd Gyfun ac yn cynnwys rhaglen gelf weledol. Ceir sector sy'n tyfu o gwmnïau bychain dan arweiniad artistiaid sy'n cael eu hariannu gan brosiectau. Mae grwpiau o artistiaid ifanc hefyd wedi dechrau ategu a herio sefydliadau sefydledig.[30]

O'r 100 a mwy o sefydliadau a ddangosir yn y mapiau, mae'r mwyafrif helaeth yn cynnig mynediad yn ddi-dâl i arddangosfeydd parhaol a rhai dros dro.

Mae'r rhan fwyaf hefyd yn cynnig digwyddiadau a gweithgareddau addysgol yn ddi-dâl neu am gost isel i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ariannol neu rai bach iawn i'r gynulleidfa.

Er bod nifer o sefydliadau, megis Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Canolfan Gelfyddydau Chapter a Glan yr Afon, yn hyrwyddo defnydd celf gymysg yn eu safleoedd, eto ychydig iawn o drawsgroesi sydd fel arall rhwng y celfyddydau gweledol a ffurfiau celf eraill. Ar ben hyn, awgryma ein hymchwil nad oes fawr o berthynas, os o gwbl, rhwng y celfyddydau a'r sectorau chwaraeon a hamdden.

Nododd llawer fod y sector yn amrywiol ac yn egnïol ond eto nad yw'n gwneud datganiad cenedlaethol ynghylch y celfyddydau gweledol a chymhwysol, heb sôn am gelf gyfoes:

*"Mae gennym rai o'r organau allweddol ond nid oes gennym galon – mae angen curiad arnom sy'n gelf gyfoes Gymreig."* **Arweinydd Celf**

*"Mae gwahanol fathau o orielau ledled Cymru, ond maent yn orielau rhanbarthol. Does dim byd cenedlaethol."* **Artist**

*"Fel gyda chynghrair pêl-droed, mae angen y lleol, mae angen y rhanbarthol – ac mae angen iddyn nhw fwydo i'r cenedlaethol. Eto mae ein hail gynghrair yn cael trafferthion. Maent yn dod i fyny – ond nid ydynt yn ffynnu."* **Cyllidwr**

*"Mae'n hurt fod cyn lleied yng Nghaerdydd... mae gan weddill Cymru fannau hardd ac mae angen ei gynnwys yn yr ymchwil a'r rhaglen hon hefyd gan fod Cymru wedi'i rhannu'n ddaearyddol Gogledd i'r De. Mae MOSTYN, y Glynn Vivian, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac ati i enwi ond rhai, yn orielau cyhoeddus gwych lle gall artistiaid y wlad hon ddangos a datblygu eu gwaith yn ogystal ag arddangos artistiaid sefydledig rhyngwladol."* **Artist Sefydledig**

Mae'n nodedig nad oedd y mwyafrif helaeth o'r rhai a gyfwelwyd yn disgrifio'r cynnig celf gyfoes bresennol yn Amgueddfa Cymru na'r Llyfrgell Genedlaethol fel oriel gelf gyfoes, er bod y ddau sefydliad yn cadw ac yn arddangos casgliadau celf weledol a chymhwysol gyfoes y genedl.

*"Nid pawb sy'n gwybod mai Parc Cathays yw'r oriel gelf genedlaethol, neu fod ganddi gasgliadau cyfoes."* **Artist**

Ac fel y dywedodd un o'r ychydig a soniodd am y rhain,

*"Mae gennym oriel celf gyfoes genedlaethol yn barod. Mae'n un llwyddiannus iawn. Mae yng Nghaerdydd."*

Bwriada'r ddau sefydliad fynd i'r afael ag uwchgynllun yn ystod y flwyddyn nesaf, felly gellir archwilio ymhellach i'r problemau sydd wrth wraidd pam nad yw'r sector yn cydnabod y cyrff cenedlaethol hyn fel mannau celf weledol gyfoes cenedlaethol.

Mae'n hanfodol nodi, fodd bynnag, er bod

---

28 Defnyddiwyd y gair 'ecoleg' yn hytrach nag economi oherwydd 'it offers a better approach, because it provides a comprehensible overview that does not privilege one type of value – financial value – over others that attach to culture.' 'Culture is often discussed as an economy, but it is better to see it as an ecology, because this viewpoint offers a richer and more complete understanding of the subject. Seeing culture as an ecology is congruent with cultural value approaches that take into account a wide range of non-monetary values.' Er y caiff ei ddefnyddio wrth gyfeirio at ddiwylliant yn y papur hwn, mae hyn yn wir am y celfyddydau gweledol a chymhwysol yn y cyd-destun hwn. Fel yr amlinellir yn John Holden,The Ecology of Culture,
A Report commissioned by the Arts and Humanities Research Council's Cultural Value Project (Ionawr 2015)

29 Er y gwnaed pob ymgais i fapio ecoleg y celfyddydau gweledol yn llawn, sylwer nad yw'r rhestr yn gynhwysfawr, yn enwedig o ran prosiectau celfyddydol bach.
30 Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru, 2015

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

Amgueddfa Cymru yn gartref i'r casgliad celf gyfoes cenedlaethol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac yn cynnal rhaglenni blaengar sydd wedi cael ymateb da, megis Penderfyniad Pwy?, ychydig iawn o randdeiliaid a gyfwelwyd a ystyriai mai Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yw Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru. Oherwydd cyllidebau marchnata cyfyngedig, dywedwyd nad yw'n cael ei farchnata'n ddigonol yn y cyd-destun hwn; mae'r casgliadau cymysg ar y safle yn golygu gwanhau'r cynnig celf gyfoes; ac o ystyried natur yr adeilad a'r casgliadau, ystyriwyd ei fod yn cyd-fynd yn agosach at y cynnig treftadaeth ac amgueddfa.

### Diwylliant Llawr Gwlad sy'n Tyfu

Mae mentrau llawr gwlad, yn enwedig mewn ardaloedd trefol fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam, yn cynnig cyfleoedd i artistiaid y tu hwnt i'r sefydliadau i arbrofi a mentro. Yng Nghaerdydd ei hun mae mwy na 30.

*"Mae yna rai mentrau diddorol i artistiaid fel ArcêdCaerdydd yng ngwaelod Canolfan Siopa'r Frenhines. Maent yn trosglwyddo'r lle i artistiaid – ond o'r llaw i'r genau yw e. Mae'n risg gymharol isel ac mewn man cyhoeddus."*
**Curadur**

*"Mae mwyfwy o artistiaid yn aros yng Nghymru ac yn adeiladu cymunedau llawr gwlad i'w cynnal. Yna gobeithio [byddant yn cyrraedd y] sefydliadau a'r prifysgolion."*
**Artist**

*"Mentrau fel g39… [sy'n dangos bod] yn rhaid i artistiaid greu eu peth eu hunain… [Mae yna] gryn dipyn o fenter a chelf arbrofol yng Nghymru. Weithiau dydyn nhw ddim yn llwyddo i gyrraedd y sefydliad, [ond yn y mentrau hyn] does dim hunanfodlonrwydd."*
**Artist**

Er bod cynnydd mewn arferion cynaliadwy ar lawr gwlad a gweithgareddau amatur sy'n cynnwys pobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig – mae 49,000 o grwpiau celfyddydol amatur yn Lloegr yn unig[31] – cadarnhaodd yr ymgynghoriadau fod artistiaid ifanc sy'n methu â chael mynediad i sefydliadau yn meddu ar feddylfryd agored a pharodrwydd i sefydlu eu sefydliadau eu hunain.

Wrth sôn am Artes Mundi, dywedodd un ymgynghorai…
*"Ni fyddai wedi gallu digwydd yn yr Alban… mae'n adlewyrchiad o'r natur agored a ffresni a pharodrwydd i ddechrau rhywbeth newydd."*
**Newyddiadurwr y Celfyddydau**

Fodd bynnag, mae pryder bod hyn yn deillio o ddiffyg gofod cyfoes,

*"… rydyn ni wedi colli dau le [arddangos]… mae artistiaid yn niffyg unrhyw ddewis arall wedi dechrau gwneud [eu harddangosfeydd] eu hunain."*

31 Hilary Ramsden, Jane Milling, Jenny Phillimore, Angus McCabe, Hamish Fyfe a Robin Simpson, The role of grassroots arts activities in communities: a scoping study (Rhagfyr 2011)

Pwysleisiodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd fod y mentrau hyn dan arweiniad artistiaid yn cael effaith gadarnhaol yn eu cymunedau, gan gynnwys trwy ailbriodoli adeiladau sydd wedi'u gadael yn wag (e.e. yr Hen Goleg yn Aberystwyth) a siopau gwag (e.e. ArcêdCaerdydd a'i ofod prosiect Three Doors Up; UnDegUn yn Wrecsam yn siop JJB Sports gynt, ar ôl i'r cwmni fynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn 2012). Cadarnhaodd yr ymgynghoriadau bod y mentrau hyn wedi'u priodoli i adfywio cymdogaethau a denu newydd-ddyfodiaid i'r ardal. Mae prosiectau o'r fath hefyd wedi galluogi artistiaid i feithrin perthynas uniongyrchol â chynulleidfaoedd lleol, â chyd-artistiaid ac â'r amgylchedd lleol. Gall artistiaid weld beth sy'n apelio at y farchnad gyfoes, ac ymateb yn uniongyrchol.

Caiff y manteision hyn a nodwyd eu hadleisio mewn ymchwil am adfywio diwylliannol dan arweiniad artistiaid.[32]

*"Yng Nghaerdydd mae'n teimlo fel petai yna fwy o artistiaid yn byw ac yn gweithio yn y ddinas, mae yna fwy o orielau annibynnol. Mae'n dod yn fwy hyderus."* **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

Dywedodd rhai ymgyngoreion mai rhan o'r rheswm y mae'r mentrau hyn wedi gallu datblygu yw oherwydd bod Cymru yn dal yn

32 Gweler, er enghraifft, Dan Thomson, Working Paper 48 Culture and regeneration, GLA Economics, What evidence is there of a link and how can it be measured? We can do much more together – it's not so impossible, Pop Up People (2012)





ArcêdCaerdydd, Caerdydd
Ffynhonnell: Event, Chwefror 2018
Oriel Martin Tinney, Caerdydd
Ffynhonnell: ArtRabbit

gymharol fforddiadwy, er bod prisiau rhent wedi codi yng Nghaerdydd, yn sicr yn fwy fforddiadwy na dinasoedd eraill y Deyrnas Unedig. Yn ystod yr ymgynghoriadau, dywedodd rhai artistiaid eu bod yn teimlo bod yn dal angen buddsoddi pellach mewn mannau gweithio newydd:

*"Yr hyn sydd ei angen yw mannau celf fforddiadwy – stiwdios i artistiaid."* **Artist**

Mae stiwdio sawl artist yn eu hystafelloedd sbâr, mewn siediau a garejys.[33] Mae'r mannau hyn yn aml o dan y radar ac fe'u harddangosir yn flynyddol ym Mhenwythnos Stiwdios Agored Caerdydd (a sefydlwyd gan yr artist Richard Higlett ac sydd bellach yn rhan o ŵyl Caerdydd Gyfoes), ac sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd at yr artist ac i stiwdios grŵp dan arweiniad artistiaid (Ffigwr 4).

**Orielau celf masnachol**

Dywedodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd fod twf sector y celfyddydau gweledol yn dibynnu ar ansawdd a bywiogrwydd cyfochrog yn yr ecosystem celf, gan gynnwys mewn ysgolion celf a datblygiad dilynol y farchnad fasnachol.

*"Yn wahanol i Lundain neu Glasgow, nid oes gan Abertawe a Caerdydd sîn fasnachol fywiog, ac mae'r rheiny, ochr yn ochr â sefydliadau, yn hanfodol i yrru marchnad celf gyfoes."* **Arwerthwr Celf Gyfoes**

Prin yw'r farchnad fasnachol i gelf gyfoes yng Nghymru, gydag oddeutu 12 oriel fasnachol yn gweithredu ledled Cymru, gan gynnwys Oriel Martin Tinney (sefydlwyd 1992), Oriel Ffin y Parc (sefydlwyd 2007), Oriel Kooywood (sefydlwyd 2004) a Gallery TEN (sefydlwyd 2010). Tuedda'r rhain i fod mewn ardaloedd trefol, yn enwedig Caerdydd (Ffigwr 4).

*"Dyma i chi'r holl artistiaid hyn a does ganddynt ddim gobaith caneri o werthu unrhyw beth."* **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

Awgrymodd un Athro:

*"Mae artistiaid yn gwrthod derbyn y farchnad a'r syniad o gelf fel nwyddau. Maent yn ei ddefnyddio fel fframwaith i wrthsefyll. Yr eironi yw bod yn rhaid iddynt wneud bywoliaeth. Yn eironig gallwch chi wneud celf sy'n beirniadu'r farchnad."*

Er nad yw craidd yr Astudiaeth Ddichonoldeb Ragarweiniol hon yn archwilio'r farchnad gelf fasnachol, mae ei hanaeddfedrwydd yng Nghymru yn amlwg o'i gymharu â Lloegr, yr Alban ac Iwerddon. Portffolio cymharol fach o orielau celf masnachol sy'n gweithredu ledled Cymru, a rhai wedi awgrymu yn ystod yr ymgynghoriad fod cydberthynas rhwng hyn a'r ecsodus o artistiaid canol eu gyrfa (gweler Cylch Proffesiynol Artistiaid isod) a sylfaen gymharol fach o gasglwyr (a rhoddwyr posibl). Yng ngeiriau un Cyfarwyddwr Oriel:

*"Mae'r sector masnachol ar goll... Mae yma ddiffyg cefnogaeth a haelioni oherwydd bod diffyg casglwyr. Mae'r problemau yn ymwneud â'r celfyddydau gweledol [yng Nghymru] yn deillio o hyn."*

Er na all orielau sy'n cael cymhorthdal cyhoeddus werthu celf yn uniongyrchol, gallant wneud hynny os oes ganddynt fraich fasnachu ar wahân. Mae nifer o sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn gwneud hyn, gan roi mynediad i waith artistiaid byw ac ennill refeniw yr un pryd. Un enghraifft arloesol yw Plas Glyn-y-Weddw, sydd, oherwydd natur gymysg y celfyddydau, yn gymwys i wneud ceisiadau am grantiau cyhoeddus, ar yr un pryd â bod yn oriel fasnachol. Er bod hyn yn bwynt gwahaniaethu, mae hefyd yn her gan nad yw'r oriel yn gallu cystadlu â'r orielau preifat gan fod incwm o werthiannau celf yn talu am y gweithgarwch anfasnachol ar y safle, gan gynnwys arddangosfeydd, gosodweithiau a phrosiectau celf.

Yn ogystal, mae dros 50 o sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Cynllun Casglu arloesol, a sefydlwyd gan Gyngor y Celfyddydau yn 1983. Mae'r cynllun, y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, yn helpu trigolion y DU i brynu gwaith celf a chrefft gwreiddiol gan artistiaid byw trwy gredyd di-log. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cynnwys Galerie Simpson a Gallery TEN yn ogystal â sefydliadau mwy sefydledig megis Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange, Crefft yn y Bae, Oriel Lliw (Canolfan Gelfyddydau Pontardawe) ac Oriel Davies. Mae annog a datblygu casglu personol yn rhan bwysig o strategaeth Cyngor y Celfyddydau i gefnogi artistiaid a gwneud prynu celf a chrefft yn fwy hygyrch.

33 https://www.a-n.co.uk/news/cardiff-open-studios-weekend-more-than-140-artists-across-the-city

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

**Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol yng Nghymru**
**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Er y sefydlwyd casgliad amrywiol a rhanbarthol o sefydliadau a bod mentrau arloesol yn tyfu ar lawr gwlad yng Nghymru, mae bwlch amlwg yn y farchnad am bresenoldeb celf gyfoes sy'n barhaol ac o sylwedd ar lefel genedlaethol.
   *"Mae llawer o grwpiau artistiaid yng Nghaerdydd ac Abertawe, ond dim byd cyfoes ar lefel genedlaethol."* **Artist**
   Mae cyfle, os nad rheidrwydd, i unrhyw ymyriad celf cenedlaethol ategu ac adeiladu ar adnodd ac asedau Cymru, yn hytrach nag ansefydlogi neu anwybyddu'r hyn sydd eisoes yn bodoli.

2. Dylid ystyried cyfleoedd i brynu gwaith gwreiddiol artistiaid sy'n dal yn fyw, gan gynnwys cymryd rhan yn y Cynllun Casglu, wrth ddatblygu unrhyw Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, a hynny er mwyn parhau i gefnogi artistiaid Cymreig a rhyngwladol ac i alluogi pob grŵp cynulleidfa i brynu.

3. Mae cyfle i archwilio'r ffordd y gellid datblygu sector y celfyddydau masnachol yng Nghymru mewn perthynas ag unrhyw sefydliad newydd, gan gynnwys y mecanweithiau a'r mentrau y gellid eu rhoi ar waith.















Canolfan Celfyddydau Chapter, Caerdydd
Oriel Davies, Y Drenewydd
MOMA Machynlleth, Machynlleth
Ffynhonnell: Event, Ionawr 2018

Oriel Mission, Abertawe
Amgueddfa Cymru, Caerdydd
Ffynhonnell: Event, Rhagfyr 2017
Yr Hen Goleg, Aberystwyth
Ffynhonnell: Prifysgol Aberystwyth, 2018




Ffigwr 3: Map cyflenwi yng Nghymru
Ffynhonnell: Event a Bob Gelsthorpe, Ebrill 2018

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

Allwedd:

**Cenedlaethol**

1 Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
2 Sain Ffagan, Caerdydd
3 Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Pont-y-pŵl
4 Amgueddfa Wlân Cymru, Llandysul
5 Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
6 Amgueddfa'r Lleng Rufeinig, Caerllion
7 Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe
8 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

**Annibynnol**

1 Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa
2 MOMA Machynlleth
3 Oriel Plas Glyn-y-Weddw
4 Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod
5 Castell Bodelwyddan
6 Oriel Brondanw, Llanfrothen, Gwynedd
7 Oriel Mwldan, Aberteifi
8 Oriel Q, Arberth
9 Yr Academi Frenhinol Gymreig, Conwy

**Portffolio Celfyddydol Cymru**

1 Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth
2 Oriel Myrddin, Caerfyrddin
3 MOSTYN, Llandudno
4 Oriel Davies, Casnewydd
5 Canolfan Gelfyddydau Pontardawe (Awdurdod Lleol)
6 Canolfan Grefft Rhuthun, Rhuthun
7 Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe (Awdurdod Lleol)
8 Canolfan Gelfyddydau Taliesin, Abertawe
9 Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange, Cwmbrân
10 Artis Cymuned, Pontypridd
11 Peak / Arts Alive, Crucywel
12 Arts Care Gofal Celf Ltd, Caerfyrddin
13 Cyswllt Celf Arts Connection, Llanfyllin
14 Pontio, Prifysgol Bangor, Bangor
15 Galeri Caernarfon Cyf, Caernarfon
16 Celf ar y Blaen/Head4Arts, Abertyleri
17 Oriel Mission, Abertawe
18 Glan yr Afon, Casnewydd
19 Canolfan Ucheldre, Caergybi
20 Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro, Betws
21 Ffotogallery, Penarth

**Ysgolion Celf**

1 Ysgol y Celfyddydau Creadigol, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
2 Ysgol Gelf a Dylunio, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
3 Coleg Celf Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Abertawe
4 Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth
5 Ysgol Gelf a Dylunio, Prifysgol De Cymru
6 Ysgol Gelf Caerfyrddin/Coleg Sir Gâr, Caerfyrddin
7 Academi Gelf Cymru, Crucywel, Powys
8 Coleg Menai, Bangor

**Awdurdod Lleol**

1 Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, Casnewydd
2 Oriel Ynys Môn, Llangefni
3 Storiel, Bangor
4 Tŷ Pawb, Wrecsam
5 Oriel a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc, Tyddewi
6 Amgueddfa ac Oriel Gelf Parc Howard, Llanelli
7 Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog, Powys

**Stiwdios Artistiaid a Llawr Gwlad**

1 Articulture Wales, Esgairgeiliog
2 Oriel Elysium, Abertawe
3 This Project (UnDegUn, Galeri 3B), Wrecsam
4 Cinema & Co, Abertawe
5 Oriel Greenspace, Caerfyrddin
6 Oriel Blodau Bach, New Inn
7 Rhod, Melin Glonc, Drefelin
8 Popty, Lawrenny
9 Colony Projects, Port Talbot
10 Y Lab, Hwlffordd
11 Stiwdio Cybi, Caergybi
12 Bloc, Llanfair Llythynwg
13 Gweithdy Printiadau Abertawe, Abertawe
14 New British Art, Porth-y-rhyd
15 Oriel Rob Piercy, Porthmadog
16 Oriel Bodfari, Dinbych
17 Oriel Tina Holley, Llandudno
18 Oriel Gelf y Bae, Conwy
19 Oriel Alison Bradley – Betws y Coed
20 76m2 (gynt y Kickplate Gallery), Bargoed
21 Yr Ystafell Ddarllen, Maenorbŷr,
22 Oriel Mam's Fridge, Treorci
23 Coed Hills Rural Artspace, Saint Hilari
24 Balaclafa, Caernarfon
25 Studio18, Pen-y-bont ar Ogwr
26 Y Stiwdio (stiwdio Emrys Williams), Llandudno
27 Exist Skatepark, Abertawe
28 Stiwdios Agored Helfa Gelf, Gogledd Cymru

**Orielau Masnachol**

1 Oriel Ffin y Parc Llanrwst
2 Oriel Stryd y Brenin, Caerfyrddin
3 Attic Gallery, Abertawe
4 Oriel Bach Gallery y Mwmbwls, Abertawe
5 Oriel Gorsaf Erwyd, Llanfair-ym-muallt

**Amgueddfeydd Prifysgolion**

1 Oriel y Bont, Prifysgol De Cymru, Pontypridd
2 Oriel ac Amgueddfa yr Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth

**Orielau ar y ffin**

1 IKON, Birmingham
2 Oriel Celf Newydd, Walsall
3 HOME, Manceinion
4 Tate Lerpwl
5 Oriel Gelf Walker, Lerpwl
6 Arnolfini, Bryste
7 Oriel Whitworth, Manceinion
8 The Royal Standard, Lerpwl
9 CBS, Lerpwl
10 Spike Island, Bryste
11 East Bryste Contemporary, Bryste
12 Ymddiriedolaeth Sidney Nolan, Llanandras


Yn ogystal, ceir Comisiynwyr Celf Gyhoeddus, gan gynnwys Stiwdio/Ymateb, ledled Cymru, a Datrys yn y Gogledd Cymru.

Caiff y sefydliadau hynny a nodir i fod yn rhai a ariennir yn gyhoeddus (lliw du) eu sybsydeiddio gan o leiaf un o dair ffynhonnell: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Awdurdodau Lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru.[34] Mae gan Gyngor y Celfyddydau 67 o sefydliadau yn ei bortffolio refeniw ac o'r rhain mae deg yn sefydliadau celfyddydol gweledol/cymhwysol yn unig, rhai wedi'u lleoli mewn adeilad a rhai heb adeilad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu Cymorth Grant o £22.68m yn uniongyrchol i Amgueddfa Cymru ar gyfer 2018-2019.[35] Gan fod yn rhan o gyfanswm buddsoddiad Cymorth Grant y Llywodraeth, mae'r cyllid wedi'i gynllunio 'i ddiogelu diwylliant a darparu gwasanaethau' ac mae'n cynnwys cefnogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru (£10.83m), Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (£580K) a rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru.[36]

34 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn derbyn £31.391m yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i'w ddosbarthu
35 Mae'r cymorth grant i Amgueddfa Cymru wedi cynyddu o £20.8m yn 2016-17 i £21.8m yn 2017-18 a £22.68m yn 2018-19. Mae'r ffigwr ar gyfer 2017-18 yn cynnwys £269,000 a drosglwyddwyd o gronfa prynu sbesimenau'r Amgueddfa (hanerwyd y gronfa ar gyfer 2017-18 i £269,000 o £538,000 yn 2016-17), a hwn wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu staff yr amgueddfa am newidiadau i'w contract ynghylch gweithio dros y penwythnos, a chynnydd ychwanegol am flwyddyn yn unig o £730,000. Er ei bod yn gynnydd bychan o'r flwyddyn flaenorol, mae i lawr o £23m yn 2015-16. Ar y cyfan, mae'r Amgueddfa wedi cael gostyngiad mewn termau real o 33% i'w chyllideb o 2010-15. Y cyllid cyfalaf cynnal a chadw yn 2017-18 yw £4,989,000. Cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru 2016-17, 2017-18 a 2018-19
36 https://gov.wales/newsroom/culture-tourism-sport/2017/170515-45m-welsh-government-funding-to-support-wales-national-cultural-heritage/?skip=1&lang=cy

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol



Ffigwr 4: Map cyflenwi yng Nghaerdydd
Ffynhonnell: Event a Bob Gelsthorpe,
Ebrill 2018

Allwedd

**Cenedlaethol**
1 Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Caerdydd
2 Amgueddfa Cymru Sain Ffagan

**Annibynnol**
1 Canolfan Gelfyddydau'r Gate
2 Oriel BayArt

**Portffolio Celfyddydol Cymru**
1 g39
2 Ffotogallery, Penarth
3 Canolfan Gelfyddydau Chapter
4 Celfyddydau Anabledd Cymru
5 Crefft yn y Bae
6 Artes Mundi

**Ysgolion Celf**
1 Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, Met Caerdydd

**Orielau Masnachol**
1 Oriel Martin Tinney
2 Gallery/Ten
3 Oriel Kooywood
4 Oriel yr Albany
5 Castle Fine Art
6 Siop ac Oriel SHO
7 Whitewall Galleries

**Stiwdios Artistiaid, Llawr Gwlad, Trefnwyr Digwyddiadau a Chyd-gynhyrchwyr**
1 ArcêdCaerdydd
2 Oriel Boiler House Graffiti
3 The Bone Yard
4 The Broadway Drawing Schools
5 Stiwdios Artistiaid Butetown
6 Cardiff Made
7 Gweithdy Print Caerdydd
8 Stiwdio Dorcas Pennyfather
9 Stiwdios Glai Fireworks
10 Stiwdio Ian Smith
11 Stiwdios Inkspot
12 Stiwdio Jacqueline Alkema
13 Stiwdio Jo Berry
14 Stiwdios Artistiaid Heol y Brenin
15 Stiwdio Celf Gain Lynne Cartlidge
16 Gwnaed yn y Rhath
17 Stiwdios Morgan Arcade
18 Oriel Off the Wall
19 Oriel Canfas
20 Stiwdio Philippa Brown
21 Gweithdai a Stiwdios y Printhaus
22 Y Prosiect Marchnad Brint
23 Rabab Ghazoul
24 Stiwdios Red Door
25 Stiwdios TactileBOSCH
26 Three Doors Up
27 Stiwdios Warwick Hall
28 Stiwdio B, Tudor Lane
29 Ruin Cafe
30 Rat Trap
31 Spit & Sawdust
32 Blue Honey
33 Milgi

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

| Sampl o Sefydliadau Celfyddydol a Diwylliannol | Gofod (m2) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm maint y lleoliad | Mannau Cyhoeddus: Casgliadau (Orielau parhaol) | Mannau Cyhoeddus: Casgliadau (Orielau dros dro) | Mannau Cyhoeddus: nid i Gasgliadau (Addysg) | Mannau Cyhoeddus: nid i Gasgliadau (blaen tŷ e.e. cyntedd, siop, arlwyo, awditoriwm) | Ddim yn Gyhoeddus: Casgliadau (stiwdios artistiaid) | Ddim yn Gyhoeddus: Casgliadau (Storfeydd, cadwraeth) | Ddim yn gyhoeddus: nid i Gasgliadau (cefn tŷ, gweinyddol, technegol) |
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth (Prifysgol Aberystwyth) | - | 0 | 335 (+35m wal rydd) | 0 | Gofod wedi'i rannu | 9,000 | 65 | Gofod wedi'i rannu |
| Canolfan Celfyddydau Chapter, Caerdydd | 7,132 | 0 | 375 | 0 | 1,131 | 1,497.25 | 0 | 1,785 |
| g39, Caerdydd | 706 | 0 | 296 | 53 | 60 | 196 | 5 | 96 |
| Glynn Vivian, Abertawe | 2,933.3 | 154.8 | 984 | 123.7 | 322.7 | 0 | 482.7 | 724 |
| Canolfan y Celfyddydau Llantarnam, Cwmbrân | 533 | 150 | 84 | 102 | 130 | 0 | 42 | 25 |
| Mission, Abertawe | 141 | 0 | 57 | 41 | 43 | 0 | 0 | 0 |
| MOMA Machynlleth | - | 0 | 240.89 | 0 | 61.27 | 0 | - | - |
| MOSTYN, Llandudno | 2,000 | 0 | 403 | 43.37 | 374.57 | 0 | 75 | - |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth | 34,998 | 0 | 1,686 | 0 | 1,598 | 0 | 834 | 5,590 |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd | 725.5 (mewn adeilad 5 llawr) | 488 | 21 | 0 | 505 | 0 | 211 | - |
| Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (casgliad ôl- 1900) | 39,953 | 2,584 | 1,495 | 607 | 2,216 | 0 | 850 | Gofod wedi'i rannu |
| Oriel Davies, Y Drenewydd | 563.4 | 0 | 208 | 93 | 54 | 0 | 30 | 121 |
| Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Pwllheli | 3,194 + coetir 12 erw | 3 oriel hanes | 295 | 64.71 | Gofod wedi'i rannu | Flexible space, sqm unavailable | - | Shared spaces |
| Oriel Ynys Môn, Llangefni | 1707.65 | + theatr 250 sedd | Gofod hyblyg, m2 ddim ar gael | - | Gofod wedi'i rannu | 0 | 186.84 | 186.84 |
| Canolfan Grefft Rhuthun | 1,566 | 0 | 287 | 216 | 251 | 342 | 0 | 134 |
| Tŷ Pawb, Wrecsam | - | 0 | 364.25 | 48.59 | 536.29 | 75.06 | 0 | 81.31 |

Ffigwr 5: Sampl anghyflawn o'r sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru, yn dangos natur a maint y lleoliadau
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

**Rhwydweithiau a Phartneriaethau**
Mae partneriaethau celf weledol yng Nghymru ar ffurf cyfnewid gwybodaeth a sgiliau, rhannu casgliadau a rhywfaint o gydguradu. Eto mae cydnabyddiaeth eang gan y sector y gallai'r partneriaethau hyn fod yn fwy strategol, yn fwy rhagweithiol, a bod posibilrwydd eu gwneud yn fwy o faint ac yn fwy dylanwadol.

Roedd y cynllun Cyfoeth Cymru Gyfan–Sharing Treasures yn cefnogi benthyca casgliadau Amgueddfa Cymru, a chasgliadau diweddar o sefydliadau cenedlaethol eraill, i amgueddfeydd lleol ledled Cymru, ond daethpwyd ag ef i ben ar ôl deng mlynedd er gwaethaf gwerthusiad yn 2010-11 oedd yn pwysleisio cryfderau sylweddol y rhwydwaith ac argymhellion clir ar gyfer gwelliant. Derbyniodd y rhaglen gyllideb o £110k yn 2009-10 (wedi cynyddu o £50k mewn blynyddoedd blaenorol). Yn ôl gwerthusiad Cyfoeth Cymru Gyfan, roedd y cynllun yn sicrhau datblygu sgiliau gweithwyr proffesiynol amgueddfeydd, yn cynnig mwy o fynediad i'r cyhoedd i gasgliadau Amgueddfa Cymru a chasgliadau cenedlaethol eraill ac wedi arwain at gyfalaf uwchraddio i gyfleusterau lleol.

Argymhellodd awduron y Gwerthusiad y dylid ehangu'r cynllun i wella hyblygrwydd i leoliadau partner; i alluogi gwahanol lefelau o weithgaredd; ac i sicrhau y defnyddid cyfleusterau uwchraddio i ddiwallu disgwyliadau uwch y cyhoedd yn dilyn buddsoddiad cychwynnol Cyfoeth Cymru Gyfan. Nodwyd bod diffyg capasiti, yn cynnwys amser, sgiliau a gofod, yn rhwystr mawr i atal lleoliadau a gweithwyr proffesiynol rhag cymryd rhan yn y cynllun, yn ogystal â rhwystro Amgueddfa Cymru rhag meithrin rhagor o bartneriaethau.

Cafodd Celf Cymru Gyfan–ArtShare Wales, sef partneriaeth Celf Weledol Amgueddfa Cymru, ei dreialu rhwng 2004 a 2008 a'i ariannu trwy'r cyfnod peilot hyd at 2010 gan Sefydliad Esmée Fairbairn. Rhoddai fynediad i'r casgliadau celf cenedlaethol. Lansiwyd 19 prosiect mewn 10 lleoliad, gan gynnwys Castell Bodelwyddan, Oriel Gelf Glynn Vivian, Oriel Davies, MOSTYN, Canolfan Grefft Rhuthun, Locws Rhyngwladol, Amgueddfa ac Oriel Brycheiniog, Prifysgol Morgannwg, Oriel y Parc, Oriel Portreadau Genedlaethol (Llundain) a benthycwyd dros 400 o wrthrychau celf i nifer o amgueddfeydd ac orielau ledled Cymru.

Mae llawer o sefydliadau hefyd yn weithredol mewn rhwydweithiau allanol i Gymru. Er enghraifft, mae Artes Mundi, MOSTYN a Glynn Vivian yn aelodau o rwydwaith Plus Tate, a sefydlwyd yn 2010 i rannu casgliadau ac arbenigedd a chreu rhwydwaith i ddefnyddio adnoddau Tate i gryfhau ecoleg y celfyddydau gweledol cyfoes yn y Deyrnas Unedig. Mae gan y rhwydwaith 35 sefydliad diwylliannol ymysg ei aelodau. Mae Oriel Plas Glyn-y-Weddw yn bartner yn Ecomuseums (rhwydwaith o 300 sy'n dathlu hunaniaeth lle ac yn anelu at wella lles a datblygiad cymunedau lleol) a Chymdogion Celtaidd (rhwydwaith sy'n gweithio i ysgogi cydweithredu diwylliannol rhwng cymunedau ieithoedd lleiafrifol).

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd y rhwydweithiau hyn gan un Athro:

*"Mewn cyfnodau anodd, naill ai rydym yn cau mewn am ein hunain neu rydym yn estyn allan... mae estyn allan a chydweithio yn reddf i oroesi."*

**Rhwydweithiau a Phartneriaethau**
**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Mae angen partneriaethau mwy rhagweithiol a strategol ac archwaeth i gynnal ymchwil ar y cyd, cynnig eiriolaeth, cydgyflwyno ceisiadau am gyllid a chyfnewid arddangosfeydd ledled sector y celfyddydau gweledol.

2. Mae argymhellion a manteision Cyfoeth Cymru Gyfan a amlinellir yn yr Adolygiad yn dechrau mynd i'r afael â nifer o faterion yn ymwneud â mynediad democrataidd i'r casgliad cenedlaethol, uwchsgilio'r sector a darparu seilwaith o safon uwch yng Nghymru. Dylid ystyried sut y gellid datblygu'r argymhellion hyn wrth ddatblygu unrhyw endid newydd.

**Proffil Cenedlaethol a Rhyngwladol**
Uchelgais gan sector y celfyddydau gweledol yw adeiladu ei broffil yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a sicrhau bod deialog iach a pharhaus yn digwydd ar draws ffiniau'r genedl.

*"Mae'n hynod bwysig bod artistiaid yn rhan o lwyfan y byd."* **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

Mae platfformau mawr eu parch megis Cymru yn Fenis, Artes Mundi a Gwobr Lumen am gelf ddigidol yn ceisio broceru deialog a phartneriaethau rhyngwladol, ac mae llawer o sefydliadau celf weledol ledled Cymru yn datblygu prosiectau gyda

phartneriaid rhyngwladol.

Eto, mae cyfyngiadau yn amharu ar yr uchelgais i sicrhau partneriaethau rhyngwladol, a'r cyfyngiadau hyn yn cynnwys diffyg adnoddau a chapasiti staff; lle annigonol i arddangosfeydd yn atal sefydliadau rhag cymryd rhan yn weithgar yn y gylchdaith ryngwladol, o ran mewnforio ac allforio; diffyg eiriolaeth ar draws y sector neu gysylltiadau strategol â'r wasg genedlaethol; a deunyddiau twristiaeth annigonol, lle nad yw'r celfyddydau yn cael sylw amlwg wrth safleoli Cymru.

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, sef cangen ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhedeg Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol drwy ddefnydd strategol ar gyllid y Loteri.

Yn ystod y cyfnod 2015-18, cefnogodd y gronfa artistiaid gweledol a chymhwysol wedi'u lleoli yng Nghymru mewn 75 o brosiectau cydweithredol mewn 32 o wahanol wledydd. Roedd y prosiectau'n cynnwys celfyddydau gweledol a chrefftau a ffurfiau celf eraill. Y gwariant mewn perthynas â'r prosiectau hyn o 2015 hyd at 2018 oedd £182,345, sef cyfartaledd o £2,430 y prosiect.

Yn 2002 cytunodd Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu presenoldeb Cymreig yng ngŵyl gelfyddydol Biennale Fenis am dair cylch (h.y. am chwe blynedd hyd at ddiwedd 52ain Biennale Fenis yn 2007), ac i gefnogi Gwobr Celfyddydau Gweledol Ryngwladol bwysig newydd, sef Artes Mundi, am dair cylch gwobr (2004-2008). Mae'r ddau blatfform, Cymru yn Fenis ac Artes Mundi, ill dau yn uchel eu parch ac yn parhau heddiw i fod wrthi'n broceru deialog a phartneriaethau rhyngwladol.

Datblygwyd prosiectau Cymru yn Fenis gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r tîm arddangos (sefydliad(au) ac/neu unigolyn(ion)) a ddewisir i wneud y cyflwyniad, ac mae'r prosiectau yn dathlu'r gorau o artistiaid newydd a sefydledig yng Nghymru. Maent yn gyfle i arddangos artistiaid Cymru yn Biennale Fenis, sef arddangosfa celf weledol fwyaf y byd sy'n croesawu tua 500K o ymwelwyr a 24,000 o weithwyr proffesiynol diwylliannol bob yn ail flwyddyn. Caiff Cymru yn Fenis ei gomisiynu a'i reoli drwy bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a'r British Council.

Ers 2003 mae lefel y buddsoddiad yn Cymru yn Fenis wedi codi o £285,000 i gyllideb graidd o £375,000 ar draws y prosiect dwy flynedd.[37] Dros y pymtheg mlynedd diwethaf, mae artistiaid Cymru yn Fenis wedi cynnwys Simon Pope, Laura Ford a Paul Granjon, Richard Deacon, Merlin James a Heather ac Ivan Morrison, Cerith Wyn Evans, Bethan Huws, Paul Seawright, Helen Sear, Bedwyr Williams, Tim Davies a John Cale. Bu i Gyngor Celfyddydau Cymru gomisiynu Ymchwil Arad i gynnal gwerthusiadau ar y rhaglen yn 2008 ac yn 2015. Roedd yr ail astudiaeth, Gwerth ac effaith presenoldeb Cymru yn Biennale Fenis ar sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru (2015) yn dangos effaith bositif Cymru yn Fenis wrth safleoli Cymru ac artistiaid Cymreig, gan ddarparu profiad a chyfleoedd i orielau, curaduron ac artistiaid (a goruchwylwyr o brifysgolion Cymru yn ddiweddar). Mae rhai wedi pwysleisio, er gwaethaf pwysigrwydd y rhaglen hon, y realiti yw bod rhai artistiaid Cymreig a gynrychiolir yn y Biennale wedi arddangos eu gwaith heb fod â deliwr.

37 Tyfodd y gyllideb i £400,000 cyn cael ei ostwng yn ôl i'r £375,000 presennol wrth i Gyngor y Celfyddydau fynd i'r afael â thoriadau.

Arddangosfa ryngwladol eilflwydd yng Nghaerdydd yw Gwobr Artes Mundi, ac fe'i sefydlwyd yn 2002 gan yr artist Cymreig William Wilkins gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru, ac mae llwyddiant y wobr i'w weld yn yr 800 a mwy o geisiadau a ddaeth i law yn 2016 gan artistiaid o fri o 90 gwlad.

Mae'n cynnig gwobr o £40,000 a dyma'r wobr gelf fwyaf i artist celfyddyd weledol unigol yn y Deyrnas Unedig, gyda llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio pwysigrwydd a safon uchel y wobr, a'i bod yn adlewyrchu'n bositif ar uchelgais Cymru. Mae'n nodedig am integreiddio arbenigedd codi arian i'r tîm craidd ar adeg ei sefydlu, ond serch hynny mae'n parhau heddiw i wynebu heriau capasiti tebyg i'w chyfoedion ledled Cymru.

Mae Gwobr Lumen am Gelf Ddigidol yn wobr sy'n mynd ar daith ryngwladol sydd â'r nod o gynyddu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mwynhad o gelf ddigidol. Dywedodd Bruce Wands, aelod o banel beirniadu Lumen, "Mae Gwobr Lumen yn parhau i esblygu ac yn effro i ffurfiau newydd o gelf ddigidol a hunanfynegiant creadigol." Amrywia'r gwobrau o fod yn werth rhwng $250 a $3000 ac ers ei lansio yn 2012, mae wedi talu bron i $45,000 mewn gwobrau ariannol, wedi teithio ar draws y byd bedair gwaith ac wedi llwyfannu dros 30 o sioeau, seminarau a digwyddiadau, gan gyflwyno pobl i'r ddadl a'r amrywiaeth mewn gwaith digidol. Yn ei

phumed rhifyn yn 2016, denodd dros 700 o geisiadau o 45 o wledydd gwahanol ac aethpwyd â chelf dethol ar daith i leoliadau ledled y byd, gan gynnwys Brighton, Llundain, Efrog Newydd, Shanghai, St Petersburg a Chaerffili. Mae amgueddfeydd wedi casglu gwaith nifer o artistiaid Gwobr Lumen; mae artistiaid eraill wedi elwa ar gyfleoedd comisiynu ac arddangos trwy rwydwaith partneriaid Lumen.

*"Mae enw Lumen yn cael sylw ac yn agor drysau mewn ffordd na all fy ngwaith ar ei ben ei hun."*
**Ed Bateman, rownd derfynol Lumen, gwobr Delwedd Lonydd (2014) a gwobr Delwedd Symudol (2016)**[38]

Mae nifer fechan ond arwyddocaol o orielau celf weledol yng Nghymru yn meithrin cysylltiadau unigryw gyda chydweithredwyr dramor yn rheolaidd. Dyfarnodd y Comisiwn Ewropeaidd statws stori *lwyddiant* yn 2017 i Ganolfan Celfyddydau Chapter a Ffotogallery am *"brosiectau gorffenedig sydd wedi disgleirio a rhagori oherwydd eu heffaith, eu cyfraniad at lunio polisïau, eu dulliau creadigol ac/neu ganlyniadau arloesol sydd o bosibl yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i eraill"*. (Dyfarnwyd y statws hwn i 33 prosiect o gronfa o 738 prosiect, gyda dau o'r tri phrosiect yn y Deyrnas Unedig wedi'u lleoli yng Nghymru). Cynhaliodd Oriel Mission yn Abertawe gyfnod preswyl gyda Residency Unlimited yn Efrog Newydd (2016), wedi'i ariannu gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Yn 2017 sefydlodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru bartneriaeth ymchwil gyda Phrifysgol Bangor ar ran Llywodraeth Cymru i archwilio mentrau strategol diweddar, cyfredol ac i'r dyfodol rhwng Cymru a Tsieina; cynhaliodd Pontio ŵyl newydd Cymru-Tsieina ym mis Chwefror 2018.

Er gwaethaf y rhaglenni a'r mentrau pwysig hyn, teimlai llawer o'r ymgyngoreion bod yn dal angen sefydliad Cymreig uchel ei broffil i weithio'n strategol i froceru cysylltiadau rhyngwladol a chryfhau rhagor ar gysylltiadau presennol ledled Cymru. Awgrymwyd gan rai mai'r cyfatebol fyddai'r Modern Institute yn Glasgow, sy'n gweithio gyda 42 o artistiaid sefydledig a datblygol yn yr Alban ac yn rhyngwladol i wneud hynny. Mae prosiectau rhyngwladol diweddar y sefydliad hwn yn yr Alban yn cynnwys partneriaethau gyda Sao Paulo, Beirut, Oslo a San Francisco, a chyhoeddi rheolaidd ar fonograffau a chatalogau arddangos. Er ei fod yn fodel masnachol, mae cyrhaeddiad addysgol ac elfen partneriaeth y sefydliad yn ganolog i'w genhadaeth.





Carlos Bunga, Exodus (2014). Gosodwaith penodol i safle yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Llun drwy garedigrwydd yr artist. Cydnabyddiaeth: Warren Orchard
James Richards a Steve Reinke, What weakens the flesh is the flesh itself, fideo, 2017, wedi'i gysylltu â phrosiect Cymru yn Fenis.
Ffynhonnell: Trwy garedigrwydd yr artist a Chapter; Ffotograffau: Mark Blower

38 https://lumenprize.com/about/

**Proffil Cenedlaethol a Rhyngwladol**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Nod sector y celfyddydau gweledol yw adeiladu ei broffil cenedlaethol a rhyngwladol, ac i sicrhau bod deialog iach yn parhau ar draws ffiniau'r genedl. Yn Artes Mundi, Cymru yn Fenis a Gwobr Lumen, mae sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru wedi sefydlu tair rhaglen gelf gyfoes rhyngwladol a hynod weladwy sy'n denu sylw cadarnhaol ac yn safleoli'r genedl yn llwyddiannus mewn marchnad ddiwylliannol fyd-eang orlawn. Dylid rhannu'r arddangosfeydd hyn yn eang gyda dinasyddion Cymru, o ran y llwyddiant y maent wedi'i gael dramor a'r storïau y maent yn eu hadrodd am gymdeithas a chelf gyfoes.

2. Yn ei dro, gallai prosiectau creadigol eraill yng Nghymru elwa o'r berthynas a'r rhwydweithiau a feithrinwyd gan Artes Mundi, Cymru yn Fenis a Gwobr Lumen, gan alluogi Cymru i arddangos gwaith y genedl yn ehangach dramor. Mae'n amlwg nad oes yma'r capasiti – o ran adnoddau a seilwaith – i allforio a mewnforio rhaglen ryngwladol o fentrau celf gyfoes presennol sy'n tynnu ar gryfderau o bob rhan o'r sector.

*"Collwyd nifer o gyfleoedd wrth i bobl ddod yma i Gymru a dydyn ni ddim yn gallu dod â nhw yn ôl. Rydym am feithrin y cysylltiadau hynny."* **Curadur Rhyngwladol**

3. Mae'r argymhellion na wireddwyd a gyhoeddwyd yng ngwerthusiad 2015 ar Biennale Fenis yn parhau mor berthnasol heddiw â phryd hynny:
   - Datblygu gwell seilwaith i fynd ag arddangosfeydd ar daith, er mwyn dod â'r gwaith yn ôl i Gymru a chyflawni strategaeth i fynd â'r gwaith ar daith ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol;
   - [Mae angen] buddsoddi ymhellach yn seilwaith y celfyddydau gweledol yng Nghymru i gynnal proffil a momentwm y sector a manteisio ymhellach ar yr effaith a gyflawnwyd.

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

**Cylch Proffesiynol Artistiaid**

**Ysgolion Celf**

*"Mae cyflymder twf y diwydiannau creadigol... yn dibynnu ar amgylchedd sy'n annog arloesi ac yn gwobrwyo menter... rheidrwydd hanfodol yw sicrhau bod yna draffordd o dalent greadigol a syniadau gwreiddiol ar gyfer twf economaidd yn ogystal â thwf diwylliannol…*[39]

Er bod y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn tyfu'n gyflym, maent yn dibynnu ar... yr ysgolion celf i'w cyflenwi â'r doniau ffres a fydd yn cadw eu safle felarloeswyr byd-eang.[40] Fodd bynnag, mae toriadau ariannol a ffioedd prifysgol wedi cael effaith andwyol ar ddenu talent. Fel y dywedodd un darlithydd prifysgol yng Nghymru:

*"Mae'r garfan ryngwladol a'r amrywiaeth rydym yn ei gael yn llawer llai ers i ffioedd gael eu cyflwyno. Cyn [cyflwyno ffioedd] caem fyfyrwyr rhyngwladol o bob man; bellach, mae'r myfyrwyr yn dod yn bennaf o gyffiniau Abertawe a De Cymru. Mae hyn wedi newid yr awyrgylch."*

39 Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol a Chyngor Celfyddydau Lloegr, How public investment in arts contributes to growth in the creative industries (2015)

40 https://www.theguardian.com/culture-professionals-network/culture-professionals-blog/2014/may/12/creative-industries-education-mcqueen-ive-emin

| 2017 | Sefydliad |
|---|---|
| 1 | Coleg Prifysgol Llundain (UCL) |
| 2 | Newcastle |
| 3 | Rhydychen |
| 4 | Oxford Brookes |
| 5 | Leeds |
| 6 | Goldsmiths |
| 7 | Kingston |
| 8 | Nottingham Trent |
| 9 | Northampton |
| 10 | Aberystwyth |
| 22 | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |
| 23 | Metropolitan Manceinion |
| 58 | Met Caerdydd |
| 63 | De Cymru |

Ffigwr 6: Prifysgolion celf a dylunio: y 65 safle uchaf yn y Deyrnas Unedig[41]
Ffynhonnell: Canllaw Prifysgolion: Tabl Cynghrair y Celfyddydau (astudio a hyfforddi darlunio, cerflunio, gwneud printiadau a chyfryngau eraill), The Guardian, 2018

41 Sylwer bod meini prawf y Tablau Cynghrair yn wahanol yn dibynnu ar y corff diwydiant sy'n gosod y safleoedd (e.e. cydnabyddir Coleg Celf Brenhinol Llundain gan nifer o dablau cynghrair fel prif brifysgol y celfyddydau a dylunio yn y byd (gweler Ffigwr 7); ond nid yw'n ymddangos yn y Tabl Cynghrair ar gyfer Celf fel y'i lluniwyd gan y Guardian (Ffigwr 6). Mae methodoleg y Gardian yn canolbwyntio ar dablau cynghrair ar lefel pwnc, gan osod sefydliadau sy'n darparu pob un o'r meysydd pwnc, felly nid yw prifysgolion bychain neu arbenigol yn y Deyrnas Unedig sy'n addysgu ystod gyfyngedig o bynciau wedi'u rhestru yn y gynghrair gyffredinol.

| 2017 | 2016 | Safle Byd-eang | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| 1 | 1 | Y Coleg Celf Brenhinol. Llundain | Lloegr |
| 2 | 2 | Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT) | UDA |
| 3 | 4 | Ysgol Newydd Dylunio Parsons, Efrog Newydd | UDA |
| 4 | 3 | Ysgol Ddylunio Rhode Island (RISD) | UDA |
| 5 | 6 | Sefydliad Pratt | UDA |
| 6 | 5 | Prifysgol y Celfyddydau Llundain | Lloegr |
| 7 | 10 | Politecnico di Milano | Yr Eidal |
| 7 | 7 | Ysgol y Celfyddydau, Sefydliad Chicago (SAIC) | UDA |
| 8 | 12 | Sefydliad y Celfyddydau Califfornia | UDA |
| 10 | 8 | Prifysgol Stanford | UDA |
| 11 | 15 | Prifysgol Rhydychen | Lloegr |
| 15 | 11 | Goldsmiths, Prifysgol Llundain | Lloegr |
| 19 | 20 | Ysgol Gelf Glasgow (GSA) | Yr Alban |
| 36 | 38 | Prifysgol Loughborough | Lloegr |
| 49 | 44 | Coleg Dylunio a Chyfathrebu Ravensbourne | Lloegr |

Ffigwr 7: y 50 safle uchaf yn fyd-eang
Ffynhonnell: Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd

Nid yw prifysgolion ac ysgolion celf Cymru wedi'u gosod ar hyn o bryd yn y 50 ysgol celf a dylunio uchaf yn fyd-eang, nac yn y deg uchaf yn y Deyrnas Unedig (Ffigwr 6 a 7), ac yn y blynyddoedd diwethaf, mae dileu'r radd Celf Gain yng Nghasnewydd, er enghraifft, wedi arwain at golli arbenigedd yn y maes.

*"[Mae cysylltiadau sector y celfyddydau gweledol â phrifysgolion] yn faes sydd angen ffocws arno. Mae Prifysgol Caerdydd yn enwog am ei hymchwil ond nid yn y diwylliant gweledol. Mae llefydd fel Casnewydd [a oedd yn] ymchwilio i raglenni dogfen, ffilm a ffotograffiaeth wedi cau lawr. Rydym wedi colli rhywbeth o ganlyniad."* **Artist**

Wedi dweud hynny, cafwyd rhai llwyddiannau yn ddiweddar. Yng nghanllaw prifysgolion y Guardian yn 2018, roedd Aberystwyth wedi dringo 41 safle i fod y 10fed yn y pynciau celf ac mae Met Caerdydd wedi codi o'r 36ain safle yn 2017 i'r 15fed yn y pynciau Dylunio a Chrefftau.[42] Yn sgil agor adeilad £5m Canolfan y Diwydiannau Creadigol ym Mhrifysgol Glyndŵr yn 2011 darperir ar gyfer cannoedd o fyfyrwyr yn flynyddol, gan ysgogi datblygiad busnesau deillio a phreifat sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol.[43]

Mae ein hymchwil wedi cadarnhau bod yna bocedi o arloesedd a rhagoriaeth, gyda rhai prifysgolion yn datblygu rhwydweithiau traws-ddisgyblaethol trwy brosiectau ymchwil rhwng darlithwyr, myfyrwyr a sefydliadau celfyddydol – a'r rhain wrth gwrs heb gael eu hadlewyrchu o bosibl yn y rhestr safleoedd. Er enghraifft mae MOSTYN a Chanolfan Ymchwil Ysgol y Celfyddydau ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi cydariannu doethuriaeth ar y cyfryngau digidol ac amgueddfeydd ac ymgysylltu, sy'n ceisio nodi ffyrdd y mae technoleg ddigidol yn mynd y tu hwnt i strwythurau confensiynol rhaglennu, arddangos ac ymgysylltu.[44]

Mae yna hefyd nifer o artistiaid Cymreig llwyddiannus sy'n gweithio fel darlithwyr yn Ysgolion Celf Cymru, gan gynnwys artist Cymru yn Fenis 2011, Tim Davies, sydd ar hyn o bryd yn Athro yng Ngholeg Celf Abertawe, ynghyd â'r artist traws-gyfrwng, Holly Davey a'r Athro Sue Williams. Mae'r arlunydd a'r artist perfformio, yr Athro Andre Stitt a'r artist traws-gyfrwng, Sean Edwards sy'n artist preswyl ar hyn o bryd yn Sain Ffagan, ill dau yn addysgu yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd ac wedi cynnal rhaglen Warp 2008 yn g39. Mae Sean Edwards yn cynrychioli Cymru yn Fenis yn y 58fed Arddangosfa Gelf Ryngwladol, Biennale Fenis yn 2019.

**Artistiaid Datblygol**
Awgryma ymchwil ansoddol ac ymgynghori fod artistiaid sy'n graddio i'r byd celf ac/neu yn dechrau ar eu gyrfa yn y byd celf yn cael cefnogaeth dda gan seilwaith celfyddydau gweledol Cymru. Cytunai'r mwyafrif helaeth o artistiaid Cymreig yr ymgynghorwyd â hwy fod yna "*gryn gefnogaeth gan orielau i artistiaid datblygol*" a bod "*cyfarwyddwyr a churaduron yn dda ac yn rhwydd mynd atynt.*" Dywedodd llawer y gallent gael gafael ar gyfleoedd gan gyrff megis Cyngor Celfyddydau Cymru i gyllido prosiectau, drwy raglenni megis Dyfarniadau Cymru Greadigol a Chymrodoriaethau Cymru Greadigol, sef rhoi cyllid, gofod ac amser i tua 15 artist (llenorion, cerddorion ac artistiaid cymhwysol a gweledol) i arbrofi'n greadigol ac ymchwilio ar gyfer eu hymarfer yn y dyfodol. Roedd buddiolwyr 2016-17 wedi cynnwys artistiaid megis y ceramegydd Adam Buick, y ffotograffydd a'r artist fideo Richard Billingham, a'r artistiaid traws-gyfrwng Holly Davey, Jeanette Orrell a Rhian Hâf.

Mae sefydliadau celfyddydol hefyd yn cynnig cefnogaeth gref i dalent artistig sy'n datblygu. Er enghraifft, mae Canolfan Grefft Rhuthun yn cefnogi gwneuthurwyr Cymru Greadigol ac yn hwyluso dimensiynau rhyngwladol Llysgenhadon Cymru Greadigol. Mae Rhaglen Adnoddau Artistiaid Cymru (WARP) g39 yn cefnogi gyrfaoedd artistiaid sy'n datblygu ac yn eu hannog i arbrofi a throsi hyn yn rhaglenni arddangos. Mae hyn yn cynnwys yr artist Kelly Best, sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, y mae ei gwaith yn denu diddordeb a sylw o ganlyniad i'w sioe, Sunder yn g39:

[yn trafod gweithiau sy'n datblygu gyda Mark Houghton] *"mi roddodd g39 yng Nghaerdydd y cyfle cyntaf i ni gydweithio yn ystod eu tymor Unit(e). Mi wnaethom ni dreulio deufis yn gweithio mewn amgylchedd arbrofol a hynod rydd, gyda llais anogol a beirniadol artist arall, yn ogystal â'r bobl eraill yn g39."*[45]

Cyflwynodd Glynn Vivian un o'i orielau i Abertawe Agored 2017, sef arddangosfa flynyddol sy'n agored i artistiaid a gwneuthurwyr sy'n byw ac yn gweithio yn Ninas a Sir Abertawe. Mae'r arddangosfa hon yn dangos amrywiaeth eang o weithiau ar draws ystod eang o gyfryngau gan gynnwys paentio, darlunio, cerflunio, ffotograffiaeth, gwneud printiadau a ffilm.

Yn ei haddangosfa Portal 2016, roedd Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange wedi arddangos gwaith graddedigion uchaf y Deyrnas Unedig yn y celfyddydau cymhwysol. Teithiodd y tîm curadurol ledled y DU i ddewis y gorau o raddedigion y flwyddyn honno, gan chwilio am y rhai oedd yn gwthio'r ffiniau ar yr un pryd â chynnal a datblygu traddodiadau eu crefft. Yn rhan *One Year On* yr arddangosfa hefyd daethpwyd â nifer o raddedigion y flwyddyn flaenorol yn ôl i

42 https://www.theguardian.com/education/ng-interactive/2017/may/16/university-league-tables-2018
43 Fourth Street: Experts in Place, Business Plan for OW, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Tach 2015)
44 https://www.mostyn.org/cy/news/cyfle-%C3%B4l-raddedig-curadur-digidol-cyfryngau-chynnwys
45 http://youngartistsinconversation.co.uk/Kelly-Best

ddangos sut mae eu gwaith wedi esblygu ers iddynt orffen eu cyrsiau gradd

### Artistiaid Canol eu Gyrfa

Awgryma tystiolaeth ansoddol fod llawer o artistiaid datblygol yn gadael Cymru erbyn iddynt gyrraedd canol eu gyrfa, gan amlaf yn symud i ardaloedd trefol mwy o faint megis Llundain a Bryste, lle mae mwy o gyfleoedd i arddangosfeydd, cynrychiolaeth mewn oriel a'u gwaith yn cael ei weld. Ar ôl i artistiaid symud o Gymru, anodd yw eu denu yn ôl meddai llawer o'r gweithwyr diwylliannol proffesiynol a gyfwelwyd.

*"Yr arfer yw cefnogi artistiaid datblygol, ychydig iawn mewn gwirionedd sy'n rhoi sylw i'r rhai ar ganol eu gyrfa neu sy'n dod at ddiwedd eu gyrfa."* **Artist**

Er bod ecoleg y celfyddydau gweledol a chymhwysol yn gyffredinol yn ecoleg amrywiol, teimlai artistiaid ar ganol eu gyrfa eu bod wedi dihysbyddu'r cyfleoedd a gynigir gan leoliadau yng Nghymru yn gymharol gyflym.

*"Yng Nghaerdydd ac yng Nghymru mae'n anodd dod o hyd i leoedd i'w llenwi. Mae gan ddinasoedd eraill lawer mwy o orielau 'eiconig'. Mae Caerdydd a Chymru yn ddiffygiol. O safbwynt artist, unwaith rydych chi wedi dangos yn un ohonyn nhw rydych wedi cyrraedd."*
**Artist yng nghanol ei yrfa**

*"Mae artistiaid wedi arddangos ym mhob oriel yng Nghymru bron â bod… mae'n dod yn rhy gul."* **Artist Sefydledig**

Caiff hyn ei waethygu gan y diffyg cyllid digonol:

*"Mae'r cyllidebau arddangos a chynhyrchu yng Nghymru yn gymharol fach, mae arlunwyr Cymreig yn tueddu i orfod gweithio y tu allan i Gymru i wneud gwaith newydd mawr. Yn syml, nid oes digon o gyllid i gomisiynu gwaith newydd mawr o arian cyhoeddus y tu allan i fentrau megis Cymru yn Fenis."*
**Curadur Celfyddydau Gweledol**

Er gwaethaf yr ecsodus hwn a'r cyfyngiadau ariannu, mae'r sefydliadau cenedlaethol yn anelu at gefnogi artistiaid yn y cam hwn yn eu gyrfa. Dangosir y gefnogaeth hon ymhellach ar lefel genedlaethol wrth i'r sefydliadau cenedlaethol, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru fynd ati'n weithredol i gasglu artistiaid a gwneuthurwyr Cymreig. Er enghraifft, roedd arddangosfa Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Bregus? (2015) wedi arddangos comisiynau (gan Ymddiriedolaeth Derek Williams), a ffilmiau cysylltiedig yn dangos y broses o wneud, gan bedwar artist o Gymru, sef Adam Buick, Claire Curneen, Lowri Davies a Walter Keeler, ochr yn ochr â cherameg o'r casgliadau cenedlaethol a benthyciadau gan artistiaid a sefydliadau gan gynnwys y V&A. Fel rhan o'r sioe, comisiynodd Amgueddfa Cymru waith newydd newydd mawr gan Keith Harrison a Phoebe Cummings gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston.

### Artistiaid Sefydledig

Mae nifer o'r artistiaid mwyaf llwyddiannus yn fasnachol, sydd wedi'u geni, yn byw neu'n gweithio yng Nghymru, wedi'u cynrychioli gan orielau y tu allan i Gymru neu wedi symud eu hymarfer y tu hwnt i'r ffin. I enwi ond rhai, caiff yr artist a aned yn Abertawe, Dan Rees, ei gynrychioli gan Oriel Tanya Leighton ym Merlin, lle symudodd cyn symud i Lundain yn ddiweddar; cynrychiolir gwaith Laura Ford, a aned yng Nghaerdydd ac sydd bellach yn Llundain, mewn casgliadau ledled y byd, gan gynnwys rhai yn Tate, V&A a MoMA yn ogystal â'i arddangos mewn amrywiaeth eang o leoliadau yng Nghymru; ac mae'r cwpl Almeinig-Gymreig rhyngddisgyblaethol Manon Awst a Benjamin Walther wedi byw a gweithio ym Merlin a Chymru.

*"Mae artistiaid yn dal i symud i Berlin oherwydd mae yna ymdeimlad creadigol yno, wedi'i sbarduno gan stiwdios rhad ac orielau annibynnol. Mae yna gyfleoedd yno. Nid yw casglwyr wedi'u lleoli yno, ond maent yn gweld bod egni creadigol ac maent yn dod yno o fannau eraill yn y byd."* **Arwerthwr Celf Gyfoes**

Mae ymgynghoriad Event gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol wedi dangos mai dim ond nifer fechan o artistiaid sefydledig profiadol sy'n aros neu'n dychwelyd i Gymru, gan gynnwys Bedwyr Williams a Kevin Sinnott. Ganed David Nash yn Lloegr ac ar ôl astudio ei gwrs celf yn Ysgol Gelf Kingston ymsefydlodd ym Mlaenau Ffestiniog yn 1967 ac yno mae ei stiwdio hyd heddiw. Fe'i cynrychiolir gan Annely Juda Fine Art, oriel yn Llundain.

Dywedodd rhai o'r artistiaid mwy sefydledig yr ymgynghorwyd â nhw eu bod yn dewis dychwelyd i Gymru yn rhannol er mwyn codi proffil artistiaid Cymreig y tu allan i Gymru.

*"Mae artistiaid yng Nghymru yn cael mwy o sylw nag oedd ganddynt 15 mlynedd yn ôl."*
**Artist Sefydledig**


Awgrymodd rhai o'r cyfweleion, wrth ddychwelyd i Gymru, mai lleihau'n sylweddol a wna eu gwelededd fel artist, a'u bod yn cael trafferth cael nifer yr ymweliadau stiwdio, gan werthwyr a chasglwyr, ag y byddent yn ei ddisgwyl.

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

*“Mi wnes i bwynt o symud yn ôl i Gymru. Ond rwyf wedi cael llond llaw o ymweliadau stiwdio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; yn Llundain, byddwn yn cael llawer iawn mwy mewn mis.”*
**Artist Sefydledig**

*“Mae gan Glasgow ysgol gelf wych ac o’i chwmpas datblygodd orielau ifanc i hyrwyddo artistiaid, a’r rheiny wedyn yn cael eu codi ymhellach i ffwrdd.”*
**Arweinydd Celfyddydol**

*“Sut y gall Cymru ddenu artistiaid a phobl greadigol ryngwladol os yw’r artistiaid gorau yn gadael?”*
**Cyfarwyddwr Oriel**




Ffigwr 8: Cylch Proffesiynol Artistiaid
Ffynhonnell: Event, Chwefror 2018





Abertawe Agored 2017: Oriel Glynn Vivian, Abertawe
Shani Rhys James, This Inconstant State, arddangosfa Connaught Brown, Llundain
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

**Cylch Proffesiynol Artistiaid**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Er mwyn sbarduno, meithrin, cadw a denu doniau creadigol newydd i Gymru, mae angen i gylch proffesiynol artistiaid gael ei ddeall yn well ac adnoddau wedi'i ddarparu ym mhob cyfnod allweddol yng ngyrfa artist. Dylai unrhyw Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol newydd gryfhau'r sianel o ddoniau i gael artistiaid proffesiynol Cymreig. Gellid cyflawni hyn orau drwy ddatblygu'r oriel genedlaethol newydd ar y cyd ag ysgolion celf, prifysgolion a rhwydweithiau artistiaid.[46]

2. Byddai artistiaid cyfoes ym mhob cam ar eu gyrfaoedd proffesiynol – wrth ddatblygu, ar ganol eu gyrfa ac wedi hen sefydlu – yn croesawu rhagor o fannau mwy amrywiol i ddatblygu ac arddangos eu gwaith. I rai artistiaid, byddai llwyfannau newydd sy'n eu galluogi i rannu eu proses greadigol yn gyfle atyniadol iawn.

3. Byddai darparu mwy o fannau a chyfleoedd – mewn lleoliadau presennol, lleoliadau anhraddodiadol a'r tirlun – yn helpu i gadw artistiaid o Gymru sydd ar ganol eu gyrfa ac yn sefydledig.

4. Gellid ymchwilio i gyfleoedd i feithrin creadigrwydd yn y rhai nad ydynt yn artist, gan ddefnyddio celf gyfoes fel awen, yn gyfrwng i drafodaethau, neu fan cychwyn.

**Cynnwys a Chasgliadau**

*"Rydyn ni'n sicr am greu rhywle sy'n llawn cyffro wrth ddangos celf gyfoes a modern. Mae pawb sydd eisiau hynny am weld sut mae'r cynllun yn gallu cyd-fynd â'r sefyllfa bresennol, gyda'r orielau sy'n bodoli yn barod yn cynnig arlwy gref yn barod. Ac rydyn ni am fod yn glir ynglŷn â'r berthynas fydd yn bodoli rhwng casgliadau celf a gweithiau newydd. Felly, y prif gwestiwn yw, ai rôl yr oriel newydd yw cynnal arddangosfeydd dros dro gyda ffocws newydd, gwaith newydd a hefyd apêl ryngwladol. Neu, a ydy'r oriel yn mynd i gynnwys casgliad o gelf fodern a chyfoes sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru."*[47]

**Phil George, Cyngor Celfyddydau Cymru**



Tania Bruguera, Tatlin's Whispers #6 (2015). Perfformiad safle penodol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Llun drwy garedigrwydd yr artist.
Ffynhonnell: Getty Images

46 Mae'r manteision o gysylltu hyn yn ffisegol ac yn ddeallusol ag unrhyw endid newydd wedi'u dogfennu'n dda. Yn fwyaf diweddar, gwelwyd hyn wrth ailddatblygu Sgwâr Kings Cross Granary lle mae campws Coleg Sant Martin wedi'i leoli: "Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd yr ysgol gelf. All hi ond bod yn beth da cael myfyrwyr ifanc sydd â diddordeb yn crwydro'r drwy'r safle bob dydd..." (Nathan Brooker) Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylai'r endid newydd fod yn rhan o gampws prifysgol bresennol yn yr un ffordd, er enghraifft, â'r Oriel Wyddoniaeth, Coleg y Drindod, Dulyn, sy'n cynnal rhaglen o arddangosfeydd, gweithdai, digwyddiadau a sgyrsiau gyda golwg ar ddigwyddiadau allgymorth a chydweithredu rhwng celf a gwyddoniaeth. Ond pwysleisiodd rhai artistiaid bod angen i'r oriel gelf gyfoes "gael ei hadeiladu o gwmpas lleoedd sydd â myfyrwyr ifanc a phrifysgolion ac anghenion diwylliannol..." i sicrhau ei bod yn parhau i fuddsoddi mewn talent sy'n dod i'r amlwg.

47 https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/39340436

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

Mae'r casgliad celf cenedlaethol, dan ofal Amgueddfa Cymru, yn cynnwys 46,526 darn gwaith. Mae hyn yn cynnwys 11,614 o waith celf cymwysedig; 32,300 gwaith ar bapur (dyfrlliwiau, lluniadau, printiadau, llyfrau braslunio ac albymau); 1,924 o baentiadau olew; 641 cerflunwaith; 47 o gyfryngau newydd gan gynnwys ffilm a fideo. Mae oddeutu 60% yn weithiau celf fodern a chyfoes (o 1900 hyd heddiw).[48] Yn ogystal, mae 5,149 o eitemau tecstilau, ffrogiau a dodrefn modern a chyfoes perthnasol yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

Mae Ymddiriedolaeth Derek Williams wedi bod yn noddwr ymroddedig ac amlwg i Amgueddfa Cymru ac mae'n parhau i gydweithio'n agos â'r Amgueddfa i gasglu celf gain a chymhwysol ers y 19eg ganrif, gan roi cymorth i'r Amgueddfa brynu celf. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn prynu ar gyfer ei chasgliad ei hun, sydd wedi'i guradu gan Amgueddfa Cymru, ac mae'n cynnwys tua 260 o eitemau a fenthycwyd i'r Amgueddfa, gan gynnwys artistiaid megis David Jones, Henry Moore, Lucian Freud, George Shaw, Howard Hodgkin ac Anthony Caro.


Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Amgueddfa Cymru wedi canolbwyntio ei sylw ar ddatblygu ei chasgliadau celf a chrefft gyfoes, gyda'r bwriad o ymgorffori corff ehangach o waith yn cynnwys gwaith celf cyfryngau cymysg, ffilm, perfformiad a ffotograffig. Ac erbyn hyn mae tua 25% o'r casgliadau celf cenedlaethol gan artistiaid byw. Yn ddiweddar, trwy gefnogaeth y Gymdeithas Gelf Gyfoes yn Llundain, mae wedi cael cerflun neon mawr gan yr artist Cymraeg enwog, Cerith Wyn Evans.

*"Mae'r ffaith nad oedd ei waith wedi'i gynrychioli yng nghasgliad cenedlaethol Cymru wedi bod yn fwlch enfawr y mae'r Amgueddfa wedi bod yn awyddus i'w lenwi ers blynyddoedd lawer. Mae dyfarniad Great Works wedi rhoi cyfle unigryw i ni gael gwaith mawr gan Cerith sydd wedi cael ei ddatblygu'n benodol ar gyfer lle'r Amgueddfa... [mae'n] ychwanegiad ysblennydd i'r casgliad."*[49] **Nicholas Thornton, Pennaeth y Celfyddydau Cain, Amgueddfa Cymru**

Rhoddir yr un pwyslais ar ddatblygu casgliad crefftau cyfoes amrywiol a bywiog, sy'n cynnwys gwaith gan y crochennydd a ddysgodd ei hunan, Phil Rogers a'r crochennydd Beverley Bell-Hughes. Yn fwy diweddar, cafodd y Gymdeithas Gelf Gyfoes ddarnau dethol gan Simon Carroll (1964-2009) ar gyfer Amgueddfa Cymru.

Mae gan y Llyfrgell Genedlaethol hefyd gasgliad trawiadol o gelf gyfoes a modern, a hwnnw'n cynnwys 950,000 ffotograff (800,000 yn gysylltiedig â Chymru) a 60,000 o ddarnau gwaith celf (gan gynnwys 4000 o eitemau wedi'u fframio, 8,000 o eitemau wedi'u gosod a thros 500 o gyfrolau arlunio). Mae'r casgliad yn cynnwys gwaith gan artistiaid adnabyddus megis Augustus John, Gwen John, David Jones, Evan Walters, John Elwyn, Brenda Chamberlain, John Piper, Claudia Williams, Gwilym Prichard. Ochr yn ochr â hyn, mae yna gyfoeth o gynnwys yn yr archif ddigidol, gan gynnwys 150,000 o oriau sain a 7,000,000 troedfedd o ffilm a 250,000 awr o fideo.



*Penderfyniad pwy?* Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Ffynhonnell: Event, Chwefror 2018
Cerith Wyn Evans, Radiant fold (…the Illuminating Gas), Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

48 Mae'r rhagfarn hon yn adlewyrchu'r celfyddydau gweledol yng Nghymru ac oedran y sefydliad – sefydlwyd Amgueddfa Cymru yn 1907 – felly nid oes nifer fawr o ddarluniau Fictorianaidd na rhai'r Hen Feistri o'i gymharu â chasgliadau mawr eraill, megis Oriel Gelf Walker, Oriel Gelf Manceinion, Whitworth ac Amgueddfa ac Oriel Gelf Birmingham.

49 http://www.contemporaryartsociety.org/news/cas-news/major-new-installation-cerith-wyn-evans-unveiled-caerdydd/

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

Gyda'i gilydd mae'r ddau gasgliad cenedlaethol hyn yn rhoi sylfaen gadarn y gall unrhyw Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol dynnu arni. Fodd bynnag, dim ond Amgueddfa Cymru sydd â chylch gorchwyl i gynrychioli amrywiaeth lawn ymarfer artistig cyfoes yng Nghymru (gan gynnwys celf fideo a gosodweithiau) a dyma'r unig sefydliad sydd â chylch gorchwyl i gasglu celf ryngwladol. Pwysleisiodd nifer o ymgyngoreion nad yw mwyafrif helaeth y bobl yng Nghymru yn gweld llawer o'r casgliadau hyn, naill ai oherwydd eu bod yn cael eu cadw yn y storfeydd oherwydd diffyg lle arddangos (fel y trafodwyd yn flaenorol) neu oherwydd na chânt eu dangos yn eang o gwmpas y wlad.

Roedd Casgliad Celf Allgymorth Amgueddfa Cymru – a oedd yn cynnwys dros 500 o baentiadau, lluniau a phrintiau – wedi galluogi plant ysgol Cymru i gael mynediad at wrthrychau amgueddfa waeth ble roeddent yn byw. Fodd bynnag, daeth hwn i ben yn 2011 ac nid yw'r Casgliad bellach ar gael ar fenthyg.

**Datblygu Casgliad Cyfoes**

Fel rheol mae adeiladu a diogelu casgliad yn rhan hanfodol a diamheuol o gylch gwaith oriel gelf genedlaethol. Cafodd pwysigrwydd y swyddogaeth hon, sef casglu a chadw'r enghreifftiau gorau o allbwn creadigol artistiaid diweddar a byw Cymru, ei adleisio yn adroddiad Darpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (2015), a oedd wedi galw am sefydlu sefydliad newydd, Casgliadau Cymru:

*"Dylai Llywodraeth Cymru roi mesurau ar waith i sefydlu Casgliadau Cymru a fydd yn rhesymoli, yn datblygu ac yn diogelu casgliadau sy'n bwysig i hanes a diwylliannau Cymru."*

Er hynny, syndod o bosibl oedd nad oedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon o'r farn y dylai casglu fod yn flaenoriaeth i unrhyw Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Amrywiai'r dadleuon yn erbyn creu casgliad o safbwynt ymarferol ynghylch y costau cyfle (h.y. cost uchel casglu o'i gymharu ag arddangos, neu gasglu o'i gymharu â chreu rhaglenni bywiog sy'n ymgysylltu â chymdeithas) i safbwyntiau mwy athronyddol a chysyniadol (dylai celf gyfoes fod yn fyw, yn perthyn i'r presennol).

Gorfodir llawer o gyrff celf weledol yng Nghymru i fynd i'r afael â'r penderfyniad naill ai/neu hwn yn rheolaidd. Mae heriau presennol o ran capasiti, sy'n cynnwys diffyg amser, arian, adnoddau ac arbenigedd, yn golygu bod yn rhaid i sefydliadau flaenoriaethu a buddsoddi mewn rhaglenni neu adeiladu eu casgliadau – nid y ddau. Nodwyd manteision canolbwyntio ar raglennu cynhwysol fel buddsoddiad gwerth chweil sy'n meithrin cynulleidfaoedd, yn ogystal ag un sy'n cael effaith gadarnhaol yn syth ar yrfaoedd artistiaid byw ac ar eu cymunedau.

Esboniodd un arbenigwr diwylliannol pa mor gaeth yw cyllidebau casglu heddiw:

*"cyn y cyni, roedd cyllideb brynu sylweddol... mewn lleoliadau eraill, does gan yr un ohonynt gyllidebau mawr... Roedd Amgueddfa Casnewydd, [Oriel Gelf] Glynn Vivian yn arfer bod â llawer yn digwydd... sefydlwyd gwobr prynu i Glynn Vivian i gefnogi pryniannau blynyddol... tua £1,500."*

Eto roedd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd yn cydnabod y perygl hirdymor o beidio â chasglu a'r manteision eurgylch i'r sefydliadau hynny sydd yn casglu. Gall casgliad parhaol arwain at *"sail gref gydag amgueddfeydd eraill trwy fenthyciadau a chytundeb cyfnewid"* **Arwerthwr Celf Gyfoes**; sefydliad sydd yn fwy cynaliadwy dros y tymor hir; ac etifeddiaeth mewn celf o'r cyfnod hwn:

*"Os daw rhywun i chwilio mewn 50 mlynedd mae perygl na fydd unrhyw beth yno, neu ychydig iawn beth bynnag. Mae casglu'n hanfodol."* **Curadur Annibynnol**

Dadleuai llawer o'r rhai a gyfwelwyd hefyd fod angen mwy o gyfleoedd i gomisiynu (gwaith newydd), gan bwysleisio natur adweithiol caffael celf sydd eisoes yn bodoli. Byddai comisiynu yn galluogi'r sector i gefnogi'r artistiaid hynny sydd wedi'u geni, yn gweithio ac yn byw yng Nghymru, yn ogystal ag integreiddio gwaith artistiaid rhyngwladol â deialog fyw, gyfredol am y genedl, gyda'r genedl ac i'r genedl, ynghyd â'i chysylltiadau â gwledydd eraill

*"Mae rhagoriaeth mewn celf gyfoes, yn adlewyrchu Cymreictod a dyheadau Cymreig, yn edrych ymlaen i'r dyfodol. Ni ddylai fod yn ymwneud â chasgliadau sy'n bodoli eisoes yma ac acw ledled Cymru, ond ynghylch comisiynu gwaith newydd ac archwilio dulliau dynamig o fynd at gelf. Wedi'i wreiddio mewn rhagoriaeth artistig gyfoes. Dylai fod â safonau rhyngwladol."*

*"Sgil-gynnyrch gweithio gydag artistiaid cyfoes yw'r cyfle i sicrhau caffaeliadau newydd. A oes modd ei weithio i drefniant gyda'r artist?"* **Cyfarwyddwr Oriel**

Yn olaf, dadleuai'r mwyafrif fod y berthynas rhwng casgliad parhaol y genedl ei hun ac arddangosfeydd dros dro sy'n newid yn aml yn gosod Cymru'n llwyddiannus yn y farchnad i dderbyn a darparu ar gyfer arddangosfeydd teithiol rhyngwladol. Yn ei dro a thros amser, mae hyn yn datblygu cynulleidfaoedd celf gyfoes ac yn darparu etifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

*“Dylai man newydd gael casgliad cyfoes – mannau casgliadau ac arddangosfeydd sy’n newid. Mae arnom angen hynny er mwyn cael llwyfan neu blatfform i gelf gyfoes ryngwladol ddod i Gymru, gan fod hynny’n helpu i gyfnewid arddangosfeydd i leoedd eraill. Ar hyn o bryd mae hyn yn dameidiog, wedi’i drefnu gan grwpiau artistiaid.”* **Artist**

**Dehongli Casgliadau**
Dywedodd mwyafrif llethol y rhai a gyfwelwyd fod Cymru’n dioddef o *“lawer o ragdybiaethau yn ymwneud â chelf. Mae’n rhagdybio disgyblaethau’r 19eg ganrif.”*
**Arweinydd Celf**

Dadleuai llawer fod ymarfer cyfoes yn symud i ffwrdd o ddulliau sefydledig ffurfiau celf diffiniedig, ac yn hytrach yn symud tuag at groesawu cyfryngau cymysg, ac mewn rhai achosion, gwaith celf nad oes modd ei gasglu fel petai.

*“Mae celf gyfoes yn cymylu’r ffiniau. Mae’n naturiol yn croesi disgyblaethau. Nid yw’n cael ei ddosbarthu yn ffilm, yn berfformiad, yn gerflun – gall fod y rhain i gyd.”*
**Cyfarwyddwr Oriel**

Yn yr ymchwil ansoddol gwelwyd dyhead i gelf ac artistiaid Cymru gael eu dangos mewn cyd-destun ehangach – y tu fewn i ganon hanes celf a chymdeithas, a thu fewn i’r darlun byd-eang, gan dynnu sylw at ddiwylliant a hunaniaeth y genedl mewn perthynas ag eraill.

*“Rydw i eisiau gweld fy ngwaith mewn continwwm.”* **Artist**

*“Mae cryfder i’w gael mewn dyfnder. Dylem fanteisio ar gryfder celf gyfoes a modern yr Amgueddfa [Genedlaethol]. Mae deialog yn bwysig... mae dyfnder a chyfoeth y ddeialog yn llawer mwy addysgol a diwylliannol os oes gennych chi’r ddau.”* **Arweinydd Celf**

Dywedodd David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru:

*“Mae ein hymwelwyr yn awyddus i gael profiad o waith artistiaid sy’n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw, a gan artistiaid Cymreig sy’n gweithio y tu allan i Gymru.”*

*“Rhaid inni feddwl am gyfuno diwylliannau yn hytrach na diwylliant arglwyddiaethol.”* **Artist**

*“Ni ddylem ganolbwyntio ar y deuol – naill ai hyn neu’r llall (artistiaid Cymreig neu rai tramor, lleol neu ryngwladol.”*
**Cyfarwyddwr Oriel**

Nododd cyfweleion fod Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol mewn sefyllfa dda i archwilio tueddiadau, materion a heriau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach mewn ymarfer celf gyfoes a thrwyddo.

*Yr hyn nad oes ei angen ar Gymru yw siambr atsain i artistiaid Cymreig - artistiaid Cymreig wedi creu celf Gymreig i artistiaid Cymreig…”*
**Curadur**






Storfa casgliadau, Oriel Glynn Vivian, Abertawe
Ffynhonnell: Event, 2017

# Cyflenwi: Ecoleg y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol

**Cynnwys a Chasgliadau**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. O ran unrhyw Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol newydd i Gymru mae dyhead i gael arddangosfeydd celf sy'n barhaol a dros dro er mwyn:
   - arddangos ehangder ac amrywiaeth gweithiau artistiaid sy'n fyw;
   - galluogi arddangos a rhoi mynediad at gasgliadau celf weledol a chymhwysol modern (ôl-1900au) er mwyn datblygu amrywiaeth o naratifau i fynegi, cefnogi ac archwilio celf gyfoes mewn continwwm hirach;
   - cynnwys gwaith artistiaid a chrefftwyr o Gymru, o'r Deyrnas Unedig a ledled y byd, ac annog deialog rhyngddynt.

2. Mae angen darparu mwy o fynediad a mynediad mwy democrataidd i'r ddau gasgliad cenedlaethol ar gyfer y cynulleidfaoedd amrywiol ledled Cymru a sicrhau ei bod yn haws gweld y casgliadau hynny sydd ar hyn o bryd mewn storfeydd. Mae'r casgliadau celf gyfoes wedi dod o bobl Cymru ac ar eu cyfer hwys.

3. Gellid datblygu'r casgliad cenedlaethol ymhellach trwy raglen gomisiynu fwy uchelgeisiol. Byddai rhaglen o'r fath yn arwain at gasgliad sy'n unigryw i Gymru, gan grisialu adeg arbennig yng ngelf a hanes y genedl.

4. Mae casglu'r gorau o gelf a dylunio cyfoes yn sicrhau y cedwir bywyd cyfoes a chreadigrwydd Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

*"Mae'n hynod o bwysig i'r Amgueddfa, ac i Gymru, fod celf gyfoes o Gymru ac o bedwar ban byd – yn boblogaidd ac yn anghyfarwydd – yn cael ei dangos mewn ffyrdd newydd i gynifer o bobl ag y bo modd."*[50]

**David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru**

Nid yw'r amserlen a'r cwmpas ar gyfer yr Astudiaeth hon wedi caniatáu ymchwil marchnad uniongyrchol nac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae canfyddiadau ac argymhellion mewn perthynas â chynulleidfaoedd ac ymddygiad yn seiliedig ar ymchwil eilaidd, ymgynghori â sefydliadau celfyddydol a diwylliannol sydd â gwybodaeth uniongyrchol o'u cynulleidfaoedd, a'n profiad ni yn sector y celfyddydau a diwylliant.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi crynodeb o'r hyn a wyddys am gynulleidfaoedd y celfyddydau gweledol a chymhwysol presennol yng Nghymru ac unrhyw fylchau yn y deunydd hwn. Yn Atodiad 5, ceir rhagor o fanylion am y marchnadoedd allweddol a nodir – sef y farchnad breswyl, ymwelwyr diwrnod o'r Deyrnas Unedig, ymwelwyr sy'n aros o'r DU ac ymwelwyr rhyngwladol – a chyfanswm maint a nodweddion y farchnad. Mae'r prif ffynonellau yn cynnwys Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016 Croeso Cymru ac ystadegau swyddogol a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru.

50 Huw Thomas, Cychwyn trafodaeth ynglŷn ag oriel genedlaethol, BBC (23 Mawrth 2017) https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/39340436)







Peter Finnemore, Signalman, 2004
Ffynhonnell: Peter Finnemore
Laura Ford, arddangosfa Scheffel
Ffynhonnell: Laura Ford
James Richards, Not Blacking Out, Just Turning The Lights Off, 2011-2012
Ffynhonnell: Drwy garedigrwydd yr artist a Chapter; Ffotograffau Mark Blower

> "Ond sut, felly, y mae'r werin a'r miloedd yn mynd i gael mynediad at eu hetifeddiaeth ddiwylliannol? Bydd rhai, ond dim ond rhai, yn gallu teithio'r byd i ymweld â'r holl amgueddfeydd gan fynd ar bererindod i'r cysegrfannau. Dim ond llond llaw o amgueddfeydd, yma ac acw, all fod â chasgliadau sy'n rhyw fath o gynrychioli hyd yn oed rhai elfennau o'r traddodiadau diwylliannol gwych."
>
> **Walter Lippman 'The Museum of the Future', Atlantic Monthly, 1948**

**Cynulleidfaoedd presennol y celfyddydau gweledol a chymhwysol**

Mae ein hymgynghoriadau wedi dangos bod sector y celfyddydau a diwylliant yn rhannu'r farn, ers agor yr Adain Orllewinol a sefydlu Artes Mundi, fod cynulleidfa wedi datblygu i gelf gyfoes a'i bod yn parhau i fod yn sefydlog.[51]

*"Mae Artes Mundi wedi helpu i ddatblygu cynulleidfa gelf gyfoes heb unrhyw wariant cyfalaf... Mae'r gynulleidfa wedi cael ei datblygu gryn dipyn."* **Arweinydd Celf**

Adleisir hyn yn y data sydd ar gael. Yn ôl Arolwg Proffil Ymwelwyr 2015-2016, mae nifer yr ymweliadau ledled saith safle Amgueddfa Cymru wedi parhau yn wastad dros 10 mlynedd, gan fod yn gyfartaledd o 1.6m ymweliad y flwyddyn. Yn sgil agor yr Adain Orllewinol (sy'n gartref i'r casgliad celf gyfoes ac arddangosfeydd celf gyfoes dros dro), gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn 2011-12.

51 Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Mae'r Amgueddfa hon wedi cael cyfartaledd pum mlynedd o 471,744 ymwelydd y flwyddyn, gyda nifer yr ymwelwyr yn 2015-16 a 2016-17 yn tyfu i 490K. Yn ystod 2015-2016, roedd 57% o'r ymweliadau i'r Amgueddfa yn ymweliad drachefn, gydag ymwelwyr yn dod 4.4 gwaith y flwyddyn.[52]

Yn ôl data Amgueddfa Cymru, credai 19% o gyfanswm yr ymwelwyr ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd mai'r gelf, paentiadau ac orielau oedd rhan fwyaf ysbrydoledig eu hymweliad (o'i gymharu ag 21% yn dweud mai'r anifeiliaid/deinosoriaid ydoedd).[53] Adroddir bod nifer yr ymweliadau beunyddiol i orielau celf gyfoes presennol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn oddeutu 450-550 ymweliad y diwrnod, a chanran fawr o'r ymwelwyr dyddiol hyn yn mynychu eu harddangosfeydd celf gyfoes dros dro (Ffigwr 9).

52 Arolwg Proffil Ymwelwyr Amgueddfa Cymru – National Museum Wales 2015-2016
53 Ibid

Mae data o 2015-16 yn dangos bod ymwelwyr â safleoedd Amgueddfa Cymru fel petaent yn well eu byd ers 2012-13, gyda thair gwaith mwy o ymwelwyr yn y demograffig cyfoethog (AB) na DE. Mae'r gyfran hon yn groes i boblogaeth Cymru. Mae ymwelwyr nad ydynt yn wyn wedi'u tangynrychioli yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, o'i gymharu â phroffil ethnig y boblogaeth leol. Byddai'r dadansoddiad cyfredol yn elwa o gasglu data sy'n edrych ar ymweliadau sy'n trawsgroesi â rhannau eraill o'r amgueddfa; cymhellion y gynulleidfa dros ymweld; faint o'r ymweliadau sy'n ymweliadau drachefn â'r orielau celf o'i gymharu ag ymweliadau cyntaf (a'r gwahaniaeth mewn profiad, os o gwbl); ac arolwg poblogaeth er mwyn deall rhwystrau i fynediad yn well.

Ar draws sector y celfyddydau gweledol, ychydig iawn o wybodaeth sy'n dangos tueddiadau a phatrymau traws-leoliad mewn ymddygiad cynulleidfa. Er bod data Amgueddfa Cymru yn dangos bod ymwelwyr 2015-16 wedi ymweld â safleoedd treftadaeth eraill yng Nghymru – gyda'r nifer uchaf o groesi yn digwydd rhyngddynt a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw (sef gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru). Nid oes data ar gael ynghylch ymweliadau croesi rhwng sefydliadau'r celfyddydau gweledol.

# Y Galw: Cynulleidfaoedd

Mae'r data sydd ar gael yn dangos nad oes patrwm cyson wedi bod yn niferoedd ymweliadau â sefydliadau celfyddydol ledled Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf (Ffigwr 10). Pan fu gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â lleoliadau unigol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, gellir esbonio hyn mewn rhai achosion oherwydd cau yn ystod adnewyddu neu adeiladu, er enghraifft Oriel Glynn Vivian[54] a Tŷ Pawb, ac oherwydd cyflwyno tâl mynediad yng Nghastell Cyfarthfa. Yn ogystal, mae'r amrywiant yn nifer yr ymwelwyr ag Artes Mundi yn bennaf oherwydd newid graddfa'r arddangosfeydd. Er enghraifft, yn 2016-17, roedd yr arddangosfa mewn dau leoliad, ond yn 2014-15 roedd wedi'i lleoli mewn tri.

| Enw | Lleoliad | Agor | Cau | Ymweliadau â'r Amgueddfa – pob blwyddyn | Ymweliadau â'r arddangosfa - pob blwyddyn | Cyfanswm Diwrnodau Agored | Cyfartaledd y dydd | % trosi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Artes Mundi 7* | oriel 19-21 | 21/10/2016 | 26/02/2017 | 159,571 | 41,521 | 107 | 388 | 26% |
| *O Bacon i Doig* | oriel 14 | 18/02/2017 | 31/01/2018 | 536,703 | 111,976 | 328 | 341 | 21% |
| *Llun am lun* | oriel 18 | 30/09/2017 | 15/04/2018 | 252,153 | 49,757 | 168 | 296 | 20% |
| *Penderfyniad pwy?* | Adain Orllewinol Uchaf | 28/10/2017 | 02/09/2018 | 292,666 | 77,343 | 215 | 360 | 26% |

Ffigwr 9: Nifer yr ymweliadau i bedair o arddangosfeydd dros dro Celf Gyfoes a Modern Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, 2016-2018
Ffynhonnell: Amgueddfa Cymru, Gorffennaf 2018

Er bod rhai bylchau yn y data sydd ar gael ym mhob un o'r lleoliadau celfyddydol ledled Cymru, ceir rhai enghreifftiau clir o nifer yr ymweliadau yn cynyddu mewn safleoedd allweddol (Ffigwr 10). Mae ffigyrau ymweliadau, wedi'u casglu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn dangos cynnydd yn g39 (2,846 yn 2012/13 yn codi i 4,754 yn 2016/17), Oriel Davies (115,500 yn 2012/13 i 179,031 yn 2016/17), MOSTYN (253,782 yn 2012/13 i 288,227 yn 2016/17) a Ffotogallery (57,285 yn 2014/15 i 93,970 yn 2015/16 a 84,550 yn 2016/17) ymysg eraill.

Mae'n werth nodi bod rhywfaint o'r data hwn yn cynnwys mynychu arddangosfeydd y tu allan i'r lleoliad ei hun; er enghraifft, mae'r amrywio yn niferoedd Ffotogallery yn adlewyrchu'r ymwelwyr i ŵyl Diffusion dros ddwy flynedd, ac mae'r flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys mynychwyr i Diffusion a Chymru yn Fenis ill dau gan i Ffotogallery guradu'r oriel ar gyfer arddangosfa Helen Sear.

Gellir gweld cynnydd yn y nifer sy'n ymweld yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter (85,956 yn 2012/13 i 191,712 yn 2016/17), Plas Glyn-y-Weddw (134,750 yn 1012/13 i 144,221 yn 2016/17) a Chanolfan Celfyddydau Llantarnam Grange (126,577 yn 2012/13 i 151,013 yn 2016/17). Gall y lleoliadau traws-gelfyddydol hyn gynnig arddangosfeydd newidiol, rhaglenni dysgu ac mewn rhai achosion, dangosiadau ffilm ac/neu berfformiadau, yn ogystal â chynnig arlwyo da i ddenu cynulleidfa ehangach a mwy rheolaidd sy'n dychwelyd. Fodd bynnag, nid yw'r data yn dangos ai'r prif reswm dros ymweld oedd yr arddangosfa gelf gyfoes neu'r orielau o gwbl ynteu a oedd hyn ar ddamwain fel petai.

Ffigwr 10: Nifer yr ymweliadau bob blwyddyn mewn sampl o leoliadau celfyddydol ledled Cymru, 2012-2017 (Sylwer nad yw hon yn sampl gyflawn ac mae'n cynnwys ffigyrau bras yn unig. O ran y cyrff ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, mae'r ffigyrau wedi'u codi o Arolygon Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru)
Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru ac Event, Ebrill 2018

54 Roedd y cynnydd dramatig yn nifer yr ymweliadau yn 2014/2015 yn ganlyniad i brosiect sain ledled y ddinas wedi'i gynnal gan Glynn Vivian mewn tafarndai, canolfannau siopa, y farchnad, amgueddfeydd, parciau ac ati.

# Y Galw: Cynulleidfaoedd

| Sefydliad celfyddydol | Nifer yr ymweliadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| Artes Mundi (sawl lleoliad) | 65,000 | amherthnasol | 89,000 | amherthnasol | 73,000 |
| Yr Eisteddfod Genedlaethol | 153,704 | 143,502 | 150,776 | 140,297 | 147,498 |
| MOMA Machynlleth | - | 19,619 | 21,354 | - | - |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru - orielau | 77,500 | 84,530 | 79,545 | 86,406 | 75,208 |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd | 59,399 | 51,084 | 34,582 | 28,259 | 29,373 |
| Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | 477,399 | 448,288 | 446,635 | 491,880 | 494,518 |
| Oriel Myrddin | - | 22,839 | 19,910 | 25,000 | - |
| Plas Glyn-y-Weddw | 134,750 | 127,645 | 140,880 | 123,567 | 144,221 |
| **Sefydliad Celfyddydol ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru** | **Nifer yn mynychu arddangosfeydd** | | | | |
| | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** |
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | 176,824 (cyfanswm y lleoliad 854,978) | 164,138 (cyfanswm y lleoliad 706,181) | 178,198 (cyfanswm y lleoliad 692,382) | 151,883 (cyfanswm y lleoliad 650, 531) | 110,009 (cyfanswm y lleoliad 666,934) |
| Canolfan Celfyddydau Chapter | 85,956(cyfanswm y lleoliad 794,868) | 162,135 (cyfanswm y lleoliad 794,104) | 183,326 (cyfanswm y lleoliad 798,216) | 185,049 (cyfanswm y lleoliad 801,255) | 191,712 (cyfanswm y lleoliad 808,493) |
| g39 | 2,846 | 3,019 | 6,706 | 4,274 | 4,754 |
| Glynn Vivian | 18,140 | 8,805 | 51,884 | 17,048 | 71,750 |
| Llantarnam Grange | 126,577 | 116,865 | 154,129 | 178,142 | 151,013 |
| Mission | 29,584 | 34,133 | 40,813 | 88,676 | 31,386 |
| Oriel Myrddin | 27,493 | 28,217 | 21,899 | 20,982 | 24,141 |
| Canolfan Grefft Rhuthun | 89,069 | 77,747 | 75,419 | 67,352 | 73,608 |
| Ucheldre | 32,872 | 26,642 | 36,486 | 45,295 | 49,334 |
| Pontio | 260 | 260 | 0 | 0 | 0 |
| Pontardawe | 2,160 | 3,240 | 2,880 | 1,080 | 1,800 |
| Oriel Davies | 115,500 | 149,906 | 133,194 | 167,976 | 179,031 |
| MOSTYN | 253,782 | 142,273 | 369,379 | 376,512 | 288,227 |
| Ffotogallery | 87,900 | 71,530 | 57,285 | 93,970 | 84,550 |
| Cyswllt Celf Arts Connection | 12,940 | 18,970 | 14,085 | 4,650 | 2,450 |
| Artis Cymuned | 1,680 | 750 | 2,599 | 4,020 | 791 |

# Y Galw: Cynulleidfaoedd

*“Rydym yn cyfrif niferoedd ymwelwyr drwy gownteri wrth y drws, fodd bynnag, nid yw hyn mor gywir ag y gallai fod. Nid ydym yn defnyddio system ddigidol ac nid ydym yn gwybod pam fod pobl wedi dod.”*
**Cyfarwyddwr Oriel**

Datgela Arolwg Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru (Ebrill 2016 - Mawrth 2017)[55] ar draws 67 safle’r portffolio (ac yn cynnwys arddangosfeydd, dangosiadau ffilm, perfformiadau gan gwmnïau teithiol a pherfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno) cafwyd y niferoedd uchaf yn mynychu arddangosfeydd y celfyddydau gweledol a chrefft, gan gael 1,761,625 yn ymweld. Nid yw hwn yn ffigwr ansylweddol o ystyried bod poblogaeth Cymru tua 3.1m.[56]

Mae crefft a chelf weledol yn parhau i fod y ffurf celf fwyaf poblogaidd i ymwneud â hi, gyda chwarter (25.4%) o oedolion yng Nghymru yn cymryd rhan o leiaf bob blwyddyn.[57] Dyma’r math o gelf a gynyddodd fwyaf o’i gymharu â 2015 (codi 0.8 pwynt canran).[58] Cynhaliwyd 64,058 o sesiynau celf cyfranogol, gydag 1,103,436 yn mynychu’r gweithdai hyn.[59] O’r holl sesiynau celf cyfranogol a gynhaliwyd, roedd 37,953 yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc, tra bod 26,105 wedi’u cynnal fel sesiynau cyfranogol cyffredinol.[60] O’r rhain, roedd 7,543 wedi’u targedu’n benodol at bobl yn y grwpiau Nodweddion Gwarchodedig.[61]

Canfu arolwg blynyddol cyfranogiad a phresenoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru fod *“oedolion 35-44 oed yn fwy tebygol nag unrhyw grwpiau oedran eraill i fynychu digwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn a’r rheiny 65+ a gofnododd y lefel mynychu isaf, sef 60.4%.”*[62] Dengys dadansoddiad 2015-16 Amgueddfa Cymru ymhellach fod pobl ifanc (16-24 oed) wedi’u tangynrychioli ymhlith ymwelwyr unigol, ynghyd â gostyngiad yng nghyfran y teuluoedd â phlant sy’n ymweld â phob amgueddfa. Defnyddiodd Amgueddfa Cymru y data hwn i ddiwygio rhaglen addysg yr Oriel, gan gynnwys trwy recriwtio tîm creadigol i ailwampio Fforwm Curaduron Ifanc a rhaglenni ehangach; gall yr arolwg arfaethedig (2018-19) ddangos newid cadarnhaol yn y ffigyrau hyn.

Heblaw am y data a gesglir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ychydig iawn sydd ar gael, ac eithrio ymchwil yr Audience Agency (data codau post Cymru) o 2012 sy’n dangos ar yr adeg honno fod 18% o’r boblogaeth yn ymweld ag oriel gelf unwaith y flwyddyn, gyda dim ond 1% yn ymweld ag oriel gelf o leiaf unwaith y mis. Fel cyfran o boblogaeth Cymru, mae hyn wedi ei wasgaru’n gymharol gyfartal leded yr holl ranbarthau (Ffigwr 11).

| Rhanbarth Cymru | Wedi ymweld ag oriel gelf unwaith (Oedolion 15+) | Wedi ymweld ag oriel gelf o leiaf unwaith y mis |
|---|---|---|
| De-ddwyrain | 16% | 1% |
| Y Gogledd | 18% | 1% |
| Canol y De | 18.8% | 1.1% |
| Y De-orllewin | 18% | 1% |

Ffigwr 11: Canran y bobl yn ôl ardal sydd wedi ymweld ag oriel gelf
Ffynhonnell: Audience Agency (2012)

55 Arolwg Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru (Ebrill-Medi 2016-17 a Hydref-Mawrth 2017)
56 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
57 Mae’r cwestiwn yn gofyn: "Tua pha mor aml y dyddiau hyn, os o gwbl, ydych chi eich hun yn cymryd rhan yn ystod eich amser hamdden yn y celfyddydau gweledol a chrefftau, er enghraifft paentio, braslunio, graffeg cyfrifiadurol, crochenwaith, turnio pren, gwneud gemwaith, gwehyddu, tecstilau, gwau neu gwnïo.”
58 Arolwg Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru (Ebrill- Medi 2016-17 a Hydref-Mawrth 2017)
59 Ibid
60 Ibid
61 Nodweddion Gwarchodedig fel y’u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cynnwys pobl anabl, pobl o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, plant a phobl ifanc, pobl lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol, menywod beichiog a mamau newydd, pobl â chredoau crefyddol penodol a phobl drawsryweddol. Nid yw’r grwpiau yn llwyr annibynnol ar ei gilydd ac felly gellir cynnwys pobl mewn mwy nag un grŵp.
62 2016 Arolwg Omnibws Cymru: Adroddiad ar y prif ganfyddiadau, Cyngor Celfyddydau Cymru, 2016

# Y Galw: Cynulleidfaoedd

Nid yw'n bosibl datgan yn hyderus bod y ffigyrau hyn gyda'i gilydd yn dangos galw neu ddiffyg galw am gelf gyfoes. Nid yw sector y celfyddydau gweledol yn ei gyfanrwydd yn deall ei farchnad bresennol na'i ddarpar farchnad. Mae ymgynghoriadau ac ymchwil eilaidd ar gyfer yr Astudiaeth hon wedi dangos y canlynol:

- Nid yw rhwystrau at gelf gyfoes yng Nghymru wedi cael eu cymhwyso na'u mesur yn yr ymchwil sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys diffyg marchnata a marchnata cydgysylltiedig rhwng mynediad daearyddol lleoliadau, yr ymdeimlad bod y celfyddydau gweledol yn elitaidd,[63] mwy o gystadleuaeth ar amser hamdden a chodi tâl mynediad;
- Nid oes data sydd ar gael i'r cyhoedd ynghylch y croesi o fewn safleoedd neu rhyngddynt nac am ymwelwyr sy'n dychwelyd. Nid oes fawr ddim gwybodaeth ynghylch y graddau y mae cynulleidfaoedd yn gorgyffwrdd rhwng lleoliadau'r celfyddydau gweledol a sut mae eu presenoldeb yn cymharu â gweithgareddau hamdden eraill, gan gynnwys y gweithgareddau hynny y tu allan i'r celfyddydau (e.e. gêmau cyfrifiadurol, Netflix);
- Nid oes cymhariaeth ar y ffigyrau â maint y boblogaeth (h.y. cyfraddau treiddio) na chymharu â chynghorau celfyddydau cytras yn y Deyrnas Unedig;
- Mae ymchwil twristiaeth gan Lywodraeth Cymru a Chroeso Cymru yn gynhwysfawr ac yn unol â data ehangach y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, prin yw'r data sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ddiwylliannol (gweledol a chymhwysol);
- Nid yw deunyddiau twristiaeth ar hyn o bryd yn hyrwyddo celf gyfoes ac mae hyn yn debygol o gael effaith ar niferoedd ymweliadau a mathau o ymwelwyr.

Yn ystod yr Astudiaeth hon, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn sgwrs â Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW), yn datgan bod anghysonderau yn y data cynulleidfa, gan holi pa mor dda y mae sefydliadau yn deall eu cynulleidfaoedd. Ar hyn o bryd, mae VAGW wrthi'n cynnal prosiect ymchwil i Gyngor y Celfyddydau:

"i weld sut y gellir gwella'r sefyllfa i sefydliadau unigol a'r sector cyfan er mwyn gwneud sector y celfyddydau gweledol a chymhwysol yn fwy gwydn, ymatebol, mentrus a phroffidiol trwy ddefnyddio arloesedd mewn dealltwriaeth am gynulleidfaoedd yn sail i raglenni a marchnata."

Mae'r gwaith hwn wedi codi o bartneriaeth g39 â Golant Media Ventures, fel rhan o gyllid Nesta, Ymchwil a Datblygu Digidol Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, i ddylunio system ar gyfer coladu dealltwriaethau am y gynulleidfa. Bydd y llwyfan yn galluogi sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru i gasglu ac adrodd ar eu data cynulleidfa, sy'n cyfateb i system Mewnwelediad Cynulleidfa Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer lleoliadau sy'n gwerthu tocynnau. Mae hwn yn gam cyffrous.

Mae sector celfyddydau gweledol Cymru yn cydnabod, wrth i'r brodorion digidol dyfu yn oedolion, gyda phŵer prynu a dewis digidol di-dor, mae angen i'r profiad ymweld cyfan (gan gynnwys cyn ac ar ôl ymweliadau) fynd ati i edrych yn rhagweithiol ar gyfleoedd digidol. Mae diffyg gallu ac arbenigedd yn sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru yn golygu mai ychydig o hyblygrwydd sydd yna i arbrofi â chyfleoedd digidol newydd y tu hwnt i wefan weithredol. Wedi dweud hynny, yn ddiweddar cynhaliodd g39 ymchwil i gasglu data cynulleidfa ac mae orielau eraill yn arbrofi ar lefel sefydliadol, gan gynnwys MOSTYN (fel yr amlinellwyd yn gynharach).

Disgrifia adroddiad New Art of Finance gan Nesta fod traddodiad, mewn sectorau eraill, o gael arian cyhoeddus i gefnogi gweithgareddau ymchwil a datblygu sydd â risg iddynt ond sy'n creu mewnwelediadau cymdeithasol gwerthfawr. Fodd bynnag, mae diffyg cyllid ymchwil a datblygu i sefydliadau fynd ati i archwilio modelau newydd o ymgysylltu â'r gynulleidfa, a allai arwain at ffurfiau newydd o werth diwylliannol.[64]



Paul Granjon, Am I Robot, Tymor Gŵyl, MOSTYN. Medi/Hydref 2016. Ffynhonnell: Mark McNulty.

63 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

64 The Art of Finance, Making Money Work Harder for the Arts (Nesta, Gorffennaf 2014)

# Y Galw: Cynulleidfaoedd

### Dysgu Creadigol

*"Wrth wraidd y Chwyldro Diwydiannol yr oedd y stêm a yrrai peiriannau diwydiannol y 18fed a'r 19eg ganrif. Mae stêm yn parhau i yrru'r tyrbinau mewn llawer o'r gorsafoedd pŵer sy'n cynhyrchu'r trydan yr ydym yn llwyr ddibynnol arno. Ond stêm o fath wahanol sy'n pweru chwyldro diwydiannol yr 21ain ganrif – STEAM ar ffurf gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, celf a mathemateg."*
**Syr Mark Walport, Prif Gynghorydd Gwyddonol y Llywodraeth, Times Higher Education (Chwefror 2017)**

*"Rydyn ni'n symud allan o'r economi wybodaeth... rydyn ni'n symud i mewn i economi arloesi, lle mae galw ar ein creadigrwydd fel pobl – dyna lle y byddwn yn gweld gwerth cynyddol yn y gweithle."*
**Frazer Bennett, Prif Swyddog Arloesi, PA Consulting Group, Today Programme, BBC Radio 4 (15 Mai 2017)**

*""… Mewn oes lle gall unrhyw un gynhyrchu unrhyw beth unrhyw le trwy argraffu 3-D, lle gall unrhyw un ddarlledu eu perfformiad yn fyd-eang neu werthu i Tsieina beth bynnag yw maint eu busnes, mae cyfle am gyflogaeth dorfol drwy greadigrwydd torfol."*
**Mark Carney, Llywodraethwr Banc Lloegr, Darlith Roscoe, Prifysgol John Moores Lerpwl (5 Rhagfyr 2016)**

Yn galonogol, mae gwneuthurwyr polisi, orielau ac addysgwyr yn amlwg yn awyddus i annog plant oedran ysgol i ddod mewn i'r orielau ledled Cymru, ac i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digonedd o gyfleoedd i danio a meithrin eu creadigrwydd eu hunain.

*""Mae yna eisoes arlwy celfyddydol a diwylliannol cyfoethog ac amrywiol ar gael ledled Cymru. Yr her yw gwneud hwnnw yn ehangach ac yn fwy perthnasol i ysgolion."* **Yr Athro Dai Smith, Adroddiad ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru, 2013**

Cynigir ystod ddeinamig o gyfleoedd addysgol creadigol ledled Cymru. Mae llawer o'r sefydliadau celfyddydol yn hyrwyddo addysg weledol a'r cyfryngau ac yn gweithio gydag asiantaethau dysgu arbenigol, ysgolion, colegau, prifysgolion a chynlluniau cymorth. Mae'r ymrwymiad hwn i feithrin y genhedlaeth nesaf trwy fynegiant artistig ac arbrofi, ac er na ddylid gwneud hynny er ei fwyn ei hun, yn allweddol i fagu cenhedlaeth o bobl arloesol, greadigol, p'un a ydynt yn dewis proffesiwn yn y diwydiannau creadigol ai peidio.

Gan fod rhaglenni yn cael eu cyflwyno ledled ysgolion Cymru, mae'r ymrwymiad o'r brig i lawr ynghyd ag arbenigedd lleol o'r llawr i fyny yn gosod Cymru ar flaen y gad o ran cynnig addysg greadigol. Byddem yn awgrymu bod hyn yn debygol o fod yn destun cryn eiddigedd gweithredwyr y sector creadigol ac addysgwyr mewn gwledydd eraill lle mae pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) yn cael eu blaenoriaethu dros STEAM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, y celfyddydau a mathemateg).[65] Ys dyweda'r Gynghrair Dysgu Diwylliannol, mae STEAM yn ymwneud â'r cydadwaith hanfodol rhwng gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, celf a mathemateg gan roi'r un parch iddynt

Mae'r rhaglenni sydd â chyrhaeddiad cenedlaethol a lleol yn cynnwys:

- Dysgu'n Greadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015. Ariannir y cynllun ar y cyd gan Gyngor y Celfyddydau a Llywodraeth Cymru, ac mae'n ymgorffori creadigrwydd a'r celfyddydau i fod wrth wraidd dysgu trwy ddau faes gweithgaredd cysylltiedig, sef cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan. Caiff Ysgolion Creadigol Arweiniol yr offer a'r adnoddau i 'feithrin a datblygu creadigrwydd dysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial, yn tyfu'n unigolion cyflawn ac yn cael eu paratoi â'r sgiliau ar gyfer bywyd';[66]

- Mae Criw Celf yn gorff ledled Cymru gyfan sy'n cynnal dosbarth meistr i blant sydd wedi dangos dawn ac/neu ddiddordeb arbennig mewn celf, er mwyn datblygu eu sgiliau a'u profiadau. Gan fynd ati'n ddychmygus i ehangu dealltwriaeth plant o'r diffiniad o beth yw celf a beth y gall fod, mae plant yn creu ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol mewn orielau a safleoedd penodol. Cafodd y rhaglen ei chreu a'i threialu'n wreiddiol gan Gyngor Gwynedd yn 2007, gan ei ehangu'n strategol, ac erbyn hyn mae'n gweithredu modelau pwrpasol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau, gan gynnwys holl awdurdodau lleol y gogledd (Gwynedd, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Sir Ddinbych, Powys, Ynys Môn) a Chanolfan Grefft Rhuthun, Peak (De Powys), Oriel Davies (Gogledd Powys), Oriel Mission (Sir Gaerfyrddin), Llantarnam Grange (Torfaen), Actifyddion Artistig (Caerdydd) a Chastell-nedd Port Talbot. Darperir y cyllid gan awdurdodau lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru;

65 STEM vs. STEAM: How the sciences and arts are coming together to drive innovation, (The Independent, 25 Mai 2016); STEAM: Why Stem Can Only Take Us So Far, Cultural Learning Alliance Briefing Paper No. 1, Cynghrair Dysgu Diwylliannol a Nesta (2017)
66 Llawlyfr y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Hydref 2015)

- Bu i brosiectau allgymorth Ffotogallery Cymru gydag ysgolion a grwpiau cymunedol gyrraedd dros 6,000 o gyfranogwyr y flwyddyn;[67]
- Yn ystod 2016-17 bu i Ganolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange hwyluso 507 o weithdai a sesiynau addysgol cyfranogol yn y ganolfan ac mewn lleoliadau eraill fel rhan o'u rhaglen allgymorth ac yn ystod y flwyddyn bu 5,806 o bobl yn rhan yn eu rhaglen addysge.

**Marchnad bosibl twristiaeth ddiwylliannol**

Ar y cyfan cynyddu o 15% wnaeth nifer yr ymweliadau â Chymru yn 2016 o'i gymharu â 2015 – gan adeiladu ar y twf yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod nifer y twristiaid sy'n dod i mewn i Gymru wedi codi 12%, sef i 856,000 yn naw mis cyntaf 2016 a dyma'r cynnydd mwyaf yn y Deyrnas Unedig.

Gan fod ymwelwyr yn gwario tua £14m y dydd yng Nghymru, sef tua £5.1 biliwn y flwyddyn, mae'n amlwg bod twristiaeth yn rhan bwysig o economi Cymru. Mae uchelgais i gynyddu'r enillion a wneir drwy dwristiaeth yng Nghymru o 10% neu fwy erbyn 2020.[68]

67 David Drake, Ymchwiliad i Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru, CC(3) AC 36 Ymateb gan Ffotogallery Cymru (23 Medi 2010)

68 Llywodraeth Cymru, Strategaeth Twristiaeth 2013–2020: Partneriaeth ar gyfer Twf, Llywodraeth Cymru, 10

Gan fod cymysgedd o dreftadaeth, diwylliant a chefn gwlad yn rhan annatod o brofiad yr ymwelydd, mae Cymru wedi parhau i fod yn gyrchfan bwysig i ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. Bydd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn dod i gysylltiad â diwylliant Cymru yn ystod eu teithiau (yn bennaf mewn car) – naill ai trwy ymgysylltiad generig (ymdeimlad o le, iaith, bwyd a diod lleol, crefftau a cherddoriaeth), neu drwy ymweliadau penodol ag atyniadau treftadaeth a diwylliannol. Mae'r cynnig diwylliant a threftadaeth yn cyfrannu'n sylweddol at economi ymwelwyr Cymru. Yn 2011 (y data diweddaraf sydd ar gael), gwariwyd £146m ar wyliau oedd â diwylliant yn brif weithgaredd y gwyliau, a gwariwyd £590m ar wyliau lle gwnaed gweithgaredd diwylliannol fel rhan o'r gwyliau.[69]

Roedd safleoedd Cadw wedi elwa o'r cynnydd mewn ymwelwyr yn 2016, gan groesawu 1.4m o ymwelwyr i'w safleoedd sydd â staff – cynnydd o 8% ar y flwyddyn cynt a blwyddyn orau'r corff treftadaeth.[70] Mae'r ffigyrau twristiaeth a gyhoeddwyd gan Croeso Cymru, sef y corff twristiaeth cenedlaethol, yn nodi bod celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ymhlith adneuon cyfoethocaf Cymru o ran cyfoeth a chyflogaeth.

69 http://www.arts.wales/advice/advocacy-toolkit/agendar-llywodraeth?diablo.lang=cym

70 https://gov.wales/newsroom/culture-tourism-sport/2017/170601-tourism-experiences-further-growth-in-2016/?skip=1&lang=cy

Mae Croeso Cymru wedi datblygu hunaniaeth brand Cymru sy'n unedig, cyfoes ac yn seiliedig ar ei thirwedd, gan ganolbwyntio ar naratifau am fynyddoedd, arfordiroedd, cestyll a chwaraeon. Nodir treftadaeth a diwylliant yn ffocws allweddol ar gyfer buddsoddi yn y cynnyrch twristiaeth ac fel ffordd o adeiladu naratif Cymru. Amlinellir bod yna:
*"gyfleoedd i gyfoethogi profiad yr ymwelydd â'n hatyniadau treftadaeth, amgueddfeydd a chanolfannau diwylliannol gan ddiogelu'u llwyddiant."*[71]

Mae'r diwygio ar y strategaeth a hunaniaeth brand Cymru wedi cael ymateb da[72] ac mae Ffordd Cymru, sef ymgyrch Croeso Cymru a lansiwyd ar ddechrau 2018, yn arddangos tirwedd trawiadol Cymru a'i hasedau hanesyddol, lleoedd i aros a bwyta. Fodd bynnag, mae diffyg aliniad trawiadol iawn rhwng twristiaeth ddiwylliannol a buddsoddiad strategol Croeso Cymru yn y sector, a'i ymgyrch farchnata newydd, Ffordd Cymru.[73]

Mae'r tri llwybr (Ffigwr 12) sydd yn ymgyrch Ffyrdd Cymru ond yn nodi tri sefydliad celf weledol sefydledig (Oriel Ynys Môn, Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa ac Oriel a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc) ar y map (o oddeutu 140 o'r holl lefydd a restrir). Eto, mae dros 25 o sefydliadau celfyddydol sefydledig ar y llwybrau hyn neu gerllaw (Ffigwr 13). Yn fwy cyffredinol, ac yn tanlinellu strategaeth yr adran, mae gwefan Croeso Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r tirwedd, chwaraeon a chestyll. Rhaid i ddefnyddwyr sy'n chwilio am wybodaeth am y celfyddydau glicio o leiaf bedair gwaith cyn cyrraedd unrhyw gynnwys sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau gweledol. Yn ystod yr astudiaeth hon nodwyd y diffyg celf gan y partïon perthnasol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, MALD a Croeso Cymru. Mae cyfleoedd ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â hyn yn debygol o gael eu hystyried.[74]

Amcanion brand Cymru yw *"codi ein statws, rhyfeddu ac ysbrydoli, newid canfyddiadau, gwneud pethau da a bod yn ddigamsyniol Gymreig."* Y gwerthoedd yw *"creu, casglu a dathlu Cymru sydd ar yr un pryd yn ddilys, yn greadigol ac yn fyw."*[75] Mae'r rhain oll yn berthnasol i unrhyw endid celf gyfoes newydd.


71 Llywodraeth Cymru, Strategaeth Twristiaeth 2013–2020: Partneriaeth ar gyfer Twf, Llywodraeth Cymru, 22

72 Llywodraeth Cymru, Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013 – 2020, Adolygiad o Gynnydd y Strategaeth (Tach, 2016), 12

73 http://www.fforddcymru.cymru/

74 Fel y trafodwyd â'r Gweinidog, yr Arglwydd D Elis-Thomas

75 https://cymruybrand.com/




Ffigwr 12: Ffyrdd Cymru/Wales Ways
Ffynhonnell: Croeso Cymru ac Event, Ebrill 2018

# Y Galw: Cynulleidfaoedd

| Sefydliadau Celfyddydol | | Ffordd Cymru |
|---|---|---|
| 1 | Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | Ffordd yr Arfordir |
| 2 | Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth | Ffordd yr Arfordir |
| 3 | Oriel a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc, Tyddewi | Ffordd yr Arfordir |
| 4 | Oriel Glyn-y-Weddw, Pwllheli | Ffordd yr Arfordir |
| 5 | Oriel Brondanw, Llanfrothen, Gwynedd | Ffordd yr Arfordir |
| 6 | Oriel Mwldan, Aberteifi | Ffordd yr Arfordir |
| 7 | Oriel Q, Arberth | Ffordd yr Arfordir |
| 8 | Galeri Caernarfon Cyf, Caernarfon | Ffordd y Gogledd |
| 9 | Oriel Ynys Môn, Llangefni | Ffordd y Gogledd |

| Sefydliadau Celfyddydol | | Ffordd Cymru |
|---|---|---|
| 10 | Pontio, Bangor | Ffordd y Gogledd |
| 11 | Yr Academi Frenhinol Gymreig, Conwy | Ffordd y Gogledd |
| 12 | Canolfan Grefft Rhuthun, Rhuthun | Ffordd y Gogledd |
| 13 | Storiel, Bangor | Ffordd y Gogledd |
| 14 | Canolfan Ucheldre, Caergybi | Ffordd y Gogledd |
| 15 | Tŷ Pawb, Wrecsam | Ffordd y Gogledd |
| 16 | Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | Ffordd Cambria |
| 17 | Chapter, Caerdydd | Ffordd Cambria |
| 18 | Crefft yn y Bae, Caerdydd | Ffordd Cambria |
| 19 | g39, Caerdydd | Ffordd Cambria |
| 20 | MOSTYN, Caerdydd | Ffordd Cambria |

| Sefydliadau Celfyddydol | | Ffordd Cymru |
|---|---|---|
| 21 | MOMA Machynlleth | Ffordd Cambria |
| 22 | Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful | Ffordd Cambria |
| 23 | Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod | Ffordd Cambria |
| 24 | Ffotogallery, Penarth | Ffordd Cambria |
| 25 | Oriel Gorsaf Erwyd, Llanfair-ym-muallt | Ffordd Cambria |
| 26 | Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog, Powys | Ffordd Cambria |
| 27 | Oriel Davies, Y Drenewydd | Ffordd Cambria |

Ffigwr 13: Sefydliadau celfyddydol ar Ffordd Cymru
Ffynhonnell: Event, Mawrth 2018

**Cynulleidfaoedd**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Mae twristiaid diwylliannol yn farchnad barod, heb ei chyffwrdd y dylid gwneud y mwyaf ohoni. O gofio poblogaeth fach Cymru ac agosrwydd marchnadoedd trawsffiniol Gorllewin Canolbarth Lloegr a'r cyffiniau, byddai manteision i ddwyn ynghyd y sectorau diwylliannol a thwristiaeth, yn ogystal ag asiantaethau'r llywodraeth a'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, nid yn unig yn helpu i gyflawni Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth 2013-2020 yn y tymor byr, ond byddai hefyd yn cynnig cefnogaeth estynedig i'r sector celfyddydau gweledol a chymhwysol, trwy ennyn diddordeb, cynyddu'r niferoedd sy'n ymweld a chynhyrchu incwm.

2. Dylai Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol gynnig profiad sy'n unigryw i Gymru, un na all twristiaid ei gael yn unlle arall. Yn arbennig, dylai'r profiad dynnu ar asedau allweddol y genedl: y tirwedd Cymreig trawiadol, yr iaith a'r dreftadaeth gymdeithasol a diwydiannol unigryw, y byd celf – ecosystem amrywiol a neilltuedig y celfyddydau gweledol, y gweithgareddau artistig uchel eu proffil (gan gynnwys Artes Mundi, Cymru yn Fenis, yr Eisteddfod Genedlaethol), prosesau ac arferion artistig sy'n ymgysylltu â'r gymdeithas a'r diwydiannau creadigol sy'n tyfu'n gyflym, yn ogystal â'r cymunedau Cymreig amrywiol ym mhob ardal.

3. Y cynulleidfaoedd allweddol ar gyfer unrhyw endid celf gyfoes cenedlaethol newydd, yn ôl data meintiol, fyddai teuluoedd, pobl ifanc a chyplau o Gymru, o'r Deyrnas Unedig a thramor sy'n dod ar deithiau undydd ac ar wyliau. Serch hynny, nid yw'n glir beth yw cymhellion, disgwyliadau a dymuniadau cynulleidfaoedd o ran Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yng Nghymru. Rhaid cynnal ymchwil a dadansoddiad pellach ar y farchnad ledled y wlad er mwyn deall yn llawn y gynulleidfa bresennol a darpar gynulleidfa i'r endid cenedlaethol newydd. Dylai'r ymchwil hwn:

- nodweddu a segmentu cynulleidfaoedd presennol a photensial – gan gynnwys preswylwyr ac ymwelwyr; mesur y farchnad twristiaeth ddiwylliannol bresennol ac un bosibl;
- galluogi sefydliadau i safleoli eu hunain yn unigol ac ar y cyd i dargedu marchnadoedd; archwilio a disgrifio'r galw am ganolfan genedlaethol i gelf gyfoes;
- rhoi gwybodaeth i'r model gweithredu ac ariannol sylfaenol ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb;
- sicrhau y gellir cymhwyso canlyniadau i fentrau eraill;
- darparu sgiliau datblygu wrth gynllunio, cyflwyno a dadansoddi ymchwil;
- meithrin ymrwymiad i unrhyw gysyniad os yw'r astudiaeth yn symud yn ei blaen.

4. Mae cyfle i unrhyw fodel newydd ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol gyfuno atyniadau celfyddydol sydd dan do ac yn yr awyr agored, ac sy'n cysylltu'n agos â'r gwahanol gymunedau yng Nghymru a'r ymdeimlad cyffredinol o le. Ar ben hynny, o ystyried bod twristiaid yn tueddu i aros yng Nghymru am ychydig ddyddiau, mae'n werth ystyried creu cysylltiadau rhwng safleoedd diwylliannol. Gallai'r cysylltiadau hyn fod yn ychwanegiadau ffisegol yn y tirlun neu gellid safleoli unrhyw Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol mewn perthynas â gweithgareddau eraill.

5. Rhaid pwysleisio llawer mwy ar arwyddocâd a chreadigrwydd y celfyddydau gweledol a chymhwysol yng Nghymru ac integreiddio mwy ar dwristiaeth, y celfyddydau a diwylliant. Fel rhan o hyn mae gofyn hyrwyddo sefydliadau celfyddydol presennol ledled Cymru gan eu bod yn darparu ymdeimlad unigryw o le a phrofiadau dilys yn unol ag amcanion strategol Meithrin Lle yn y Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf. Byddai Cymru'n elwa o gael rhagor o *reoli cyrchfan* trwy ddull partneriaeth i reoli mannau er mwyn sicrhau bod gan dwristiaid wybodaeth am yr arlwy celfyddydol a bod ganddynt fynediad ato.

6. Mae angen sicrhau bod arlwy celf gyfoes y wlad o fewn cyrraedd rhwydd ysgolion ledled Cymru.

7. Mae cyfle i blant a phobl ifanc oedran ysgol – sef ein hartistiaid, addysgwyr, noddwyr, buddsoddwyr, arloeswyr, gwleidyddion, aelodau bwrdd, dinasyddion byd-eang yn y dyfodol – i fod yn gyfranogwyr gweithredol, yn gyd-grewyr ac yn gydweithredwyr yn y sgwrs am rôl celf gyfoes yn eu bywydau, ac uchelgais, swyddogaeth a pherthnasedd oriel genedlaethol bosibl i Gymru.

**Yr Achos Economaidd dros Fuddsoddi mewn Diwylliant a Chreadigrwydd**
Mae datganiad Diwylliannol y Llywodraeth yn pwysleisio:

*"Mae'r diwydiannau creadigol yn beiriant hanfodol ar gyfer ein heconomi. Maent yn cyfrannu swyddi a chyfoeth ac yn helpu i roi Cymru ar y map, gan godi ei delwedd fyd-eang. Mae'r ffigyrau diweddaraf (2014) yn dangos bod gennym dros 5,300 o fusnesau creadigol, sy'n cynhyrchu dros £2.1 biliwn o drosiant blynyddol ac yn creu gwaith ar gyfer dros 49,000 o bobl. Mae'r sector diwylliant yn cynhyrchu unigolion talentog sy'n meddu ar sgiliau trosglwyddadwy sy'n fanteisiol i'n diwydiannau creadigol."*[76]

Mae sector y celfyddydau gweledol yn rhan o'r diwydiannau creadigol ehangach, ac mae wedi'i nodweddu gan yr allbwn unigryw, creadigol a marchnadwy sy'n ganolog i'r diwydiannau hynny, a thystiolaeth eang wedi'i dogfennu o'u cyfraniad sylweddol i les economaidd Cymru.[77] Ledled y Deyrnas Unedig mae'r diwydiannau creadigol yn tyfu ar raddfa o 11%, sydd ddwywaith yn gyflymach na gweddill yr economi, fel y dangosir gan Nesta yn Chwefror 2018.[78]

Mae swyddi creadigol yn gofyn am sgiliau uchel iawn, maent yn cyfrannu at dwf cynhyrchiant ac nid ydynt yn ildio i awtomeiddio. Yn ôl gwaith mapio Nesta ffynnu y mae entrepreneuriaeth greadigol yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, wrth i nifer y busnesau dyfu mewn naw o'r deg lleoliad man a fapiwyd. Roedd y diwydiannau creadigol – o bensaernïaeth i ffilmio a hysbysebu – hefyd wedi tyfu'n gyflymach na sectorau eraill mewn pedwar o bob pum ardal (83%). Eto, daw Nesta i'r canlyniad os erys daearyddiaeth swyddi creadigol yr un fath, yn y 10 prif ardal hyn y caiff tri chwarter o swyddi newydd y diwydiannau creadigol eu creu, a dim un ohonynt yng Nghymru.[79] Dadleua'r awduron ymhellach fod y diwydiannau creadigol yn annhebygol o wneud tolc ym mhroblem cynhyrchiant y Deyrnas Unedig oni bai bod gwneuthurwyr polisi yn gallu cynyddu nifer y busnesau cynhyrchiant uchel sydd wrthi'n tyfu.[80]

*"Mae'r diwydiannau creadigol heddiw yn ganolog i fywydau pobl a busnesau ledled y byd. Dyma sector bellach ble nad oes gan Gymru unrhyw anfantais fasnachol na thechnolegol. Ein doniau, ein huchelgais a'n penderfyniad yw'r unig beth sy'n cyfyngu arnom. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru felly yw rhoi'r cymorth a'r arweiniad i sicrhau nad oes unrhyw ddawn heb ei defnyddio ac nad oes unrhyw syniad creadigol wedi'i wastraffu."*[81]
**Ron Jones, Cadeirydd Panel Sector y Diwydiannau Creadigol**

Strategaeth gadarn ar gyfer cryfhau'r sector yw defnyddio dull sy'n seiliedig ar glystyrau i ddatblygu'r diwydiannau creadigol, gan fod hynny'n annog twf y tu allan i Lundain. Mae Rhaglen Clystyrau Diwydiannau Creadigol wrthi'n buddsoddi £80 miliwn mewn wyth partneriaeth ymchwil a datblygu creadigol ledled Prydain ac mae Clwstwr Creadigol / Prifysgol Caerdydd yn un o 22 ar y rhestr fer yn Chwefror 2018. Ys dywed Bargen y Sector, *"Os gallwn gael yr amodau yn iawn a bod y diwydiannau creadigol yn parhau i berfformio'n well na gweddill economi'r DU, bydd eu hallforion yn cynyddu 50 y cant erbyn 2023, byddant yn werth £150 biliwn ac yn creu 600,000 o swyddi newydd."*[82]


Mae astudiaeth Creative Nation (2018) Nesta yn dadlau ymhellach fod rhaid i dwf sy'n seiliedig ar glwstwr gael ei osod mewn cyd-destun a'i addasu i'r lleoliad, gan ddweud bod gwahanol leoliadau ledled y DU yn dilyn llu o fodelau datblygu clwstwr, ac efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un lleoliad o reidrwydd yn gweithio mewn mannau eraill. Nododd awduron yr astudiaeth bum model o fathau o glystyrau creadigol gwahanol: sef clystyrau cychwynnol, cytrefi creadigol, ardaloedd creadigol, herwyr creadigol a phrif ddinasoedd creadigol.

76 Llywodraeth Cymru, Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (Rhagfyr 2016)
77 Cawsant eu grwpio ynghyd yn wreiddiol gan Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 1998 gydag is-sectorau yn cynnwys y celfyddydau, ffilm, teledu, radio, dylunio, cyfrifiaduron, TG ac orielau; Dogfennau Mapio Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig 2001 (Ebrill 2001)
78 Mateos Garcia, Klinger a Stathoulopoulos, 'Ceative Nation: How the creative industries are powering the UK's nations and regions', Nesta, Chwefror 2018
79 Mae'n cynnwys Milton Keynes, Birmingham, Luton, Llundain, Slough a Heathrow, Caeredin, Manceinion, Leeds, Bryste, Reading; Juan Mateos Garcia, Joel Klinger a Konstantinos Stathoulopoulos, Creative Nation, Nesta (Chwefror 2018)
80 Ibid
81 Perfformiad Sector y Diwydiannau Creadigol, https://gov.wales/topics/businessandeconomy/our-priority-sectors/creative-industries/?skip=1&lang=cy
82 Strategaeth ddiwydiannol: Bargen y Sector Diwydiannau Creadigol, Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS, a'r Gwir Anrhydeddus Matt Hancock AS, Mawrth 2018

**Yr Achos Economaidd dros Fuddsoddi mewn Diwylliant a Chreadigrwydd**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Mae twf economaidd Cymru yn rhannol ddibynnol ar gael arloesi creadigol yn ganolog iddo, ac mae'n dibynnu ar set sgiliau proffesiynol sy'n werthfawr, nad oes modd ei hefelychu ac sy'n rhan annatod o gynhyrchu creadigol. Ymhellach, mae'r pwyslais Buddsoddiad mewn Effaith yn awgrymu mai'r rheiny sydd â'r sgiliau cywir i fynd i'r afael â heriau pwysicaf y gymdeithas sydd o bosibl yn y safle gorau i ddod o hyd i atebion newydd. Mae'r sgiliau y gwelwyd sydd fwyaf uwchlaw roboteiddio yn cynnwys cydweithio a gweithio rhyngddisgyblaethol; cymysgu sgiliau technegol a chreadigol; ac entrepreneuriaeth. Yn wir gallai sicrhau bod modd i'r cyhoedd a'r genhedlaeth nesaf fanteisio ar brosesau a phrofiadau creadigol drwy oriel celf gyfoes genedlaethol sy'n agored a blaengar – un sy'n trochi pobl mewn amgylcheddau rhyfeddol neu hardd, yn ogystal â darparu'r llwyfannau i feithrin yr union sgiliau hyn.
2. Er bod y segmentu ar glystyrau uchod yn canolbwyntio ar dwf economaidd, mae'n ddigon posibl y bydd pensaernïaeth, strategaeth ac ethos sylfaenol clwstwr yn berthnasol i feithrin ac adeiladu'r sector celf gyfoes yng Nghymru.




Nesta, Creative Nation Study, Chwefror 2018

**Arweinyddiaeth ac Eiriolaeth**

Mae arweinwyr y celfyddydau, arweinwyr gwleidyddol Cymru a pholisïau cyfredol yn cydnabod gwerth ac effaith posibl diwylliant a'r diwydiannau creadigol o sawl safbwynt gwahanol – economaidd (creu swyddi, mewnfuddsoddi, twristiaeth); cymdeithasol (gweler y Farwnes Andrews 2014, Yr Athro Dai Smith, 2013); ac enw (safleoli rhyngwladol, 'pŵer meddal'.)

*"Rydym yn ystyried diwylliant yn flaenoriaeth. Rydym yn credu ynddo er ei fwyn ei hun ac mewn defnyddio arian cyhoeddus i'w gefnogi. Mae diwylliant yn ganolog i'n cymdeithas ac i'n hymdeimlad o berthyn i genedl... Mae gennym sylfaen dda i adeiladu arni ond dylem anelu'n uwch: Rwyf am sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf creadigol weithgar yn Ewrop. Rwy'n benderfynol y dylem barhau i ddangos i weddill Ewrop a thu hwnt ein bod yn wlad hyderus sy'n troi ei golygon tuag allan."*[83] **Ken Skates, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

*"Pe bai ein llywodraeth yn fwy hyderus ym mhŵer a gwerth sector y celfyddydau gweledol, a rhoi eu harian ar eu gair, byddai eraill yn fwy tebygol o ddilyn."* **Artist**

83 Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (Rhagfyr 2016)

Fodd bynnag, teimlai llawer o'r rhai a gyfwelwyd nad yw cydnabyddiaeth wleidyddol o bŵer y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi arwain at fuddsoddi cyhoeddus cymharol yn nhwf sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru er bod nifer o bolisïau a phapurau wedi'u llunio yn y degawd diwethaf (Ffigwr 14). Felly, er bod llawer yn croesawu ymrwymiad gwleidyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i'r Astudiaeth hon, teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfweleion fod yn rhaid lleddfu ar eu brwdfrydedd hyd nes bod buddsoddiad ariannol sylweddol yn cael ei wneud.

*"Mae fel petai gan y llywodraeth fan dall."* **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

Yn yr un modd, roedd llawer yn bryderus y byddai unrhyw fuddsoddiad mewn endid cenedlaethol yn tynnu arian oddi wrth sefydliadau sy'n derbyn cymorthdaliadau cyhoeddus, gan ansefydlogi'r rheiny (gweler tudalen 86, Uchelgais y Sector).

Roedd mwyafrif helaeth arweinwyr y celfyddydau gweledol yn cydnabod eu diffyg eu hunain o ran eiriolaeth gydlynol a diffyg achos strategol cymhellol yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cefnogi'r celfyddydau yn genedlaethol. Mae pennod Cymru o Beth Nesaf?, sef fforwm cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau, am ailagor y trafodaethau hyn

Roedd mwyafrif helaeth arweinwyr y celfyddydau gweledol yn cydnabod eu diffyg eu hunain o ran eiriolaeth gydlynol a diffyg achos strategol cymhellol yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cefnogi'r celfyddydau yn genedlaethol. Mae pennod Cymru o *Beth Nesaf?*, sef fforwm cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau, am ailagor y trafodaethau hyn.

### Cynllunio Olyniaeth

Tynnodd llawer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy sylw at nifer cyfyngedig y swyddi uwch yn orielau'r celfyddydau gweledol, a hynny'n atal gweithwyr proffesiynol diwylliannol iau rhag symud ymlaen yn eu sefydliadau eu hunain, neu o fewn y sector celfyddydau gweledol yng Nghymru.

*"Mae bwlch amlwg yn yr arweinyddiaeth mewn lleoliadau celfyddydau gweledol allweddol"* **Arweinydd Celf**

Yn debyg i gylch artistiaid proffesiynol, rhaid i weithwyr proffesiynol diwylliannol hwythau o bosibl chwilio am waith y tu allan i Gymru, neu mewn sectorau eraill, er mwyn symud ymlaen. Awgrymodd rhai fod y diffyg symudiad proffesiynol hwn wedi arwain at effeithiau negyddol amlwg:

*"Mae cyfarwyddwyr yn aros yn eu swyddi yn rhy hir. Dylent symud ymlaen ar ôl 4 i 5 mlynedd – ond dydyn nhw ddim, felly mae'r sector yn llipa. Nid yw 15 mlynedd fel cyfarwyddwr yn dda i artistiaid lleol, orielau, curaduron. Dylent fod yn mynd i weithio dramor. Mae angen mwy o lifo. Mae angen carthydd."* **Artist**

*"Nid yw uchelgais fy nghyfoedion wedi gwneud fawr o argraff arnaf. Mae fel petai nad oes ganddynt frwdfrydedd, syniadau nac uchelgais i gael cyfle mwy o faint."* **Arweinydd Celf**

**Arweinyddiaeth ac Eiriolaeth**
### Goblygiadau a Chyfleoedd

1. Rhaid i hyder Llywodraeth Cymru ym mhŵer a gwerth y celfydydau drosi yn hyder buddsoddi.

2. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n sylweddol at sector celf gyfoes y genedl, bydd mewn sefyllfa gryfach i ddwyn rhanddeiliaid allanol at ei gilydd i nodi uchelgeisiau a rennir ac archwilio sut orau i sicrhau buddsoddiad cyhoeddus yng nghelfyddydau cyfoes y genedl er lles y genedl honno.

3. Er bod sefydliadau'r celfyddydau gweledol a gyfwelwyd yn uchelgeisiol ac yn ymroddedig i'w cenhadaeth, mae diffyg amlwg o ran cynllunio strategol ac eiriolaeth ar lefel genedlaethol. Mae'r corff aelodaeth Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru yn cydnabod nad yw ar hyn o bryd yn cyflawni'r swyddogaeth hon.

4. Byddai bwrw ymlaen ag unrhyw gysyniad celf gyfoes ar y raddfa hon yn gofyn am gydweithio a chydweithredu ar ran rhanddeiliaid allweddol, a sicrhau yn glir bod y celfyddydau gweledol yn rhan annatod o sgyrsiau am ddyfodol Cymru fel cenedl gynhwysol a chreadigol.


# Cyd-destunau Allweddol

## 2001




- Adolygiad o Orielau Celf a Mannau Arddangos Parhaol yng Nghymru (Pratley)

## 2002




- Golygon y Dyfodol (Adroddiad Ymgynghori Amgueddfa Cymru)

## 2006




- Adolygiad Celfyddydau Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Dyfodol Arddangos Celf Cymru (DCA Consultants a Peter Jenkinson)

## 2008

- The Future Display of Visual Art in Wales (ABL Consulting, Levitt Bernstein, Rider Levett Bucknall)

## 2010




- Culture of Innovation: An economic analysis of innovation in arts and cultural organisations (Nesta)

## 2012



- Strategaeth Gyfalaf, 2012-2017 (Cyngor Celfyddydau Cymru)

## 2013

- Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru

## 2014




- Ysbrydoli: Ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru (Cyngor Celfyddydau Cymru)
- 10-Year Plan 2014-2024: Unlocking Potential Embracing Ambition (Alban Greadigol)

## 2015





- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru (Y Farwnes Kay Andrews OBE)
- Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (Dr Haydn E Edwards, Cadeirydd yr Adolygiad Arbenigol)
- Cymru yn y Byd: Strategaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, 2015-2018 (Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Rural evidence and data review: Analysis of Arts Council England Investment, Arts and Cultural Participation and Audiences (2015)
- Plus Tate: Connecting Art to People and Places (Tate, Schutt)

## 2016




- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (Ken Skates)
- Adroddiad Terfynol: Gwerthusiad o flwyddyn beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi, Amgueddfa Cymru / Llywodraeth Cymru; Rebecca Sarasin (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi), Mawrth 2016
- Understanding the Value of Art and Culture: The AHRC Cultural Value Project (Crossick a Kaszynska, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau)
- Gwerth ac effaith presenoldeb Cymru yn Biennale Fenis ar sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru: Cymru yn Fenis (Ymchwil Arad)
- Papur Gwyn Diwylliant (Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig)
- Visual Arts Sector Review (Alban Greadigol)

## 2017



- Cyngor Celfyddydau Cymru, Llythyr Cylch Gwaith (Llywodraeth Cymru)
- Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2016-17: Prif Ganfyddiadau (Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Adolygiad o Amgueddfa Cymru – National Museum Wales (Dr S Thurley)

## 2018




- Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu)
- Astudiaeth Ddichonoldeb Ragarweiniol a Gwerthusiad Opsiynau Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru (Event)

Ffigwr 14: Papurau a pholisïau allweddol
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

**Buddsoddiad Cyfalaf**

**Buddsoddiad Ddiwylliannol Cymru**

O ganlyniad i Astudiaeth Ddichonoldeb 2008, cyfrannodd Llywodraeth Cymru / Cyngor Celfyddydau Cymru at gostau cyfalaf casgliad o brosiectau cyfalaf mewn orielau celf weledol, sef cyfanswm o £35.3m (Ffigwr 16). Roedd y rhain yn cynnwys Adain Orllewinol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (£6.5m, 2011) a chyfraniadau cyfalaf i Ganolfan Celfyddydau Chapter (adnewyddu, £3.8m, 2009), Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth (cyfanswm £1.25m, 2009), MOSTYN yn Llandudno (cyfanswm £5.1m, 2010), Glynn Vivian yn Abertawe (cyfanswm £6m, 2016) a Thŷ Pawb yn Wrecsam (cyfanswm £4.6m, 2018[84] gyda £700k o ganlyniad i Lleoedd Llewyrchus[85]) (Ffigwr 15).

84 £1.56m o Gyngor Wrecsam; £2.3m gan Gyngor Celfyddydau Cymru, cyfweliad â rhanddeiliad

85 Mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn fframwaith adfywio a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013. Y weledigaeth oedd y 'Dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da'. Bu Wrecsam yn llwyddiannus wrth sicrhau buddsoddiad o £10.5m o'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Ynghyd â chyllid cyfatebol, derbyniodd Wrecsam hwb o £24m, ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer prosiectau adfywio gwahanol a fydd yn helpu i greu swyddi, cynyddu'r cyflenwad tai, trechu tlodi, helpu i greu cyfleoedd gwaith a dysgu a gwella cyfleusterau cymunedol.

Mae orielau annibynnol hefyd wedi cynnal eu prosiectau cyfalaf eu hunain, wedi'u hariannu drwy gyfuniad o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat, yn ystod y degawd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys Plas Glyn-y-Weddw ym Mhen Llŷn, Oriel Ynys Môn yn Llangefni a MOMA ym Machynlleth.

Agorodd Canolfan Gelfyddydau Pontio yn 2017 yn rhan o Ganolfan y Celfyddydau ac Arloesi Prifysgol Bangor. Ariannwyd y Ganolfan gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, cronfeydd yr UE a Phrifysgol Bangor, ac nid oes yno oriel gelf (gan fod ei chymydog, Storiel, yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar draws y ffordd). Serch hynny, mae'r strwythur yn addas ar gyfer rhaglen guradurol o waith digidol, a allai gynnwys y celfyddydau gweledol a thraws-gyfrwng.

Mae nifer o'r sefydliadau hyn wedi cynnal asesiadau effaith economaidd, gan fesur elw economaidd diriaethol drwy wariant cyfunol y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd, gwariant ychwanegol yn yr economi lleol, creu swyddi ac elw ar fuddsoddiad.[86]

86 Plus Tate

# Cyd-destunau Allweddol

| Sefydliad Celfyddydol | Dyddiad | Cyfanswm Cyllideb Cyfalaf | Cynllun Loteri Cyngor y Celfyddydau | Awdurdod Lleol ac eraill | Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd | 2004 | £106m | £10m | £41m o'r Loteri Genedlaethol - Comisiwn y Mileniwm | £37m |
| Canolfan Celfyddydau Chapter, Caerdydd | 2009 | £3.8m | 1.75m | £71,000 o'r Gronfa Loteri Fawr, £172,000 o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop | £850K |
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | 2009 | £1.25m | 350k | 0 | 0 |
| Unedau Creadigol, Aberystwyth | 2010 | £5.1m | £3m | £1.9 o Cadw, Cyngor Llandudno, Ystadau Mostyn, Carlton Gogledd Cymru, Sefydliad Foyle, Sefydliad Rayne, Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston, Sefydliad Nigel Moores, Sefydliad Garfield Weston, Sefydliad Chwaraeon a'r Celfyddydau, a Chyfeillion Oriel Mostyn. | £200k |
| MOSTYN, Llandudno | 2016 | £6m | £2m | £500k | £3.5m, gan gynnwys £550,000 o raglen Adfywio Ardal Abertawe |
| Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe | 2016 | £2.1m | £100k | £200k | Ni wyddys |
| Storiel, Bangor | 2018 | £4.6m | £2.3m | £1.7m | £700k Lleoedd Llewyrchus |
| Tŷ Pawb, Wrecsam | | | | | |

Ffigwr 15: Buddsoddiad cyfalaf cyllid cyhoeddus yn sefydliadau celfyddydol Cymru
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

| Sefydliad Celfyddydol | Blwy-ddyn | Budds-oddiad (£) |
|---|---|---|
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | 2009 | £1.25 |
| Canolfan Celfyddydau Chapter | 2009 | £3.8m |
| Glynn Vivian | 2016 | £6m |
| MOSTYN | 2010 | £5.1m |
| Adain Orllewinol, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | 2011 | £6.5m |
| Oriel Ynys Môn | 2008 | £1.5m |
| Canolfan Grefft Rhuthun | 2008 | £4.4m |
| Storiel | 2016 | £2.1m |
| Tŷ Pawb | 2018 | £4.6m |
| **Total** | | **35.53m** |

Ffigwr 16: Buddsoddiad cyfalaf yn sefydliadau celfyddydol Cymru 2008-2018
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

| Sefydliad Celfyddydol | Blwyddyn | Buddoddiad (£) |
|---|---|---|
| Roedd dau yng Nghymru (cyfanswm o £11.1m) | | |
| Cornerhouse/HOME | 2015 | £25m |
| Firstsite | 2011 | £28m |
| Grizedale | 2009 | £1.3m |
| The Hepworth | 2011 | £35m |
| Kettle's Yard | 2018 | £10m |
| MIMA | 2007 | £14.2m |
| Nottingham Contemporary | 2009 | £20m |
| Canolfan Gelfyddydau y Pier | 2007 | £4.5m |
| Towner | 2009 | £8.58m |
| Turner Contemporary | 2011 | £17.4m |
| Oriel Gelf Whitworth | 2015 | £15m |
| Canolfan Gelfyddydau Wysing | 2008 | £1.7m |

Ffigwr 17: Cyfanswm buddsoddiad cyfalaf yn sefydliadau Plus Tate er cymharu
Ffynhonnell: Becky Schutt, Amanda King

# Cyd-destunau Allweddol

## 2000



- Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth (Adnewyddu, £4.3m)
- Ymgorffori g39 (ar ôl ei sefydlu yn 1998)
- Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn cau, wedi'i ddilyn gan awdit gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Cyngor Celfyddydau Cymru)

## 2003



Oriel Davies (cam un: estyniad ac adnewyddu)

## 2004



- Oriel Davies (cam dau: estyniad, £1.7m)
- g39 – y man cyntaf yng Nghymru i'w redeg gan artistiaid i'w gefnogi gan gytundeb refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru


## 2008



- Canolfan Grefft Rhuthun (adeilad newydd, £4.4m)
- Oriel Kyffin Williams wedi'i hagor yn Oriel Ynys Môn (oriel £1.5m)

## 2009



- Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth (datblygu stiwdios artistiaid, £1.25m)
- Canolfan Celfyddydau Chapter (adnewyddu, £3.8m)

## 2010



- MOSTYN, Llandudno (estyniad ac adnewyddu, £5.1m)

## 2011



- Yr Adain Orllewinol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (orielau newydd ar gyfer celf gyfoes a modern, £6.5m)

## 2016



- Storiel (£2.1m)
- Glynn Vivian yn Abertawe (adnewyddu, ailwampio ac estyniad, £6m)

## 2017



- Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth (diweddaru'r sinema)
- Pontio (datblygiad, £56m)
- Plas Glyn-y-Weddw – cyllid ar gyfer cyfleusterau storio y mae modd rheoli'r amgylchedd ynddynt

## 2018+



- Tŷ Pawb (datblygiad, £4.6m)
- Oriel Myrddin yng Nghaerfyrddin yn ystyried datblygiad cyfalaf; wrthi'n llunio cais i CCC
- Plas Glyn-y-Weddw yn ystyried datblygiad cyfalaf
- Canolfan Celfyddydau Chapter yn ystyried datblygiad cyfalaf pellach
- Ffotogallery yn chwilio am gartref hirdymor
- Uwchgynllun Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Ffigwr 18: Trosolwg o'r buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau diwylliannol Cymreig yn ystod y 18 mlynedd diwethaf
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

# Cyd-destunau Allweddol

**Prosiectau ar y gweill yng Nghymru**

Mae yna brosiectau ar y gweill yn y seilwaith diwylliannol i adnewyddu a diweddaru, gydag un lleoliad newydd arfaethedig ym Mae Caerdydd yn rhan o gynllun ailddatblygu ehangach Bae Caerdydd fel yr amlinellir yn nogfen Tachwedd 2017 Papur Gwyrdd Creu Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell. Er nad yw'r rhestr hon (Ffigwr 19) yn gynhwysfawr, mae'n dangos gwasgariad daearyddol cryf.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd hefyd wrthi'n datblygu uwchgynlluniau.

Sefydlwyd Prosiect Cyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru yn 1997 ac mae wedi dosbarthu £125m o gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf bach (llai na £100K) a mawr (mwy na £100K) yn ystod y cyfnod hwnnw. Er i'r Rhaglen ddod i ben yn hydref 2017, cadwyd rhan o'r prosiectau, yn cynnwys Oriel Myrddin a Chanolfan Celfyddydau Chapter, a'r ail i gael dyraniad cyfalaf enwol. Er na fydd hyn ar y raddfa uchelgeisiol a ragwelwyd yn wreiddiol, mae'n debyg y bydd peth ailddatblygu ar safle Canolfan Celfyddydau Chapter yng Nghaerdydd. Mae prosiectau eraill, megis Plas Glyn-y-Weddw, yn chwilio am gymorth cyfalaf o ffynonellau eraill.





Atyniad newydd yn Nociau Graving
Ffynhonnell: Creu Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell, y Cynghorydd Russell Goodway, Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, Cyngor Caerdydd, Mawrth 2018
Plas Glyn-y-Weddw (estyniad 1 i 4 oriel)
Ffynhonnell: Donald Insall Associates, 2018

| Safle | Y diweddaraf | Cyfanswm Cyllideb Cyfalaf |
|---|---|---|
| Cardiff Bay Cultural Attraction, Cardiff | Soniwyd amdano yn Creu Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell – Papur Gwyrdd Ymgynghorol, 2017 – yr ymgynghori'n digwydd | Heb ei gyhoeddi eto |
| Conwy Culture Centre, Conwy | Cais cynllunio wedi'i gymeradwyo Mawrth 2017 | £2.67m |
| Plas Glyn-y-Weddw, Pwllheli | Codi arian ar y gweill – amwynderau a chyfleusterau arlwyo | £500K |
| MOMA Machynlleth, Machynlleth | Dan berchnogaeth ac wedi'i reoli gan Ymddiriedolaeth y Tabernacl Machynlleth. Yr adeiladu wedi dechrau – cyfleusterau swyddfa a storio ger y prif safle | Cyfran o £734K wedi'i godi'n breifat gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer ystod o brosiectau cyfalaf dros y deng mlynedd nesaf |
| Oriel Myrddin Gallery, Carmarthen | Wedi'i rheoli'n uniongyrchol gan wasanaethau hamdden Cyngor Sir Gaerfyrddin, ailwampio'r oriel bresennol ynghyd ag estyniad i Stryd y Brenin. | Wedi'i gynnwys cyn hyn yn rhaglen gyfalaf CCC |
| Aberystwyth Old College Aberystwyth (currently being used for artists studios) | Datblygiad treftadaeth a diwylliannol a defnydd amrywiol Prifysgol Aberystwyth, gan gynnwys oriel gelf bosibl | £19.47m |
| Golden Grove / Gelli Aur, Carmarthenshire | Dan berchnogaeth ac wedi'i reoli gan Ymddiriedolaeth Gelli Aur. Datblygu eiddo hanesyddol yn lleoliad diwylliannol | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

Ffigwr 19: Prosiectau sydd ar y gweill yng Nghymru
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

**Buddsoddiad Diwylliannol y Deyrnas Unedig ac Iwerddon**

Ymddengys fod £35.3m yn ffigwr trawiadol i'w fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf yn sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru dros y deng mlynedd diwethaf ar gyfer poblogaeth o 3.1m o bobl yn unig (Ffigwr 16).

*"Mae diwylliant yn systematig wedi'i dangyllido ers blynyddoedd lawer."*
**Cyfarwyddwr Amgueddfa**

Ac eto yng Nghymru, mae anghydbwysedd o ran faint o arian cyhoeddus sydd ar gael i sector y celfyddydau gweledol ar gyfer prosiectau cyfalaf o'i gymharu â ffurfiau celf eraill. Awgrymodd ambell un o'r rhai a gyfwelwyd fod hyn yn adlewyrchu etifeddiaeth hanesyddol celf Cymru, a'i thraddodiad dwfn mewn llenyddiaeth, perfformio a cherddoriaeth – yn hytrach na'r celfyddydau gweledol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dosbarthu £19.88 miliwn mewn grantiau cyfalaf drwy gyllid y Loteri ers 2008; dim ond 9% sydd wedi bod ar gyfer prosiectau'r celfyddydau gweledol.

Ymhellach, ac efallai yn fwy arwyddocaol, o'i gymharu â thueddiadau rhyngwladol a llywodraethau eraill i fuddsoddi mewn seilwaith diwylliannol, mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith cyfalaf y celfyddydau gweledol yn fychan iawn.

Yn ystod cyfnod yr astudiaeth hon yn unig, mae llywodraethau Prydain Fawr ac Iwerddon wedi cyhoeddi dyrannu ffigyrau arwyddocaol i'w seilwaith diwylliannol:

- Agorodd estyniad £20m Tate St Ives ym mis hydref 2017, gydag estyniad £260m Tate Modern wedi agor dwy flynedd cyn hynny;
- Mae buddsoddi diwylliannol ar raddfa fawr yn cynnwys £80.1m i adeiladu Amgueddfa Ddylunio V&A newydd yn Dundee, yr Alban (i'w gwblhau yn haf 2018 ac yn rhan o gais Dinas Diwylliant Ewrop 2023); ac estyniad £16.8m i Oriel Genedlaethol yr Alban yng Nghaeredin (i'w gwblhau yn hydref 2018); a £10m i adnewyddu Llyfrgell Genedlaethol yr Alban yn Causewayside, Caeredin (i'w gwblhau ym mis Mawrth 2018);[87]
- Mae Gogledd Iwerddon wrthi'n paratoi cais ar y cyd rhwng Derry/Belfast ar gyfer Dinas Diwylliant Ewrop 2023 ac roedd Trafodaeth Fawr y Celfyddydau ym mis Chwefror 2018 wedi galw ar wleidyddion i fod yn ddewr ac yn llawn gweledigaeth drwy addo buddsoddi yn sector y celfyddydau; cyhoeddodd Iwerddon dros £1.2bn (€1.4bn) o fuddsoddiad yn y seilwaith diwylliannol;[88]

87 Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Materion Allanol, Llywodraeth yr Alban
88 Northern Ireland arts sector needs investment (Belfast Telegraph, 19 Chwefror 2018)


cyhoeddodd Iwerddon dros £1.2bn (€1.4bn) o fuddsoddiad yn y seilwaith diwylliannol;[89]

- Cyhoeddodd Manceinion gam nesaf The Factory, sef canolfan newydd i'r celfyddydau wedi'i ddylunio gan Rem Koolhaas a'r Office for Metropolitan Architecture (OMA), a hynny ar sodlau agor Home (£25m, 2015). Dywedodd Syr Richard Leese, Arweinydd Cyngor Dinas Manceinion, y byddai The Factory yn golygu y gallai Manceinion a'r cyffiniau wir wrthbwyso Llundain yn ddiwylliannol;[90]
- Roedd Dinas Diwylliant Hull 2017 yn rhaglen £32.8m a oedd wedi sicrhau £48m pellach ar gyfer buddsoddiad cyfalaf i wella tir y cyhoedd ac Oriel Gelf y Ferens a Theatr Newydd Hull.[91]

Gweler Ffigwr 20 i weld buddsoddiadau eraill mewn sefydliadau celfyddydol ar Ynysoedd Prydain.

89 Project Ireland 2040: National Planning Framework; mae'r €1.4bn yn cynnwys ehangu cynllun cyfalaf Datblygu Diwylliant a'r Celfyddydau, buddsoddiad newydd a buddsoddi mewn seilwaith sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys 460m ewro ar gyfer buddsoddi graddol yn y Sefydliadau Celfyddydol Cenedlaethol, Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon, y Llyfrgell Genedlaethol, Oriel Crawford, Archifau Gwladol Iwerddon, y Neuadd Cyngerdd Genedlaethol, Yr Oriel Genedlaethol, Theatr yr Abbey, Amgueddfa Celf Fodern Iwerddon ac Oriel Chester Beatty
90 Manchester's Factory arts building gets go-ahead (The Guardian, 27 Jan 2018)
91 Sefydliad Diwylliant, Lle a Pholisi Prifysgol Hull, Cultural Transformations: The impacts of Hull UK City of Culture 2017 Outcomes Evaluation (Mawrth 2018)





V&A Dundee wrthi'n cael ei adeiladu, 2017
Ffynhonnell: Laerol
Oriel Gelf y Ferens wedi'i goleuo ar gyfer achlysur ei hagor, Dinas Diwylliant Hull 2017
Ffynhonnell: Kim Dent-Brown

# Cyd-destunau Allweddol

| Sefydliad Celfyddydol | Blwyddyn | Buddsoddiad (£) O dan £10m |
|---|---|---|
| Aberystwyth Arts Centre | 2009 | £1.25m |
| Grizedale Arts, Coniston | 2009 | £1.3m |
| Wysing Arts Centre, Cambridge | 2008 | £1.7m |
| Chapter Arts Centre, Cardiff | 2009 | £3.8m |
| Ruthin Craft Centre, Ruthin | 2008 | £4.4m |
| Tŷ Pawb, Wrexham | 2018 | £4.5m |
| The Pier Arts Centre, Stromness | 2007 | £4.5m |
| MOSTYN, Llandudno | 2010 | £5.1m |
| Glynn Vivian, Swansea | 2016 | £6m |
| West Wing, National Museum Cardiff | 2008 | £6.5m |
| Towner Gallery, Eastbourne | 2009 | £8.58m |

| Sefydliad Celfyddydol | Blwyddyn | Buddsoddiad (£) £10-19m |
|---|---|---|
| Kettle's Yard, Caergrawnt | 2018 | £10m |
| Canolbwynt Diwylliannol Portobello, Llundain | Ar y gweill | £10m |
| Llyfrgell Genedlaethol yr Alban | 2018 | £10m |
| Y Llyfrgell Genedlaethol, Dulyn | Ar y gweill | £10.5m |
| Canolfan Gelfyddydau Battersea, Llundain | Ar y gweill | £13.3m |
| MiMA, Middlesbrough | 2007 | £14.2m |
| Oriel Gelf Whitworth, Manceinion | 2015 | £15m |
| Oriel Genedlaethol yr Alban, Caeredin | 2018 | £16.8m |
| Turner Contemporary, Margate | 2011 | £17.4m |
| Oriel Gelf Crawford, Cork | Ar y gweill | £19.2m |

| Sefydliad Celfyddydol | Blwyddyn | Buddsoddiad (£) £20-£30m |
|---|---|---|
| Nottingham Contemporary | 2009 | £20m |
| Tate St Ives | 2017 | £20m |
| Yr Oriel Gelf Newydd, Walsall | 2000 | £21m |
| The Curve, Slough | 2016 | £22m |
| Ailddatblygu Neuadd Kelvin, Glasgow | 2017 | £24m |
| Cornerhouse/HOME, Manceinion | 2015 | £25 |
| Ardal Ddiwylliannol Bournemouth | Ar y gweill | £25m |
| Ardal Ddiwylliannol a Digwyddiadau Marchnad y Barras, Glasgow | Ar y gweill | £27m |
| Firstsite, Caer Colun/ Colchester | 2011 | £28m |

| Sefydliad Celfyddydol | Blwyddyn | Buddsoddiad (£)£31-60m |
|---|---|---|
| The Hepworth, Wakefield | 2011 | £35m |
| Storyhouse, Caer | 2017 | £37m |
| Neuadd Gyngerdd Siambr yr Alban, Caeredin | Ar y gweill | £45m |
| estyniad V&A Exhibition Road, Llundain | 2017 | £48m |
| Sefydliad Courtauld, Llundain | Ar y gweill | £50m |
| Pontio, Bangor | 2015 | £56m |

| Sefydliad Celfyddydol | Blwyddyn | Buddsoddiad (£) £61-£900m |
|---|---|---|
| V&A Dundee | 2018 | £80m |
| Yr Amgueddfa Ddylunio, Llundain | 2016 | £83m |
| The Factory, Manceinion | 2020 | £111.7m |
| Prosiect Seilwaith Diwylliannol Hull | 2013 | £122m |
| Tate Modern, estyniad Switch House, Llundain | 2016 | £260m |
| Sefydliadau Diwylliannol Cenedlaethol, Iwerddon | Ar y gweill | £401.5m |
| Olympicopolis, Llundain | Ar y gweill | £850m |

Ffigwr 20: Buddsoddiad cyfalaf yn sefydliadau celfyddydol y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, yn amrywio o £1m i £850m ers 2000
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

# Cyd-destunau Allweddol

**Buddsoddiad Cyfalaf Byd-eang**
Y tu hwnt i Brydain, aeth UKTI a'r British Council yn 2013 i nodi a mapio prosiectau arfaethedig ledled y byd sydd gyda'i gilydd yn fwy na £175bn ($250bn), a phob un yn costio dros £10m yn unigol.[92] Yn 2016, cwblhawyd 101 o brosiectau seilwaith diwylliannol ar raddfa fawr (yn cynnwys 89 amgueddfa) a oedd yn werth oddeutu £5.87bn ($8.45bn), a chyhoeddwyd 135 prosiect gwerth £5.87bn ($8.45bn) gyda chyllideb ganolrifol o oddeutu £25m ($36m).[93]

Cwblhawyd 29 o brosiectau amgueddfeydd yn Ewrop gan gynnwys estyniad i Amgueddfa Gelf Basel (Kunstmuseum)[94] (£73m, $104m) ac adeiladau newydd sy'n cynnwys Amgueddfa Ddylunio Llundain (£83m, $120m), Canolfan Luigi Pecci ar gyfer Celf Gyfoes (£10.7m, $15.3m, Prato, yr Eidal), Amgueddfa Gelf Eiconoclast y Mileniwm Brwsel (MIMA) (£13.8, $19.7m), Amgueddfa Gelf, Pensaernïaeth a Thechnoleg (MAAT) yn Lisbon (£14.3m, $20.3m) ac Amgueddfa Genedlaethol Celf Gyfoes yn Athen (£26m, $37m).[95]

Bwriad y buddsoddiadau hynod weladwy hyn yw ceisio sicrhau statws rhyngwladol, creu cenedl, cael effaith gymdeithasol-ddiwylliannol, tyfu twristiaeth, denu talent, mewnfuddsoddi ac adfywio economaidd. Mae'r rhesymeg dros fuddsoddi byd-eang mewn diwylliant i'w cael yng ngeiriau datganiad Llywodraeth De Cymru Newydd (Awstralia), a gyhoeddodd £156.5m ($222m) mewn prosiectau seilwaith diwylliannol mawr, rhan o gyfres o fuddsoddiadau £619.7m ($879m) i adnewyddu'r seilwaith diwylliannol:

*"Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol i weledigaeth y Llywodraeth i Dde Cymru Newydd Awstralia gael ei adnabod am ei gelfyddyd a'i ddiwylliant beiddgar a chyffrous sy'n ymgysylltu â'r gymuned, yn cefnogi arloesedd, yn hwyluso datblygiad economaidd ac yn adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog y dalaith."*[96]








Tu fewn a thu allan yr Amgueddfa Ddylunio, Llundain
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

92 Adrian Ellis a Becky Schutt, British Council ac UKTI, AEA Consulting, Large-Scale Cultural Infrastructure Mapping (2013)
93 AEA Consulting, Cultural Infrastructure Index 2016
94 Estyniad - Christ & Gantenbein - penseiri, 3,295 m2
95 AEA Consulting, Cultural Infrastructure Index 2016

96 https://www.create.nsw.gov.au/category/cultural-infrastructure/




Ffigwr 21: Buddsoddiad cyfalaf sydd wedi'u cyhoeddi a'u cwblhau mewn sefydliadau celfyddydol byd-eang yn ôl math (2016)
Ffynhonnell: AEA Consulting, 2016

Ffigwr 22: Buddsoddiad cyfalaf sydd wedi'u cyhoeddi a'u cwblhau mewn sefydliadau celfyddydol yn fyd-eang yn ôl rhanbarth (2016)
Ffynhonnell: AEA Consulting, 2016

**Buddsoddiad cyfalaf**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Os yw Cymru am gystadlu yn yr economi wybodaeth fyd-eang, un strategaeth yw cyflymu a chynyddu ei buddsoddiad yn y seilwaith diwylliannol. Eto, mae'n werth ystyried a allai Cymru neidio dros y duedd fyd-eang i adeiladu cyfleusterau diwylliannol sengl ar raddfa fawr a pheidio â buddsoddi mewn cyfalaf dim ond oherwydd bod llywodraethau eraill wedi nodi'r buddsoddiad hwn fel yr ateb i heriau economaidd-ddiwylliannol-economaidd a'u statws byd-eang. Dyma'r cyfle i Gymru asesu beth y mae celf gyfoes Gymreig a chymdeithas Cymru ei angen yn yr 21ain ganrif a chwilio am ateb dilys.

2. Rhaid i fuddsoddiad yn y seilwaith gryfhau yn hytrach nag ansefydlogi seilwaith y celfyddydau gweledol sydd eisoes yng Nghymru ac y buddsoddwyd yn systematig ynddo yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

3. Dylid ystyried datblygu a chyflwyno ffurf newydd o oriel gelf gyfoes newydd ar gyfer yr 21ain ganrif sy'n herio yn erbyn y normau tybiedig a gredir yn aml i fod yn ffurf ffisegol oriel:

- Rhyddhau celf gyfoes o'i dibyniaeth ar fannau arddangos blwch gwyn a darparu cyfoeth o wahanol fathau o ofod a mannau y gall artistiaid ymateb iddynt;
- Dileu ffiniau pendant a galluogi ymagwedd llawer mwy hyblyg ynghylch beth y gall oriel fod, wrth i ymwelwyr symud fwyfwy o fod yn arsylwyr goddefol i fod yn grewyr gweithredol. Mae Cymru wedi dangos natur rymus yr ymagwedd gyfranogol hon ochr yn ochr ag enghreifftiau uchel eu proffil yn y Deyrnas Unedig:
  - *Gwleidyddiaeth 'Yn y Gofod'/Prosiect Tiger Bay* – gwaith y pensaer ac artist gweledol Apolonija Šušteršic ar gyfer Artes Mundi 5 a oedd wedi creu llwyfan i adfyfyrio a thrafodaeth ar ailddatblygu Bae Caerdydd yn Oriel Celf Gyfoes Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (2012)
  - Tanya Bruguera yn perfformio'r gwaith *Sibrydion Tatlin* #5 ym mhrif neuadd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn Artes Mundi 5 (2012)
  - Gosodwaith Keith Harrison 'Mud' 2015 yn *Bregus?* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a oedd wedi'i greu fel system sain fawr wedi'i orchuddio â theils aur. Gwahoddai Harrison ymwelwyr i chwarae recordiau finyl i achosi'r gwaith i hunanddinistrio (2015)
  - *Work No. 850* gan Martin Creed yn Tate Britain, a oedd yn annog archwilio symud ac ysbryd pobl trwy wahodd y cyhoedd i redeg i fyny ac i lawr y prif atriwm (2008)
  - Roedd *One & Another* Anthony Gormley wedi galluogi 2,400 o bobl i feddiannu'r Pedwerydd Plinth yn Sgwâr Trafalgar bob awr am 24 awr dros 100 diwrnod yn olynol ac fe'i ffrydiwyd yn fyw yn barhaus gan Sky Arts; wrth wneud hyn, y cyhoedd oedd yr artist a'r gelf (2009).

**Mannau arddangos a storio**
Mae Ffigwr 5 (tudalen 39) yn cyflwyno data ar nifer y sefydliadau celfyddol a diwylliant sydd yng Nghymru er mwyn dangos natur a graddfa'r mannau arddangos parhaol a thros dro ynghyd â'r cyfleusterau ategol yng Nghymru. Yn nodedig, maint cyfartalog man arddangosfa dros dro o ansawdd uchel ar gyfer arddangos celf gyfoes yng Nghymru, yn seiliedig ar y sampl a amlinellwyd ar dudalen 39, yw oddeutu 484m2.

Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn cynnig 1,040m2 o fannau arddangos parhaol a dros dro i gyflwyno'r casgliad celf gyfoes a modern sydd wedi'i gaffael ac sydd o dan berchnogaeth Amgueddfa Cymru ond sy'n tynnu'n rheolaidd ar gefnogaeth ariannol allanol, yn arbennig ei phartneriaeth hirdymor bwysig gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams. Y gofod a neilltuwyd ar gyfer celf gyfoes yn yr Adain Orllewinol Uchaf, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yw 727m2 gydag oddeutu 1,270 m2 o wal. Yn ogystal, mae Oriel Ffotograffau 150m2 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gydag oddeutu 233m2 o wal. Fodd bynnag, nid yw'r mannau hyn yn ddigonol i ddangos y gwaith cyfoes mwy o faint a mwy diweddar yn y casgliad nac arddangosfeydd unigol cynhwysfawr gan artistiaid sy'n gysylltiedig â Chymru.[97] Ar ben hynny, nid oes gan Amgueddfa Cymru y cyllidebau refeniw i fynd ati'n rheolaidd i arddangos ei gwaith ffilm, fideo a gosodweithiau ei hun trwy addasu'r oriel yn ôl yr angen:

*"Dydyn ni ddim yn gallu ffitio'r arddangosfa yn yr oriel."* **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

Ymhellach, er bod patrwm presennol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn caniatáu arddangos arddangosfeydd celf mawr dros dro, mae hyn ar draul dangos y casgliad parhaol.

I osod arddangosfeydd mawr dros dro, wedi'u curadu gan Amgueddfa Cymru neu yn allanol (gan gynnwys Artes Mundi), rhaid dadosod y casgliad parhaol o Adain Orllewinol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Felly nid yw gwrthrychau o gasgliad celf Gyfoes Cymru byth ar gael i'w gweld yn barhaol unrhyw le yng Nghymru, gan gyfyngu'n ddifrifol ar fynediad y cyhoedd i gasgliad y genedl. Dim ond 25%-30% o'r casgliad ôl-1900 (ac eithrio gweithiau ar bapur) y gellir eu harddangos ar unrhyw adeg[98] felly mae'r ffigwr hwn yn gostwng pan fo sioe ar fenthyg yn yr orielau, er enghraifft yn ystod Artes Mundi. Os ystyrir y gweithiau sydd ar bapur yn y casgliad i'r cyfrif, mae'r ffigwr yn gostwng i fod yn agosach at 8%. Er ei bod yn gyffredin i'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n casglu arddangos dim ond rhan fach o'u casgliadau ar unrhyw adeg benodol (mae tua 90% o gyfanswm y casgliadau sydd yn y Deyrnas Unedig yn cael ei storio), her Amgueddfa Cymru yw gorfod mynd ati'n rheolaidd i ddadosod y casgliadau parhaol gan felly godi rhwystr i weld casgliad y genedl.[99] [100]

Mae Ffigwr 24 yn dangos y lle arferol sydd ei angen i dderbyn arddangosfeydd rhyngwladol teithiol yn tueddu i ymrannu'n dri chategori: 200-400m2, 500-700m2 a 1,000-1,100m2. Nid yw'r mannau arddangos sydd yng Nghymru ar hyn o bryd (Ffigwr 23) yn ddigonol i roi modd i Gymru gymryd rhan yn llawn ym marchnad ryngwladol arddangosfeydd teithiol – i fewnforio arddangosfeydd nac i allforio arddangosfeydd celf gyfoes a ddatblygir yng Nghymru, ac yn enwedig, i dderbyn y sioeau mawr poblogaidd. Mae'r cylchdaith ryngwladol hon yn llwyfan allweddol i safleoli celf Cymru dramor a dod â gwaith celf rhyngwladol, a'r dehongliad a ddaw gydag ef, i gymunedau Cymru.

| Mannau | m2 |
|---|---|
| Mannau arddangos dros dro yng Nghymru ar gyfartaledd | 484 |
| Mannau arddangos dros dro mwyaf eu maint yng Nghymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | 727 |
| Mannau arddangos dros dro mwyaf eu maint yng Nghymru: Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 722 |

Ffigwr 23: Maint mannau arddangos celf gyfoes a modern – y cyfartalog a'r mwyaf yng Nghymru
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

| Arddangosfeydd enghreifftiol | Maint (m2) |
|---|---|
| A Century of Chairs, Yr Amgueddfa Ddylunio | 200-400 |
| Pop Art in Print a Gwobr Jameel, V&A | 200-400 |
| The Fabric of India, V&A Art of Nature: Three | 500-700 |
| Centuries of Natural History Art, Amgueddfa Astudiaethau Natur | 500-700 |
| Women, Art, and Social Change: The Newcomb Pottery Enterprise, Smithsonian, yr UDA | 1,000-1,100 |
| Future Design, V&A | 1,000-1,100 |

Ffigwr 24: Maint arddangosfeydd teithiol enghreifftiol
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

97 Er enghraifft, roedd sioeau diweddar Ivor Davies a Gillian Ayres yn rhai dethol adolygol yn unig

98 Dim ond pan fydd arddangosfa sy'n seiliedig ar gasgliadau yn orielau 19-24 fyddai hyn

99 Gan roi cyfyngiadau mannau arddangos i'r naill ochr, mae'n bosibl na fydd amgueddfeydd yn dangos gwaith celf nad yw'n cyd-fynd â'r genhadaeth curadurol; neu weithiau sy'n arbennig o fregus a brau ac yn gofyn am oleuadau sensitif a chyfyngedig; neu oherwydd eu bod wedi'u lleoli oddi ar y safle oherwydd cyfyngiadau storio.

100 Suzanne Keene, Collections for People (Sefydliad Archaeoleg UCL, 2008) Mae'n werth nodi yn y deng mlynedd ers cyhoeddi'r astudiaeth hon, gwnaed camau breision i ddigido casgliadau a'u rhan-nu mewn ffyrdd newydd.

Yn achos sector ehangach y celfyddydau gweledol (y tu hwnt i'r lleoliadau a geir yn Ffigwr 5), soniodd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd nad yw'r seilwaith presennol yn diwallu eu hanghenion neu uchelgeisiau, gan gynnwys y gallu i arddangos arddangosfeydd a guradwyd ganddynt hwy eu hunain ac i letya arddangosfeydd teithiol.

*"Rydym bob amser yn meddwl am ddiwylliant Cymru a beth gallem ei wneud mewn cyd-destun byd-eang lleol ond... allwn ni ddim bod yn rhan o'r rhwydweithiau arddangos mawr hyn."* **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

*"Nid yw ein huchelgais yn cyd-fynd â'r hyn sydd gennym yn ffisegol."* **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

*"Mae prinder mannau priodol o unrhyw faint."* **Artist Sefydledig**

Er bod 106 o amgueddfeydd Cymru wedi'u hachredu, dim ond 12 o'r orielau celf hyn sy'n bodloni safonau'r Achrediad Amgueddfeydd sy'n ofynnol i gael benthyg casgliadau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys: Amgueddfa ac Oriel Parc Howard, Storiel, Oriel Ynys Môn, Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, Oriel Gelf Glynn Vivian, Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, MOMA Machynlleth, Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod, Amgueddfa Cymru, Amgueddfa ac Orielau Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth, Casgliad Celf Prifysgol De Cymru (Ffigwr 25). Yn ogystal, mae Amgueddfa Cas-gwent ac Amgueddfa'r Fenni ill dwy wedi cael cyllid Cyfoeth Cymru Gyfan a oedd wedi adnewyddu orielau i alluogi benthyg celf gan sefydliadau cenedlaethol.

At hynny, dengys ein hymchwil fod yna hefyd ddiffyg lle storio addas. Nid oes gan y mwyafrif helaeth o'r sefydliadau celfyddydol le storio o gwbl neu storfa gyfyngedig iawn. Mae hyn yn bennaf oherwydd eu bod yn orielau dros dro; yr eithriadau yw'r sefydliadau cenedlaethol.

Er enghraifft, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cadw ei holl waith celf ar y safle yn Aberystwyth. Mae tua 1,000m2 o storfa i arlunwaith (mewn pedwar lle gwahanol) ond fodd bynnag nid oes unrhyw gapasiti dros ben.

Yn yr un modd yn Amgueddfa Cymru mae yna naw ardal i storio celf gain sy'n gyfanswm o oddeutu 700m2. Amrywia'r ystafelloedd storio o 20m2 i 200m2, gyda saith man yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Nantgarw yn rhoi lle i'r ddau arall (170m2 a 50m2). Trefnir y storio i raddau helaeth yn ôl y cyfrwng, er enghraifft, cedwir gwaith ar bapur mewn dwy storfa, cerfluniau mewn un, gosodweithiau mewn un arall. Mewn rhai storfeydd, mae 100% o'r gwaith yn fodern a chyfoes, mewn eraill mae mor isel ag 20%. Mae natur ddarniog y storio hyn yn gwneud mynediad cyhoeddus a thechnegol yn gymhleth ac yn mynd â llawer o amser.

Cedwir tua 80% o'r casgliad yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ond mae'r holl gerfluniau a gosodweithiau mawr yn Nantgarw ac fe'u cludir i'r Amgueddfa pan fo'u hangen i'w harddangos. Mae'r naw storfa eisoes dan eu sang, gyda gofalu am y casgliadau a'r mynediad atynt eisoes yn broblem o ganlyniad. Mae hon yn broblem anferthol o gofio bod casgliad cenedlaethol Amgueddfa Cymru dros gyfnod o 10 mlynedd yn derbyn tua 300 gwaith ar gyfartaledd (yn amrywio o brintiadau i osodiadau mawr) gyda thwf o 90% yn y casgliad ôl-1900.

*"Does dim capasiti gennym. Rwy'n gyffrous ynghylch y posibilrwydd o gyfuno adnoddau."* **Cyfarwyddwr Oriel**

**Mannau arddangos a storio**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Mae bwlch yn y cyflenwad ledled y wlad ar gyfer mannau arddangos digon mawr o ansawdd uchel (sef o leiaf 800 metr sgwâr) sy'n gallu darparu ar gyfer sioeau rhyngwladol a chenedlaethol a gwaith celf mwy o faint a mwy cymhleth. Bydd cael mannau o'r fath yn galluogi Cymru i ddatblygu ei harddangosfeydd ei hun i fynd ar daith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac i groesawu arddangosfeydd teithiol poblogaidd – gan feithrin proffil y wlad dramor ac annog deialog rhyngwladol trwy gelf yma yng Nghymru.

2. Mae angen gofod storio o ansawdd uchel ar gyfer y casgliadau cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y casgliad celf weledol a chymhwysol gyfoes yn parhau i dyfu i adlewyrchu bywyd cyfoes. Mae cyfle i fuddsoddi mewn man storio ar y cyd ar gyfer casgliad ar wasgar.

| | Enw'r Amgueddfa | Lleoliad | Math o amgueddfa | Rhif achrediad | Dyddiad cyflawni'r achrediad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Amgueddfa ac Oriel Parc Howard | Sir Gaerfyrddin | Amgueddfa Awdurdod Lleol | 2043 | 10/05/18 |
| 2 | Oriel Ynys Môn | Llangefni | Amgueddfa Awdurdod Lleol | 156 | 29/11/17 |
| 3 | Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd | Casnewydd | Amgueddfa Awdurdod Lleol | 1329 | 08/03/18 |
| 4 | Amgueddfa Brycheiniog | Powys | Amgueddfa Awdurdod Lleol | 1506 | 25/07/14 |
| 5 | Oriel Gelf Glynn Vivian | Abertawe | Amgueddfa Awdurdod Lleol | 281 | 25/02/16 |
| 6 | Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa | Merthyr Tudful | Amgueddfa annibynnol | 289 | 25/02/16 |
| 7 | MOMA Machynlleth | Machynlleth | Amgueddfa annibynnol | 928 | 02/12/15 |
| 8 | Oriel Glyn-y-Weddw | Pwllheli | Amgueddfa annibynnol | 2293 | 08/03/18 |
| 9 | Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod | Dinbych-y-pysgod | Amgueddfa annibynnol | 1241 | 21/11/13 |
| 10 | Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | Caerdydd | Amgueddfa genedlaethol | 1697 | 18/07/13 |
| 11 | Amgueddfa ac Orielau Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth | Aberystwyth | Amgueddfa prifysgol | 1912 | 07/10/16 |
| 12 | Casgliad Celf Prifysgol De Cymru | Pontypridd | Amgueddfa prifysgol | 2023 | 23/02/17 |

Ffigwr 25: Amgueddfeydd Achrededig Cymru
Ffynhonnell: Amgueddfa Achrededig,
Llywodraeth Cymru

**Model Busnes a Gweithredu**
*“Ar adegau, mae arweinwyr dinesig yn teimlo pwysau byd-eang i ‘gadw fyny’ ac yn camddeall neu’r camddehongli’r rysáit gymhleth sydd rhaid ei chael ar gyfer ecoleg ddiwylliannol fywiol a bywiog. Canlyniad hynny yw trawsblaniadau diwylliannol wedi’u gor-adeiladu, heb eu rhaglennu’n ddigonol, a heb gyd-destun iddynt, ac sydd wedyn yn cael trafferth deall sut gallant fyw’n gysurus yn eu talpiau trawiadol o bensaernïaeth y sêr [starchitecture].”* **Adrian Ellis**

Er bod buddsoddiad cyfalaf mewn diwylliant yn mynd i barhau i dyfu ar gyflymder nas gwelwyd o’r blaen ledled y byd, parhau hefyd y mae’r her o sicrhau bod cronfeydd refeniw ar gael i gynnal unrhyw oriel gelf gyhoeddus. Agorwyd amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Sefydliad Celf Fodern Middlesbrough (MiMA), rhan o Brifysgol Teesside, i gryn gymeradwyaeth ond eto cymerodd peth amser iddynt ymsefydlu.

Mae MiMA wedi ennill enw da iddo’i hun yn y byd celf ond mae’n costio £1m y flwyddyn i’r cyngor, a’r gyllideb honno i gael ei thorri £50m dros y pedair blynedd nesaf. Yn 2010, nodwyd mai Middlesbrough oedd y dref fyddai’n lleiaf abl yn y wlad i ymdopi â sioc economaidd megis toriadau yn y sector cyhoeddus[101]

101 Has arts gallery boom paid off? ( Ian Youngs, BBC News, 16 Gorffennaf 2012)

Yn fwy diweddar, roedd Oriel Gelf Newydd Walsall mewn perygl o gael ei chau yn 2016/7 o ganlyniad i doriadau i gyllid yr awdurdod lleol (gostyngiad o 25% bob blwyddyn am bedair blynedd). Cafodd yr oriel ei galw yn symbol o adfywiad cymdeithasol ac economaidd Walsall[102] ac eto ym mis Mehefin 2017 roedd o dan fygythiad cael ei chau gan Gyngor Walsall oherwydd parhad mesurau cyni. Yn sgil deiseb gyhoeddus uchel ei phroffil a lofnodwyd gan 20,000 o bobl, cytunodd Cyngor Celfyddydau Lloegr i fuddsoddi £3,525,948 yn yr Oriel Gelf Newydd rhwng 2018 a 2022.[103]

Roedd Oriel Firstsite £28m yng Nghaer Colun (Colchester) wedi dioddef wrth i nifer yr ymwelwyr ostwng bedair blynedd ar ôl agor yn 2011.[104] Yn 2015 adroddwyd y byddai’r Oriel yn colli £500,000 y flwyddyn ariannol honno er gwaethaf dau chwistrelliad o gyllid. Ar ôl hynny, collodd yr Oriel ei statws Corff Portffolio Cenedlaethol (cytundeb cyllido tair blynedd) gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. Erbyn hyn, mae’r Oriel yn gweld tro ar fyd o dan y Cyfarwyddwr Interim Anthony Roberts, gan gynnwys cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr am y tro cyntaf ers agor a chynllun busnes wedi’i dderbyn gan gyllidwyr allweddol.

102 Closure of New Art Gallery Walsall (The Guardian, Culture, 30 Tachwedd 2016)
103 Jack Averty, Council boss ‘delighted’ as £3.5m funding saves Walsall’s New Art Gallery (Express and Star, 28 Mehefin 2017)
104 Colchester Firstsite gallery in famous art visitor boost bid (BBC News, 11 Awst 2015)

Diffinnir y model busnes ar gyfer sector y celfyddydau gweledol a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru gan dair ffynhonnell incwm:

- Cymhorthdal cyhoeddus – Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Awdurdodau Lleol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri;
- Incwm sydd wedi’i gyfrannu – cymorth gan ymddiriedolaethau a sefydliadau ac incwm preifat (unigol a chorfforaethol, gan gynnwys aelodaeth);
- Incwm wedi’i ennill – gan gynnwys tocynnau, arlwyo, manwerthu a llogi’r lleoliad.

### Cymhorthdal cyhoeddus

Mae mwyafrif helaeth dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau yn mynd i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Dyrennir refeniw o £31.2m iddo, allan o £31.7m, yng nghyllideb ddrafft 2017-18. Cynyddodd cyllid refeniw yn y maes hwn 3.5% mewn termau arian parod o’i gymharu â chyllideb 2016-17, yn dilyn nifer o flynyddoedd o doriadau;
- Mae cyllid cyhoeddus i Gyngor y Celfyddydau (cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru a chyllid o’r Loteri Genedlaethol) wedi gostwng mewn termau real dros y degawd diwethaf o ffigwr ariannol gwreiddiol o £29.5m yn 1995-1996 i ffigwr RPI wedi’i addasu o £26.7m yn 2016-17.






Sefydliad Celf Fodern Middlesbrough
Ffynhonnell: Francis Hannaway, 2013
Yr Oriel Gelf Newydd, Walsall
Ffynhonnell: Elliott Brown, 2014

*"Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol i Gyngor Celfyddydau Cymru wedi lleihau 10% mewn termau real dros y degawd diwethaf, ac mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar y sector i leihau ei ddibyniaeth ar y pwrs cyhoeddus."*[105]

Mae Portffolio Celfyddydol Cymru (APW), sef rhwydwaith Cymru gyfan o 67 o sefydliadau celfyddydol sy'n cael cyllid refeniw, yn cael £27m o Gymorth Grant Cyngor y Celfyddydau a chymorth awdurdod lleol o oddeutu £4.6m.[106] Mae deg sefydliad celf weledol yn y Portffolio sy'n derbyn oddeutu 7% (£1.89m) o gyfanswm y cyllid Cymorth Grant sydd ar gael, yn amrywio o £45k i £376k, ochr yn ochr â £520K ychwanegol mewn cyllid prosiectau.

Mae Ffigurau 28 a 29 yn tynnu sylw at ganran y gwariant Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol fel cyfran o'r cyfanswm gwariant ar ffurfiau celf yn y Grant Cymorth ac mewn Grantiau Loteri. Dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, y gwariant cyfartalog blynyddol ar y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol (o ffynonellau GiA a Loteri) y flwyddyn oedd £2,289,621.

105 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Meithrin Cydnerthedd - Ymchwiliad i Gyllid Heblaw Cyllid Cyhoeddus ar gyfer y Celfyddydau (Mawrth 2018) 5
106 Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau: Ymgynghoriad, CWLC(5) ART06, Tystiolaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn dosbarthu cyllid i brosiectau. Cafwyd 1,089 o geisiadau dros y tair blynedd ariannol o 2015-16 i 2017-18 oedd ag elfen celf weledol yn y prosiect; roedd 267 o'r 1,089 cais yn brosiectau celf weledol llwyr.

Fodd bynnag, mae cytundebau cyllido refeniw presennol y Cyngor Celfyddydau i sefydliadau'r celfyddydau gweledol yng Nghymru yn llawer is na'r buddsoddiad mewn sefydliadau tebyg gan Gyngor Celfyddydau Lloegr a'r Alban Greadigol (Ffigwr 26). Mae llawer yn priodoli hyn i etifeddiaeth datganoli.


*"Nid yw orielau cyhoeddus yng Nghymru wedi'u halinio â chyllid ar yr un lefel â chyllid cyhoeddus a ddarperir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr."*

Yn y Deyrnas Unedig, o ran y prif sefydliadau a ariannir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, eu hincwm yn fras yw 40% yn gymhorthdal, 50% yn incwm a enillir a 10% yn gyfraniadau[107] (Ffigwr 27). Er bod hyn yn hirsefydlog, mae'r model busnes hwn yn hollol anghynaliadwy.

107 Nesta, The New Art of Finance, Making Money Work Harder for the Arts (July 2014)


| | Cyngor Celfyddydau Lloegr | Cyngor Celfyddydau Cymru | Alban Greadigol |
|---|---|---|---|
| Cyfan | 293K | 188k | - |
| Yn seiliedig ar adeilad yn unig | 520k | 132k | 350k |

Ffigwr 26: Portffolio'r celfyddydau gweledol, gwariant blwyddyn ar gyfartaledd
Ffynhonnell: Event, Ionawr 2018





Ffig 27: Yr economi tri-phen yn ôl rhanbarth
Ffynhonell: Private Investment in Culture Survey, Arts & Business, 2012-13; The new art of finance; making money work harder for the arts, Nesta 2014; Encouraging Private Investment in the Cultural Sector, Senedd Ewrop, 2013; Data Cyngor Celfyddydau Lloegr o Sefydliadau a Ariannir yn Rheolaidd a Sefydliadau'r Portffolio Cenedlaethol; How the United States Funds the Arts; National Endowment for the Arts (2012); Australian Ministry for the Arts (2012). Mae incwm cyhoeddus (cymhorthdal) yn cynnwys Cynghorau'r Celfyddydau, cyllid y Loteri, Cyllid Awdurdod Lleol a chyllid Cyhoeddus arall; mae incwm wedi'i ennill yn cynnwys refeniw gwasanaethau rhaglenni (derbyniadau mynediad, arlwyo, manwerthu, hyrwyddiadau celfyddydol, ffioedd llogi preifat; hysbysebion rhaglenni; rhentu cerddoriaeth ac incwm Addysgol ac Atodol); mae incwm wedi'i gyfrannu yn cynnwys cyllidwyr corfforaethol (nawdd), Rhoddion ac incwm dyngarol gan unigolion ac ymddiriedolaethau/sefydliadau.

## Cyd-destunau Allweddol




Ffigwr 28: Grantiau'r Loteri (£) fesul ffurf ar gelfyddyd 2017-18
Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru. 2018




Ffigwr 29: Cymorth grant (£) fesul ffurf ar gelfyddyd 2017-18
Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru, 2018



event

# Cyd-destunau Allweddol

Yng Nghymru, er y derbyniwyd argymhelliad Adolygiad Thurley i gael cylch ariannu tair blynedd i Amgueddfa Cymru, eto mae'r cyllid wedi'i rewi hyd at 2020 i Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Cadw.

"Yna Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru i ddatblygu cyd-weledigaeth 10 mlynedd ar gyfer Amgueddfa Cymru gan fod â ffocws pum mlynedd iddi a chytundeb ariannu tair blynedd."[108]

The Arts Council of Wales' Visual Arts Portfolio organisations are on a two-year funding cycle, interlinked to the Welsh annual budget allocation from central government. As a result there was broad consensus that portfolio organisations are *caught in a short-termism trap*, unable to plan long-term.

Mae'r cyrff ym mhortffolio celfyddydau gweledol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gylch cyllido dwy flynedd, wedi'i gysylltu â dyraniad cyllideb flynyddol Cymru gan y llywodraeth ganolog. O ganlyniad, roedd consensws eang bod sefydliadau'r portffolio yn cael eu dal mewn magl byrdymhoriaeth, yn methu â chynllunio i'r tymor hir.

Mae awdurdodau lleol, er gwaethaf toriadau yn y gyllideb yn deillio o gyni, yn parhau i fod ymhlith cefnogwyr mwyaf arwyddocaol y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, a hynny drwy roi cyllid yn uniongyrchol i orielau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a lleoliadau perfformio ar draws y wlad, a thrwy grantiau a chymorth mewn ffyrdd eraill i sefydliadau celfyddydol annibynnol. Trwy eu rôl mewn addysg, iechyd y cyhoedd, datblygu economaidd, lleihau tlodi, rheoleiddio cynllunio a'u dealltwriaeth o anghenion a chyfleoedd lleol,[109] mae ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae wrth wireddu potensial dinasyddiaeth greadigol yng Nghymru.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) wedi cyhoeddi cyfres o newidiadau ariannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19, gan gynnwys cyllideb dynnach a gostyngiad yn symiau grantiau, a bydd hyn yn effeithio ar sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid treftadaeth. Ar hyn o bryd mae'r CDL wrthi'n cynllunio ei fframwaith ariannu strategol ar gyfer 2019-2024, wrth iddi addasu i ostyngiad yn incwm y Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriadau ar symleiddio'r rhaglenni grant, cyflwyno mentrau cyllid heb grantiau megis benthyciadau, a democrateiddio'r broses o wneud penderfyniadau am grantiau. Mae CDL wedi pwysleisio y bydd unrhyw gyllid strategol newydd yn cefnogi arloesedd a ffyrdd newydd o weithio ac mae'n debygol y bydd ffocws cryf ar dirweddau a pharciau trefol.

Daeth Rhaglen Gyfalaf y Loteri ar gyfer prosiectau mawr (gan gynnwys mentrau celf gyhoeddus), wedi'i weinyddu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, i ben yn 2017. Roedd Oriel Davies yn y Drenewydd ac Oriel Myrddin yng Nghaerfyrddin wrthi'n cynllunio gwaith ehangu cymharol fach, ac adnoddau cyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru drwy'r Loteri yn sail i'r ehangu hwnnw. Fodd bynnag, bu'n rhaid gohirio'r rhain yn sgil cau'r Gronfa.

Yn wyneb y toriadau ariannol hyn, ynghyd â heriau eraill i sefydliadau diwylliannol ledled y Deyrnas Unedig, mae model busnes sylfaenol y sector cymhorthdal yng Nghymru yn fregus ar y gorau. Cadarnheir y canfyddiadau hyn yn Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau (Mawrth 2018) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn Adolygiad Thurley o Amgueddfa Cymru – National Museum Wales (2017), a'r ddau wedi'u cyhoeddi yn ystod yr astudiaeth hon ynghyd ag Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (2015).

Mae'r astudiaethau hyn yn pwysleisio'r diffyg difrifol mewn arbenigedd a buddsoddiad mewn meysydd penodol megis marchnata ac incwm a enillir, diffyg capasiti ac adnoddau staff, gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr,[110] a phrinder y gronfa gyllido breifat, gorfforaethol a chyhoeddus, y mae angen pob un ohonynt i alluogi model cyllido amrywiol iach i sefydliadau celfyddydol unigol.[111]

### Incwm wedi'i gyfrannu

Roedd yr ymgynghoriadau â churaduron a chyfarwyddwyr wedi tynnu sylw at bryderon sylfaenol ynghylch nawdd cyhoeddus:

*"Mae maint sefydliadau yng Nghymru yn golygu ei bod yn anodd cael gafael ar arian. Mae hyn yn gwaethygu os ydym wedi ein lleoli i ffwrdd o'r dinasoedd. Mae Llundain yn cael y mwyafrif o gyllid y sector preifat, ac ychydig sy'n cyrraedd y rhanbarthau.*
**Cyfarwyddwr Oriel**

*"Does gennym ni ddim llawer o bobl â gwerth net uchel na chwmnïau mawr yng Nghymru. Er bod yna Gymry alltud, dyw e ddim yn debyg i'r Gwyddelod alltud."*
**Cyfarwyddwr Oriel**

*"Mae sefydliadau yn Ewrop wedi cwtogi faint maen nhw'n eu rhoi mewn grantiau."*
**Cyfarwyddwr Oriel**

108 Dr Simon Thurley CBE, Adolygiad o Amgueddfa Cymru – National Museum Wales (Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017)

109 Nododd yr arolwg ADUK / CCC diweddaraf (2015) bod y Celfyddydau yn cyfrannu at ganlyniadau'r gwasanaethau cyhoeddus, gyda 96% o ymatebwyr yn datgan bod eu gwasanaethau celfyddydol yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles; dywedodd 86% eu bod yn cyfrannu at gymunedau cryfach a diogelach; 75% yn cyfrannu at gydraddoldeb ac allgáu, a 75% yn cyfrannu at wasanaethau addysg a phlant.

110 Martin Bailey, Is the UK museum boom over? (The Art Newspaper, 26 Mawrth 2014)

111 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Meithrin Cydnerthedd - Ymchwiliad i Gyllid Heblaw Cyllid Cyhoeddus ar gyfer y Celfyddydau (Mawrth 2018); Dr Simon Thurley CBE, Adolygiad o Amgueddfa Cymru–National Museum Wales (Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017); a Dr Haydn E Edwards, Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (2015)

*"Nid yw rhai ymddiriedolaethau a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig yn hyrwyddo eu hunain yng Nghymru."*
**Cyfarwyddwr Orielr**

Dywedodd y cyfweleion hefyd fod *"cystadleuaeth enfawr am gyllid o sefydliadau ac ymddiriedolaethau craidd"* megis Sefydliadau Paul Hamlyn, Foyle, Clore Duffield ac Esmée Fairbairn, ond mae yna "*ddiffyg capasiti a gwybodaeth a phrofiad ymarferol ynghylch llunio ceisiadau am gefnogaeth grantiau."* **Cyfarwyddwr Oriel**

Pwysleisiwyd hefyd fod curaduron am roi blaenoriaeth i waith curadurol, ymchwil a datblygu, a rhaglennu yn hytrach na grantiau, a oedd *"yn eu tynnu oddi wrth eu swyddi"*.

Adleisir y cyfyngiadau hyn yn Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau (Mawrth 2018) ac yn Cipolwg ar ddyfodol ariannu elusennau yng Nghymru gan Sefydliad Garfield Weston a gyhoeddwyd mewn partneriaeth â'r Ganolfan ar gyfer Rhoi Elusennol ac Ysgol Fusnes Cass (2015).

Dywedwyd yng ngweithdy Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW) fod y rhaglen Cydnerthedd wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i nifer o fudiadau, *"mae wedi gwneud i ni ystyried beth rydyn ni'n ymwneud ag ef... mae wedi gwneud i ni feddwl beth rydyn ni am roi blaenoriaeth iddo."*
**Cyfarwyddwr Oriel**

Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y dyhead a'r rheidrwydd am fuddsoddiad pellach i feithrin gallu a datblygu sefydliad, a bod hyn yn flaenoriaeth i bron pob un o'r sefydliadau a gyfwelwyd. Er bod llawer o sefydliadau yn entrepreneuraidd ac yn uchelgeisiol, nid oes modd ar hyn o bryd cael newid gêr ar lefel sefydliadol i gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Ni all entrepreneuriaeth, ariannu prosiectau arbrofol ac arloesol a chyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach eu gwireddu'n llawn oherwydd y cyfyngiadau hyn.

*"Mae cryn gystadleuaeth am gyllid yn genedlaethol, a phrif ganolbwynt y sefydliadau celfyddydol craidd (Sefydliad Paul Hamlyn, Sefydliad Foyle, Clore Duffield, Sefydliad Esmée Fairbairn) yn y Deyrnas Unedig yw Llundain."* **Cyfarwyddwr Oriel**

Er bod rhoddion a nawdd gan fusnesau wedi bod yn anos i'w sicrhau o ganlyniad i leihad yng nghyllid Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol[112] mae yna botensial i archwilio a ellir defnyddio cyllidebau marchnata, sy'n aml yn sylweddol uwch. Mae'r rhain yn gofyn am fudd masnachol yn hytrach na dyngarol i'r cwmnïau ac yn codi materion yn ymwneud ag arbenigedd a gallu i'r rhan fwyaf o sefydliadau celfyddydol.

Mae tua 116 o wirfoddolwyr FTE ledled y deg sefydliad sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydol Gweledol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn ogystal â staff cyflogedig sy'n rhoi *"oriau gwirfoddoli a gweithio am nwyddau."*
**Cyfarwyddwr Oriel**

Awgrymodd rhai o'r cyfweleion ei bod yn anodd rhoi gwerth ar y cyfraniad hwn (ar ben oriau FTE) ac yn aml ni chaiff ei gydnabod.

Ychydig iawn o'r rhanddeiliaid a holwyd a soniodd am rôl eu Byrddau yn cyfrannu at ymdrechion codi arian. Mae hwn yn gyfle amlwg i'r sector, fel y pwysleiswyd yn astudiaeth Garfield Weston, *"Er bod 75% o fudiadau wedi dweud bod eu Bwrdd yn ymwneud â chodi arian, nid yw llawer o Ymddiriedolwyr yn rhan ar lefel strategol a dywedodd y rhan fwyaf o fudiadau bod cynhyrchu incwm wedi'i arwain gan gyfle. Byddai datblygu arbenigedd codi arian ar lefel y Bwrdd a recriwtio ar sail sgiliau yn gallu helpu mudiadau i symud ymlaen i chwilio am ffynonellau eraill o incwm mewn ffordd strategol."*[113]

**Incwm a Enillir**

O gofio'r toriadau ariannol, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn annog sefydliadau i leihau eu dibyniaeth ar gymhorthdal cyhoeddus a chynyddu'r incwm a enillir ganddynt hwy eu hunain. Mae sefydliadau mwy o faint sydd â defnydd cymysg fel Canolfan Celfyddydau Chapter wedi gallu ennill 59% o'i chyfanswm incwm (2016-17) trwy werthu tocynnau, llogi a rhentu, manwerthu a masnachu bwyd a diod.[114] Fodd bynnag, mae nifer o sefydliadau yng Nghymru nad ydynt o faint digonol – o ran gofod, staffio neu drosiant blynyddol – i fedru creu incwm sylweddol.

Mynegodd llawer bryder ynghylch y gwthio i gynyddu incwm a enillir. Er bod y rhai a gyfwelwyd yn nodi eu huchelgais i fod â *"mwy o grebwyll masnachol"*, nododd rhai *"ddiffyg amser, gallu a gwybodaeth"* mewn perthynas â sut y gellir mynd i'r afael â hyn. Pwysleiswyd hyn hefyd yn Cipolwg ar ddyfodol ariannu elusennau yng Nghymru, a oedd yn canolbwyntio'n ehangach ar elusennau – *"mae mudiadau mwy o faint yn ymdopi yn well â'r cyd-destun cyllido sy'n newid, er bod llawer o elusennau bach i ganolig eu maint wedi cymryd ychydig o gamau pendant tuag at symud o gefnogaeth gyhoeddus draddodiadol i ffyrdd newydd o weithio; mae angen iddynt fod yn fwy rhagweithiol wrth fynd ati i adnabod a chwilio am gymorth â'u hanghenion tyfu a datblygu."*

112 Canolfan Celfyddydau Chapter, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau, CWLC(5) ART07 Tystiolaeth gan Chapter (2018)

113 Cipolwg ar Ddyfodol Ariannu Elusennau yng Nghymru (Sefydliad Garfield Weston mewn partneriaeth â'r Ganolfan ar gyfer Rhoi Elusennol ac Ysgol Fusnes Cass (2015)); https://garfieldweston.org/wp-content/uploads/2017/01/GWF-Welsh-Summary-of-Insight-into-Future-of-Charity-Funding-in-Wales.pdf

114 Canolfan Celfyddydau Chapter, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlae-thol Cymru, Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau, CWLC(5) ART07 Tystiolaeth gan Chapter (2018)

**Newydd-ddyfodiad**
Cytunai'r ymgyngoreion yn unfrydol y dylai unrhyw endid celf gyfoes cenedlaethol gryfhau seilwaith presennol y celfyddydau gweledol y mae Cymru wedi buddsoddi'n systematig ynddo yn ystod y deng mlynedd diwethaf:

*"Byddai'n hynod gyffrous ceisio cael oriel gyfoes genedlaethol ar gyfer y celfyddydau. Ychwanegiad gwirioneddol bwysig i'r tirlun yma. Rydym yn teimlo'n hynod bositif ynghylch ceisio gwneud i hyn ddigwydd."*
**Arweinydd Celf**

Fodd bynnag, datgelodd ymgynghoriadau bod pryder ar draws y sector y byddai unrhyw newydd-ddyfodiad cenedlaethol, sy'n gofyn am gymorth cyfalaf mawr a chymorth refeniw parhaus, yn gallu ansefydlogi ac, ar y gwaethaf, ddinistrio'r ecoleg bresennol sy'n cael ei chyllido'n gyhoeddus ac y byddai'n gystadleuaeth am gyllid preifat prin, fel y soniwyd uchod.

*"Ar yr adeg hon, mae'n ymwneud â chyfyngu'r difrod."* **Cyfarwyddwr Canolfan Gelfyddydau**

*"Yn y bôn, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gyda chyllid cyhoeddus i leoliadau a sefydliadau sy'n bodoli eisoes yn gostwng, a'r gystadleuaeth am gyfleoedd cyllido allanol yn cynyddu'n ddramatig tra bod yr arian sydd ar gael yn crebachu, rydym yn amau y bydd y sector yn teimlo ei fod yn ddatblygiad anghynaliadwy os yw'n lleoliad annibynnol ac nad yw'n cydnabod gwerth a chyfraniad casgliadau a lleoliadau sy'n bodoli eisoes."*
**Cyfarwyddwr Amgueddfa**

Dywedodd un cyfarwyddwr amgueddfa yn Llundain:

*"Pryder arall i mi, ar ôl darllen papur Mendoza [Adolygiad Amgueddfeydd Lloegr][115]. Rwyf wir yn bryderus am wydnwch – a'r ddibyniaeth ar gymorth corfforaethol. Nid wyf yn credu y dylai [yr Oriel Genedlaethol] hon fod yn injan arall i godi arian ar ei chyfer... O fewn cyd-destun Brexit mae hyn yn bryder difrifol iawn."*

**Model Busnes**
**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Ni ddylai ffocws ar godi arian cyfalaf fwrw cysgod dros ddatblygu astudiaeth ddichonoldeb codi arian gweithredol a model gweithredu realistig a chofrestr risgiau.

2. Rhaid i'r model incwm ar gyfer endid cenedlaethol newydd i gelf gyfoes gael ei ddiffinio gan gyfleoedd refeniw sydd o fudd i'r sector ehangach, yn hytrach na chymryd oddi wrtho; er enghraifft trwy geisiadau mewn partneriaeth, rhannu arbenigedd codi arian, rhannu cronfa adnoddau a strategaethau meithrin rhoddwyr, neu raglennu wedi'i ddosbarthu.

3. Mae cyfle i endid celf gyfoes cenedlaethol fod yn arweinydd wrth helpu'r sector i ail-lunio ei fodel busnes, er enghraifft, trwy gynnig mynediad uniongyrchol i staff arbenigol sy'n gweithio ar lefel genedlaethol. *"Mae sefydliadau mwy o faint yn llawer tebycach o ymddangos yn ddeniadol i fuddsoddwyr posibl, ac mae'n fwy tebygol y bydd ganddynt fynediad at y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau cyllid."*[116]

4. Mae'r *economi tri-phen* ansefydlog cyfredol ynghyd â chydgystadlu (*co-opetiton*) rhwng sefydliadau celfyddydol Cymru ynghyd â chylchoedd cynllunio a chyllido nad ydynt yn alinio â'i gilydd, yn golygu bod angen archwilio ffynonellau incwm eraill y tu hwnt i'r categorïau traddodiadol. Gallai'r rhain gynnwys cyllido torfol, dyngarwch menter, cyfalaf tymor estynedig, cytundebau benthyciad, ymchwil a datblygu, ac/neu fodelau cyllido newydd mewn cyllid cymdeithasol. Fel y nodwyd ym mhapur Nesta, The New Art of Finance, mae hyn wedi creu dull mwy cynaliadwy.[117]

5. Mae cyfle gan yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol newydd i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu a dylid cael rhywfaint o gymhelliant i wneud hynny, megis mewn sectorau eraill. Gall manteision posibl hynny, yn enwedig o ran meithrin cynulleidfaoedd – ac felly micro-gyllidwyr – fod yn sylweddol.

115 Neil Mendoza, Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig, The Men-doza Review: an independent review of museums in England (14 Tach 2017)

116 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Meithrin Cyd-nerthedd - Ymchwiliad i Gyllid Heblaw Cyllid Cyhoeddus ar Gyfer y Celfyddydau (Mawrth 2018)

117 Nesta, The New Art of Finance, Making Money Work Harder for the Arts, (Gorffennaf 2014)

**Yr Achos Cymdeithasol dros Fuddsoddi**
*"I ddweud wrth bobl sy'n brwydro am swyddi fod celf a chelf gyfoes yn bwysig, mae hwnnw'n benderfyniad dewr ac yn angenrheidiol."* **Roger Maggs, Cadeirydd Ardal Fenter Glannau Port Talbot**

### Buddsoddi mewn Effaith

Mae twf *Buddsoddi mewn Effaith*, sef cyfuno elw ariannol â'r bwriad i greu newid cymdeithasol neu amgylcheddol cadarnhaol, ar hyn o bryd yn cyfrif am o leiaf £150bn o fuddsoddiad cyfalaf ymrwymedig mewn buddsoddiadau effaith yn y Deyrnas Unedig yn unig.[118] Tanlinellir hyn gan fodolaeth ecosystem amrywiol o gyfryngwyr sy'n arbenigo mewn buddsoddiad er effaith.[119] Mae Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi cyfalaf cudd sylweddol o fuddsoddwyr manwerthu a sefydliadol sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi twf yn y dyfodol ac mae Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Deyrnas Unedig wedi meintioli hyn, gan awgrymu dros y degawd nesaf y gellid sianelu tua £300bn i Fuddsoddiadau Effaith gan helpu i fynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol hollbwysig.[120]

118 Trysorlys EM, Tracey Crouch AS, a Stephen Barclay AS, Growing a Culture of Social Impact Investing in the UK (Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Tachwedd 2017)
119 Ibid
120 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Deyrnas Unedig ar Fuddsoddi mewn Effaith, The Rise of Impact: Five steps towards an inclusive and sustainable economy (Hydref 2017)

Gan adeiladu ar y Tasglu Buddsoddi mewn Effaith Gymdeithasol, a sefydlwyd o dan lywyddiaeth y DU yn y G8, sefydlwyd Grŵp Llywio Byd-eang annibynnol yn 2015 i ysgogi entrepreneuriaeth a buddsoddiadau effaith er lles pobl a'r blaned. Ar hyn o bryd mae gan y Grŵp Llywio hwn 15 o wledydd yn aelodau yn ogystal â'r UE ac mae'n dwyn ynghyd arweinwyr o fyd cyllid, busnes a dyngarwch.

Eto i gyd, er gwaethaf y symudiad byd-eang hwn, mae mwyafrif helaeth y buddsoddiadau hyn hyd yma yn anelu at agor busnesau cymdeithasol (e.e. mentrau cymdeithasol) i farchnadoedd a buddsoddwyr ariannol. Mae Cyfarwyddwr Economïau Cymdeithasol a Chreadigol y British Council, Mairi MacKay, yn awgrymu nad yw sefydliadau celfyddydol wedi ymuno â mentrau cymdeithasol i fynd ati'n weithredol i goleddu'r marchnadoedd, rhwydweithiau ac arweinwyr hyn ar lefel strategol – *"nid yw'r sector Menter Gymdeithasol hyd yn ddiweddar wedi sicrhau bod mentrau a phrosesau creadigol wrth wraidd y ddadl dros newid cymdeithasol. Mae ffordd llawer mwy integredig o feddwl am yr agenda hon sy'n cynnwys mentrau cymdeithasol a chreadigol yn gweithio gyda'i gilydd i ddatgloi system newydd radical, ac economi gynhwysol a chreadigol."*

*Mae adroddiad Nesta, The New Art of Finance, yn pwysleisio'r cyfle hwn ymhellach wrth ddweud y gallai sefydliadau celfyddydol elwa o ymgysylltu â buddsoddwyr sydd am gyfuno'r effaith ariannol, cymdeithasol ac artistig."*[121] [122]

Mae *Buddsoddi mewn Effaith* yn rhoi cyfle ariannol i fusnesau cymdeithasol eu naws, ar yr un pryd â mesur a chymhwyso effaith cyfryngol a chynhenid y celfyddydau mewn hen, hen ddeialog, mae'n amlwg nad yw sector y celfyddydau yng Nghymru, o leiaf, hyd yn hyn wedi safleoli ei hun yn strategol ac yn benodol yn y gofod Buddsoddi mewn Effaith, er cynnal gweithgareddau cymdeithasol gwerthfawr.

Er mwyn gwneud hynny, mae angen gwrthod cwestiynau cyfarwydd ynghylch y gwahaniaeth rhwng yr economaidd a'r cynhenid a'r *cyfiawnhad* cyfryngol ehangach dros ddiwylliant yn ogystal â phryderon ynghylch sut i fesur effaith sydd mor ddi-ffurf a hydredol.

121 Nesta, The New Art of Finance, Making Money Work Harder for the Arts (July 2014)
122 British Council's recently launch of the Developing Inclusive and Creative Economies (DICE) Programme is focusing on those enterprises working at the intersection of social and creative enterprise to address some of society's most entrenched challenges including gender inequality and youth unemployment. This is a nascent sub-sector that is designed in part to attract new forms of private investment

### Yr agenda iechyd a lles

Roedd cyhoeddi'r Oxford Textbook of Creative Arts, Health and Well-being[123] yn 2016 ac Adroddiad ar Ymchwiliad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar y Celfyddydau, Iechyd a Lles, Creative Health: The Arts for Health and Well-being[124]yn 2017 yn adlewyrchu'r ffaith bod y maes hwn bellach yn cael ei gydnabod yn fyd-eang fel maes blaenoriaeth i'r celfyddydau ac i iechyd y cyhoedd. O ran iechyd y cyhoedd, mae hyn oherwydd cydnabyddir nad problemau mawr a chynyddol ein cyfnod bellach yw dŵr glân a chlefydau heintus, ond yn hytrach anghydraddoldebau cymdeithasol ym maes iechyd, gordewdra a materion seicogymdeithasol sy'n gysylltiedig â cholli ystyr, unigrwydd ac unigedd, yn enwedig, ond nid yn unig, ymhlith yr henoed. Mae hyn yn gofyn am ymagwedd fwy cyfannol tuag at iechyd a lles cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar systemau a rhwydweithiau cymdeithasol, hyrwyddo gweithgareddau sy'n gwella gwydnwch unigolion a pherthnasau da, ymddiriedaeth, cydweithredu, ymwybyddiaeth o'n gilydd a derbyn ein gilydd.[125]

123 Stephen Clift a Paul Marc Camic, Oxford Textbook of Creative Arts, Health, and Well-being (Oxford, Oxford University Press, 2016)
124 Adroddiad ar Ymchwiliad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar y Celfyddydau, Iechyd a Lles, Creative Health: The Arts for Health and Well-being (Gorffennaf 2017)
125 Phil Hanlon a Sandra Carlisle, The Fifth Wave of Public Health and the Contribution of Culture and the Arts; Oxford Textbook Of Creative Arts, Health and Well-being (Oxford, Oxford University Press, 2016) 19-26

Bellach mae tystiolaeth dda am yr effaith gadarnhaol y mae cymryd rhan yn y celfyddydau yn ei chael ar iechyd, gan amrywio o therapi celf ffurfiol, i artistiaid yn gweithio mewn amgylchiadau iechyd, i'r celfyddydau yn gymorth therapiwtig i bobl â diagnosis canser neu sydd â chyflyrau hirdymor fel dementia. Mae yna hefyd dystiolaeth gynyddol bod mynd i weithgarwch diwylliannol heb gymryd rhan mewn gweithgareddau e.e. ymweld ag amgueddfa neu oriel gelf neu fynd i gyngerdd byw – yn cael cymaint o effaith ar iechyd a lles nes bod mynychwyr rheolaidd yn byw yn hirach na phobl nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd.[126] Mae'r gwaith hwn, a gynhaliwyd gan epidemiolegwyr, yn awgrymu nad yw'r effaith hon oherwydd fod pobl iach fod yn fwy gweithgar yn ddiwylliannol nac oherwydd sgil-effeithiau cymdeithasol neu gorfforol, ond yn hytrach oherwydd yr ymgysylltiad emosiynol ac ystyrlon â diwylliant. Mae astudiaethau wedi dangos, er enghraifft, fod yr effaith hon yn diflannu wrth beidio â mynd i'r gweithgarwch diwylliannol a bod yr effaith yn ailddechrau o ddechrau mynd eto attendance.[127] Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi'u cynllunio i hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol a mynd iddynt trwy gydol oes.
Yn ystod yr astudiaeth hon, cyhoeddodd 27 sefydliad yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar draws Gogledd Orllewin Lloegr (Swydd Gaer a Glannau Mersi) eu hymrwymiad i ddatblygu cynllun rhoi presgripsiwn cymdeithasol. I ddechrau, bydd y cynllun yn canolbwyntio ar famau newydd a menywod beichiog, gan ddefnyddio partneriaethau celfyddydol ac iechyd i roi'r *dechrau gorau* mewn bywyd i blant, a gobeithir y bydd yn sail ar gyfer rhoi presgripsiwn cymdeithasol cyffredinol i bob cam mewn bywyd ledled Lloegr gyfan.

126 Mark O'Neill, Cultural Attendance and Mental Health - From Theory to Practice, Journal of Public Mental Health 9 (2011) 22-29
127 SE Johannson, BB Konlaan, a LO Bygren, Sustaining Habits of Attending Cultural Events and Maintenance of Health: A Longitudinal Study. Health Promotion International 16 (2017) 229-234

Mae Cymru eisoes wedi cydnabod, yn Adroddiad Jay, bwysigrwydd lleihau anghydraddoldebau diwylliannol, a rôl y celfyddydau wrth greu cymdeithas fwy cyfiawn. Byddai manteisio ar effaith y celfyddydau ar iechyd trwy gynnal rhaglenni diriaethol, deinamig fel rhan o bortffolio Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r amcanion hyn.

### Addysg, Creadigrwydd a Dinasyddiaeth

Yn ôl astudiaeth yn 2016 wedi'i ariannu gan y Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) i werth y celfyddydau, sef Understanding the Value of Art and Culture, dangoswyd bod y celfyddydau mewn addysg yn cyfrannu mewn ffyrdd pwysig at y ffactorau sy'n sail i ddysgu, megis galluoedd gwybyddol, hyder, cymhelliant, datrys problemau a sgiliau cyfathrebu. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod hyn, drwy lansio, ym mis Mawrth 2015, raglen Dysgu'n Greadigol drwy'r Celfyddydau, mewn partneriaeth â Chyngor y Celfyddydau, wedi'i gefnogi gan fuddsoddiadau cyfartal Loteri'r Celfyddydau a chyllid yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, yn gyfanswm o £20m dros bum mlynedd. Roedd y gwerthusiad cychwynnol yn gadarnhaol iawn ac yn amlwg mae gan y rhaglen hon gryn botensial.[128]

Yn ehangach, canfu astudiaeth yr AHRC fod achos cryf bod ymgysylltu â'r celfyddydau yn helpu i feithrin unigolion adfyfyriol a dinasyddion ymgysylltiol ynghyd â chefnogi aelodau o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i archwilio a mynegi eu hunaniaeth. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar weledigaeth o'r celfyddydau yn chwarae rôl ysbrydoledig ym mhob cam o fywydau pobl, gan adeiladu ar y seilwaith presennol a rhaglenni pwysig megis Dysgu'n Greadigol drwy'r Celfyddydau. O'u cyfuno â'r angen a gydnabyddir yn eang i weithwyr y dyfodol fod yn fwy hyblyg a chael cyfleoedd penodol yn yr economi greadigol, mae'r rhain oll yn llunio achos cryf i'r celfyddydau fod wrth wraidd polisi Llywodraeth Cymru.

128 Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, Wavehill (Mawrth 2018)

**Yr Achos Cymdeithasol dros Fuddsoddi**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Mae cyfle i neidio dros y ddeialog sy'n ystyried y gwahaniaeth rhwng gwerth cyfryngol a chynhenid y celfyddydau, ac yn hytrach adeiladu rhaglen a gynlluniwyd i ysbrydoli a grymuso'r dinesydd creadigol. Mae angen ailfframio trafodaethau am y gwerth, ac ar hyn o bryd mae cyfle amlwg i Gymru ailgalibro sut y gall fynd ati orau i roi creadigrwydd wrth wraidd atebion i heriau mwyaf y gymdeithas sydd wedi hen ymwreiddio.

2. Gallai sector diwylliannol Cymru archwilio sut i fanteisio ar y gwynt cynyddol y tu ôl i Fuddsoddi mewn Effaith, ochr yn ochr ag agendâu eraill wedi'u halinio, wrth iddo fynd ati i ystyried ei fodel ariannu ei hun, a'r heriau cymdeithasol y mae'n dymuno mynd i'r afael â hwy mewn ffyrdd newydd a chreadigol yn y blynyddoedd a'r degawdau i ddod.

**Iaith 'Rhwystrau a Heriau'**
Roedd pwyslais amlwg yn iaith y rhai a gyfwelwyd ar y rhwystrau a'r heriau i gael endid cenedlaethol newydd. Roedd problemau mynediad tybiedig a rhai gwirioneddol yng Nghymru yn rhwystr allweddol a nodwyd gan bron i bob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy.

*"Y rhwystr pennaf yw daearyddiaeth a thopograffeg Cymru. Mae'n gwneud y wlad yn rhanedig."* **Cyfarwyddwr Oriel**

Sylweddolwyd bod yna ranbarthau gwahanol a chymunedau rhanbarthol yng Nghymru, ac er bod hyn yn her, gellid mynd i'r afael â hi mewn ffordd bositif.

*"[Yng Nghymru, mae angen i ni feddwl am y] ddeinameg nid yr amddifadedd."*
**Cyfarwyddwr Sefydliad Celfyddydol**

Awgrymodd ymgyngoreion eraill fod yna bryder ynghylch newid, o ystyried y pwll bach o weithwyr proffesiynol sydd wedi bod yn gweithio yn y sector a natur y model cyllido a'r ddibyniaeth ar gymhorthdal cyhoeddus yng Nghymru.

*"Bydd unrhyw fenter fel hyn yn cael ei ystyried yn fygythiad. Heriau sefydliadau newydd i rolau uwch a phobl sydd eisoes yn eu rolau; mae'n fygythiad i'w swyddi."*
**Cyfarwyddwr Oriel**

Fodd bynnag, nid y sector yn unig sydd â diffyg hyder parthed y celfyddydau gweledol. Mae'r wasg wedi chwarae rôl wrth waethygu'r naratif ei bod yn her. Mae hyn yn mynd yn ôl mor bell â 2000, ond mae'r naratif yn parhau heddiw. Soniodd nifer fawr o'r ymgyngoreion fod Canolfan y Celfyddydau Gweledol (CVA), a agorodd yng Nghaerdydd yn 1999 ond a gaeodd ddwy flynedd yn ddiweddarach, wedi'i dynghedu i fethu. *(Ceir rhagor o fanylion am hyn yn y rhan nesaf.)*

*"Pan fydd awdurdodau dinasoedd – ac yn achos Caerdydd, llywodraethau cenedlaethol – yn ceisio adfywio dinas trwy gymysgu prosiectau pensaernïol, artistig a hamdden, gall y canlyniadau fod yn drychinebus. Mae Sheffield wedi cael Canolfan Genedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth Boblogaidd (yn ogystal â'r Ganolfan Amhoblogaidd ar gyfer Cerddoriaeth Genedlaethol) na all dyluniad sgleiniog Nigel Coates guddio tlodi ei harddangosfeydd; mae Newcastle wedi cael canolfan gwyddorau bywyd mawr a dibwynt; mae Greenwich wedi cael y Dôm. Yr hyn sydd gan y ffolinebau hyn yn gyffredin yw cysyniad nawddoglyd ynghylch diwylliant poblogaidd."* **(wrth sôn am Ganolfan y Celfyddydau Gweledol)**

*"O edrych yn ôl, doedd Canolfan y Celfyddydau Gweledol byth yn mynd i lwyddo"*[129]

129 Jonathan Jones, The Regeneration Game (The Guardian, 16 Hydref 2000)

*"Unwaith eto (ac o bosibl yn unigryw yn Ewrop), mae Cymru yn canfod ei hun yn genedl nad oes ganddi lyfr sy'n rhwydd mynd ato sy'n disgrifio ei diwylliant gweledol i'w phobl ei hun ac i'r byd."*[130] **Peter Lord**

At hynny, mae llwyddiannau'r sectorau chwaraeon, perfformio a cherddoriaeth yn cael eu gogoneddu a'u defnyddio'n aml i gymharu â'r celfyddydau gweledol.

*"Pan gafodd James Richards ei roi ar restr fer Gwobr Turner – doedd dim balchder yn hynny; neu pan oedd Cerith Wyn Evans yn arddangos yn y Tate, dylai'r Cynulliad fod wedi sicrhau bod hyn yn hynod weladwy i'r cyhoedd yng Nghymru! Pe bai Michael Sheen neu rywun yn canu yn Times Square byddai wedi bod dros y wasg i gyd. Does dim diddordeb soffistigedig yn y celfyddydau gweledol."* **Artist**

*"Mae artistiaid yn cyflwyno obsesiynau Cymreig eraill. Nid yw byth yn gelf er ei fwyn ei hun. Mae bob amser yn 'saws celf' dros bwnc fel cloddio glo. Nid oes ganddynt hyder yn eu hartistiaid Cymreig."* **Artist**

130 Peter Lord, The Tradition: A New History of Welsh Art, 1400-1990 (2016)

**Iaith ‘Rhwystrau a Heriau’**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Mae diffyg systemau trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol ac effeithiol rhwng rhannau o Gymru yn gallu achosi heriau, yn enwedig i’r rheiny nad oes ganddynt fynediad at gar modur preifat; ond eto gall y bererindod i gelf ddod yn brofiad ynddo’i hun, gyda’r tirwedd yn rhan annatod o’r daith. Yn arbennig mewn oes pan fo mynediad i ddiwylliant digidol cyffredinol, byd-eang ar gael ar unrhyw adeg o unrhyw le, gellid safleoli rhwystrau daearyddol Cymru i fod yn ased digyffelyb. Gall Cymru gynnig rhywbeth nad oes modd ei gael unrhyw le arall yn y byd

2. O roi rhamantiaeth i’r naill ochr, mae’r rhwystrau i drafnidiaeth yn rhai real. Rhaid i unrhyw endid cenedlaethol fod yn wirioneddol genedlaethol, gan alluogi pobl i gael mynediad at ddiwylliant a chasgliadau eu cenedl yn weddol rwydd – yn hytrach nag ar draul amser ac arian. Dylid ystyried safleoli’r celfyddydau ar hyd Ffyrdd Cymru a llwybrau eraill y mae defnydd da arnynt rhwng cymunedau, yn ogystal â darparu mynediad i’r celfyddydau ochr yn ochr ag atyniadau poblogaidd eraill ar draws y wlad.

3. Rhaid meithrin hyder yn sector y celfyddydau gweledol ynghylch yr hyn a gyflawnwyd eisoes ac i lawn ddefnyddio llwyddiannau allweddol yn y celfyddydau gweledol.

**Syrffedu ar ymgynghori**
*"Am benderfyniad ofnadwy o wael wnaeth bois Cymru. Ac rydw i o ddifri, gwirioneddol dwp. Roedd ganddyn nhw'r pensaer penigamp yma gyda'r dyluniad gwych hwnnw ac mi wnaethon nhw lanast ohoni, llanast llwyr. A gallai rhywun foicotio Cymru am byth go iawn ar sail hynny yn unig. Pam ddim?"*
**Piers Gough, Pensaer**

Pwnc sy'n parhau yn y drafodaeth yw adlais ymdrechion degawdau i greu sefydliad cenedlaethol i'r celfyddydau, gan gynnwys oriel gelf gyfoes. Ystyria llawer o'r ymgyngoreion fod unrhyw oriel genedlaethol newydd yn *risg uchel* ac roedd gan y mwyafrif gwestiynau ynghylch pwy fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol a ddylid bwrw ymlaen â'r argymhellion ai peidio, a sut.

Yn 1995 gwrthododd Cymru y cyfle i wireddu dyluniad buddugol Zaha Hadid ar gyfer cartref newydd i Opera Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd – dyluniad y cytunai llawer o'r ymgyngoreion a fyddai wedi ateb yr awydd nad ymddengys fod modd ei ddiwallu am bensaernïaeth ysblennydd, feddylgar i letya celfyddyd o safon fyd-eang. Yn y pen draw defnyddiwyd y dyluniad, a'i gostau cyfalaf wedi'u hamcangyfrif i fod rhwng £45 a £60m yn 1995, i adeiladu Tŷ Opera mawreddog Guangzhou yn Tsieina (2010). Heddiw, caiff Tŷ Opera Guangzhou y clod am drawsnewid dinas yn Tsieina sydd â phoblogaeth sy'n bedair gwaith maint poblogaeth Cymru yn brifddinas ddiwylliannol. Archwiliwyd cymhlethdod y penderfyniad a wnaeth y pwyllgor rhyngwladol yng Nghymru mewn nifer o bapurau a Hadid ei hun wedi sôn amdano yn aml cyn ei marwolaeth cyn pryd.[131]

Adroddiad 2008 ABL (*The future display of visual art in Wales – Options Study for a National Centre for Contemporary Art*) was oedd y diwethaf o sawl adroddiad oedd wedi dadlau'r achos dros gael canolfan i gelf gyfoes yng Nghymru, gan gynnwys trafodaethau mor bell yn ôl ag 1986 wedi arwain ar astudiaeth ddichonoldeb 1992.[132] Esgorodd yr astudiaeth honno ar agor Canolfan y Celfyddydau Gweledol Caerdydd (CVA) yn 1999. Roedd cau'r Ganolfan honno ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 2001 yn destun adolygiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.[133] Trafodwyd y cau ym mhapur y *Guardian*, gan bwysleisio'r methiant ymhellach, a'r rhesymau sylfaenol, drwy ddweud fod sefydliad gwleidyddol Caerdydd wedi mynd ati i sefydlu'r Ganolfan mewn ffordd mor ddiawydd a llugoer nes ei bod hi'n anodd credu eu bod eisiau oriel gelf fodern o gwbl. Yn hytrach na meithrin cynulleidfa ar gyfer celf newydd, bu'r Ganolfan yn brawf i geidwadwyr diwylliannol nad yw pobl Cymru am gael sbwriel celf fodern fel hyn.[134]

Ar ôl cau Canolfan y Celfyddydau Gweledol cafwyd tair astudiaeth wedyn a gyflwynai dystiolaeth am yr angen i gael canolfan genedlaethol i'r celfyddydau gweledol cyn cyhoeddi adroddiad ABL. Ailgododd y drafodaeth am leoliad celfyddydau gweledol o'r radd flaenaf yn 2013 wrth drafod a allai Cymru fod yn lleoliad hyfyw ar gyfer masnachfraint nesaf Guggenheim.[135] Er na wireddwyd y bartneriaeth hon yn y pen draw, parhau y mae'r ddadl am ei photensial, ynghyd â'r uchelgais ar gyfer y sector.

At hynny, cafwyd cyfres o gyhoeddiadau diweddar sydd wedi gofyn am weithwyr proffesiynol diwylliannol i gyfrannu mewnbwn helaeth ac ystyrlon. Mae'r rhain yn cynnwys Adolygiad(au) Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru (2011, 2016), a Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau (2018), ymysg eraill.

Nid yw'n syndod bod cyfran fawr o randdeiliaid yn profi blinder ymgynghori, gan fod ymchwilio helaeth wedi bod i'r posibilrwydd o oriel gelf gyfoes yn y gorffennol. O gofio yr ymgynghorwyd â llawer ohonynt ar gyfer nifer o adolygiadau cenedlaethol, a'u bod wedi gweld llawer o'r argymhellion yn methu â chael eu gwireddu ,[136] mae llawer yn pryderu mai ymarfer academaidd fydd hwn eto yn y pen draw.

*"Mae'r dyhead yn fawr ymhlith y gymuned artistiaid a phobl sy'n hoff o gelf. Rydym wedi bod yn gofyn am hyn ers amser maith. Rydyn ni wedi cael astudiaethau dichonoldeb o'r blaen. Ai dim ond astudiaeth ddichonoldeb arall na fydd yn arwain at unrhyw beth yw hon?"* **Artist**

*"Credaf fod yr astudiaeth ddichonoldeb wedi esgor ar y teimlad fod posibilrwydd – mae cynifer o randdeiliaid, barn, teimladau o hawl i gael un. Sut beth allai fod? Beth ddylai e fod? Bydd hynny ond yn dwysáu oherwydd hanes Canolfan y Celfyddydau Gweledol (y CVA)."*
**Partner Prifysgol**

---

131 Nicholas Crickhowell, Opera House Lottery: Zaha Hadid and the Cardiff Bay Project (1997). Award-winning business woman Zaha Hadid hits out at 'prejudice' over doomed Cardiff Bay Opera House project (Wales Online, Paul Rowland, 2013), Hugh Pearmen, The Sunday Times Architecture Critic appearing in Documentary from Alan Yentob (Imagine, BBC) about Zaha Hadid. Opera house design winner rebuffed (The Independent, Jonathan Glancey, 1995); Albena Yaneva, Mapping Controversies in Architecture (Routledge Publishing, 2016)

132 David Pratley, Adolygiad o Orielau Celf a Mannau Arddangos Parhaol yng Nghymru (2001) – canfu'r adolygiad hwn fod y gwariant fesul pen y boblogaeth ar gynnal mannau arddangos y celfyddydau gweledol yng Nghymru yn 30% yn llai na'r gwariant yn Lloegr a 42% yn llai na'r gwariant yn yr Alban; DCA Consultants a Peter Jenkinson OBE, Dyfodol Arddangos Celf Cymru (Ionawr 2006)

133 Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol – Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

134 Jonathan Jones, The Regeneration Game (The Guardian, 16 Hydref 2000)

135 Adam Price, Why a Welsh Guggenheim Makes Sense (The Guardian Mehefin 2013)

136 Er enghraifft, nododd adroddiad Pratley (2001), "Y gwendidau allweddol a nodwyd oedd anallu i fynd ag arddangosfeydd ar daith yn effeithiol oherwydd diffyg mannau a diffyg gallu a sgiliau i wella niferoedd ymwelwyr" ac mae'r olaf o'r rhain yn dal yn fater sy'n cael ei godi 17 mlynedd yn ddiweddarach.

**Syrffedu ar Ymgynghori**

**Goblygiadau a Chyfleoedd**

1. Er gwaethaf yr amheuon, fodd bynnag, ar draws yr astudiaeth gwelwyd uchelgais a brwdfrydedd pwerus a helaeth i lunio model newydd i arddangos celfyddyd gyfoes yng Nghymru sy'n hybu'r ecoleg bresennol ac sy'n sicrhau bod celf Cymru yn cymryd ei lle haeddiannol ar y canfas byd-eang.

2. Cytunodd y mwyafrif fod gan Gymru gyfle rhyfeddol, os nad hanfodol, i feithrin creadigrwydd ac ymgorffori celfyddyd gyfoes, berthnasol o'r radd flaenaf i fywydau pobl Cymru.

S Mark Gubb, Revelations: The Poison of Free Thought Part II, comisiynwyd gan g39.
Ffynhonell: g39
Gorffennaf 2018

# 3. Pwrpas a Gweledigaeth



# Pwrpas a Gweledigaeth

*"Ond mae methu â chyfranogi [mewn diwylliant] yn golygu canlyniadau i'r economi yn ogystal â'r unigolyn, yn enwedig yng nghyd-destun y diwydiannau creadigol a chyfathrebu fel pwerdai mawr economi'r dyfodol. Nid yw'n gysylltiedig â chyfoethogi bywydau yn unig; ond drwy beidio â chael cysylltiad â'r hyn y gall gwybodaeth a gweithgarwch gelfyddydol ei gynnig, mae pobl a chymunedau yn cael colled, o ran hawliau, swyddi a dinasyddiaeth. Mae Cymru yn colli cyfalaf cymdeithasol ac ni all fforddio gwneud hynny."* **Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, Y Farwnes Kay Andrews OBE, Mawrth 2015**

**Pwrpas**

Ar draws y byd, mae mwyafrif helaeth yr orielau cenedlaethol yn datgan mai eu prif bwrpas yw *'arddangos a gofalu am gasgliadau'r genedl'* (Atodiad 7). Mae ein hymchwil wedi dangos bod datganiadau cenhadaeth a gweledigaeth yr orielau cenedlaethol hyn yn canolbwyntio ar eu swyddogaethau: cadwraeth, gofal, ysgolheictod, casglu ac arddangos. Mae diffyg cyfeirio amlwg ynddynt at rôl a gwerth celf i gymdeithas, cynulleidfaoedd, ymgysylltiad cymdeithasol, mynediad, cydraddoldeb, a'i rôl yn sbardun i greadigrwydd ac/neu arloesi.

Er mai swyddogaeth unrhyw oriel genedlaethol newydd i Gymru yw casglu a chadw casgliadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, o ystyried hanes Cymru a ffocws Llywodraeth Cymru ar weithredu a sicrhau cyfle cyfartal a mynediad i'r celfyddydau, mae gan Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol newydd y potensial i ddilyn trywydd gwahanol a rhoi ffocws ar ei phobl, ei hartistiaid a'i hymdeimlad o le.

Fel y nododd un arweinydd gwleidyddol, mae Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol mewn sefyllfa dda i ychwanegu gwerth at fywydau pobl Cymru:

*"Pa fo dadl i adeiladu ysgol neu ysbyty, mater o fara a rhosod yw hi.*[137] *I lawer, y celfyddydau gweledol yw'r ffurf fwyaf hygyrch o ddod at ddiwylliant... mae'n ymwneud â grymuso diwylliannol."*

Darlun llwm o oblygiadau cymdeithasol peidio cynnig mynediad diwylliannol a geir yng nghyhoeddiadau diweddar y Cynulliad am y celfyddydau a diwylliant. Yn ôl yr adroddiad Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru (Y Farwnes Andrews, 2014):

*"Mae chwarter poblogaeth Cymru yn byw mewn amgylchiadau sydd mor ddifreintiedig fel eu bod ymysg y gwaethaf ym Mhrydain; mae diweithdra cyson, o genhedlaeth i genhedlaeth, lefelau uchel o salwch cronig, cyflogau isel a diffyg sgiliau, pob un ohonynt, wedi gwaethygu'r eithrio cymdeithasol a diwylliannol."*

Caiff hyn ei adleisio mewn adroddiad annibynnol i Lywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru:

*"Y drasiedi yw bod y cymunedau hyn nid yn unig yn colli cyfle yn economaidd; mae eithrio economaidd a chymdeithasol yn golygu eithrio diwylliannol hefyd. Mae'r pethau sy'n cyfoethogi ein bywydau ac sy'n dod â chymaint o bleser inni – boed yn ymweliad â'r theatr, y sinema, neu oriel yn parhau i fod y tu hwnt i nifer o bobl."*[138] **Y Farwnes Kay Andrews, 2015**

Fel y mae casgliadau adroddiad Dai Smith ac Adroddiad Gwerthfawrogi Lle gan Sefydliad Young yn ei wneud yn glir, mae darparu mynediad i brofiadau diwylliannol a chyd-ddatblygu polisi gyda chymunedau yn hanfodol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag anghydraddoldeb cynyddol a chreu atebion newydd i heriau mwyaf y gymdeithas sydd wedi hen ymwreiddio.

137 Mae "Bara a Rhosod" yn slogan wleidyddol a ddeilliodd o araith gan Rose Schneiderman a'r llinell "Rhaid i'r gweithiwr gael bara, ond rhaid iddi hefyd gael rhosod". Roedd bara yn cynrychioli cyflog byw a'r rhosod yn cyfeirio at ddyhead gweithwyr i gael parch ac urddas mewn bywyd.

138 Baroness Kay Andrews OBE, Culture and Poverty: Harnessing the power of the arts, culture and heritage to promote social justice in Wales, (March 2015) 8

# Pwrpas a Gweledigaeth




Ffigwr 30: Cwmwl geiriau yn dangos pa mor aml y ceir geiriau penodol mewn gweledigaethau a chenadaethau o ddetholiad o orielau celf cenedlaethol ledled y byd
Ffynhonnell: Event, 2017

# Pwrpas a Gweledigaeth

**Tuag at Weledigaeth**
Achub y blaen fyddai cyflwyno gweledigaeth wedi'i chrisialu ar y cam hwn. Fodd bynnag, mae'r uchelgais fel a ganlyn:

***Bydd Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru yn sbarduno ac yn meithrin creadigrwydd ac yn ymgorffori celfyddyd gyfoes o'r radd flaenaf sy'n berthnasol ac yn llawn dychymyg i fywydau beunyddiol, tirwedd, gwaith a geirfa dinasyddion Cymru heddiw ac am genedlaethau i ddod.***

Mae'n hollbwysig bod arweinyddiaeth weithredol y dyfodol yn creu ac yn berchen ar strategaeth, gweledigaeth a chasgliad o werthoedd y gellir eu cyflawni. Ar ben hynny, rhaid mynd ati ar y cyd i lunio strategaeth y dyfodol o fewn cymunedau a chyda'r genhedlaeth newydd addawol. Wedi dweud hynny, cytunodd y Pwyllgor Llywio ar nifer o flaenoriaethau allweddol i ffurfio asgwrn cefn yr endid newydd. Tybir y byddai'r holl opsiynau arfaethedig (Atodiad 6) yn cael eu safleoli i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

### Arweinyddiaeth

- Adeiladu ar etifeddiaeth gref o greadigrwydd yng Nghymru;
- Datblygu cyd-uchelgais i feithrin dinasyddion creadigol yng Nghymru trwy oriel celf gyfoes genedlaethol;
- Arwain agweddau o ran cydweithredu, ymarfer creadigol sy'n gysylltiedig â chymdeithas a datblygiad economaidd cynhwysol a chreadigol;
- Adeiladu ar etifeddiaeth gref creadigrwydd yng Nghymru;
- Broceru cysylltiadau dilys rhwng sectorau;
- Meithrin y genhedlaeth nesaf o arweinwyr a gweithwyr proffesiynol diwylliannol;
- Meithrin y genhedlaeth nesaf o fuddsoddwyr, aelodau bwrdd, noddwyr a phartneriaid;
- Chwarae rôl strategol ac unedig ledled Cymru a thu hwnt;
- Ennyn cefnogaeth a sicrhau bod yr Oriel yn ganolog mewn sgyrsiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

### Hunaniaeth a Safleoli

- Safleoli Cymru a'r gorau o gelf Cymru ar y llwyfan cenedlaethol ac yn fyd-eang;
- Ysgogi rhagoriaeth yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol trwy gyflwyno, darganfod, datblygu a thrafod doniau;
- Arwain agweddau mewn celf gyfoes;
- Darparu llwyfan ar gyfer ymarfer cydweithredol sy'n ymwneud â chymdeithas;
- Bod yn ddilys i Gymru;
- Darparu llwyfan ar gyfer profiadau dychmygus, heb eu tebyg, sy'n adlewyrchu diwylliant, cymdeithas a thirlun Cymru.

### Cynnwys a Chasgliadau

- Darparu llwyfan i artistiaid a chymunedau creadigol iddynt arbrofi a chreu arno;
- Cyflwyno a pharhau i gynnal deialog gyfredol ar gelf gyfoes, ymarfer artistig ac arferion curadurol yn lleol ac yn rhyngwladol;
- Defnyddio'r celfyddydau gweledol a chymhwysol modern mewn cyfuniad â gwaith celf gyfoes i lunio a datblygu sgyrsiau a dadlau am gelf cyfoes;
- Galluogi mynediad mwy democrataidd i'r casgliadau cenedlaethol ledled Cymru a chynyddu nifer y gweithiau celf sydd yn cael eu harddangos;
- Casglu, comisiynu a chydgomisiynu gwaith celf gan artistiaid datblygol, rhai canol eu gyrfa ac artistiaid sefydledig sy'n dal yn fyw.

### Ymgysylltu ac Addysg

- Cyflwyno athroniaeth addysg ac ymgysylltu clir ac uchelgeisiol sy'n mynd y tu hwnt i'r modelau traddodiadol ac sy'n dod yn fwy integredig ag addysgwyr cymunedol lleol fel y gwelwyd â National Theatre Wales;
- Datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer sector y celfyddydau gweledol, y cynulleidfaoedd a'r rhanddeiliaid;
- Bydd yr athroniaeth a'r ymagwedd addysgol yn gyson ac yn uchelgeisiol ar draws pob model – gan fod yn gyfuniad o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol ar y safle, ac yn hollbwysig yn rhaglen o allgymorth/mewngymorth, gan weithio'n uniongyrchol â chymunedau y tu allan i adeilad ffisegol a chyd-ddatblygu rhaglenni;
- Gallai hyn gynnwys defnyddio artistiaid, creadigwyr eraill ac aelodau o'r gymuned fel cyfryngwyr neu lysgenhadon.

### Swyddogaethau Cymorth

- Ymgorffori costau marchnata a chodi arian realistig a phragmatig yn y strategaeth a'r gwariant gweithredol craidd ar y camau cynharaf;
- Cynnal gwerthusiad trylwyr a thystiolaeth o effaith, sefydlu systemau ar gyfer gwerthuso o'r cychwyn cyntaf a phwyntiau dynodedig clir mewn cyfnod o bum mlynedd er mwyn asesu datblygiad y model dewisol.

### Recriwtio doniau

- Sicrhau bod recriwtio ar gyfer timau curadurol, addysg a marchnata yn canolbwyntio ar adnabod unigolion cydweithredol sy'n deall sut i gysylltu yn sensitif a chreadigol ag ystod eang o gymunedau.

# Pwrpas a Gweledigaeth









Platfform ar gyfer arbrofi artistig, Palais de Tokyo, Paris
Ffynhonnell: Event, Rhagfyr 2017






Prosiect cydweithredol Art Everywhere i arddangos 57 o weithiau celf Prydain ledled y Deyrnas Unedig. Rhif 1, Heol Fictoria, Rhymni, Caerffili. Head VI, 1949, gan Francis Bacon. Casgliad Cyngor y Celfyddydau
Ffynhonnell: Robin Drayton, 2013
National Theatre Wales, Grŵp rhwydwaith cydweithredwyr TEAM
Ffynhonnell: National Theatre Wales



Gweithdy cymunedol, gyda'r curadur gwadd, Mike Tooby, Turner Contemporary, Margate, datblygiad Journeys to 'The Wasteland'
Arddangosfa wedi'i chydguradu, Turner Contemporary, Margate
Ffynhonnell: Event, 2017



Arddangosfeydd dros dro dan arweiniad y gymuned ledled Margate
Ffynhonnell: Event, 2017

Holly Davey, The Conversation, gosodwaith
cyfrwng cymysg, yn g39, Caerdydd, 2017
Ffynhonnell: Holly Davey

# 4. Yr Opsiynau



# Yr Opsiynau

"Os oes dyfodol i Gymru – a chredaf fod dyfodol enfawr i Gymru – hoffwn weld rhywfaint o feddylfryd sydd ychydig yn fwy blaengar, yn hytrach na dynwared rhywbeth sydd eisoes wedi digwydd yn Ewrop, yr Unol Daleithiau ac yn Lloegr... Wrth gwrs, gallech chi greu adeilad newydd diddorol yn Aberystwyth neu rywle, a pham lai? Byddai'n rhaid i chi fod yn wallgof i fod yn erbyn hynny. Ond fe gredaf mai rhyw hen ffordd gonfensiynol, henffasiwn o feddwl fyddai hynny a byddai'n well gen i weld rhyw fath o fuddsoddi gwahanol mewn dyfodol newydd i Gymru." **Stephen Bayley, Beirniad Diwylliannol**

**Asesu a Datblygu Opsiynau**

Mae'r Dadansoddiad Opsiynau yn cynnig dull trefnus ond hyblyg o wneud penderfyniadau. Pennir y broses gan ddadansoddiad sydd â nifer o feini prawf pwysol, ac mae'n rhoi modd gwerthuso manteision, goblygiadau a risgiau'r opsiynau yr ydym wedi'u nodi. Yn wahanol i feini prawf ariannol, a ystyrir yn aml i fod yn rhai gwrthrychol, mae'r dadansoddiad hwn yn integreiddio asesiad meintiol ac ansoddol, yn dibynnu ar farn y rheiny sy'n gwneud yr ymarfer sgorio, sef, yn yr achos hwn, adolygiad annibynnol.

Roedd y meini prawf a'r pwysoli yn seiliedig ar y canfyddiadau a gyflwynwyd yn y bennod flaenorol, yn ogystal ag ar y gwerthoedd a'r blaenoriaethau oedd wedi deillio o sgyrsiau â rhanddeiliaid ac o ddogfennau allweddol.

Cyflwynir y meini prawf manwl yma:

**Proffil**

- Cryfhau pa mor weladwy yw'r seilwaith diwylliannol presennol yng Nghymru;
- Gwneud Cymru yn wahanol (ond nid er mwyn gwahaniaethu er ei fwyn ei hun).

**Cyd-fynd â gweledigaeth/gwerthoedd rhanddeiliaid allweddol**

- Llywodraeth Cymru / Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Amgueddfa Cymru;
- Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW) a'r gymuned ddiwylliannol ehangach;
- Llywodraeth Leol;
- Iechyd y Cyhoedd.

**Mynediad i Gynulleidfaoedd**

Darparu mynediad rhwydd i'r profiad celf weledol gyfoes ar gyfer:

- Cymunedau difreintiedig;
- Cymunedau Cymraeg eu hiaith;
- Cymunedau gwledig Cymru;
- Cymunedau trefol Cymru;
- Ymwelwyr cenedlaethol;
- Ymwelwyr rhyngwladol;
- Cymunedau ar draws y ffin.

Darparu mynediad rhwydd i'r casgliadau cenedlaethol ar gyfer:

- Cymunedau difreintiedig;
- Cymunedau Cymraeg eu hiaith;
- Cymunedau gwledig Cymru;
- Cymunedau trefol Cymru;
- Ymwelwyr cenedlaethol;
- Ymwelwyr rhyngwladol;
- Cymunedau ar draws y ffin.

**Dehongli ac Arddangos**

Galluogi arddangos celf gyfoes:

- Yng ngyd-destun hanesyddol celf;
- Ymhlith casgliadau amlddisgyblaeth;
- Yn y tirlun;
- Mewn lleoliadau anhraddodiadol;
- Ochr yn ochr / mewn deialog â ffurfiau celf eraill.

**Cryfder Partneriaethau**

Caniatáu ar gyfer partneriaethau cryf â'r canlynol:

- Y sector addysg gynradd / uwchradd;
- Addysg uwch, gan gynnwys ysgolion celf;
- Artistiaid;
- Sector y celfyddydau gweledol;
- Y sector diwylliannol ehangach;
- Ymarfer sy'n seiliedig ar bethau nad yw'n gelfyddydol e.e. gwyddoniaeth;
- Y sector masnachol;
- Croeso Cymru;
- Awdurdodau Lleol;
- Datblygwyr preifat;
- Buddsoddwyr a dyngarwyr.

**Hyfywedd Ariannol**

- Cael effaith gadarnhaol ar ariannu ecosystem bresennol y celfyddydau.

**Cyfalaf**

Dangos potensial ar gyfer:

- Denu cymorth cyhoeddus (Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor y Celfyddydau, Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cymru);
- Denu buddsoddiad masnachol;
- Denu cymorth preifat (h.y. ymddiriedolaeth/unigolion);

- Gwneud y gorau o'r asedau diwylliannol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

**Costau Gweithredu**
Dangos potensial ar gyfer:
- Cynyddu'r asedau diwylliannol presennol yng Nghymru;
- Denu cefnogaeth gyhoeddus neu gyfyngu ar gostau refeniw parhaus wedi'i sybsydeiddio;
- Denu buddsoddiad masnachol;
- Denu cymorth preifat (h.y. buddsoddi gan unigolion a sefydliad elusennol);
- Cynyddu'r cyfleoedd i greu incwm a enillir;
- Hwyluso heriau adnoddau;
- Datgloi ffrydiau ariannu newydd;
- Sbarduno'r economi gydweithredol;
- Bydd costau rhedeg uwch ar gyfer dosbarthu casgliadau.

**Sensitifrwydd a Chefnogaeth Wleidyddol**
Yn debygol o gael:
- Cefnogaeth wleidyddol;
- Cefnogaeth sector y celfyddydau gweledol;
- Cefnogaeth gan gynulleidfaoedd celfyddydol presennol;
- Cefnogaeth gan gynulleidfaoedd presennol a newydd ar y cyrion.

**Hyfywedd y Farchnad (economi Cymru)**
Dangos potensial ar gyfer:
- Cyfrannu at dwristiaeth ddiwylliannol;
- Denu preswylwyr;
- Denu mewnfuddsoddiad;
- Denu masnach fasnachol;
- Denu myfyrwyr;
- Denu artistiaid / cyfrannu at gynhyrchu diwylliannol (yn ogystal â'i fwynhau);
- Creu cyfleoedd cyflogaeth newydd.

**Amserlen**
Alinio â datblygiadau eraill yn y farchnad:
- Cynnig potensial ar gyfer effaith weladwy tymor byr;
- Cynnig potensial ar gyfer effaith hirdymor.

**Cynaliadwyedd Amgylcheddol**
Sicrhau bod yr ôl-troed amgylcheddol yn isel ar gyfer:
- Dewisiadau trafnidiaeth i ymwelwyr;
- Opsiynau cludiant i wrthrychau'r casgliadau;
- Gwariant cyfalaf;
- Costau rhedeg yr adeilad.

**Risgiau sy'n weddill ar ôl lliniaru**
(Sgôr isel = mwy o risg)
- Y risg o'i sefydlu;
- Maeddu enw da rhanddeiliaid allweddol a Chymru;
- Colledion ariannol.

Datblygwyd deuddeg opsiwn ac fe'u dyluniwyd yn helaeth yn unol â'r meini prawf uchod i gyflawni'r uchelgais o sefydlu endid cenedlaethol uchelgeisiol, uchel ei broffil o safon fyd-eang i'r celfyddydau cyfoes o Gymru ac ar gyfer Cymru. Lluniwyd yr opsiynau hyn ar sail y canfyddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywio ym mis Chwefror 2018 ac fe'u datblygwyd mewn cydweithrediad ag is-set o'r Pwyllgor Llywio a chynrychiolwyr Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW).

Caiff y rhain eu crynhoi ar y tudalennau canlynol. Mae disgrifiadau manwl o'r deuddeg model i'w gweld yn Atodiad 6.








Gweithdai opsiynau gydag aelodau sector y celfyddydau gweledol yng Nghaerdydd. Roedd y mynychwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a VAGW.
Ffynhonnell: Event, Chwefror 2018


# Crynodeb o'r Opsiynau


| Model | Disgrifiad |
|---|---|
| Partneriaeth Rhannu Celf Gyfoes | Model wedi'i adnewyddu sy'n bwrw golwg eto ar raglen Cyfoeth Cymru Gyfan (2002-2014/15) ac yn adeiladu ar ei llwyddiannau a'r hyn a ddysgwyd ohoni. Mae'n annog cydweithrediad a, thrwy adnoddau digonol, yn sicrhau bod gweithiau celf weledol o'r casgliadau cenedlaethol ar gael i nifer o sefydliadau'r celfyddydau gweledol dethol ledled Cymru. |
| Breichled Swyn | Grŵp dethol o orielau celf weledol a dylunio modern a chyfoes (6-8 sefydliad) yn cael estyniad lled-barhaol i'w safle ffisegol a brandio hwn yn 'Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru.' Bydd un rhaglen guradurol yn ymestyn ei ffordd trwy bob un o'r safleoedd cysylltiol. Byddai'r orielau yn y rhwydwaith yn sefydlu partneriaeth gyfartal i gydweithio i ddarparu corff gwaith cenedlaethol. |
| Teulu'r Celfyddydau Gweledol | Grŵp dethol o orielau celf weledol a dylunio modern a chyfoes wedi'u halinio'n strategol o dan un corff llywodraethol. Bydd pob safle cysylltiol yn gyfrifol am ei ddull curadurol ei hun, ond bydd ymagwedd gyfunol. Bydd pob oriel wedi'i brandio yn rhan o Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru. |
| Rhwydwaith Clwb Aelodau | Fe'i diffinnir gan arwain agweddau a chydweithredu ac mae'r rhwydwaith strategol hwn ar ffurf clwb aelodau i sector y celfyddydau gweledol. Bydd y rhwydwaith yn rhagweithiol yn chwilio am gyfleoedd i alluogi a hyrwyddo adegau o drobwynt mewn celf weledol gyfoes, a chyniga raglen gyfnewid gwybodaeth gadarn a chreadigol. |
| Canfas Cenedlaethol | Oriel genedlaethol ledled y wlad sy'n canolbwyntio ar y tir ac yn cynnwys comisiynau artistig uchelgeisiol dros dro, lled-barhaol, neu barhaol ledled Cymru. Diffinnir y Canfas Cenedlaethol gan fodel comisiynu bywiog a byddai'n tynnu ar Ffordd Cymru, sef y tri llwybr sy'n cael ei hyrwyddo i dwristiaid domestig a rhyngwladol. |
| Syrcas | Endid ffisegol sy'n mynd â'r un arddangosfa ar daith o dref i'r dref, o le i le ar draws Cymru. Gallai ddychwelyd i'r un ardaloedd bob blwyddyn neu ddwywaith y flwyddyn gan feithrin etifeddiaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. |















# Crynodeb o'r Opsiynau

| Model | Disgrifiad |
|---|---|
| Estyniad | Estyniad i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Fe'i dylunnir i arddangos gwaith celf a dylunio modern a chyfoes. Yn yr estyniad ceir arddangosfa barhaol y casgliad celf a dylunio modern a chyfoes cenedlaethol ac mae'n darparu mannau dros dro ar gyfer rhaglen artistig arbrofol a chyfres o fannau cymdeithasol croesawgar. |
| Allbost yn y Brif Ddinas | Yn chwaer-oriel i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, byddai'r Ganolfan Gelf Gyfoes hon yn darparu digon o le i arddangos celf gyfoes uchelgeisiol yng Nghaerdydd. |
| Allbost y tu allan i'r Brif Ddinas | Yn chwaer-oriel i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, byddai'r Ganolfan Gelf Gyfoes hon yn darparu digon o le i arddangos celf gyfoes uchelgeisiol y tu allan i'r brifddinas. |
| Cwch Gwenyn / Cydleoli | Byddai hwn yn lleoliad bywiog, cymysg ei ddefnydd, ac yn ganolbwynt creadigol, ac iddo sawl aelod cyswllt wedi eu cydleoli ar un safle. Bydd gan y partneriaid cyswllt gyfleoedd i gydweithio a rhyngweithio i'r un graddau â gweithio'n annibynnol. Mae'n adlewyrchiad o'r gadwyn gyflenwi ddiwylliannol o dan yr un to – o hyfforddiant a chynhyrchu i arddangos ac ymwneud diwylliannol. |
| Uno | Dau neu ragor o sefydliadau sy'n gydategol ac yn gymharol gyfartal sy'n gweithredu yn y sector celfyddydau diwylliannol a gweledol yn dod ynghyd i uno'n ffurfiol er mwyn creu endid cenedlaethol i gelf gyfoes. |
| Gwneud Dim Byd | Mae Amgueddfa Cymru a sector y celfyddydau gweledol yn parhau yn ôl eu harfer heb unrhyw fuddsoddiad na datblygiad pellach ar endid cenedlaethol i'r celfyddydau cyfoes ar yr adeg hon. |



Ffigwr 31: Opsiynau rhestr hir
Ffynhonnell: Event, Chwefror 2018

Yn ogystal â bod yn gydgysylltiedig â'i gilydd, roedd y modelau hefyd wedi'u cynllunio i'w datblygu mewn trefn, gan adeiladu un ar y llall.

Er enghraifft:

- Datblygu'r Bartneriaeth Rhannu Celf Gyfoes ac yna adeiladu Estyniad i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd;
- Datblygu arddangosfeydd sy'n teithio (y model Syrcas) ac yna adeiladu allbost y tu allan i'r brif ddinas;
- Sefydlu Rhwydwaith Clwb Aelodau ar gyfer sefydliadau celfyddydol yn sector y celfyddydau gweledol ac yna datblygu casgliad o estyniadau i orielau sy'n bodoli eisoes (model y Freichled Swyn).

Ar gyfer pob model, mae Event wedi amlinellu'r manylion canlynol, sydd i'w gweld yn Atodiad 6:

- Disgrifiad o'r model;
- Dyfyniadau o'n hymgynghoriadau sy'n cefnogi'r math hwnnw o fodel;
- Gofynion cyfalaf;
- Elfennau gweithredol;
- Partneriaid;
- Amserlen;
- Gwerth ychwanegol i Gymru;
- Cryfderau;
- Gwendidau;
- Risgiau a lliniaru risgiau.

Yn fwyaf arwyddocaol, y nod oedd sicrhau y byddai unrhyw 'oriel' newydd gan ac i bobl Cymru ac y bydd yn cynyddu mynediad at gasgliad cynyddol y genedl o waith celf a dylunio cyfoes. Yn ogystal, dylai unrhyw 'oriel' newydd godi proffil y celfyddydau gweledol yng Nghymru a bod yn atyniad cryf i dwristiaid diwylliannol. Oherwydd y rheswm hwnnw, a chyfres o gyfyngiadau gweithredu eraill, nid yw Event wedi cynnwys modelau proffil-uchel o ddiwedd yr 20fed ganrif a dechrau'r 21ain ganrif ar gynllun amgueddfa genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys y Model Partneriaeth Dramor (yr Amgueddfa Brydeinig/Sheikh Zayed) a'r Model Masnachfraint (Guggenheim).

Yn ogystal, rhoddwyd y Model Annibynnol (h.y. sefydliad fyddai'n sefyll ar ei ben ei hun yn annibynnol ar Amgueddfa Cymru) i'r naill ochr gan y byddai'n cystadlu'n uniongyrchol â theulu Amgueddfa Cymru.

Karen Mirza a Brad Butler, You Are The Prime Minister (2014). Llun drwy garedigrwydd yr artistiaid.
Ffynhonnell: Helen Warburton

# 5. Argymhellion



# Argymhellion

*“Mae tirnodau... yn y tirwedd yn cyfrannu at ymdeimlad o le trwy ddarparu eicon y gellir rhoi ystyr symbolaidd iddo.”*
**Frank Vanclay, 2008**

*“O’i roi yn y ffordd fwyaf moel posibl, mae’r dewis fel petai’n aruthrol o amlwg. Naill ai rhaid gweithio i ddatblygu diffiniad hylif, eang o gelf sy’n gysylltiedig â chyfryngau torfol y byd sydd ohoni yn ogystal â chyfryngau aristocrataidd y gorffennol, neu raid derbyn y defnydd cyson o’r cysyniad cul [am gelf] a fydd yn dod yn raddol yn fwy anghysbell o gwestiynau diwylliannol allweddol yr oes dechnolegol.”* **Ken Baynes, The Art and Society Project of the Welsh Arts Council, 1973**

Yn hytrach na chymeradwyo un adeilad newydd i gadw ac arddangos celf gyfoes yng Nghymru, rydym yn argymell y cyntaf o’i fath yn y byd, sef model cenedlaethol deinamig sy’n cyfuno cyfres o leoliadau wedi’u cydgysylltu ledled y wlad, wedi’i ragflaenu gan ‘Ganfas Cenedlaethol’ – cyfres o weithiau celf byw cyfoes wedi’u hymgorffori mewn cymunedau ledled Cymru. Gyda’i gilydd, bwriad y mentrau newydd hyn, oll yn gorgyffwrdd, fyddai gwefreiddio artistiaid, arddangos amgylchedd unigryw Cymru, cofleidio cymunedau yn y sgwrs artistig, a dangos ymrwymiad cadarn o fri rhyngwladol i feithrin creadigrwydd trwy brofiadau ac ymarfer celf gyfoes.

Mae’r argymhellion yn mynd at y syniad o oriel *genedlaethol* mewn ffordd newydd ar gyfer canrif newydd: trwy ddatganoli cyllid, rhannu celfyddyd y genedl ar draws y wlad, hybu a chysylltu asedau presennol y celfyddydau gweledol, a defnyddio’r tirwedd ei hun fel y cyfrwng a’r canfas.

Mae’r argymhellion fel a ganlyn:

**Argymhelliad 1**
Mae Event yn argymell strategaeth flaengar, esblygol a graddadwy a fydd gyda’i gilydd yn Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru. Mae’r Oriel yn cynnwys tri cham sy’n cydgysylltu â’i gilydd (Ffigwr 30) a bydd y rhain gyda’i gilydd yn creu ffurfiau newydd o harddwch, profiadau diwylliannol a phererindod:


**Cam Un**
Bydd yr Oriel yn comisiynu 50 gwaith celf newydd – rhai dros dro, lled-barhaol a pharhaol – i’w gosod ar draws pum rhanbarth Cymru, a’r rhain wedi’u cyd-ddatblygu gan gynulleidfaoedd, sefydliadau presennol y celfyddydau gweledol, sefydliadau cymunedol, curaduron ac artistiaid, ac wedi’u diffinio gan 6 i 8 o glystyrau daearyddol.

Mae’r dull cyd-greu yn adeiladu ar waith presennol sefydliadau diwylliannol a mudiadau cymdeithasol, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, Creu Cymunedau Cyfoes a National Theatre Wales sydd wedi bod wrthi’n weithredol yn meithrin rhwydwaith o *lysgenhadon* ledled y wlad ac wedi defnyddio cyfranogiad y gymuned fel cyfrwng creadigol i gael mwy o ddemocratiaeth ddiwylliannol a newid cymdeithasol cadarnhaol.

Bydd Grŵp Ymchwil Curadurol yn dod at ei gilydd i ddatblygu a churadu’r gwaith. Mae pob aelod yn cyflwyno neu’n comisiynu gwaith celf unigol ac yn cefnogi taith pob darn i’w leoliad, boed yn eitem ar fenthyg o’r casgliad cenedlaethol neu un rhyngwladol neu’n gomisiwn a ddatblygwyd gyda chymunedau ac artistiaid cyfoes.

Er bod y Canfas Cenedlaethol yn ddull arloesol o guradu cyhoeddus a chynnig mynediad cenedlaethol, democrataidd i ddiwylliant cyfoes, mae potensial ar gyfer etifeddiaeth ryfeddol o brosiectau artistig wedi’u hymgorffori yn y tirlun ac mewn lleoliadau anhraddodiadol. Mae’r dull arfaethedig ar gyfer Cymru yn adeiladu ar gyfanrwydd creadigol (ac, yn aml, beiddgarwch) y math hwn o waith, a arloeswyd gan artistiaid ym mudiad Celf y Tir (neu Gelf y Ddaear) yn y 1960au a’r 1970au (Robert Smithson, Spiral Jetty, 1970; Nancy Holt (Twneli Haul, Anialwch y Basn Mawr, 1973-6; Alice Aycock; Walter De Maria; Nils-Udo); prosiectau parhaus (James Turrell, sy’n fwyaf adnabyddus am ‘Roden Crater’, sef ceudwll côn lludw naturiol y tu allan i Flagstaff, Arizona y mae’n ei droi yn arsyllfa fawr i’r llygad noeth), ac artistiaid cyfoes sefydledig, megis David Nash, Christo a Jean Claude, Richard Long, Betty Beaumont, Beverly Pepper, Michael Heizer, Milton Becerra a Jacek Tylicki.


Yn hollbwysig, fodd bynnag, yr ymagwedd a gynigir yma yw y bydd y portffolio o 50 comisiwn yn cael ei gyd-ddatblygu’n strategol ar draws daearyddiaeth eang Cymru. Bydd artistiaid datblygol, canol-gyrfa, a sefydledig, o Gymru ac yn rhyngwladol, mewn partneriaeth â chymunedau a churaduron a chynhyrchwyr meddwl-agored, yn gnewyllyn creadigol ysgogol a fydd yn gyfrifol am ystyried y ffordd orau o integreiddio amgylchedd (gwledig a threfol), celf a syniadau. Nid ydym yn argymell parasiwtio cerflun parhaol ar raddfa fawr i mewn. Yn lle hynny, mae’r argymhelliad hwn am annog artistiaid a chymunedau i archwilio sut y gall creadigrwydd, tirwedd a mannau cyhoeddus groesi a gweu drwy’i gilydd i greu ffurfiau newydd o harddwch a herio sut yr ydym yn gweld, yn gweithio, yn cyfathrebu ac yn ymdeimlo â’n hamgylchedd.



Indicative locations only

# Argymhellion












Ffigwr 32: Y dull graddadwy fesul cam a argymhellir (lleoliadau a gweithiau celf dangosol yn unig)
Ffynhonnell: Event, Chwefror 2018

# Argymhellion

**Cam Dau**

Caiff Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol hefyd ei diffinio gan gasgliad ar wasgar o 6 i 8 oriel ar draws y wlad. Ar yr un pryd â chadw eu hunaniaeth graidd, eu cylch gwaith a dull rhaglennu, a'u patrwm ffisegol, bydd y sefydliadau sy'n dod yn rhan o'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn cael eu brandio fel y cyfryw. Dynodir y gwahaniaeth ymhellach trwy adeiladu estyniadau lled-barhaol yn benodol i'r safle, ynghyd ag adnewyddu orielau neu adeiladu strwythur cyfagos. Byddant ar y cyd yn arddangos casgliad cynyddol y genedl o gelf gyfoes ac yn meddu ar y capasiti ffisegol a'r adnoddau staffio ac ariannol ychwanegol i arddangos arddangosfeydd teithiol rhyngwladol ar raddfa fawr.

Croesawir partneriaid sydd â diddordeb i ymuno â cham cwmpasu ac eiriolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r Byrddau a strwythurau Llywodraethu i archwilio sut y gellid gwireddu'r model yn effeithiol. Dylai hunaniaeth sefydliadau unigol barhau i fod yn gryf, ond yr uchelgais fydd creu cyfanrwydd cenedlaethol, datganoledig, mwy cyflawn. Yn y pen draw, awgrymwn ddewis y 6 i 8 partner ledled Cymru gyfan trwy broses ymgeisio agored, gan annog timau traws-sector a rhyngddisgyblaethol i gyflwyno'r achos dros eu lleoliad a'u cymuned.

**Cam Tri**

Y cam terfynol cydgysylltiedig fydd adeiladu pencadlys i Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, sef man parhaol, cynaliadwy i ddwyn pawb ynghyd ac yn llwyfan hydraidd a bywiog ar gyfer celf gyfoes. Bydd y canolbwynt hwn yn galluogi dinasyddion Cymru ac ymwelwyr i ymgolli mewn celf newydd, o safon fyd-eang, wedi'i greu gan artistiaid byw yng Nghymru a thramor trwy fynd ati'n weithredol i froceru cysylltiadau â rhwydwaith o grewyr byd-eang a'r safleoedd partner ledled Cymru. Dylid cynllunio'r canolbwynt hwn i gynnwys mannau hyblyg, gan roi modd i ymwelwyr greu, arsylwi, adfyfyrio a chynhyrchu. Mae hyn yn caniatáu i anghenion pensaernïol gael eu sefydlu o'r 'dechrau un' a datblygu oriel sy'n gwbl addas i'r pwrpas. Gellid ei leoli mewn ardal wledig neu drefol. Byddai'r dysgu o Gamau Un a Dau yn sail i'r gofynion hyn ac i ddealltwriaeth fanwl o sut y gellid gwireddu potensial y sefydliad hwn (Ffigwr 36).

Awgryma costau rhagarweiniol y bydd y gwariant cyfalaf i gyflawni pob un o'r tri cham rhwng £50m a £180m. Mae senario un (Ffigwr 33) a senario dau (Ffigwr 34) yn amlinellu'r costau cyfalaf dangosol ar gyfer pob un o'r tri cham.

Er cymharu, mae'r costau cyfalaf a gyflwynir yma i ddarparu arlwy celf gyfoes ledled y wlad gyfan yn yr un amrediad costau â sefydliadau diwylliannol annibynnol yn y Deyrnas Unedig megis yr Amgueddfa Ddylunio (£83m), V&A Dundee (£80m; cyhoeddwyd), Canolfan Mileniwm Cymru (£106m), the Factory Manceinion (£110m) ac estyniad Tate Modern (£260m) (Ffigwr 20).

Er mwyn gweithredu Cam Un a Cham Dau, rydym yn argymell model rhannu adnoddau cenedlaethol sydd â chanolbwynt canolog. Ni fyddai angen lleoli'r canolbwynt yn gorfforol mewn unrhyw oriel benodol a byddai wedi'i gynllunio i sicrhau bod lleoliadau partner a chymunedau yn elwa o'r cynnydd mewn capasiti ac arbenigedd, ynghyd ag elwa o ddeialog a chynllunio cenedlaethol wedi'u hwyluso.

Diffinnir y canolbwynt hwn gan dîm arwain cydweithredol a fyddai'n symud yn rheolaidd rhwng lleoliadau a safleoedd. Byddai'r tîm yn gyfrifol am gyd-ddatblygu a safleoli'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol lawn, wedi'i diffinio fel y Canfas Cenedlaethol, yr Oriel ar Wasgar a'r Pencadlys. Byddai'r tîm arwain yn adeiladu'r achos dros gefnogaeth, ac yn cydgynllunio arddangosfeydd a churadu, datblygu casgliadau a chadwraeth, datblygu rhaglenni addysg ac iechyd, codi arian, marchnata, ymgysylltu â rhanddeiliaid, eiriolaeth, proffilio cenedlaethol a rhyngwladol, ac asesu effaith.


# Argymhellion

| **Senario 1** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam** | **Lefel Artist / Curadur/ Cynhyrchydd Creadigol** | **Gweithiau celf** | |
| Un | Datblygol | 15 | |
| | Canol-gyrfa | 15 | |
| | Sefydledig | 15 | |
| | Rhyngwladol | 5 | |
| | Cyfanswm Artistiaid | 50 | |
| Dau | 6 | | |
| Tri | Ydi | | |
| **Cam** | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
| Un | £5,410,000 | £6,155,000 | £6,750,000 |
| Dau | £34,800,000 | £63,000,000 | £100,800,000 |
| Tri | £40,000,000 | £42,500,000 | £45,000,000 |
| Cyfanswm | £80,210,000 | £ 111,655,000 | £152,550,000 |

Ffigwr 33: Costau cyfalaf dangosol Senario Un ar gyfer y tri cham, yn dangos costau graddadwy
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018

| **Senario 2** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam** | **Lefel Artist / Curadur/ Cynhyrchydd Creadigol** | **Gweithiau celf** | |
| Un | Datblygol | 22 | |
| | Canol-gyrfa | 20 | |
| | Sefydledig | 5 | |
| | Rhyngwladol | 3 | |
| | Cyfanswm Artistiaid | 50 | |
| Dau | 8 | | |
| Tri | Ydi | | |
| **Phase** | **Low** | **Medium** | **High** |
| Un | £3,940,000 | £4,520,000 | £4,900,000 |
| Dau | £46,400,000 | £84,000,000 | £134,400,000 |
| Tri | £40,000,000 | £42,500,000 | £45,000,000 |
| Cyfanswm | £90,340,000 | £ 131,020,000 | £184,300,000 |

Ffigwr 34: Costau cyfalaf dangosol Senario Dau ar gyfer y tri cham, yn dangos costau graddadwy
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018




Ffigwr 35: Costau rhedeg blynyddol dangosol Cam Dau: Oriel ar Wasgar
Ffynhonnell: Event, Ebrill 2018



event

# Argymhellion

Y costau gweithredu blynyddol dangosol i'r sefydliad canolog gyd-ddatblygu a chyflawni Camau Un a Dau, a sefydlu rhaglen Cymrodoriaeth a argymhellir isod, yw oddeutu £2.7 miliwn y flwyddyn ar y lleiaf. Dylai'r gwariant gweithredu rhagamcanol gael ei archwilio a'i adeiladu ar fodel ariannol a chynllun busnes manwl *o'r gwaelod i fyny*, a argymhellir mewn cam dilynol o'r Astudiaeth hon.

Gallai gwariant gweithredu blynyddol pencadlys cenedlaethol ffisegol (Cam Tri) amrywio o unrhyw beth o £2.5m ac uwch (e.e. £15m), yn dibynnu ar raddfa'r gweithredu, y safle ffisegol, a sut y cynllunnir y tîm a'r rhaglen i gydgysylltu â'r Canfas Cenedlaethol a'r Oriel ar Wasgar. Mae cam nesaf yr Astudiaeth Ddichonoldeb yn gofyn am gynllunio busnes helaeth, yn seiliedig ar fodelu nifer o senarios (er enghraifft, rhaglen a ragdybir, metrau sgwâr diffiniedig, nifer rhagamcanedig yr ymwelwyr, y diwrnodau ar agor, lleoliad(au), ac ati).

Mae'r gwariant gweithredu dangosol blynyddol arfaethedig ar gyfer yr endid cenedlaethol yn sylweddol uwch na gwariant gweithredu blynyddol cyfartalog y rhan fwyaf o sefydliadau'r celfyddydau gweledol yng Nghymru. (Er enghraifft, mae gan ddeg cleient Portffolio'r Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol gyllideb weithredu flynyddol gyfartalog o £490k, a dyma'r rhan fwyaf o'r sefydliadau mwyaf eu maint yn ecosystem y celfyddydau gweledol.)

Mae cyfanswm dyraniad blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru i'r celfyddydau gweledol a chymhwysol (£1.7m o gyllid refeniw; £520k o gyllid i brosiectau) yn llai na'r hyn a gynigir yma.[139] Fodd bynnag mae'r gwariant gweithredu a gynigir (£2.7m ar gyfer Camau Un a Dau) yn cynnwys adnodd ariannol i'w rannu ar draws Oriel ar Wasgar (h.y. 6 i 8 safle partner) a'r Canfas Cenedlaethol.

*"Mae dros wyth o bob deg oedolyn (83%) yn cytuno/yn cytuno'n gryf y dylai prosiectau celfyddydol a diwylliannol gael cyllid cyhoeddus."*
**Tîm Ymchwil, Cyngor Celfyddydau Cymru, 31 Mawrth 2016**

**Argymhelliad 2**
Sefydlir Panel Cynghori i ddatblygu a gwthio'r weledigaeth, y cysyniad a'r modelau yn eu blaenau. Argymhellir bod aelodau'r panel yn cynnwys arbenigwyr o Gymru a thu hwnt, gan gynnwys rhai o wledydd eraill y DU, yn ogystal â Chroeso Cymru, MALD, cynrychiolwyr Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), buddsoddwyr a dylanwadwyr. Bydd gan yr endid newydd bwyllgor llywio uchel ei broffil a bydd ganddo'r awdurdod i wneud penderfyniadau strategol; bydd cynrychiolwyr Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar y Pwyllgor hwn. Bydd gan y Panel Cynghori berthynas ffurfiol â Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru.

**Argymhelliad 3**
Ar yr un pryd, sefydlir Bwrdd Cynghori Diwylliannol Ieuenctid Cenedlaethol, yn cynnwys pobl ifanc rhwng 9 a 26 oed o bob cwr o Gymru wedi'u gwahodd trwy 'alwad agored'. Bydd y Bwrdd Cynghori Diwylliannol Ieuenctid yn cyd-ddatblygu ac yn helpu i lunio'r cynllun gweithredu ar gyfer yr endid celf gyfoes cenedlaethol. Bydd gan y Bwrdd hwn ymrwymiad clir i rymuso'r genhedlaeth nesaf o artistiaid, meddylwyr creadigol, noddwyr, aelodau bwrdd a buddsoddwyr i lunio eu fersiwn hwy o oriel celf gyfoes genedlaethol berthnasol. Mae'n werth nodi bod buddsoddwyr iau a'r genhedlaeth milflwyddol hefyd yn datblygu i fod yn hyrwyddwyr allweddol y mudiad effaith gymdeithasol.

Mae gan Amgueddfa Cymru saith fforwm ieuenctid, un ar gyfer pob amgueddfa ar hyd a lled Cymru, a'u cynllun yw datblygu'r rhain i fod â rhan wrth lunio polisïau a datblygu prosiectau. Mae'r fforwm ieuenctid yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn trefnu gosodwaith yn yr orielau gwyddorau naturiol eleni ar blastig yn y moroedd.






Grŵp Cynghori Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol yr Alban (35 o wirfoddolwyr, 14-23 oed sy'n dylanwadu ar gam nesaf strategaeth celfyddydau ieuenctid cenedlaethol yr Alban, sef Time to Shine, yn arwain yr Alban Greadigol a Llywodraeth yr Alban ar strategaeth ddiwylliannol ac yn datblygu ffyrdd o gysylltu pobl ifanc â'r celfyddydau)
Ffynhonnell: Alban Greadigol, 2017

Caban Crefft – menter Diwylliant, Iechyd a Lles sy'n para dwy flynedd a ariennir gan y Loteri Iechyd a'i gynnal gan Arts Alive Wales. Prosiect cyd-greu gydag artistiaid sy'n cael effaith barhaol ar y bobl ifanc sy'n cymryd rhan
Ffynhonnell: Arts Alive Wales

139 Grantiau'r Loteri i'r Celfyddydau Gweledol yw 10% o gyfanswm y dyraniad i'r holl ffurfiau celf yng Nghymru, a'r Cymorth mewn Grant i'r Celfyddydau Gweledol yw 7% o gyfanswm y dyraniad i'r holl ffurfiau celf (fel y dangosir yn Ffigyrau 34 a 35).

Yn ogystal, mae Cyngor Celfyddydau Cymru eisoes wedi ymrwymo i sefydlu Bwrdd Ieuenctid rhyng-gysylltiedig fel rhan o'i gynllun gweithredol (wedi'i ysbrydoli, yn rhannol, gan brofiadau Roundhouse [gweler Florence Wilkinson, Roundhouse, Guided by Young Voices]). Argymhellir bod y Byrddau hyn yn gweithio ochr yn ochr, os nad o dan yr un ymbarél

**Argymhelliad 4**
Y Panel Cynghori a'r Bwrdd Cynghori Diwylliannol Ieuenctid i oruchwylio datblygu a chynnal cyfres o weithdai cysyniadau cydweithredol i archwilio, dylunio ymhellach a chryfhau'r tri cham yn y dyfodol agos. Mae'r agendâu ar gyfer y gweithdai hyn i'w cydgynllunio, ac yn dibynnu ar y pwnc, dylai'r cyfranogwyr fod yn artistiaid blaenllaw a datblygol, yn guraduron, cyfarwyddwyr orielau, athrawon, pobl ifanc a phobl sy'n weithgar yn eu cymunedau. Ar y cam hwn hefyd dylid ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r sectorau iechyd, twristiaeth a thrafnidiaeth, datblygwyr preifat a'r sector preifat, ynghyd ag arbenigwyr brwdfrydig byd-eang o ystod o ddisgyblaethau. Mae'r gweithdai i'w cynllunio i sicrhau bod manylion y tri cham yn gadarn, yn uchelgeisiol, yn ymarferol ac yn bosibl. Gallai'r gweithdai cysyniadau ddod i ben mewn symposiwm uchel ei broffil, digwyddiad deuddydd neu dri, gan ddwyn ynghyd y cyfranogwyr o'r cam cyfan hwn i arddangos a thrafod eu hargymhellion terfynol. Mae'n hollbwysig bod y gweithdai cysyniadau mor agored â phosibl i gyfranogwyr a syniadau, gan fynd i'r afael â phryderon nifer yng nghymuned yr artistiaid, ac un ohonynt wedi dweud,

*"Mae yna gryn angerdd dros greu rhywbeth cynaliadwy; rydyn ni'n gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n teimlo fel na allwn gyfrannu, hynny yw, mae'n llyfr caeedig sy'n digwydd yn yr uchelfannau."*

Er mor agored y dylai'r gweithdai hyn fod, eto rhaid iddynt fod â strwythur da, dylent ysgogi ysbryd o feirniadaeth adeiladol ac arwain at ganlyniadau diriaethol y gellir eu cyflawni.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Panel Cynghori i recriwtio a phenodi cyfarwyddwr medrus, arbennig i ddatblygu a gyrru'r cysyniad hwn ymlaen. Gallai'r drefn y mae hyn yn ei ddilyn ddigwydd yn gynnar yn y cyfnod datblygu cysyniad, yn dibynnu ar farn y Bwrdd Cynghori.

**Argymhelliad 6**
Mae astudiaeth ddichonoldeb codi arian yn hollbwysig os penderfynir bwrw ymlaen ag Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol maes o law. Mae hyn i sicrhau bod cefnogaeth barhaus yn bosibiliad realistig, i archwilio sut y byddai model gweithredu cenedlaethol yn effeithio (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar ffrydiau ariannu presennol sydd wedi'u dynodi ar gyfer y celfyddydau gweledol yng Nghymru, ac i ddatgloi ffrydiau ariannu newydd.

Rhaid i'r model incwm ar gyfer endid cenedlaethol newydd i gelf gyfoes gael ei bennu gan gyfleoedd refeniw sydd o fudd i'r sector ehangach.

Dylid archwilio ystod helaeth o bartneriaethau a threfniadau ariannu, gan gynnwys nodi, sefydlu a rhannu uchelgeisiau strategol gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru, Busnes a'r Economi, Twristiaeth, Addysg a Sgiliau, yr Amgylchedd a Chefn Gwlad, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus, Rhyngwladol, Pobl a Chymunedau, Trafnidiaeth.

Yn ogystal, dylid ystyried llywodraethau lleol, asesu Cymry alltud, cynnal sgyrsiau â'r sector Buddsoddiadau mewn Effaith, Celfyddydau a Busnes Cymru, y Gronfa Gelf a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. O ystyried y ffocws ar rymuso diwylliannol a newid cymdeithasol, bydd yn bwysig nodi pa sefydliadau sy'n gymwys i gael cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri – o ran y Loteri Fawr a Loteri Cod Post y Bobl.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ariannu prosiectau a gweithgareddau yn y Deyrnas Unedig sy'n gwneud cymunedau yn gryfach ac yn fwy bywiog, ac sy'n cael eu harwain gan y bobl sy'n byw ynddynt; mae'r ail wedi'i chynllunio i gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo amcanion Ymddiriedolaeth Cod Post y Bobl – sef datblygu cyflogadwyedd a sgiliau, hawliau dynol, mynd i'r afael â gwahaniaethu neu atal tlodi.

**Argymhelliad 7**
Ystyried sefydlu Cronfa Waddol Creadigrwydd Cyfoes fel opsiwn ymarferol ar gyfer darparu cefnogaeth refeniw barhaus am byth i'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol.

Gallai'r Gwaddol gefnogi corff canolog y sefydliad, y clystyrau creadigol a chyfres o gymrodoriaethau a gwobrau i feithrin talent, meddyliau a syniadau creadigol a nodwyd yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Byddai angen i'r Gwaddol ddatgloi ffynonellau cyllid a buddsoddi newydd. Mae ei llwyddiant yn dibynnu ar ymgyrch codi arian soffistigedig dan arweiniad hyrwyddwyr sydd mewn sefyllfa dda i adnewyddu'r diwylliant rhoddion i fod yn ddiwylliant buddsoddi yn harddwch a pheiriant creadigol Cymru.

# Argymhellion

**Argymhelliad 8**
Bydd Cymrodoriaeth Broffesiynol Ddiwylliannol yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol diwylliannol sefydledig a datblygedig weithio ar draws yr ecosystem. Bydd y Gymrodoriaeth yn croesawu ymgeiswyr o gefndiroedd curadurol yn ogystal ag o ddisgyblaethau eraill y mae eu harbenigedd yn hanfodol i sector ffyniannus y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol ehangach. Mae hyn yn cynnwys profiad mewn addysg, marchnata, cynllunio busnes, y gyfraith, polisi, gweithrediadau, technoleg, gwyddoniaeth data, dylunio, manwerthu, arlwyo, adnoddau dynol, codi arian a rheoli digwyddiadau.

**Argymhelliad 9**
Dylid cynnal ymchwil cynulleidfa i asesu'r galw am unrhyw newydd-ddyfodiad i sector y celfyddydau gweledol. Mae'n hanfodol bod yna ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r farchnad bresennol a newydd o ran lleoliadau, profiadau ac atyniadau'r celfyddydau gweledol cyfoes yng Nghymru ynghyd â'r berthynas rhwng y lleoliadau hyn; bod cymhellion ac ymddygiadau mynychu ac ymweld yn cael eu deall; bod rhwystrau i fynediad yn cael eu nodi'n glir; a bod patrymau ar draws amser a daearyddiaeth yn cael eu holrhain a'u defnyddio.

Mae yna botensial i sicrhau bod sefydliadau yn cael eu grymuso i fynd ati gyda'i gilydd i gynnal ymchwil ar draws y sector ac yn defnyddio'r ymchwil hwnnw yn uniongyrchol i lunio rhaglenni, marchnata, safleoli a gwneud penderfyniadau cynllunio busnes yn lleol ac yn genedlaethol. Byddai rhaglen ymchwil a hyfforddi gynhwysfawr yn etifeddiaeth bwysig i gymuned y celfyddydau gweledol.

**Argymhelliad 10**
Y sectorau diwylliant a thwristiaeth i gymryd camau i alinio eu strategaethau a chydweithio'n agosach er mwyn:


- adeiladu ar y farchnad dwristiaeth bresennol;
- ymgorffori'r celfyddydau gweledol i'r ymgyrch dwristiaeth bresennol, Ffordd Cymru;
- cynnig profiad sy'n unigryw i Gymru na ellir ei ganfod mewn man arall;
- darparu cyfuniad o atyniadau celfyddydol dan do ac awyr agored sydd wedi'u cysylltu'n agos â'r gwahanol gymunedau Cymreig ac ymdeimlad o le i ddiwallu disgwyliadau ymwelwyr rhyngwladol.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Bwrdd Cynghori i ddatblygu a chynnal cyfres o brosiectau peilot cydweithredol – rhan o'r 50 gwaith celf yn y Canfas Cenedlaethol – gan fynd ati i wneud hynny'n syth. Bydd y prosiectau hyn yn sicrhau bod buddsoddiad sydd eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer yr Astudiaeth Ddichonoldeb yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon i fwrw ymlaen â'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Dylid llunio'r prosiectau peilot fel ymchwil i weithredu – gan alluogi'r tîm i brofi gwahanol ffyrdd o ymgynnull a grymuso cynulleidfaoedd, archwilio syniadau ar gyfer prosiectau celf gyfoes a darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Dylid rhannu'r dysgu o'r prosiectau hyn yn eang (e.e., mewn cyhoeddiadau, rhan o symposiwm, trafodaethau wedi'u hwyluso) a'u cymhwyso yng nghasgliad nesaf prosiectau'r Canfas Cenedlaethol.

Ffigwr 36: Dull dangosol fesul cam i sicrhau Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru
Ffynhonnell: Event,
Ebrill 2018

# Argymhellion



# Argymhellion

**Alinio â Pholisïau ac Adroddiadau Cymru**
Mae'r argymhellion uchod yn cyfeirio ac yn cyd-fynd ag argymhellion nifer o adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, gan gynnwys:

- Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau (2018);
- Cyfoeth Cymru Gyfan: Y Gorffennol a'r Dyfodol (2015);
- Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (Dr Hayden E Edwards, 2015);
- Diwylliant a Thlodi (Y Farwnes Kay Andrews OBE, 2014);
- Gwerthfawrogi Lle, Sefydliad Young (2017);
- Creu: Cyrraedd: Cynnal: dyfodol y celfyddydau yng Nghymru (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2015);
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae'r gorgyffwrdd rhwng y rhain wedi'u nodi ar y tudalennau canlynol (Ffigyrau 37-43).




Sharing Treasures: Past and Future; Expert Review of Local Museum Provision in Wales (2015) – Dr. Hayden E Edwards; Culture and Poverty (2014) – Baroness Kay Andrews OBE, Valuing Place, The Young Foundation, 2016

| Argymhelliad | Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau (2018) |
|---|---|
| 1 | Cynyddu'r gefnogaeth ariannol i'r celfyddydau gan fusnes |
| 3 | Codi ymwybyddiaeth ynghylch y sefydliadau a'r prosiectau celfyddydol rhagorol yng Nghymru ymysg sefydliadau ac ymddiriedolaethau o'r DU, a chynyddu'r buddsoddiad ganddynt mewn sefydliadau o'r fath |
| 5 | (Ymchwilio) i nodi a manteisio ar farchnadoedd rhyngwladol sydd â photensial i dyfu sefydliadau celfyddydol Cymru |
| 7 | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu strategaeth glir i gynorthwyo sector celfyddydau Cymru i ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol |
| 8 | Dylai Llywodraeth Cymru gynnig ffynhonnell o arbenigedd codi arian i helpu sefydliadau celfyddydol bychain i gynyddu eu cyllid heblaw cyllid cyhoeddus mewn ffordd sy'n cyfateb i'r cymorth y mae'n ei gynnig ar hyn o bryd i fusnesau bychain drwy Busnes Cymru |
| 9 | Gwella gwydnwch ariannol sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu gan arian refeniw. |

Ffigwr 37: Argymhellion wedi'u halinio o Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau (2018)

| Argymhelliad | Cyfoeth Cymru Gyfan: Y Gorffennol a'r Dyfodol (2015) |
|---|---|
| (t.05) | Categori 1 – gwelliannau cyfalaf i orielau parhaol neu dros dro sy'n cynnwys benthyciadau cenedlaethol. |
| 4 (t.18) | Ystyried y potensial ar gyfer datblygu arddangosfeydd teithiol, naill ai rhwng grwpiau o amgueddfeydd partner, amgueddfeydd nad ydynt yn bartneriaid sydd eisoes yn bodloni safonau Cynllun Indemniad y Llywodraeth neu fel datblygiad i arddangosfa mewn un amgueddfa bartner. |
| 4 (t.18) | Gwella mannau arddangos. Enghraifft o werth parhaol y cynllun yw datblygu arian cyfalaf sy'n cyllido gwelliannau i'r seilwaith. |
| 4 (t.22) | Adfer cyfarfodydd partneriaeth er mwyn hwyluso cyfathrebu a rhannu profiadau |

Ffigwr 38: Argymhellion wedi'u halinio o Cyfoeth Cymru Gyfan: Y Gorffennol a'r Dyfodol (2015)

| Argymhelliad | Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (Dr Hayden E Edwards, 2015) |
|---|---|
| 5 (t.53) | Rhoi mesurau ar waith i sefydlu Casgliadau Cymru a fydd yn rhesymoli, yn datblygu ac yn diogelu casgliadau sy'n bwysig i hanes a diwylliannau Cymru. |
| 6 (t.54) | Cydweithio er mwyn nodi pa sgiliau sydd angen eu datblygu er mwyn cefnogi'r gweithlu yn ystod y cyfnod pontio ac ar ôl hynny, er mwyn iddo allu llwyr fodloni gofynion Siarter yr Amgueddfeydd. |

Ffigwr 39: Argymhellion wedi'u halinio o Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (Dr Hayden E Edwards, 2015)

# Argymhellion

| Argymhelliad | Gwerthfawrogi Lle, Sefydliad Young |
|---|---|
| | Mae gwybod sut mae pobl mewn llefydd arbennig yn profi anghydraddoldeb yn hollbwysig wrth lunio polisïau |
| | Mae hyrwyddo gwrth-naratifau i rai amddifadedd a dirywiad yn hanfodol |
| | Dylai dyrannu adnoddau gael ei dargedu'n well i gyflawni nodau cymunedau |
| | Rhaid i wneuthurwyr polisïau gydnabod, dathlu ac ymhelaethu ar y gweithredu y mae pobl eisoes yn ei wneud, gan gynnwys y rhai sydd ar raddfa fach ac a ffurfiwyd yn llac |
| | Dylid rhoi blaenoriaeth i sefydlu rhwydweithiau lleol i helpu i annog, hyfforddi, mentora a chysylltu pobl gyda'i gilydd sydd am weithredu'n lleol |
| | Mae angen i wneuthurwyr penderfyniadau a dylanwadwyr fod yn gweithio gyda chymunedau mewn gwahanol ffyrdd, gan symud i ffwrdd o bethau yn cael eu 'gwneud iddynt', i gyd-greu atebion newydd i broblemau sy'n bodoli |

Ffigwr 40: Argymhellion wedi'u halinio o Gwerthfawrogi Lle (Sefydliad Young)

| Argymhelliad | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
|---|---|
| Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a ganddynt gysylltiadau da | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus wedi ei haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus. |
| Cymru fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a ganddynt gysylltiadau da |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hybu a gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang | Cymru sydd, pan fydd yn gwneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn gofyn a yw gwneud y fath beth yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at lesiant byd-eang. |

Ffigwr 41: Amcanion wedi'u halinio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

# Argymhellion

| Argymhelliad | Diwylliant a Thlodi (y Farwnes Kay Andrews OBE, 2014) |
|---|---|
| 1 and 2 | Ehangu Mynediad a Chwalu Eithrio Cymdeithasol – Chwalu rhwystrau corfforol a seicolegol i'n sefydliadau |
| | Gweithio'n Lleol: Mwy o Gyfraniad yn Lleol – Sicrhau bod diwylliant yn rhan o gymunedau a chynyddu effaith y rhaglenni allgymorth |
| 4 | Herio'r sector diwylliant, trwy gyfarwyddyd strategol a chyllidol a chymorth arall, i ehangu ymdrechion i wneud eu sefydliadau yn ganolfannau cymunedol ac ehangu mynediad i bawb |
| 5 | Sefydliadau diwylliannol i 'weithio'n lleol' a 'bod yn sefydlog' drwy roi mwy o flaenoriaeth i brosiectau ar y cyd mewn cymunedau lleol a rhannu lleoliadau ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau. |
| 9 | Cymell ac annog awdurdodau lleol i edrych ar y posibiliadau o gael cymorth ar draws ffiniau ac i rannu gwasanaethau |
| 10 | Datblygu rhwydweithiau Cymunedol a Diwylliannol, gan gysylltu sefydliadau cymunedol a diwylliannol ar lefel leol, i rannu gwybodaeth ac adnoddau a chynllunio mentrau ar y cyd i fynd i'r afael â'r diffyg diwylliannol o fewn cymunedau |
| | Codi Uchelgais a Chodi Safonau: Diwylliant a Dysgu – Mesurau i ddefnyddio diwylliant i helpu i gau'r bwlch cyrhaeddiad |
| 15 | Cadarnhau cynnwys gweithgarwch diwylliannol o fewn a thu allan i'r ysgol a thymor yr ysgol, edrych ar arferion da, ac am ffyrdd positif o annog a galluogi ysgolion i gydweithio mwy gyda sefydliadau diwylliannol |
| 19 | Cyngor Celfyddydau Cymru i edrych eto ar raglen cyfranogi yn y celfyddydau 'Cyrraedd y Nod' i gynnig gweithgareddau diwylliannol i bobl ifanc 9-13 oed sydd mewn perygl o fynd yn NEET |
| | Pwysigrwydd Lleoliad: Lle ar gyfer Sgiliau – defnyddio diwylliant i sbarduno adfywiad a gwella sgiliau |

Ffigwr 42: Argymhellion wedi'u halinio o Diwylliant a Thlodi (y Farwnes Kay Andrews OBE, 2014)

| Argymhelliad | Diwylliant a Thlodi (y Farwnes Kay Andrews OBE, 2014) |
|---|---|
| 25 | Datblygu dull cenedlaethol mwy proactif a chydlynol o fynd i'r afael â phrentisiaethau diwylliannol i gael effaith ar strategaethau cenedlaethol i leihau diweithdra |
| | Un Drafodaeth: Strategaethau allweddol ar gyfer Cymru gyfan yn gysylltiedig â'r 'seilwaith' diwylliannol i ganolbwyntio ar gysylltu mwy â thlodi ac i yrru'r ymdrech hon |
| 28 | Egluro a hyrwyddo rôl diwylliant wrth gefnogi ystod eang o amcanion polisi i yrru cysylltiadau ystyriol ar gyfer polisïau ar lefel genedlaethol a lefel yr awdurdod lleol |
| 33 | Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau diwylliannol i ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyson ar gyfer sector y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n cymell yr ymdrechion i wella lles drwy gydweithio â phobl ar brosiectau diwylliannol yn y gymuned |

| Thema | Amcanion Creu: Cyrraedd: Cynnal: dyfodol y celfyddydau yng Nghymru (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2015) |
|---|---|
| Creu | 1. Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu ynddo |
| | 2. Cynyddu gwerth cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i'r celfyddydau yng Nghymru |
| Cyrraedd | 3. Ariannu cyfleoedd, ffyrdd a mannau newydd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau |
| | 4. Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifanc |
| Cynnal | 5. Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd |
| | 6. Diogelu a chynyddu'r sylfaen economaidd ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru |
| | 7. Dangos gwerth y celfyddydau |
| | 8. Gwneud Cyngor y Celfyddydau yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol |

Ffigwr 43: Amcanion wedi'u halinio o Creu: Cyrraedd: Cynnal: dyfodol y celfyddydau yng Nghymru (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2015)

Mary Lloyd Jones, Ystumtuen Pools, 2017, 5tr x 6tr
Ffynhonnell: trwy garedigrwydd Oriel Martin Tinney

# 6. Manylion y Model



**Cam Un: Gofynion Cyfalaf**

- Clustnodi cyllideb comisiynau mawr ar gyfer y gweithiau celf cyntaf, 50 gwaith celf ar draws y wlad. Y comisiynau i amrywio o ran cost rhwng £40,000 a £5m. At ddibenion modelu ariannol, rydym wedi tybio cyllideb gyfartalog o £60,000 y prosiect;
- Angen y gwariant lleiaf ar gyfer seilwaith cefnogol (e.e. mannau addysg gwarchodol, unedau manwerthu, bwyd a diod, neu ardaloedd gwylio wrth ymyl comisiynau);
- Angen gosod arwyddion ledled Cymru (ar-lein ac yn ffisegol).

**Cam Un: Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**

- Cyfarwyddwr Artistig Arweiniol a thîm o gynhyrchwyr creadigol sydd gyda'i gilydd yn datblygu ac yn goruchwylio'r rhaglen yn eu clystyrau daearyddol;
- Pwyllgor Ymchwil Curadurol sy'n cynnwys y cyhoedd, artistiaid a chreadigwyr, a phobl ifanc (gweler Argymhelliad Pedwar) yn gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr i gydguradu'r arddangosfa a chomisiynu gwaith sy'n benodol i'r safle;
- Potensial ar gyfer rhannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol gan ddibynnu ar sefydliadau angori i godi arian, marchnata, cadwraeth.

**Rhaglen ac Arddangosfa**

- Gallai cyfran sylweddol o'r comisiynau allanol fod yn barhaol; mae'r rhai mewn mannau segur yn strwythurau ffisegol neu brofiadau dros dro;
- Gellid ychwanegu rhaglen dreigl o gomisiynau dros amser;
- Systemau ar gyfer comisiynu i'w caffael gan Amgueddfa Cymru.

**Symudedd Casgliadau**

- Gofynion logistaidd canolig. Cludiant isel. Costau yswiriant uchel.

**Addysg ac Ymgysylltu**

- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle.

**Cam Un: Cyfleoedd Masnachol**

- Potensial i ddatblygu cyfleoedd masnachol ar ffurfiau newydd (gan gofio'r briff mannau anhraddodiadol), gan gynnwys bwytai, caffis, lleoliadau bwyd ar y stryd, dros dro. Posibilrwydd cytundeb comisiynu ag arlwyo a manwerthu;
- Bydd swyddog masnachol yn datblygu cynnig manwerthu atyniadol ledled y wlad (brand celf weledol i Gymru), gan bartneru â myfyrwyr dylunio cynnyrch/ffasiwn mewn ysgolion celf i dynnu ar asedau o bob cwr o'r wlad a'u gwerthu mewn sawl safle ar-lein ac all-lein.

**Marchnata**

- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant;
- Cysylltu â Ffordd Cymru;
- Mapio, ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid.

**Datblygiad**

- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol – ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Y potensial i dynnu arian o brosiectau buddsoddiad cyfalaf mewn sectorau eraill (Adran 106, creu lleoedd a chelf cyhoeddus);
- Nawdd gan y sector corfforaethol ar gyfer comisiynau penodol ac/neu noddwr corfforaethol ar gyfer Canfas y Genedl;
- Codi arian cymynroddion;
- Ymgyrchoedd cyllido torfol parhaus.

**Cynnal a chadw**

- Gofynion diogelwch ac yswiriant ym mhob safle;
- Gofynion cynnal a chadw ar gyfer gweithiau celf yn yr awyr agored.

**Partneriaid**

- Artistiaid a chydweithfeydd artistiaid;
- Sefydliadau celfyddydol gweledol;
- Awdurdodau Lleol;
- Croeso Cymru;
- Grwpiau cymunedol;
- Cwmnïau arlwyo (e.e. fan fwyd dros dro);
- Partneriaid corfforaethol;
- Cymheiriaid rhyngwladol;
- Llysgenadaethau;
- Colegau a phrifysgolion;
- Datblygwyr preifat;
- Y Comisiwn Coedwigaeth.

**Amserlen Ddangosol**

- Blwyddyn 1: Recriwtio arweinyddiaeth a thîm curadurol; sefydlu pwyllgor ymchwil curadurol; sefydlu partneriaethau allweddol; sefydlu dulliau marchnata a chodi arian; datblygu rhaglen addysg genedlaethol; lansio rhaglen gomisiynu – gan dreialu cyfres o weithiau mor gynnar yn y flwyddyn â phosib.
- Blwyddyn 2-4 (ac ymlaen): Comisiynau ledled Cymru.

**Cam Un: Ychwanegu Gwerth i Gymru**

- Ymestyn arlwy twristiaeth ddiwylliannol y wlad;
- Tarfu ar y model oriel gelf gyfoes draddodiadol (mannau blwch gwyn, wedi'i gynllunio gan bensaer o fri) ond yn bod yn driw a dilys a defnyddio asedau gorau Cymru;
- Meithrin cynulleidfa i gelfyddyd gyfoes yng Nghymru trwy ddatblygu deialog ac ymgysylltu ar lefel leol;
- Darparu mynediad gwirioneddol ddemocrataidd i'r casgliad ac unrhyw gomisiynau newydd ar gyfer pobl Cymru, yn enwedig y rheiny sy'n teimlo nad yw celf neu orielau ar eu cyfer hwy;
- Arwain at fudd economaidd anuniongyrchol yn sgil gwariant gan ymwelwyr undydd a chreu swyddi tymor byr;
- Datblygu ffyrdd newydd o gasglu'r anghasgladwy yn y casgliad cenedlaethol.

# Cam Un: Y Canfas Cenedlaethol, Gweithiau Celf wedi'u Cydgomisiynu

**Cam Un: Cryfderau**

- Yn weladwy iawn yng Nghymru ac yn rhoi cyfleoedd grymus yn y wasg ac i farchnata;
- Taith ar draws y canfas yn cynnig pererindod i ymwelwyr, profiad cwbl groes i'r boddhad cyflym a pharod lle gellir profi diwylliant ar unrhyw adeg o unrhyw ddyfais;
- Hynod arloesol. Mae'n cynnig profiad hygyrch – gan fynd y tu hwnt i'r oriel. Mae'n ymestyn arferion curadurol cyfredol ac yn annog model addysg ac ymgysylltu newydd;
- Canolbwyntio ar fanylion penodol lleoedd a thir Cymru, sy'n cyd-fynd â chryfderau celf fodern a chyfoes Cymru;
- Safleoli'r tirwedd yn gyfle yn hytrach nag yn rhwystr a defnyddio adeiladau segur i gynnig cyfleoedd cyffrous i artistiaid weithio ynddynt;
- Gwthio gwaith artistiaid celf weledol gyfoes ymlaen, gan eu hannog i ymateb i'r tirlun – yn hytrach na chyfleoedd blwch gwyn;
- Y dull datganoledig yn golygu bod modd ei gynnal ledled Cymru, mewn gwahanol fathau o leoliadau – trefol a gwledig, poblog ac anghyfannedd, etc.;
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru;
- Cynyddu ymdeimlad o gymuned a pherchnogaeth trwy gydguradu a chomisiynu;
- Datblygu casgliad cenedlaethol drwy gomisiynau newydd, ar yr un pryd â chynnig cyfleoedd i arddangos gwaith cyfoes mawr (na chaiff ei gweld yn aml);
- Datblygu cyfleoedd cyllido newydd sy'n torri tir newydd.

**Cam Un: Gwendidau**

- Rhy wasgaredig;
- Yn dibynnu ar drafnidiaeth Cymru, gallai'r diffyg seilwaith bennu lleoliad gweithiau celf;
- Yn cyfyngu ar fynediad i'r bobl hynny nad oes ganddynt gerbyd;
- Efallai yr ystyrir bod yr elfennau awyr agored yn ffactor sy'n cyfyngu;
- Er y gallai adeiladau segur arddangos comisiynau newydd, nid yw'r rhain yn debygol o fod yn amgylcheddol-gadarn a byddai oblygiadau costau ar gyfer agor / cau a goruchwylio. Gallai hyn atal rhai comisiynau sy'n benodol i safleoedd rhag cael eu harddangos am gyfnodau estynedig;
- Nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r problemau capasiti a godwyd gan y sector.

**Cam Un: Risgiau**

| Risgiau | Lliniaru |
|---|---|
| Colli'r weledigaeth guradurol ledled rhaglen gymhleth | Recriwtio arweinyddiaeth artistig sydd ag ethos cydweithredu, sgiliau cyfathrebu cryf, hanes cryf a gweledigaeth uchelgeisiol; Sicrhau cyfathrebu da ar y weledigaeth guradurol a bod ymdeimlad o berchnogaeth yn cael ei rhannu'n eang; Sicrhau cyflwyno rhaglen uchelgeisiol, gan gynnwys comisiynau artistiaid o'r radd flaenaf (artistiaid o Gymru a thramor) a phresenoldeb ar-lein; Sicrhau bod gwaith celf wedi'i wasgaru'n ddaearyddol, ond yn hygyrch; Partneru â Croeso Cymru i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei hyrwyddo'n strategol i dwristiaid domestig a rhyngwladol. |
| Diffyg gweledededd amlwg | Olrhain a mesur llwyddiant y rhaglen – effaith ar gynulleidfaoedd, artistiaid, hunaniaeth genedlaethol, economïau lleol, atyniadau cyfagos (ar Ffordd Cymru) a'r buddsoddiad cysylltiedig yn y cynllun a sylw'r wasg. Sicrhau bod rhai prosiectau'n cael eu cyflwyno'n gyflym ar y cychwyn, a datblygu cyfleoedd marchnata allweddol yn gynnar. |
| Rhwydd ei chanslo os nad yw'r rhaglen yn dangos llwyddiant neu effaith glir yn y tymor byr | Meithrin ymrwymiad ar gam cynnar, gan weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid i ddeall a yw hyn/sut mae hyn yn cyd-fynd â swyddogaethau swyddi presennol a pha adnoddau ychwanegol fyddai eu hangen Sicrhau bod amserlen glir a chadarn yn cael ei datblygu ar gyfer rhoi pob cam ar waith. |
| Staff yn ystyried gweithredu elfennau'r cydgomisiynu fel rhywbeth 'ychwanegol' i'w disgrifiad swydd bresennol, yn hytrach nag yn integredig ynddi | Sefydlu tîm penodol; Cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r clystyrau creadigol rhanbarthol gan fod ag agenda glir i drafod sut mae'r rhaglennu yn datblygu, ymhle y mae'r anawsterau a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau yn ffurfiol ac yn anffurfiol – yn fewnol ac yn allanol. |

**Gofynion o ran Cyfalaf**

Strwythur cyfalaf newydd i'w osod ym mhob lleoliad; byddai lefel y buddsoddiad yn amrywio yn seiliedig ar faint strwythur, hirhoedledd a gwaith cyfalaf diweddar (er enghraifft nid yw estyniad 2016 Glynn Vivian, fel enghraifft yn unig, ar hyn o bryd angen adeilad ffisegol newydd; fodd bynnag fel rhan o'r rhwydwaith, gellid gosod ateb pensaernïol dros dro yn agos at y safle wedi'i frandio fel yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol).

Mae cost cyfalaf estyniad lled-barhaol yn debygol o fod oddeutu £3,000-£3,500 fesul m$^2$.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad newydd bychan lled-barhaol yn £4.5m. Mae hyn yn tybio oddeutu 480m$^2$ i fannau cyhoeddus, 300m$^2$ i fannau oriel dros dro, tua 300m$^2$ i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 300m$^2$ fel man cefn y tŷ.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad canolig lled-barhaol oddeutu £8m. Mae hyn yn tybio tua 600m$^2$ i fannau cyhoeddus, 800m$^2$ i fannau oriel dros dro, tua 600m$^2$ i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 480m2 fel man cefn y tŷ.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad mawr lled-barhaol oddeutu £13m. Mae hyn yn tybio tua 940m$^2$ i fannau cyhoeddus, 1,300m$^2$ i fannau oriel dros dro a mannau cymunedol, tua 950m$^2$ i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 830m$^2$ fel man cefn y tŷ.

**Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**

- Pwyllgor curadurol i sicrhau llais curadurol cydlynol ar gyfer arddangosfeydd ar y cyd;
- Perthynas gyfartal ar draws lleoliadau, yn hytrach nag Amgueddfa Cymru yn 'rhoi cyfarwyddiadau tuag allan';
- Cyfleoedd amlwg i ddatblygu sgiliau proffesiynol – yn ffurfiol ac yn anffurfiol;
- Capasiti estynedig i gynnal rhaglenni casglu cenedlaethol a rhaglenni addysg a chymunedol cysylltiedig sy'n bodloni gofynion cynulleidfa pob lleoliad cysylltiol (nid darpariaeth unffurf sydd yr un fath i bawb o ran addysg ac allgymorth);
- Potensial ar gyfer rhannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol gan ddibynnu ar sefydliadau angori i godi arian, marchnata, cadwraeth;
- Annog portffolio cymysg o sefydliadau a lleoliadau sefydledig a newydd.

**Rhaglen ac Arddangosfa ym mhob lleoliad**

- Bydd lleoliadau cyswllt yn dal i gynnig eu rhaglenni cyfredol, ond bydd ganddynt gasgliad/oriel genedlaethol fel man ffisegol penodol ar y safle (neu gerllaw);
- Disgwylir ac anogir lleoliadau cyswllt i sicrhau cydlyniad rhaglen gydlynol rhwng y 'cenedlaethol' a'u gwaith annibynnol.

**Symudedd Casgliadau**

- Ychydig o logisteg yn fewnol a chostau yswiriant a chludiant isel o ran symud casgliadau (h.y. nid oes angen dadosod casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro gan dybio y bydd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn awtomatig yn un o'r safleoedd sy'n cael estyniad lled-barhaol);
- Yn allanol, costau canolig yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

**Addysg ac Ymgysylltu**

- Cael timau dysgu a marchnata'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a sefydliadau partner yn rhan ar gam cynnar i sicrhau ymagwedd integredig. Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle. Y cynnig addysg yn gydlynol ar draws pob safle;
- Dealltwriaeth glir o gynulleidfaoedd lleol ym mhob lleoliad er mwyn sicrhau bod anghenion a diddordebau cynulleidfa yn cael eu diwallu;
- Angen 'mewngymorth' cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld.
- Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu;
- Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol.

**Cyfleoedd Masnachol**

- Angen staff arlwyo, manwerthu a digwyddiadau.

**Marchnata**

- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant.

**Datblygiad**

- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol - ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Angenrheidiol mesur a meithrin y Cymry alltud;
- Y potensial i sicrhau y bydd cynllun aelodaeth newydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau wrth greu cymdeithas aelodaeth.

**Cynnal a Chadw Adeiladau**

- Costau cyfleusterau, cynnal a chadw a diogelwch cyson a rhagweladwy yn unol â chyfartaleddau'r diwydiant.

**Partneriaid**

- 6 i 8 safle wedi'u dewis oherwydd eu haliniad strategol gan gynnwys:
  - Lleoliad a dalgylch daearyddol;
  - Ffocws curadurol (e.e. Pontio/syrcas; Plas Glyn-y-Weddw/preswyliadau i artistiaid);
  - Llywodraethu;
  - Dull ariannu;
  - Partneriaethau.

# Cam Dau: Gweithredu'r Model Ar Wasgar

**Amserlen**

- Blwyddyn 1: Datblygu proses galwad agored am geisiadau, gan annog partneriaid i wneud cais fel tîm cymunedol/dinesig/creadigol i gael eu dynodi'n oriel genedlaethol. Nodi partneriaid a sefydlu pwyllgor curadurol; sefydlu brandio; asesu cyfleoedd cyfalaf ym mhob lleoliad partner;
- Blwyddyn 2 i 4: Sefydlu rhaglen guradurol; cyflwyno'r estyniadau cyfalaf;
- Blwyddyn 5: Partneriaid ychwanegol yn cael eu hychwanegu yn unol â meini prawf asesu a nodwyd;
- Yn parhau: gwerthuso'r rhaglen (tynnu allan neu fynd i'r afael ag unrhyw leoliadau nad ydynt yn gweithio), potensial i ychwanegu partneriaid eraill.

**Cam Dau: Ychwanegu Gwerth i Gymru**

- Mae'n ehangu arlwy twristiaeth ddiwylliannol;
- Mynegi hyder yn y celfyddydau gweledol ac yn codi eu proffil yng Nghymru a thu hwnt;
- Lleddfu pryderon Caerdydd-ganolog ymysg sefydliadau a chynulleidfaoedd nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd;
- Cynyddu gwariant cyfunol y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardaloedd lleol, yn cynnwys cyflogaeth adeiladu a gwario ychwanegol posibl gan ymwelwyr.

**Cam Dau: Cryfderau**

- Caniatáu ar gyfer cyfnod peilot i weld beth sy'n gweithio, gweld ymhle mae niferoedd yn ymweld neu gyrhaeddiad wedi cynyddu mewn safleoedd a sut y gellid cyflwyno'r syniad ar raddfa fwy. Gellid gosod strwythurau mwy parhaol ar ôl gweld eu bod yn llwyddiant;
- Sicrhau bod casgliadau yn cael eu dosbarthu'n eang ledled Cymru a bod casgliadau nas gwelir yn cael eu gwneud yn weladwy;
- Sicrhau bod 'cenedlaethol' wir yn genedlaethol ac yn wasgaredig yn ddaearyddol;
- Mae'n dathlu natur unigryw pob lleoliad a chymuned gan fod â'r potensial ar gyfer ymyriadau pensaernïol gwahanol ym mhob safle;
- Caniatáu i raglenni/arddangosfeydd cyfredol y partneriaid presennol gael eu cyflwyno a'u harddangos; e.e. nid oes angen eu tynnu i lawr er mwyn dangos y casgliad;
- Ysbrydoli deialog a chyfosodiad rhwng rhaglenni presennol y partneriaid a gweithiau o'r casgliad cenedlaethol;
- Gwella datblygiad proffesiynol curaduron trwy gydweithio (trefnu benthyciadau ac arddangosfeydd mewn partneriaeth);
- Annog pob sefydliad i fynd ati o ddifrif i gael eu gweld fel 'cyrchfan' ar 'freichled' o leoliadau;
- Nid yw'n dibynnu ar y seilwaith o fewn adeilad sy'n bodoli eisoes;
- Caniatáu ar gyfer mynd ag arddangosfeydd ar daith i sawl lleoliad ar yr un pryd yn ogystal ag ar ôl ei gilydd;
- Gellid ei weld yn gyfochrog neu ei gynnal mewn dilyniant â modelau eraill.

**Cam Dau: Gwendidau**

- Angen cymeradwyaeth ac ymrwymiad cynllunwyr ac awdurdodau lleol;
- Atal yr holl sefydliadau celfyddydol gweledol rhag cymryd rhan;
- Angen mwy o le y tu hwnt i batrwm presennol yr adeiladau;
- Creu mwy o gystadleuaeth am gyllid, yn enwedig cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol.

**Cam Dau: Risgiau**

| Risgiau | Lliniaru |
|---|---|
| Sefydliadau celfyddydol gweledol yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r oriel genedlaethol ar wasgar ac unrhyw gyfleoedd cyllido cyhoeddus neu breifat cysylltiedig | Datblygu a chyfleu rhesymeg a meini prawf clir ar gyfer pam fod sefydliadau wedi'u henwi i fod yn y freichled; Nodi rhaglenni, ymchwil, arddangosfeydd neu ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth sy'n weithredol yn cynnwys aelodau nad ydynt yn y freichled; Sicrhau bod eiriolaeth ledled y sector ar gyfer celf weledol yn integreiddio negeseuon cydlynol o'r sector cyfan. |
| Nid ystyrir ei fod yn berthnasol yn lleol fel dull unffurf sydd yr un fath i bawb | Cynnal ymchwil a sgyrsiau hwyluso sy'n galluogi partneriaid i ddatblygu amcanion a diddordebau a rennir; Nodi nodweddion, cynulleidfaoedd a phosibiliadau unigryw ym mhob safle i safleoli pob lleoliad yn wahanol. |
| Prinder ymweliadau i rai safleoedd (e.e. gwledig) | Sicrhau bod arlwy ddeniadol yn cael ei chyfathrebu am bob safle; Nodi cyfleoedd a chymhellion i annog ymwelwyr i ddychwelyd, ac annog ymwelwyr i deithio ar draws y rhwydwaith; Partneru â Chroeso Cymru i sicrhau bod yr holl leoliadau yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i dwristiaid domestig a rhyngwladol. |
| Staff yn ystyried gweithredu'r rhaglen estyniad oriel genedlaethol fel rhywbeth 'ychwanegol' i'w disgrifiad swydd bresennol, yn hytrach nag yn integredig ynddi | Meithrin cymeradwyaeth ac ymrwymiad i'r rhaglen ar gam cynnar, gan weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid i ddeall a yw hyn/sut mae hyn yn cyd-fynd â swyddogaethau swyddi presennol a pha adnoddau ychwanegol fyddai eu hangen; Cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda thîm ar draws y sector ac iddynt agenda glir i drafod sut mae'r rhaglennu'n datblygu, ymhle mae'r anawsterau a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau yn ffurfiol ac yn anffurfiol – yn fewnol ac yn allanol. |
| Diffyg cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru | Olrhain a mesur llwyddiant y rhaglen – effaith ar gynulleidfaoedd yn enwedig; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau'r Bartneriaeth yn allanol. |



event

# Cam Tri: Pencadlys Celf Gyfoes Cenedlaethol

**Cam Tri: Gofynion Cyfalaf**
Tra bod Camau Un a Dau yn gysylltiedig o ran eu dilyniant, bydd Cam Tri yn tynnu ar y dysgu, y gwerthoedd a'r rhwydweithiau a ddatblygwyd yn flaenorol. Felly bydd personoliaeth a hunaniaeth pencadlys yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn crisialu dros amser. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, yn seiliedig ar feincnodi helaeth a nifer o baramedrau a ddeellir ynghylch pwrpas adeilad o'r fath, awgrymwn y byddai adeilad newydd, gyda phensaer o fri ynghlwm, yn costio o leiaf £50m. Mae hyn yn rhagdybio £5,000 fesul metr sgwâr ac arwynebedd llawr gros (GFA) o 10,500m$^2$. Ar gyfer adeilad mwy swyddogaethol, byddai'r gost oddeutu £42m, gan dybio 4,000 m$^2$.

Ar y cam hwn mae'r elfennau gweithredol craidd yn rhai cyffredinol, ac y bydd angen eu crisialu wrth i Gamau Un a Dau fynd rhagddynt.

**Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Rheolaeth ganoledig ond gyda mwy o hyblygrwydd ac annibyniaeth. Un arweinydd llawn gweledigaeth. Curaduron mewnol a gwadd;
- Prin yw'r potensial ar gyfer rhannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol. Fodd bynnag, gellid tynnu ar yr arbenigedd mewn celf a dylunio cyfoes a gyflogir eisoes yn Amgueddfa Cymru.

**Rhaglen ac Arddangosfa**
- Arddangosfa barhaol wedi'i gosod unwaith, gyda hyblygrwydd 5-10% ar gyfer cyfnewid blynyddol;
- Arddangosfa dros dro i'w gosod yn rheolaidd (3 fawr bob blwyddyn; 4-5 bach bob blwyddyn);
- O'r arddangosfeydd dros dro, 1 i 2 wedi'u cynllunio i fynd ar daith yn genedlaethol / rhyngwladol.

**Symudedd Casgliadau**
- Gofynion logistaidd sylweddol wrth sefydlu;
- Costau canolig parhaus yn gysylltiedig â symud casgliadau (h.y. nid oes raid dadosod y casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro, fodd bynnag rhaid cludo casgliad cenedlaethol y tu hwnt i Gaerdydd);
- Yn allanol, costau canolig yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

**Addysg ac Ymgysylltu**
- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle;
- Angen 'mewngymorth' cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld.
- Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu.
- Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol.

**Cyfleoedd Masnachol**
- Angen staff arlwyo, manwerthu, llogi, digwyddiadau.

**Marchnata**
- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant.

**Datblygiad**
- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol – ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Angenrheidiol mesur a meithrin y Cymry alltud. Mae potensial i sicrhau y bydd cynllun aelodaeth newydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau wrth greu cymdeithas aelodaeth.

**Cynnal a Chadw Adeiladau**
- Costau cyfleusterau, cynnal a chadw a diogelwch cyson a rhagweladwy yn unol â chyfartaleddau'r diwydiant.

**Partneriaid**
- Awdurdod lleol (nodi safle, cymorth â gweithredu, y broses gynllunio, integreiddio â'r seilwaith presennol, partneriaethau broceru, cyfraniad ariannol i gyfalaf a chymorth refeniw parhaus tebygol);
- Y Llywodraeth;
- Artes Mundi;
- Cyfleusterau cyfagos;
- Partneriaid diwylliannol ac addysgol lleol;
- Grwpiau cymunedol lleol;
- Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW);
- Addysg uwch;
- Y sector corfforaethol;
- Cymheiriaid rhyngwladol.

**Amserlen**
- 3 i 7 blynedd.

**Cam Tri: Ychwanegu Gwerth i Gymru**
- Ymestyn arlwy twristiaeth ddiwylliannol, yn enwedig os yw wedi'i leoli ar Ffordd Cymru;
- Mynegi hyder yn y celfyddydau gweledol ac yn codi eu proffil yng Nghymru a thu hwnt;
- Cael effaith economaidd gadarnhaol trwy gyfrwng gwariant y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardal leol, yn cynnwys creu swyddi, cyflogaeth adeiladu a gwario ychwanegol gan ymwelwyr.

**Cam Tri: Cryfderau**
- Sicrhau adeilad addas i'r diben sydd â dyluniad o ansawdd uchel. Nid yw wedi'i gyfyngu gan seilwaith na safle presennol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd;
- Cynnig hunaniaeth newydd mewn ardal;
- Potensial i ddenu cynulleidfaoedd newydd yn dibynnu ar y lleoliad;
- Canolbwyntio ar gelf weledol fodern a chyfoes, gan roi llwyfan newydd i'r ddisgyblaeth hon yn Amgueddfa Cymru a rhyddhau lle yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd;
- Cynnig cyfleoedd yn y wasg am y tymor byr.

**Cam Tri: Gwendidau**

O bosibl yn cyfyngu ar yr effaith ar Gymru gyfan;
Er y gallai o bosibl elwa o agoriad uchel ei broffil, gallai fod yn anodd cynnal cyllid, proffil a momentwm;
Mae'n rhoi'r holl fuddsoddiad yn Amgueddfa Cymru, ac nid yw eraill yn sector y celfyddydau gweledol yn elwa yn uniongyrchol.

**Cam Tri: Risgiau**

| Risgiau | Lliniaru |
|---|---|
| Mae'n creu mwy o gystadleuaeth i arlwy bresennol y celfyddydau gweledol a'r cynnig diwylliannol yng Nghymru | Tynnu ar ethos cydweithredol presennol timau curadu/casglu Amgueddfa Cymru i ddatblygu cyd-weledigaeth ar gyfer yr estyniad sy'n tynnu ar arbenigedd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol cyfoes; Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn tynnu ar asedau diwylliannol/creadigol/sefydliadau AU sy'n bodoli eisoes yn y rhanbarth dan sylw. |
| Trafodaethau yn parhau am hir | Datblygu partneriaeth gydweithredol gyda'r holl randdeiliaid yn gynnar, gan fod yn dryloyw ynghylch rhwystrau, risgiau a heriau a ragwelir a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain ar y cyd; Ceisio deall uchelgeisiau'r datblygwyr a'r awdurdod lleol a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r model allbost, a pha agweddau ar uchelgeisiau'r allbost sy'n ffactorau nad oes trafod arnynt ac sy'n hollol angenrheidiol i lwyddiant. Ystyried ar y cyd sut y gellir cyflawni'r rhain. Sicrhau bod rhaglen glir oddi ar y safle wedi'i sefydlu, gan dynnu ar y diwylliant a'r gymuned; sicrhau bod y llwyfannau hyn yn dal i gael eu defnyddio'n greadigol ar ôl i'r oriel agor. |
| Ystyrir nad oes arloesedd iddo - ond yn copïo pob oriel gelf weledol arall yn y byd | Sicrhau bod y dyluniad, creu lleoedd a'r cynnwys yn benodol i Gymru; Sicrhau bod unrhyw gystadleuaeth bensaernïol yn canolbwyntio ar y dilysrwydd hwn a'r gofyniad bod yr oriel yn ysgogi ysbryd cenedlaethol a chydweithredol ac yn dryloyw ac agored yn ei dyluniad ffisegol. Ystyried cyflwyno modelau eraill a nodwyd cyn agor y ffocws hwnnw ar arddangosfeydd cydweithredol, uchelgeisiol / datblygu casgliadau ledled Cymru. |



event

# Costau Cyfalaf Rhagarweiniol

| Math o adeilad | Mannau Cyhoeddus: nid casgliadau (MCNC) (m²) | | | | | Mannau Cyhoeddus: casgliadau (CC) (m²) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Allanol** | **Mynedfa** | **Mannau cymdeithasol** | **Mwynderau** | **Dysgu** | **Parhaol** | **Dros dro** | **Cymuned** |
| | Mynedfa | 200 | 200 | 100 | 120 | 0 | 1200 | 100 |
| | **Mannau cymdeithasol** | | | | | **Cyfanswm CC: 1300** | | |
| | Mwynderau | 200 | 60 | 60 | 80 | | 800 | |
| | **Dysgu** | | | | | **Cyfanswm CC: 800** | | |
| | Parhaol | 100 | 60 | 60 | 60 | 0 | 300 | 0 |
| | **Dros dro** | | | | | **Cymuned** | | |
| | | | | | | | | |
| **Adnewyddu mawr – Safle ar wasgar** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1200 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 0** | | | | | **Cyfanswm CC: 1200** | | |
| **Adnewyddu canolig – Safle ar wasgar** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 800 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 0** | | | | | **Cyfanswm CC: 800** | | |
| **Adnewyddu bach – Safle ar wasgar** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 0** | | | | | **Cyfanswm CC: 300** | | |
| | | | | | | | | |
| **Pencadlys eiconig** | 800 | 600 | 400 | 220 | 480 | 2000 | 1200 | 500 |
| ***Pensaer enwog*** | **Cyfanswm MCNC: 2500** | | | | | **Cyfanswm CC: 3700** | | |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 2500** | | | | | **Cyfanswm CC: 3700** | | |
| ***Adeilad swyddogaethol*** | **Cyfanswm MCNC: 2500** | | | | | **Cyfanswm CC: 3700** | | |

Ffigwr 44: Costau cyfalaf rhagarweiniol ar gyfer oriel gelf gyfoes yn seiliedig ar gyfraddau cyfredol fesul metr sgwâr. Mae'r rhain yn gostau dangosol yn unig ac yn seiliedig ar feincnodau rhyngwladol. Mae angen cynnal astudiaeth ddichonoldeb manylach.

# Costau Cyfalaf Rhagarweiniol

| Mannau ddim yn gyhoeddus: casgliadau (MDCC)(m2) | | | | Mannau ddim yn gyhoeddus: nid casgliadau (MDCNC) ($m^2$) | | | | Cyfanswm arwynebedd llawr net (m2) | 5% | Cyfanswmar wynebedd llawr gros | Cost fesul $m^2$ (£) | Cyllideb Ragarweiniol (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Storio casgliadau** | **Cadwraeth** | **Storfa arddangosfeydd** | **Tramwy** | **Swyddfeydd** | **Technegol** | **Ceginau / Siop manwerthu etc.** | **Cyfarpar** | | | | | |
| | Cost fesul m2(£) | 400 | 250 | 80 | 100 | 200 | 450 | | | | | |
| | | | | **Cyllideb Ragarweiniol(£)** | | | | **4,000** | **200** | **4,200** | **£4,000** | **£16,800,000** |
| 200 | 0 | 200 | 200 | 40 | 60 | 80 | 300 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 600** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 480** | | | | **2,480** | **124** | **2,604** | **£4,000** | **£10,416,000** |
| 100 | 0 | 100 | 100 | 20 | 40 | 40 | 200 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 300** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 300** | | | | **1,380** | **69** | **1,449** | **£4,000** | **£5,796,000** |
| | | | | | | | | | | | | |
| 0 | 0 | 400 | 0 | 10 | 30 | 0 | 20 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 400** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 60** | | | | **1,660** | **83** | **1,743** | **£4,000** | **£6,972,000** |
| 0 | 0 | 200 | 0 | 10 | 30 | 0 | 20 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 200** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 60** | | | | **1,060** | **53** | **1,113** | **£4,000** | **£4,452,000** |
| 0 | 0 | 100 | 0 | 10 | 30 | 0 | 20 | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| 1000 | 250 | 300 | 250 | 200 | 300 | 300 | 1200 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 1800** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 2000** | | | | **10,000** | **500** | **10,500** | **£7,000** | **£73,500,000** |
| **Cyfanswm MDCC: 1800** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 2000** | | | | **10,000** | **500** | **10,500** | **£5,000** | **£52,500,000** |
| **Cyfanswm MDCC: 1800** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 2000** | | | | **10,000** | **500** | **10,500** | **£4,000** | **£42,000,000** |

# Costau Cyfalaf Rhagarweiniol

| Adnoddau / Costau Canolog | Senario Un<br>Cam Un |
|---|---|
| **Gwariant Rhaglennu Uniongyrchol / Gweithgarwch Elusennol** | |
| Arddangosfeydd | - |
| Casgliadau ac Ymchwil | - |
| Rhaglenni Cyhoeddus | £20,000 |
| Addysg / Teithiau Ysgol | £15,000 |
| Rhaglen Gymrodoriaeth | - |
| Gweithrediadau Amgueddfa | £10,000 |
| Llywodraethu | - |
| Digwyddiadau/Symposiwm Blynyddol | £5,000 |
| Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Ieuenctid | £65,000 |
| Teithio | £10,000 |
| **Codi cyllid** | |
| Gwariant ar Godi Rhoddion a Chymynroddion | £50,000 |
| Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill | £10,000 |

| Adnoddau / Costau Canolog | Senario Un<br>Cam Un |
|---|---|
| Arlwyo | £50,000 |
| **Treuliau** | |
| Staff | 363,000 |
| Buddion | £25,410 |
| Marchnata | £120,000 |
| Cyfleustodau | - |
| Yswiriant | £100,000 |
| Diogelwch | £25,000 |
| Cynnal a chadw a chyfleusterau | £184,650 |
| Arall | - |
| **Cyfanswm** | **£1,053,060** |

**Nodiadau**

- Mae Gwariant Rhaglennu Uniongyrchol Cam Un yn seiliedig ar weithgarwch a chostau cyfalaf Senario Un (h.y. nifer y comisiynau);
- Nid yw Gwariant ar Weithgarwch Elusennol, Codi Rhoddion a Chymynroddion a gweithgareddau masnachu eraill yn cynnwys costau staff (wedi'u cyflwyno ar wahân);
- Mae costau staff yn cynnwys 13.5FTE gyda'r rhagdybiaeth y bydd disgwyl i'r staff hyn gyflawni cwmpas gwaith tebyg wrth fynd i gamau dau a thri;
- Tybir bod costau buddion yn 7% o gostau staff;
- Bydd arbedion graddfa os cyflawnir pob un o'r tri cham – e.e. bydd staff craidd canolog a recriwtiwyd yng Ngham Un yn cynnwys cyfarwyddwr, a fydd wedyn yn gyfrifol am weithredu camau dau a thri hefyd;
- Staff craidd canolog hefyd yn cynnwys Pennaeth Codi Arian a Phennaeth Marchnata – a disgwylir i rolau'r ddwy swydd ddatblygu rhaglen weithgarwch sy'n ymestyn y tu hwnt i gamau un a dau;
- Mae costau marchnata dangosol wedi'u modelu ar o leiaf 4% o gyfanswm y costau;
- Mae'r costau cynnal a chadw a chyfleusterau ar gyfer Cam Un/Canfas Cenedlaethol yn seiliedig ar 10% o gyfanswm y costau cyfalaf ar gyfer gosod comisiynau;
- Defnyddir staff canolog ar gyfer Camau Un a Dau.

Ffigwr 45: Costau gweithredol / adnoddau canolog dangosol ar gyfer Senario Un, Cam Un

# Costau Cyfalaf Rhagarweiniol

| Adnoddau / Costau Canolog | Senario Un<br>Cam Dau |
|---|---|
| **Gwariant Rhaglennu Uniongyrchol / Gweithgarwch Elusennol** | |
| Arddangosfeydd | £250,000 |
| Casgliadau ac Ymchwil | £64,000 |
| Rhaglenni Cyhoeddus | £20,000 |
| Addysg / Teithiau Ysgol | £32,000 |
| Rhaglen Gymrodoriaeth | £125,000 |
| Gweithrediadau Amgueddfa | - |
| Llywodraethu | £1,000 |
| Digwyddiadau/Symposiwm Blynyddol | £5,000 |
| Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Ieuenctid | £10,000 |
| Teithio | £16,000 |
| **Codi cyllid** | |
| Gwariant ar Godi Rhoddion a Chymynroddion | £32,000 |
| Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill | £36,000 |

| Adnoddau / Costau Canolog | Senario Un<br>Cam Dau |
|---|---|
| Arlwyo | - |
| **Treuliau** | |
| Staff | £751,520 |
| Buddion | £52,606 |
| Marchnata | £15,000 |
| Cyfleustodau | - |
| Yswiriant | - |
| Diogelwch | - |
| Cynnal a chadw a chyfleusterau | £240,000 |
| Arall | - |
| **Cyfanswm** | **£1,650,126** |

**Nodiadau**

- Mae'r gwariant a gyflwynir yma yn seiliedig ar 8 oriel yn y model ar wasgar. Y disgwyl yw na fydd pob un yn agor yn yr un flwyddyn, felly mae'n bosibl y gellir rhannu costau ar draws sawl blwyddyn;
- Mae costau Cam Dau i'w dosbarthu ar draws y partneriaid oriel; mae hyn yn cynnwys adnoddau staff ychwanegol;
- Mae'r costau arddangos dangosol yn amlwg yn uwch na chyfanswm cronfa arddangosfa Amgueddfa Cymru; mae'r gyllideb ddangosol hon a gyflwynir yma yn senario 'delfrydol' yn seiliedig ar feincnodau sefydliadol tebyg a'r uchelgais a amlinellir yn yr astudiaeth hon;
- Disgwylir y bydd rhai arddangosfeydd sydd wedi'u datblygu mewn orielau partner (Cam Dau) neu'r Pencadlys (Cam Tri) wedyn yn mynd ar daith ar hyd y gylchdaith genedlaethol (a rhyngwladol);
- Nid yw Gwariant ar Weithgarwch Elusennol, Codi Rhoddion a Chymynroddion a gweithgareddau masnachu eraill yn cynnwys costau staff (sydd wedi'u cyflwyno ar wahân);
- Mae costau marchnata dangosol wedi'u modelu ar o leiaf 4% o gyfanswm y costau;
- Mae'r model yn rhagdybio y telir i raddau helaeth am gostau Cam Dau / Oriel ar Wasgar gan yr oriel sy'n bodoli eisoes;
- Tybir bod costau buddion yn 7% o gostau staff;
- Defnyddir staff canolog ar gyfer Camau Un a Dau.

Ffigwr 46: Costau gweithredol / adnoddau canolog dangosol ar gyfer Senario Un, Cam Dau

Phil Collins, This Unfortunate Thing Between Us (2014). Gosodwaith sy’n benodol i’r safle yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter. Llun drwy garedigrwydd yr artist.
Ffynhonnell: Alex Vann

# 7. Y Camau Nesaf a Argymhellir



# Y Camau Nesaf a Argymhellir

Mae Event yn argymell dilyn y camau canlynol yn ystod y cam nesaf:

**Ariannu**
Mae Astudiaeth Ddichonoldeb Codi Arian – ar gyfer cymorth cyfalaf a refeniw – yn hollbwysig os penderfynir bwrw ymlaen ag Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol maes o law. Mae hyn i sicrhau bod cefnogaeth barhaus yn bosibiliad realistig, i archwilio sut y bydd model gweithredu cenedlaethol yn effeithio (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar ffrydiau ariannu presennol sydd wedi'u dynodi ar gyfer y celfyddydau gweledol yng Nghymru, ac i ddatgloi ffrydiau ariannu newydd. Ymhlith y meysydd allweddol i'w harchwilio mae gwaddol y Cymry alltud, cyllid torfol yn seiliedig ar wobrwyo, buddsoddi mewn effaith, pecynnau nawdd corfforaethol pwrpasol, dyngarwch menter, ymysg eraill.

**Ymchwilio, profi a datblygu'r farchnad**
Rhaid cynnal ymchwil i'r farchnad, a'r ymchwil hwnnw yn:

- Nodweddu a segmentu cynulleidfaoedd presennol a newydd y celfyddydau gweledol cyfoes a thraws-gelfyddol – gan gynnwys demograffeg, cymhellion, anghenion, ymddygiadau, rhwystrau a chyfleoedd
- Archwilio gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng rhanbarthau. Dylid alinio categorïau allweddol lle bo'n bosib ag astudiaethau sy'n benodol i leoliadau a rhaglenni casglu data eraill sydd eisoes yn bodoli (e.e. Cyngor Celfyddydau Cymru; Croeso Cymru; prosiect ymchwil a datblygu g39/ Nesta);
- Mesur y farchnad twristiaeth ddiwylliannol bresennol ac un bosibl – yn enwedig marchnadoedd yng Nghymru ei hun a thraws y ffin, wedi'i alinio â demograffeg a pharamedrau Croeso Cymru (pan fo'n briodol);
- Galluogi sefydliadau celfyddydol gweledol i safleoli eu hunain yn unigol ac ar y cyd (fel sector cydlynol) i dargedu ystod o farchnadoedd a nodwyd;
- Archwilio a diffinio'r archwaeth a'r galw am ganolfan celf gyfoes genedlaethol;
- Rhoi gwybodaeth i'r model gweithredu ac ariannol sylfaenol ar gyfer yr Astudiaeth Ddichonoldeb i Endid Celf Gyfoes Cenedlaethol i Gymru;
- Sicrhau y gellir cymhwyso canlyniadau i fentrau eraill (e.e. ar hyn o bryd nid oes gan sefydliadau unigol y ddealltwriaeth am ymwelwyr i gymharu ar draws safleoedd nac i adeiladu mentrau marchnata ar y cyd; gallai'r farchnad twristiaeth ddiwylliannol gael ei hintegreiddio'n well â safleoliad Croeso Cymru);
- Rhoi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau wrth gynllunio, cyflwyno a dadansoddi ymchwil; cyfnewid gwybodaeth ar draws y sector; a meddwl strategol cydgysylltiedig.

Mae cyfle hefyd i adeiladu ymhellach ar ymrwymiad a chydsyniad i unrhyw gysyniadau dichonoldeb a ddatblygir ar gyfer endid celf weledol cenedlaethol wrth i'r astudiaeth symud ymlaen.

**Model Gweithredu**

- Datblygu model gweithredu manwl sy'n ystyried ffigyrau mynychu, gofynion gofodol, costau gweithredu a llywodraethu;
- Astudiaeth Ddichonoldeb Codi Arian (fel uchod) i fod yn sail i ragamcanion refeniw;
- Ymchwil sylfaenol i'r gynulleidfa i hysbysu niferoedd ymwelwyr a'u proffil, cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu, graddfa, perthynas â dysgu ffurfiol, y model gweithredu, safleoli a marchnata, yr achos dros gefnogaeth a lleoliad(au) addas. Gallai hyn gynnwys grwpiau ffocws cynulleidfa.

**Lleoliadau**

- Galwad am bartneriaid trwy ddatblygu proses ymgeisio am bartneriaid ar gyfer tri cham yr Oriel: Y Canfas Cenedlaethol (50 comisiwn); Oriel ar Wasgar (6 i 8 o fannau wedi'u brandio); a'r Pencadlys Cenedlaethol;
- Astudiaeth ar leoliadau i roi dadansoddiad cynhwysfawr o safleoedd. Mae'r lleoliadau i'w hystyried y soniwyd amdanynt gan ymgyngoreion Event yn ystod yr astudiaeth yn cynnwys: yr Hen Goleg, Aberystwyth; Gelli Aur, Caerfyrddin; Chapter, Caerdydd; Mamheilad, Pont-y-pŵl; Port Talbot.

“Mewn cyfnod fel hwn, byddai’n hawdd dweud na allwn fforddio buddsoddi mewn diwylliant, mai rhyw fath o ‘wario ar foethau’ ydyw na ellir ei gyfiawnhau bellach. Camgymeriad difrifol fyddai meddwl hynny. Mae diwylliant yn bwysig, ac mae iddo werth cynhenid. Ond dylem hefyd gydnabod ei werth cynyddol i’n heconomi a’r cyfraniad hollbwysig y gall ei wneud mewn meysydd polisi cyhoeddus eraill.”

**Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru**

"Gellir crynhoi'r dyhead [ar adeg datganoli] yr oedd y llywodraeth yn teimlo y dylem ei nodi fel ein huchelgais yn yr ymadrodd: "Cymru: Y Wlad Graff "... os ydym byth yn mynd i weld y genedl graff honno'n cael ei gwireddu, bydd rhaid i ni feithrin "Cymru: Cenedl y Celfyddydau". Dyna'r diriogaeth go iawn, o safbwynt byd-eang, lle bydd yn rhaid i ni ddatgan hawliad Cymru."

**Yr Athro Dai Smith, Y Celfyddydau mewn Addysg**

Fundación Louis Vuitton, Paris
Ffynhonnell: Event, Rhagfyr 2017

# Atodiadau


Bob, 24.11.2017
Patrick, 11.11.2017
Loïc, 31.10.2017
Paul-Edouard, 24.10.2017
Arthur, 28.10.2017
Michel, 27.10.2017

# Atodiad 1: Rhestr Ymgyngoreion

**Sefydliadau Celfyddydol a Diwylliannol**

1. Louise Amery, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
2. David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru*
3. Emma Balch, Cyfarwyddwr, The Story of Books
4. Hannah Barry, Bold Tendencies, Llundain
5. Chris Brown, Sylfaenydd, g39 a Dirprwy Gadeirydd, Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW)
6. Simon Burgess, Rheolwr Cyffredinol, Crefft yn y Bae / Urdd Gwneuthurwyr Cymru
7. Elaine Cabuts, Cadeirydd Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange
8. Christopher Caitling, Ysgrifennydd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
9. Alfredo Cramerotti, Cyfarwyddwr, MOSTYN
10. Devinda De Silva, Pennaeth Cydweithredu, National Theatre Wales
11. David Drake, Cyfarwyddwr, Ffotogallery
12. Lisa Edgar, Rheolwr Addysg, Ffotogallery
13. Hannah Firth, Dirprwy Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr y Celfyddydau Gweledol a Datblygiad Rhaglen, Chapter
14. Andy Eagle, Prif Swyddog Gweithredol, Chapter
15. Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Amgueddfa Cymru
16. Jane Gerrard, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Grefft Rhuthun
17. y Cyngh. Russell Goodway, Aelod Cabinet Buddsoddi a Datblygu, Cyngor Caerdydd
18. Sara Green, Partner, Just Solutions ac Ymgynghorydd, Astudiaeth Ddichonoldeb Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol
19. Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, Cyngor Caerdydd
20. Peter Harding, Trysorydd, Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange
21. Philip Hughes, Cyfarwyddwr, Canolfan Grefft Rhuthun
22. Alun Jones, Cadeirydd, MOMA Machynlleth
23. Clive Jones, Cadeirydd, National Theatre Wales
24. Raymond Jones, Gweinyddydd, Ymddiriedolaeth y Tabernacl Machynlleth
25. Steffan Jones-Hughes, Cyfarwyddwr, Oriel Davies a Chadeirydd, Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW)
26. Ruth Lambert, Cyfarwyddwr, MOMA Machynlleth
27. Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr, Amgueddfa Cymru
28. Rhiannon Lowe, Golygydd a Churadur, Cylchgrawn CCQ a Three Doors Up
29. Karen MacKinnon, Cyfarwyddwr a Churadur, Artes Mundi
30. Jo Marsh, Cyfarwyddwr Creadigol, Tŷ Pawb / Cyngor Wrecsam
31. Robin Mitchell, Cyfarwyddwr, Prosiect Celfyddydau Mamheilad
32. Frances Morris, Cyfarwyddwr, Tate Modern
32. Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu, Amgueddfa Cymru
34. Jim O'Rourke, Yr Hen Goleg, Aberystwyth
35. Sarah Pace, Sylfaenydd, Addo
36. Jill Piercy, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
37. Hywel Pontin, Cyfarwyddwr, Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange
38. Mathew Pritchard, Cadeirydd, Artes Mundi
39. Andrew Renton, Ceidwad Celf, Amgueddfa Cymru
40. Elen ap Robert, Cyfarwyddwr, Pontio
41. Nia Roberts, Cyfarwyddwr, Oriel Plas Glyn-y-Weddw
42. Amanda Roderick, Cyfarwyddwr, Oriel Mission
43. Victoria Rogers, Llywydd, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru a Chyfarwyddwr, Amgueddfa Stori Caerdydd
44. Richard Salmon, Cyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth Gelli Aur
45. Anthony Shapland, Artist a Chyfarwyddwr g39
46. Tracy Simpson, Sylfaenydd, Addo
47. Jenni Spencer-Davies, Curadur, Oriel Gelf Glynn Vivian
48. Rebecca Spooner, Cyfarwyddwr Creadigol, Peak
49. Nick Thornton, Pennaeth y Celfyddydau Cain, Amgueddfa Cymru*
50. Martin Tinney, Oriel Martin Tinney
51. Linda Tomos, Llyfrgellydd Cenedlaethol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
52. Robyn Tomos, Swyddog Celfyddyd Weledol, yr Eisteddfod Genedlaethol
53. Steve Ward, Prif Weithredwr, Canolfan Celfyddydau Glan yr Afon, Casnewydd
54. Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Amgueddfa Cymru
55. Sarah Younan, Cydlynydd Ymgysylltu Ieuenctid, Amgueddfa Cymru
56. Cynrychiolwyr Fforwm Curaduron Ifanc, Amgueddfa Cymru

**Artistiaid**

57. Iwan Bala, Artist
58. Kelly Best, Artist
59. Holly Davey, Artist
60. Peter Finnemore, Artist
61. Laura Ford, Artist
62. Bob Gelsthorpe, Artist
63. Samuel Hasler, Artist
64. Mary Lloyd Jones, Artist
65. Shani Rhys James, Artist
66. Len Massey, Artist
67. Bedwyr Williams, Artist
68. Thomas Williams, Artist a Chynorthwyydd Oriel Chapter
69. William Wilkins, Artist a Chynghorydd Artistig Ymddiriedolaeth Derek Williams
70. JocJonJosch, Cydweithfa y Celfyddydau Gweledol

# Atodiad 1: Rhestr Ymgyngoreion

**Cyrff Cyllido**

71. David Alston, Cyfarwyddwr Celf, Cyngor Celfyddydau Cymru*
72. Nick Capaldi, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru*
73. Dr Kath Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu, Cyngor Celfyddydau Cymru*
74. Louise Wright, Rheolwr Portffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru

**Arbenigwyr**

75. Sophia Bardsley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymdeithas y Celfyddydau Cyfoes
76. Shôn Dale-Jones, Cyfarwyddwr Artistig, Theatr Hoipolloi
77. Dr Elaine Davey, Hanesydd Pensaernïaeth
78. Alexander Branczik, Pennaeth Celf Gyfoes Ewrop, Sotheby's, Llundain
79. Mairi Mackay, Pennaeth Mentrau Cymdeithasol Byd-eang, British Council
80. Neil Richardson, cynrychiolydd MAP
81. Fran Sanderson, Cyfarwyddwr, Rhaglenni a Buddsoddiadau Celf a Diwylliant, Nesta
82. Greg Shickle, Pennaeth Platfformau, Wavemaker
83. Ben Street, Darlithydd Celf Gyfoes
84. Peter Wakelin, Cyn-ysgrifennydd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**Y Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol**

85. Ruth Cayford, Rheolwr y Celfyddydau Gweledol, Cyngor Caerdydd ac aelod o VAGW
86. Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru
87. Rob Holt, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Twristiaeth, Croeso Cymru
88. Lesley-Anne Kerr, Pennaeth Datblygu Amgueddfeydd, Isadran Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru*
89. Peter Owen, Pennaeth Cangen Polisi'r Celfyddydau, Llywodraeth Cymru*
90. Adam Price, Aelod Cynulliad Plaid Cymru dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
91. Mari Stevens, Cyfarwyddwr Marchnata, Croeso Cymru

**Addysg Uwch**

92. Angie Dutton, Cydlynydd Ymchwil a Menter, Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, Prifysgol Met Caerdydd
93. Gaynor Kavanagh, Athro Emeritws, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
94. Yr Athro Olwen Moseley, Deon Ysgol Gelf a Dylunio, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
95. Sara Pepper, Cyfarwyddwr yr Economi Greadigol, Prifysgol Caerdydd
96. Yr Athro Alec Shepley, Pennaeth Academaidd, Ysgol y Celfyddydau Creadigol ac Athro Ymarfer Celf Gyfoes, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
97. Yr Athro Mike Tooby, Athro Celf a Dylunio, Prifysgol Caerfaddon

* Aelodau'r Pwyllgor Llywio







Ymgynghoriadau, wedi'u cynnal yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, Oriel Davies, y Drenewydd, ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Ffynhonnell: Event, Ionawr - Ebrill 2018

# Atodiad 2: Ymweliadau â Safleoedd

**Lleoliadau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru**

1. ArcêdCaerdydd, Caerdydd
2. Oriel Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth
3. Amgueddfa Stori Caerdydd, Caerdydd
4. Chapter, Caerdydd
5. Crefft yn y Bae / Urdd Gwneuthurwyr Cymru, Caerdydd
6. Parc ac Amgueddfa Cyfarthfa, Merthyr Tudful
7. Ffotogallery, Caerdydd
8. Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd
9. g39, Caerdydd
10. Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
11. Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe
12. Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange, Cwmbrân
13. Mamheilad, Pont-y-pŵl
14. Oriel Martin Tinney, Caerdydd
15. Oriel Mission, Abertawe
16. MOMA Machynlleth, Machynlleth
17. MOSTYN, Llandudno
18. Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
19. Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, Casnewydd
20. Yr Hen Goleg, Aberystwyth
21. Oriel Davies, Y Drenewydd
22. Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Pwllheli
23. Oriel Ynys Môn (Amgueddfa a Chanolfan Gelf Môn), Llangefni
24. Pontio, Bangor
25. Canolfan y Celfyddydau Glan yr Afon, Casnewydd
26. Canolfan Grefft Rhuthun, Rhuthun
27. Storiel / Oriel Bangor, Bangor
28. Three Doors Up, Caerdydd
29. Tŷ Pawb, Wrecsam
30. Orielau Whitewall, Caerdydd

**Lleoliadau Celfyddydol a Diwylliannol y tu hwnt i Gymru**

31. Yr Amgueddfa Ddylunio, Llundain
32. Fundación Louis Vuitton, Paris
33. Oriel Hayward, Llundain
34. Palais de Tokyo, Paris
35. Oriel Serpentine, Llundain
36. Tate Modern, Llundain
37. Turner Contemporary a Grŵp Ymchwil prosiectau'r Waste Land yn gysylltiedig â Journeys with 'The Waste Land', Margate








Glynn Vivian, Abertawe
Oriel Mission, Abertawe
Storiel, Bangor
Ffynhonnell: Event, 2018

ArcêdCaerdydd, Caerdydd
g39, Caerdydd
Chapter, Caerdydd
Ffynhonnell: Event, 2018

# Atodiad 2: Ymweliadau â Safleoedd







Mamheilad, Pont-y-pŵl
Glan yr Afon, Casnewydd
Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, Casnewydd
Ffynhonnell: Event, 2018





Yr Hen Goleg, Aberystwyth
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Ffynhonnell: Event, 2018


Parc ac Amgueddfa Cyfarthfa, Merthyr Tudful
Oriel Davies, y Drenewydd
Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange, Cwmbrân
Ffynhonnell: Event, 2018





Tŷ Pawb, Wrecsam
Pontio, Bangor
Plas Glyn-y-Weddw, Pwllheli
Ffynhonnell: Event, 2018

# Atodiad 3: Llyfryddiaeth

Nodwyd yr adroddiadau a'r astudiaethau canlynol yn ystod yr astudiaeth ac maent wedi rhoi cyd-destun i waith Event:


- Adolygiad o'r Dystiolaeth yn ymwneud ag Anghydraddoldeb yng Nghymru (K. Hackett, ac A. Cameron, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 21/2017, 2017)
- Adolygiad Thurley o Amgueddfa Cymru - National Museum Wales (Dr Simon Thurley, Llywodraeth Cymru, 2017)
- Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (Yr Athro Dai Smith, 2013)
- Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o flwyddyn beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi, Amgueddfa Cymru / Llywodraeth Cymru; Rebecca Sarasin (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi), Mawrth 2016
- Adroddiadau Proffil Ardaloedd, Cyngor Celfyddydau Cymru (2014)
- ADUK / Cyngor Celfyddydau Cymru, Arolwg o Bartneriaethau a Buddsoddi Celfyddydol Awdurdodau Lleol, 2015-16
- A monumental spot of local trouble, The Independent (J. Glancey, Ionawr 1995)
- A Report for the Secretary of State for Culture, Olympics, Media and Sport on the role endowments could play in DCMS funded museums and galleries (Neil MacGregor, 2010)
- Arolwg Omnibws Cymru: Adroddiad ar y Prif Ganfyddiadau (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2016)
- Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2016-17: Prif Ganfyddiadau (Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2015)
- Astudiaeth o Effaith Ryngwladol: Gweithgarwch y Celfyddydau Gweledol yng Nghymru (Arad Consulting, Cyngor Celfyddydau Cymru, 2008)
- Atebolrwydd Lleol 2016-21: Cynllun ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2015)
- Creative Economy and Future of Employment (Bakhshi & Windsor, Nesta, 2015)
- Ceative Nation: How the creative industries are powering the UK's nations and regions' (Mateos Garcia, Klinger a Stathoulopoulos, Nesta, Chwefror 2018)
- Creative Scotland's Arts Strategy, 2016-17
- Creative Scotland 10-Year Plan 2014-2024: Unlocking Potential Embracing Ambition
- Creative Scotland, Creative Industries Partnership, 2009
- Creative Scotland, Visual Arts Sector Review, 2016
- Creativity vs. Robots: The creative economy and the future of employment (Bakhshi, Frey & Osborne, Nesta, 2015
- Cultural Infrastructure Index 2016 (AEA Consulting)
- Cultural Transformations: The impacts of Hull UK City of Culture 2017 Outcomes Evaluation (Sefydliad Diwylliant, Lle a Pholisi Prifysgol Hull, Mawrth 2018)
- Culture of Innovation: An economic analysis of innovation in arts and cultural organisations (Nesta, 2010)
- Culture Shifters: Artists Making Change (Fern Smith, 2016)
- Cyngor Celfyddydau Cymru, Llythyr Cylch Gwaith (Llywodraeth Cymru, 2017)
- Cymru yn y Byd: Strategaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, 2015-2018 (Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Darpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (Dr Haydn E Edwards, Cadeirydd yr Adolygiad Arbenigol, 2015)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2015)
- Destination Culture: How Globalization Makes All Cities Look the Same (Sharon Zukin, 2009)
- Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru (Y Farwnes Kay Andrews OBE, Mawrth 2015)
- Dychmygwch: Ein Gweledigaeth ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru, 2013-2018 (Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Dyfodol Arddangos Celf Cymru (DCA Consultants a Peter Jenkinson, 2006)
- Dysgu'n Greadigol drwy'r Celfyddydau: Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru, 2015-2020 (Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru)
- Enriching Britain: Culture, Creativity and Growth: The 2015 Report by the Warwick Commission on the Future of Cultural Value (Prifysgol Warwick, 2015)
- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, 2016)
- Growing a Culture of Social Impact Investing in the UK, Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Trysorlys EM (Tracey Crouch AS, a Stephen Barclay AS, Tachwedd 2017)
- Gwerth ac effaith presenoldeb Cymru yn Biennale Fenis ar sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru: Cymru yn Fenis (Ymchwil Arad, 2016)
- Gwerthfawrogi Lle: Pwysigrwydd lle ar gyfer deall anghydraddoldeb a gweithredu yng Nghymru (Dr Hannah Green a Dr Mary Hodgson, Sefydliad Young, Chwefror 2017)
- Large-Scale Cultural Infrastructure Mapping (Ellis a Schutt, British Council ac UKTI, AEA Consulting, 2013)

# Atodiad 3: Llyfryddiaeth


- Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2018);
- Mewnwelediad Cynulleidfa Cymru – Meincnodi Cynulleidfaoedd Celfyddydol (Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Papur Gwyn Diwylliant (Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2016)
- Plus Tate: Connecting Art to People and Places (Tate, Schutt, 2015)
- Rebalancing Our Cultural Capital: A contribution to the debate on national policy for the arts and culture in England (Peter Stark, Christopher Gordon, David Powell, 2013)
- 'Re-thinking museums – We are all curators', TedX Leiden (Erik Schlip, 4 Chwefror 2015)
- Rural evidence and data review: Analysis of Arts Council England Investment, Arts and Cultural Participation and Audiences (2015)
- Shifting the dial on inequality in Wales (Sefydliad Materion Cymreig, Hydref 2016.)
- Strategaeth Amgueddfeydd Cymru (CyMal: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, 2010)
- Strategaeth Gyfalaf 2012-2017 (Cyngor Celfyddydau Cymru)
- 'The Bilbao Effect: is "starchitecture" all it's cracked up to be? A history of cities in 50 buildings, day 27' (Chris Michael, The Guardian, 30 Ebrill 2015)
- The future display of visual art in Wales – Options Study for a National Centre for Contemporary Art (ABL Consulting, 2008)
- The future of jobs: Employment, Skills and Workforce Strategy for the Fourth Industrial Revolution (Fforwm Economaidd y Byd, Ionawr 2016)
- The Mendoza Review: an independent review of museums in England (Neil Mendoza, Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Tachwedd 2017)
- The Rise of Impact: Five steps towards an inclusive and sustainable economy (Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Deyrnas Unedig ar Fuddsoddi mewn Effaith, Hydref 2017)
- Towards a Wales Artists' Development Centre, Shelagh Hourahane (Charlie Falzon a Michael Roth, Rhagfyr 1995)
- Understanding the Value of Art and Culture: The AHRC Cultural Value Project (Crossick a Kaszynska, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, 2016)
- Y Celfyddydau ar Waith – Ffeithiau a Ffigyrau (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2007)
- Ysbrydoli: Ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2014)

# Atodiad 4: Rhestr o Ffigyrau


Ffigwr 1: (Tabl) Cyfleusterau cenedlaethol penodol ar gyfer celf gyfoes a modern

Ffigwr 2: (Diagram) Methodoleg Event

Ffigwr 3: (Map) Map cyflenwi yng Nghymru

Ffigwr 4: (Map) Map cyflenwi yng Nghaerdydd

Ffigwr 5: (Tabl) Sampl anghyflawn o'r sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru, yn dangos natur a maint y lleoliadau

Ffigwr 6: (Tabl) Prifysgolion celf a dylunio, y 65 safle uchaf yn y Deyrnas Unedig

Ffigwr 7: (Tabl) Y 50 safle uchaf yn fyd-eang

Ffigwr 8: (Diagram) Cylch proffesiynol artistiaid

Ffigwr 9: (Tabl) Nifer yr ymweliadau ag orielau celf gyfoes yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd 2016-2018

Ffigwr 10: Nifer yr ymweliadau bob blwyddyn 2012-2017

Ffigwr 11: (Tabl) Canran y bobl yn ôl ardal sydd wedi ymweld ag oriel gelf

Ffigwr 12: (Map) Ffyrdd Cymru

Ffigwr 13: (Tabl) Sefydliadau celfyddydol ar Ffyrdd Cymru

Ffigwr 14: (Amserlen) Papurau a pholisïau allweddol

Ffigwr 15: (Tabl) Buddsoddiad cyfalaf cyllid cyhoeddus yn sefydliadau celfyddydol Cymru

Ffigwr 16: (Tabl) Cyfanswm buddsoddiad cyfalaf yn sefydliadau celfyddydol Cymru

Ffigwr 17: (Tabl) Cyfanswm buddsoddiad cyfalaf yn sefydliadau Plus Tate

Ffigwr 18: (Amserlen) Trosolwg o'r buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau diwylliannol Cymreig yn ystod y 18 mlynedd diwethaf

Ffigwr 19: (Tabl) Prosiectau sydd ar y gweill yng Nghymru

Ffigwr 20: (Tabl) Buddsoddiad cyfalaf mewn sefydliadau celfyddydol byd-eang, yn amrywio o £1m i £850m

Ffigwr 21: (Siart cylch) Buddsoddiad cyfalaf sydd wedi'u cyhoeddi a'u cwblhau mewn sefydliadau celfyddydol byd-eang yn ôl math

Ffigwr 22: (Graff) Buddsoddiad cyfalaf sydd wedi'u cyhoeddi a'u cwblhau mewn sefydliadau celfyddydol yn fyd-eang yn ôl rhanbarth

Ffigwr 23: (Tabl) Maint mannau arddangos celf gyfoes a modern – y cyfartalog a'r mwyaf yng Nghymru

Ffigwr 24: (Tabl) Maint arddangosfeydd teithiol enghreifftiol

Ffigwr 25: (Tabl) Amgueddfeydd Achrededig Cymru

Ffigwr 26: (Tabl) Portffolio'r celfyddydau gweledol, gwariant blwyddyn ar gyfartaledd

Ffigwr 27: (Graff) Yr economi tri-phen yn ôl rhanbarth

Ffigwr 28: (Siart cylch) Grantiau'r Loteri fesul ffurf ar gelfyddyd 2017-18

Ffigwr 29: (Siart cylch) Cymorth grant fesul ffurf ar gelfyddyd 2017-18

Ffigwr 30: Cwmwl geiriau yn dangos pa mor aml y ceir geiriau penodol mewn gweledigaethau a chenadaethau o ddetholiad o orielau celf cenedlaethol ledled y byd (ceir amlinelliad yn Atodiad 7)

Ffigwr 31: (Tabl) Opsiynau rhestr hir

Ffigwr 32: (Diagram) Y dull  graddadwy fesul cam a argymhellir

Ffigwr 33: (Tabl) Costau cyfalaf dangosol Senario Un ar gyfer y tri cham, yn dangos costau graddadwy

Ffigwr 34: (Tabl) Costau cyfalaf dangosol Senario Dau ar gyfer y tri cham, yn dangos costau graddadwy

Ffigwr 35: (Diagram) Costau rhedeg blynyddol dangosol Cam Dau: Oriel ar Wasgar

Ffigwr 36: (Amserlen) Dull dangosol fesul cam i sicrhau Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru

Ffigwr 37: (Tabl) Argymhellion wedi'u halinio o Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau

Ffigwr 38: (Tabl) Argymhellion wedi'u halinio o Cyfoeth Cymru Gyfan: Y Gorffennol a'r Dyfodol

Ffigwr 39: (Tabl) Argymhellion wedi'u halinio o Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (Dr Hayden E Edwards)

Ffigwr 40: (Tabl) Argymhellion wedi'u halinio o Gwerthfawrogi Lle (Sefydliad Young)

Ffigwr 41: (Tabl) Amcanion wedi'u halinio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ffigwr 42: (Tabl) Argymhellion wedi'u halinio o Diwylliant a Thlodi (y Farwnes Kay Andrews OBE)

Ffigwr 43: (Tabl) Amcanion wedi'u halinio o Creu: Cyrraedd: Cynnal: dyfodol y celfyddydau yng Nghymru (Cyngor Celfyddydau Cymru)

Ffigwr 44: (Tabl) Costau cyfalaf rhagarweiniol ar gyfer oriel gelf gyfoes yn seiliedig ar gyfraddau cyfredol fesul metr sgwâr (yn seiliedig ar feincnodau rhyngwladol)

Ffigwr 45: (Tabl) Costau gweithredol / adnoddau canolog dangosol ar gyfer Senario Un, Cam Un

Ffigwr 46: (Tabl) Costau gweithredol / adnoddau canolog dangosol ar gyfer Senario Un, Cam Dau

Ffigwr 47: (Tabl) Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol

Ffigwr 48: (Map) Poblogaeth ac ardal, gwledydd y Deyrnas Unedig

# Atodiad 4: Rhestr o Ffigyrau


Ffigwr 49: (Tabl) Canran preswylwyr Cymru yn ôl math o ardal

Ffigwr 50: (Map) Dwysedd poblogaeth Cymru

Ffigwr 51: (Map) Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl ardal

Ffigwr 52: (Map): Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen

Ffigwr 53: (Tabl) Amcangyfrifon poblogaeth rhanbarthau Lloegr

Ffigwr 54: (Tabl) Costau cyfalaf rhagarweiniol ar gyfer oriel gelf gyfoes yn seiliedig ar gyfraddau cyfredol fesul metr sgwâr

Fountainhead, 2006
Ffynhonnell: Peter Finnemore

# Atodiad 5: Y Farchnad



# Atodiad 5: Y Farchnad

**Cyd-destun Cymru**
Cymru yw'r ail wlad leiaf o bedair rhan y Deyrnas Unedig. Mae'n rhannu ei ffin ddwyreiniol â Lloegr, mae am y ffin â Môr Iwerddon i'r gogledd a'r gorllewin a Môr Hafren i'r de.

Mae'r amcangyfrif poblogaeth diweddaraf sydd ar gael am Gymru yn dangos bod oddeutu 3.1m o bobl yn byw yn y wlad (Ffigwr 48).[1] Mae hyn tua 1 o bob 20 o bobl yn y Deyrnas Unedig.[2] Mae'n cyfateb i 1.3 miliwn o aelwydydd ledled y wlad (2016).[3]

Mae gan Gymru oddeutu 2.1m hectar o dir, ac 80% ohono wedi'i ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth.[4] Yr ardaloedd trefol mwyaf eu maint yw Caerdydd (361,500 o bobl), Abertawe (244,500 o bobl) a Chasnewydd (149,100 o bobl) (canol-2016).[5] Mae Ffigwr 49 yn dangos cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd sy'n bennaf yn wledig (un rhan o dair o'r boblogaeth) ac ardaloedd trefol.

1 Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: https://gov.wales/statistics-and-research/mid-year-estimates-population/?skip=1&lang=cy
2 Ibid
3 Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, Amcangyfrifon Aelwydydd: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Households/Estimates
4 Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfrifiad 2011: Ystadegau allweddol ar gyfer Cymru, Ystadegau Amaethyddiaeth Cymru (Mawrth 2011)
5 Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: http://gov.wales/statistics-and-research/mid-year-estimates-population/?lang=en

Mae tua 2.3m o gyfanswm y boblogaeth yn byw yn y De (Ffigyrau 47 a 50). Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 18% (563,000) o'r boblogaeth yn 65 oed a throsodd, ac roedd 6% (178,000) o boblogaeth Cymru yn blant dan bump oed.[6]

Ganed 27% (837,000) o gyfanswm poblogaeth Cymru y tu allan i Gymru ac o'r ffigwr hwn, ganed 76% yn Lloegr (2011).[7]

Ym mis Ionawr 2017 roedd 1,547 o ysgolion a gynhelir, ac oddeutu 467,000 o ddisgyblion. Mae 475 ysgol yn dysgu drwy gyfrwng yn Gymraeg.[8] Roedd 128,005 wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2016-17.[9] Mae'r rheiny sy'n astudio'r celfyddydau creadigol a dylunio (mewn 10 o 13 prifysgol)[10] yn cyfrif am 6% o'r nifer hwn.[11] Mae tua un o bob pump o boblogaeth Cymru yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.[12] Mae'r cymunedau hynny sy'n siarad Cymraeg yn tueddu i fod yn y Gogledd a'r Gorllewin (Ffigwr 51).

Cymru oedd â GVA y pen isaf ar £19,140 ond ei thwf y pen rhwng 2015 a 2016 ar 3.5% oedd yr uchaf o blith wledydd y Deyrnas Unedig. Ond hi sy'n tyfu gyflymaf o blith gwledydd y Deyrnas Unedig (1.9%) pan ystyrir chwyddiant. Ond mae GVA Cymru yn dal y tu ôl Gogledd Iwerddon sy'n £19,997 y pen; yr Alban yn £24,800 a Lloegr yn £27,108[13] (Ffigwr 52).


6 Ibid
7 Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfrifiad 2011: Ystadegau allweddol ar gyfer Cymru, Amcangyfrifon poblogaeth (Mawrth 2011): https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/2011censuskeystatisticsforwales/2012-12-11?:uri=peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/2011censuskeystatisticsforwales/2012-12-11
8 Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad Ysgolion: https://gov.wales/statistics-and-research/schools-census/?skip=1&lang=cy
9 Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch: https://gov.wales/statistics-and-research/students-higher-education-institutions/?skip=1&lang=cy
10 Mae'r prifysgolion sydd â myfyrwyr dylunio a'r celfyddydau creadigol yn cynnwys Prifysgol Abertawe, Grŵp Llandrillo Menai, y Brifysgol Agored, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol De Cymru
11 Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch: https://gov.wales/statistics-and-research/students-higher-education-institutions/?skip=1&lang=cy

12 Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, y Gymraeg: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language
13 Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cyhoeddi ffigyrau rhanbarthol gwerth ychwanegol gros (GVA) ar gyfer 2016, sy'n mesur faint o arian sy'n cael ei greu trwy nwyddau a gynhyrchir a gwasanaethau a ddarperir.

# Atodiad 5: Y Farchnad

| Lleoliad | Poblogaeth |
|---|---|
| CYMRU | 3,113,150 |
| Ynys Môn, Gwynedd | 69,723 |
| Gwynedd, Gwynedd | 123,627 |
| Conwy, Clwyd | 116,538 |
| Sir Ddinbych, Clwyd | 94,805 |
| Sir y Fflint, Clwyd | 154,419 |
| Wrecsam, Clwyd | 136,710 |
| Powys, Powys | 132,160 |
| Ceredigion, Dyfed | 74,146 |
| Sir Benfro, Dyfed | 123,954 |
| Sir Gaerfyrddin, Dyfed | 185,610 |
| Abertawe, Gorllewin Morgannwg | 244,513 |
| Castell-nedd Port Talbot, Gorllewin Morgannwg | 141,588 |
| Pen-y-bont ar Ogwr, Morgannwg Ganol | 143,177 |
| Bro Morgannwg, De Morgannwg | 128,463 |
| Caerdydd, De Morgannwg | 361,468 |
| Rhondda Cynon Taf, Morgannwg Ganol | 238,306 |
| Merthyr Tudful, Morgannwg Ganol | 59,810 |
| Caerffili, Gwent | 180,462 |
| Blaenau Gwent, Gwent | 69,628 |
| Torfaen, Gwent | 92,052 |
| Sir Fynwy, Gwent | 92,843 |
| Casnewydd, Gwent | 149,148 |

Ffigwr 47: Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, canol-2016




Ffigwr 48: Poblogaeth ac ardal, gwledydd y Deyrnas Unedig
Ffynhonnell: Event, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cofnodion Gwladol yr Alban, Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon, Mehefin 2016
Ireland Statistics and Research Agency, June 2016

| Ardal yng Nghymru | % y boblogaeth |
|---|---|
| Gwledig | 32.7 |
| Y Cymoedd | 20.6 |
| Dinasoedd | 24.1 |
| Cymysg | 22.6 |


Ffigwr 49: Canran preswylwyr Cymru yn ôl math o ardal
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2015


**Amcangyfrifon poblogaeth y Deyrnas Unedig: 65,648,100**
Cyfran o boblogaeth y Deyrnas Unedig:
- Lloegr 84.2%
- Yr Alban 8.2%
- Cymru 4.7%
- Gogledd Iwerddon 2.8%




event

# Atodiad 5: Y Farchnad




Ffigwr 50: Dwysedd poblogaeth Cymru
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfrifiad 2011

Ffigwr 51: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl ardal
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfrifiad 2011

Ffigwr 52: Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen (2016)
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2017

**Y Farchnad Ymwelwyr**
Mae'r adran hon yn sôn am y tair marchnad ymwelwyr a fyddai o bosibl yn broffidiol i unrhyw farchnad gelf gyfoes genedlaethol newydd eu targedu, o gofio eu cymhellion i ymweld â Chymru a'r gwariant a ragwelir – sef y farchnad Ymwelwyr Tramor a dwy farchnad Ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig – Ymwelwyr Diwrnod o'r DU ac Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU.

**Y Farchnad Ymwelwyr Tramor**
Mae Cymru yn apelio'n fawr at deithwyr rhyngwladol, mewn arolwg diweddar mae 29% o bobl yn dewis Cymru fel eu prif gyrchfan. Mae gan ddau draean o ymwelwyr rhyngwladol fwy o ddiddordeb mewn dod i'r Deyrnas Unedig ar eu gwyliau a nodir gwendid y bunt (ac felly grym gwario uwch) yn elfen bwysig.[14]

Tuedda ymwelwyr tramor i wario mwy, ond yn hanesyddol, maent wedi bod yn llai pwysig yng Nghymru, gan fod yn 8% yn unig o'r holl dripiau dros nos ac yn 16% o wariant ymwelwyr sy'n aros dros nos. Mae'r Alban, Iwerddon a rhanbarthau Lloegr i gyd yn denu llawer mwy o ymwelwyr tramor na Chymru. O ganlyniad, mae cyfran Cymru o'r holl dripiau tramor wedi bod yn cwympo'n raddol o 3.6% i 2.7% rhwng 2002 a 2011, a'i chyfran o'u gwariant o 2.15% i 1.86% rhwng 2002 a 2012.[15] Mae gweithgarwch marchnata sydd wedi'i ariannu gan Croeso Cymru/Visit Wales yn canolbwyntio ar dair prif farchnad ryngwladol – Iwerddon, yr Almaen, a'r UDA a Chanada – yn Strategaeth Twristiaeth 2013–2020: Partneriaeth ar gyfer Twf Llywodraeth Cymru.[16] Mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr rhyngwladol yn gymharol ifanc, yn 35-54 oed (43%) ac yn y dosbarthiadau cymdeithasol ABC1[17] yn y proffil ymwelwyr, yn enwedig ymysg ymwelwyr o Ogledd America (88%).

Mae Cymru hefyd yn denu cyplau rhyngwladol (34% yn 2016) a theuluoedd sydd â phlant ifanc 14%[18] ac ers 2013 cafwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n dychwelyd (o 21% i 33%) gyda mwy o bobl yn ymweld rhwng 2 a 6 gwaith yn ystod y tair blynedd diwethaf (o 16% i 29%).[19] Felly nid yw'n syndod fod Cymru yn gyrchfan gwyliau hir yn bennaf yn hytrach na gwyliau byr, wrth i dri chwarter o'r ymwelwyr tramor ddod i Gymru ar gyfer gwyliau (62% prif wyliau,12% gwyliau eilaidd), gydag un o bob pump (21%) yn dod am wyliau byr.[20]

Daw'r ymwelwyr oherwydd cefn gwlad a thirwedd Cymru ac i ymweld â mannau ac atyniadau. Mae'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn cynnwys: ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol (43%), gweld atyniadau cyffredinol (38%), ymweld ag amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth (33%), ymweld â'r traeth (31%). Roedd 9% o'r holl ymwelwyr tramor wedi ymweld ag oriel neu arddangosfa gelf.[21] Nid yw'n glir a yw'r ffigwr hwn yn anghymesur o isel (9%) oherwydd nad yw orielau celf yn cael blaenoriaeth ar hyn o bryd mewn deunyddiau marchnata yng Nghymru; oherwydd nad oes gan y rhai a dargedir ar hyn o bryd ddiddordeb mewn orielau celf a bod rhaid targedu'r marchnadoedd hynny sydd â diddordeb; neu oherwydd nad yw'r orielau celf weledol eu hunain yn atyniad.

Mae ymdeimlad o le yn allweddol i dwristiaid rhyngwladol gyda'r mwyafrif helaeth o ymwelwyr tramor yn ystyried bod rhyw agwedd ar eu hymweliad yn cynnwys nodweddion a oedd yn unigryw i Gymru neu na allent fod wedi'u canfod yn unman arall (yn enwedig safleoedd treftadaeth ac atyniadau ymwelwyr Cymru).[22]
Roedd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr tramor (42%) wedi nodi pwysigrwydd gweld neu glywed yr iaith Gymraeg, a mwyafrif hyd yn oed yn uwch (82%) o'r farn ei bod yn bwysig bod eu hymweliad yn rhoi profiad iddynt a oedd yn unigryw i Gymru ac na allent ei gael yn unman arall.[23]

**Marchnad Ymwelwyr y Deyrnas Unedig**
Y farchnad ddomestig ym Mhrydain Fawr yw'r farchnad bennaf ar gyfer Cymru, a dyma brif ffocws gweithgarwch marchnata.

Yn y 12 mis yn diweddu ym mis Gorffennaf 2017, cafwyd 10m o ymweliadau dydd gan dwristiaid i Gymru, gyda gwariant cysylltiedig o £4,874m. Roedd nifer yr ymweliadau wedi cynyddu 11% o'i gymharu â'r 12 mis yn diweddu ym mis Gorffennaf 2016, tra bod y swm a wariwyd wedi cynyddu 51%. Mae perfformiad Cymru yn arbennig o gryf yng nghyd-destun Prydain: ar gyfer Prydain gyfan, mae nifer yr ymweliadau wedi gostwng 1% o'i gymharu â'r 12 mis yn diweddu Gorffennaf 2016, tra bod y swm a wariwyd wedi cynyddu 5%.[24]

14 Dylan Jones-Evans, How tourism can be a shining star in the Welsh economy post Brexit (Wales Online, 5 Mai 2017)
15 Llywodraeth Cymru, Strategaeth Twristiaeth 2013–2020: Partneriaeth ar gyfer Twf, Llywodraeth Cymru, 13
16 Ibid
17 Pennir dosbarthiad economaidd-gymdeithasol trwy sefydlu rôl a theitl swydd unigolyn a diffinir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:
AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol, proffesiynol uwch a chanolradd.
C1: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol, proffesiynol ar lefel goruchwylio, clercol ac iau.
C2: Gweithwyr llaw medrus.
DE: Gweithwyr llaw lled-fedrus a heb fedrau, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol ac ar y radd isaf, y di-waith sy'n cael budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig.
18 Fiona McAllister/Sarah McDonough, Adroddiad Llawn yr Ymchwil; Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 14/2017, Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr Tramor. Caerdydd (08 Mawrth 2017) https://gov.wales/statistics-and-research/wales-visitor-survey/?skip=1&lang=cy
19 Ibid
20 Ibid
21 Fiona McAllister/Sarah McDonough, Adroddiad Llawn yr Ymchwil; Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 14/2017, Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr Tramor. Caerdydd (08 Mawrth 2017) https://gov.wales/statistics-and-research/wales-visitor-survey/?skip=1&lang=cy
22 Fiona McAllister/Sarah McDonough, Adroddiad Llawn yr Ymchwil; Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 14/2017, Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr Tramor: Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw agweddau ar eu hymweliad yn cynnwys nodweddion a oedd yn unigryw i Gymru neu a oedd â chymeriad lleol penodol, dewiswyd safleoedd treftadaeth ac atyniadau i ymwelwyr gan tua hanner yr ymwelwyr tramor fel nodweddion a oedd yn gosod Cymru ar wahân i gyrchfannau eraill (49% a 45% yn y drefn honno).
23 Ibid
24 https://gov.wales/newsroom/culture-tourism-sport/2017/170912-huge-increase-in-visitor-spending-in-wales/?skip=1&lang=cy

| Rhanbarthau Lloegr | Amcangyfrif Poblogaeth |
|---|---|
| Y Deyrnas Unedig | 65,648,054 |
| Lloegr gyfan | 55,268,067 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 2,636,589 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 7,223,961 |
| Swydd Efrog a'r Humber | 5,425,370 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 4,725,390 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 5,810,773 |
| Dwyrain Lloegr | 6,129,005 |
| Llundain | 8,769,659 |
| De-ddwyrain Lloegr | 9,030,347 |
| De-orllewin Lloegr | 5,516,973 |

Ffigwr 53: Amcangyfrifon poblogaeth rhanbarthau Lloegr
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (canol-2016)

Mae Cymru yn parhau i fod â marchnad graidd mewn ymwelwyr gwyliau o'r Deyrnas Unedig, a phrif ranbarthau tarddiad ymwelwyr ar gyfer gwyliau a theithiau eraill i Gymru yw o Gymru ei hun ac o ranbarthau cyfagos Gogledd Orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr, sy'n gyfrifol am fwy na hanner pob trip o'r DU a'r gwariant i Gymru. Mae'n werth nodi'r farchnad dwristiaeth hon ar draws y ffin gan fod poblogaeth Gogledd-Orllewin a Gorllewin Canolbarth Lloegr yn fwy na 13 miliwn (Ffigwr 53).[25]

At hynny, mae 13 ardal ddinesig sydd â mwy na 500,000 o drigolion yn y DU. Mae o leiaf 8 ohonynt yn llai na 2 awr o ffin Cymru mewn car neu drên, gan gynnwys Llundain, Birmingham, Leeds a Bradford, Sheffield, Lerpwl, Manceinion, Bryste. Mae gweithgarwch marchnata Croeso Cymru yn canolbwyntio ar ymwelwyr o Lundain a De-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog a De-orllewin Lloegr.[26] Yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2017 bu 9.02m o dripiau i Gymru gan ymwelwyr dros nos o Brydain, sy'n ostyngiad o 3.0% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

25 https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/?skip=1&lang=cy https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland
26 Llywodraeth Cymru, Strategaeth Twristiaeth 2013–2020: Partneriaeth ar gyfer Twf, Llywodraeth Cymru, 15

Yn yr un modd gostwng o 3.6% wnaeth y gwariant i £1,628m.[27]

Mae niferoedd teithiau diwrnod ac aros noson ym Mhrydain Fawr gan drigolion Prydain wedi cynyddu ychydig yn ystod Ionawr i Ragfyr 2017 o'i gymharu ag Ionawr i Ragfyr 2016; cynyddodd y teithiau diwrnod 1.0% i 120.68m a'r aros nos 2.8% i 369.46m. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd lefel y gwariant cysylltiedig 2.6% i £23,683m.

**Ymwelwyr Diwrnod o'r DU**

Mae tua thraean o'r ymwelwyr diwrnod yn dod o'r tu allan i Gymru (32%).[28]

Mae Cymru yn parhau i ddenu teuluoedd a chyplau am ymweliad diwrnod.[29] Yn 2016, cafwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr diwrnod oedd yn 16-34 oed, gyda gostyngiad cyfatebol yn y gyfran 55 oed a hŷn. Tueddai'r ymwelwyr diwrnod i fod yn ddosbarth canol, gan fod yn 65% o'r rhai a oedd yn gwneud ymweliad diwrnod yng Nghymru ac i Gymru, ac yn gyfran hyd yn oed yn uwch ymhlith ymwelwyr o Loegr yn 2016 (72%). Mae pobl yn nosbarthiad ABC1 yn llunio 53% o boblogaeth y DU.[30]

27 Ystadegau ymwelwyr domestig, Ionawr 2017 - Rhagfyr 2017, Swyddfa Ystadegau ac Ymchwil, Llywodraeth Cymru
28 Fiona McAllister/Sarah McDonough, Adroddiad Llawn yr Ymchwil; Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 14/2017, Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr Diwrnod o'r DU. Caerdydd
29 Ibid
30 Ibid

Roedd nifer yr ymweliadau drachefn yn uchel, gyda 89% o ymwelwyr diwrnod o'r DU wedi bod ar daith diwrnod yng Nghymru ac i Gymru fwy nag unwaith yn y flwyddyn flaenorol.[31] Ran amlaf, deuai'r ymwelwyr diwrnod i gefn gwlad Cymru ac i ymweld â mannau penodol ac atyniadau. Roedd y prif weithgareddau yn cynnwys: gweld atyniadau cyffredinol (25%), ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol (22%), ymweld â pharciau gwledig / parciau coedwigoedd (20%), ymweld â'r traeth (19%). Roedd chwarter o'r ymwelwyr diwrnod o'r DU yn 2016 wedi dod i Gymru i gymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon neu yn yr awyr agored; roedd y rheiny oedd yn ymweld ag amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth yn 18% a'r rheiny oedd yn ymweld ag oriel mor isel â 5%.[32] *Y cwestiwn sy'n gysylltiedig â hyn yw pam? A yw oherwydd nad yw'r safleoedd hyn yn cael eu marchnata'n ddigonol yn y Deyrnas Unedig neu ai oherwydd nad oes digon o ddiddordeb yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol?*

I'r rhan helaethaf (86%) o ymwelwyr dydd a oedd yn byw y tu allan i Gymru, roedd dibyniaeth amlwg ar deithio mewn car i gyrraedd, Cymru gyda dim ond 6% yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (3% trên; 3% bws cyhoeddus).[33] Adlewyrchir hyn hefyd yn nifer y rhai oedd yn teithio i'w cyrchfan mewn car (84%).

31 Ibid
32 Ibid
33 Ibid

Roedd llai nag un o bob deg wedi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (6% ar fws, 3% mewn trên). [34]

Mae gwahaniaethau clir rhwng y rhanbarthau o ran y mathau o leoedd yr ymwelwyd â hwy. Yn y De-ddwyrain, ymwelodd dau o bob pump o ymwelwyr dydd ag amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth ar eu taith (sef 40% o'i gymharu â 34% drwy Gymru) tra yn y De-orllewin, ymwelodd dros ddau o bob pump ag atyniad yn seiliedig ar natur (sef 42% o'i gymharu â 22% drwy Gymru). Mewn cyferbyniad, roedd tua chwech o bob deg o ymwelwyr dydd i'r Gogledd a'r De-orllewin yn ymweld i fwynhau'r tirwedd / cefn gwlad / traethau (63% a 66% yn y drefn honno o'i gymharu â chyfartaledd o 54% ledled Cymru gyfan). Roedd ymwelwyr i'r Canolbarth a'r De-orllewin hefyd yn fwy tebygol o sôn am gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored fel eu rheswm dros ymweld (29% a 35% yn y drefn honno o'i gymharu â chyfartaledd 25% ledled Cymru gyfan). [35]

**Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU**

Mae rhan helaethaf yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn byw yn Lloegr (84%), gyda dim ond 14% yn byw yng Nghymru a 3% yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. [36] Mae'r tueddiad *gwyliau gartref* wedi cefnogi'r sector atyniadau. [37] Roedd 9.3m o dripiau aros dros nos i Gymru gan bobl o Brydain yn 2016. [38]

Mae ymwelwyr o'r DU yn fwyaf tebygol o fod yn 35-54 oed ac yn perthyn i ddosbarthiadau cymdeithasol ABC1, hyd yn oed yn fwy felly ymhlith ymwelwyr o Loegr. Er bod cynnydd yn y gyfran o bobl 16-34 oed sy'n dod i Gymru, mae cynrychiolaeth gyffredinol pobl iau sy'n ymweld â Chymru yn parhau i fod yn is na chyfran yr oedolion iau sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. [39] O edrych ar eu rhanbarth cartref, mae cyfran sylweddol uwch o ymwelwyr iau (20%) a chynrychiolaeth is o bobl hŷn 55+ oed yn dod o Loegr (39%) o'i gymharu â Chymru (13% 16-34; 47% 55+). [40]

Mae Cymru yn parhau i ddenu cyplau a theuluoedd. [41] Roedd cyfrannau gweddol gyfartal wedi ymweld unwaith yn y tair blynedd diwethaf (31%), wedi ymweld dwy i dair gwaith (31%) neu 4 gwaith neu ragor (38%). [42]


Cyrchfan gwyliau byr yw Cymru yn bennaf i ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig. Roedd ychydig dros hanner yr ymwelwyr o'r DU a oedd wedi aros dros nos wedi dod am wyliau byr (55%), tra bod tua dwy ran o bump (41%) wedi ymweld am wyliau hirach. Dywedodd chwarter y bobl mai eu trip i Gymru oedd eu prif wyliau am y flwyddyn. [43]

Roedd bron i un o bob tri ymwelydd o'r DU oedd wedi aros dros nos yn 2016 wedi dod yma i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon, a dywedodd tua 10% mai dyma oedd eu prif gymhelliant. Megis yn achos y marchnadoedd eraill, prif resymau ymwelwyr o'r DU dros ddod i Gymru oedd ei thirwedd ac i ymweld â mannau ac atyniadau. Roedd y gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn cynnwys ymweld â'r traeth (42%), gweld atyniadau cyffredinol (38%), ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol (30%), ymweld â pharciau gwledig / parciau coedwigoedd (31%), cerdded mwy na 2 filltir (24%) ac ymweld ag amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth (24%). Roedd ymweld ag oriel neu arddangosfa gelf yn parhau mor isel ag 8%. [44]

34 Ibid
35 Ibid
36 Fiona McAllister/Sarah McDonough, Adroddiad Llawn yr Ymchwil; Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 14/2017, Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr Diwrnod o'r DU. Caerdydd
37 Krishan Kawol, Ymchwil Twristiaeth – Llywodraeth Cymru. Tourist Attractions: Current Trends (Saesneg yn unig), Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013
38 Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr: https://gov.wales/statistics-and-research/great-britain-tourist-survey/?skip=1&lang=cy
39 Fiona McAllister/Sarah McDonough, Adroddiad Llawn yr Ymchwil; Llywodraeth Cymru, Rhif adroddi-ad GSR 14/2017, Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU. Caerdydd
40 Ibid
41 Ibid
42 Ibid
43 Ibid
44 Ibid

Fundación Louis Vuitton, Paris
Ffynhonnell: Event, Rhagfyr 2017


# Atodiad 6: Opsiynau rhestr hir



"...Mae'r ecosystem yn eithaf bregus. Beth bynnag ydyw, mae'n rhaid iddo fod yn rhywbeth sy'n cyfrannu at yr ecosystem mewn rhyw ffordd." Arweinydd Celf

"Dylai'r casgliad fod ar wasgar gan ei fod yn perthyn i bawb yng Nghymru. Amcan allweddol i'r Amgueddfa [Genedlaethol] yw sicrhau bod eu casgliad mor hygyrch â phosib. Cafwyd cynlluniau fel Cyfoeth Cymru Gyfan, a oedd â ffrwd cyllid ar wahân ar gyfer sioeau ledled Cymru."
Curadur

"Gyda rhywbeth fel Cyfoeth Cymru Gyfan mae perygl na fydd yn para. Bydd hi'n rhy rhwydd ei dorri a gall ddiflannu heb adael ôl."
Curadur



# Opsiwn 1: Partneriaeth Rhannu Celf Gyfoes

**Disgrifiad o'r model**
Model wedi'i adnewyddu sy'n bwrw golwg eto ar raglen Cyfoeth Cymru Gyfan (2002-2014/15) ac yn adeiladu ar ei llwyddiannau a'r hyn a ddysgwyd ohoni. Mae'n annog cydguradu rhwng safleoedd partner a, thrwy adnoddau digonol, yn sicrhau bod gweithiau celf weledol o'r casgliadau cenedlaethol ar gael i nifer o sefydliadau'r celfyddydau gweledol dethol ledled Cymru.

Fel ail gam, gellid cysylltu â sefydliadau'r Deyrnas Unedig i'w hymestyn i bartneriaid ledled y DU ac i wneud casgliadau cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn haws eu gweld yng Nghymru.

Fel y nodwyd yn yr Adolygiad ar Gyfoeth Cymru Gyfan (2011), gellid gweithredu'r Bartneriaeth Rhannu Celf Gyfoes drwy dri chategori:

*Categori 1 – Gwelliannau cyfalaf i orielau parhaol neu dros dro sy'n cynnwys benthyciadau cenedlaethol. Dylai hyn gynnwys rhaglen dreigl dair blynedd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Byddai proses ymgeisio dau gam yn dechrau gyda cham datblygu hyd at gwblhau cais llawn a fydd yn cynnwys adroddiad ar gyfleusterau fel bod y cynlluniau'n cynnwys y costau llawn ac amserlen realistig.*

*Categori 2 – Datblygu arddangosfeydd teithiol, yn seiliedig ar arddangosfa dros dro a ddatblygwyd ar gyfer amgueddfa-bartner neu'n seiliedig ar grŵp o bartneriaid sy'n gweithio gydag Amgueddfa Cymru neu sefydliad arall.*

*Categori 3 – Ambell brosiect sydd â rhaglen a chymorth da, yn seiliedig ar fodel Celf Cymru Gyfan/ArtShare o ymgysylltu tymor hirach. Ni ddisgwylir i'r categori hwn gynnwys arian ar gyfer gwaith cyfalaf mawr.*

Roedd partneriaid gwreiddiol Cyfoeth Cymru Gyfan yn amgueddfeydd yn bennaf. Byddai'r Bartneriaeth Rhannu Celf Gyfoes yn bartneriaeth rhwng sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddylunio a chelf weledol fodern a chyfoes.

Byddai aelodau rhwydwaith y Bartneriaeth yn cael cyfle i wneud y canlynol:

- Benthyca gwaith celf yn rhwydd o'r casgliad cenedlaethol, a gedwir yn Amgueddfa Cymru. Gellid ymestyn hyn i gynnwys benthyca gwaith celf o'r casgliad cenedlaethol a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Dangos arddangosfa wedi'i churadu eisoes ac yn cynnwys deunyddiau addysgol;
- Cyd-ddatblygu arddangosfeydd mewn partneriaeth ag unrhyw un o'r aelodau eraill, gan dynnu ar waith celf o'r casgliad cenedlaethol;
- Argymell gwaith i'r casgliad cenedlaethol ei gaffael;
- Rhannu sgiliau proffesiynol.

Mae'n werth nodi bod gan rai sefydliadau celfyddydol gweledol yng Nghymru yr amodau amgylcheddol angenrheidiol i dderbyn gwaith o'r casgliad cenedlaethol. Fodd bynnag:

- Prin iawn yw capasiti staff y ddau bartner (h.y. Amgueddfa Cymru a'r sefydliad sydd i dderbyn y casgliad) i brosesu unrhyw geisiadau o'r fath;
- Mae'r gost i fenthyca gwaith celf (h.y. yswiriant, cludiant, arddangos) yn aml yn rhy ddrud;
- Yn hollbwysig, ac efallai o ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, mae Amgueddfa Cymru yn derbyn mwy o geisiadau am fenthyciadau o du allan i Gymru nag ynddi.
- Wedi dweud hynny, roedd dylanwadau llywodraethu wedi effeithio ar ariannu a gweithredu Cyfoeth Cymru Gyfan. Mewn rhai achosion, nid oedd lleoliadau allweddol y celfyddydau gweledol yn gallu cael mynediad at Gyfoeth Cymru Gyfan oherwydd y gofyniad bod yn rhaid iddynt fod yn amgueddfa, llyfrgell neu archif achrededig.

**Gofynion Cyfalaf**
- Fel y dangosir yn y tri chategori uchod, caiff partneriaid yng Nghategori 1 eu hasesu i benderfynu a oes angen cyfalaf i adnewyddu arnynt;
- Partneriaid yng Nghategori 1, byddai'r gost cyfalaf yn debygol o fod oddeutu £4,000 am bob metr sgwâr.
- Byddai cyllideb ragarweiniol yn unrhyw beth o £1.9m i adnewyddu safle bychan sy'n cynnwys oriel dros dro 300m², storfa arddangosfeydd 100m² a chefn tŷ 60m², i £7m, am safle mawr fyddai'n cynnwys oriel dros dro 1,200m², storfa arddangosfeydd 400m² a 60m² i gefn y tŷ.
- Ni fyddai partneriaid sydd yn y categorïau 2 a 3 angen buddsoddiad cyfalaf yn y lle cyntaf.

**Elfennau Gweithredol**
**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Pwyllgor Partneriaid sy'n cynnwys staff allweddol ym mhob un o'r safleoedd yn sicrhau llais curadurol cydlynol ar gyfer arddangosfeydd ar y cyd.
- Cyfarwyddwr Celf *crwydrol* i fod yn gatalydd i raglennu ac ymagweddau curadurol newydd ym mhob un o'r safleoedd.
- Perthynas gyfartal ar draws safleoedd, yn hytrach nag Amgueddfa Cymru yn *anfon cyfarwyddiadau tuag allan*.
- Capasiti estynedig ac amser clir penodol gan staff yn Amgueddfa Cymru a safleoedd partner i weithredu rhaglenni'r casgliad cenedlaethol a'r rhaglenni addysg a chymunedol cysylltiedig.
- Potensial ar gyfer rhannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol gan ddibynnu ar sefydliadau angori i godi arian, marchnata, cadwraeth.

# Opsiwn 1: Partneriaeth Rhannu Celf Gyfoes

- Cyfleoedd amlwg i ddatblygu sgiliau proffesiynol – yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

### Rhaglen ac Arddangosfa

- Arddangosfa dros dro i'w gosod yn rheolaidd (6-8 o arddangosfeydd bach gwahanol bob blwyddyn; neu 2-3 o sioeau mwy o faint wedi'u gwasgaru ledled y gwahanol safleoedd).
- Arddangosfeydd bychain dros dro yn cylchdroi o gwmpas y lleoliadau i sicrhau'r cyrhaeddiad ehangaf o ran cynulleidfaoedd.
- O'r arddangosfeydd dros dro, 1 i 2 o arddangosfeydd dros dro mwy o faint wedi'u cydguradu ac wedi'u cynllunio i fynd ar daith yn genedlaethol / rhyngwladol.

### Symudedd Casgliadau

- Trefnu bod cyllid ar gael ar gyfer cludiant, yswiriant ac arddangos.
- Logisteg ganolig yn fewnol a chostau yswiriant a chludiant isel o ran symud casgliadau (h.y. bydd yn dal angen dadosod peth o'r casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd).
- Yn allanol costau uchel yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

### Addysg ac Ymgysylltu

- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle. Y cynnig addysg yn gydlynol ar draws pob safle.
- Cael timau dysgu a marchnata'r Amgueddfa Genedlaethol a sefydliadau partner i fod yn rhan ar gam cynnar er mwyn sicrhau ymagwedd integredig.
- Angen *mewngymorth* cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld. Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu. Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol.
- Dealltwriaeth glir o gynulleidfaoedd lleol ym mhob lleoliad er mwyn sicrhau bod diddordebau ac anghenion y cyhoedd yn cael eu diwallu.

### Cyfleoedd Masnachol

- Angen staff arlwyo, manwerthu, llogi, digwyddiadau.

### Marchnata

- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant.

### Datblygiad

- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol - ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol.
- Cyfleoedd cyllido torfol gan bobl leol yn ariannu'r rhaglenni neu'r benthyciadau nesaf i ddod i'w hardal.

### Cynnal a chadw

- Gofynion diogelwch ac yswiriant ym mhob safle.
- Gofynion cynnal a chadw ar gyfer gweithiau celf yn yr awyr agored.

**Partneriaid**

- Gall sefydliadau celf weledol wneud cais i gymryd rhan yn ffurfiol yn y cynllun ac fe'u dosbarthir yn ôl y tri chategori a argymhellir uchod.
- Gellid ychwanegu partneriaid yn rheolaidd neu'n flynyddol, cyn belled â bod capasiti staff yn cynyddu ar yr un raddfa.

**Amserlen**

- Blwyddyn 1: Ymsefydlu (6 mis); recriwtio/ adnabod partneriaid allweddol; asesu gofynion cyfalaf; sefydlu pwyllgor gwneud penderfyniadau curadurol; sefydlu brand.
- Blwyddyn 2: Gallai lleoliadau sydd ag amodau addas gynnal sioeau teithiol.
- Blwyddyn 3: erbyn blwyddyn 3, gellid uwchraddio 2 i 4 lleoliad i wneud lle i gategori 1.
- Blwyddyn 4 ymlaen: Rhaglen dreigl o deithiau ac uwchraddio.

# Opsiwn 1: Partneriaeth Rhannu Celf Gyfoes

| Gwerth Ychwanegol i Gymru |
|---|
| Mae'n ehangu arlwy twristiaeth ddiwylliannol ledled Cymru |
| Lleddfu pryderon Caerdydd-ganolog ymysg sefydliadau a chynulleidfaoedd nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd |
| Arwain at effaith economaidd fach drwy wariant cyfunol y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardaloedd lleol, yn cynnwys cyflogaeth adeiladu |

| Cryfderau | Gwendidau (gweler y risgiau dros y dudalen) |
|---|---|
| Sicrhau bod y casgliad cenedlaethol yn gyson symudol, gan roi mwy o fynediad a mynediad mwy democrataidd i ragor o bobl yng Nghymru | Diffyg gwelededd oni bai eu bod wedi'u brandio a'u marchnata yn dda |
| Annog cynllun strategol mwy cydgysylltiedig, ffurfiol ar draws y sector celfyddydau gweledol yng Nghymru | Heb gyflawni buddsoddiad cyfalaf Categori 1, mae perygl y caiff y rhaglen ei datgymalu os bydd cyllid yn gostwng neu'n cael ei ddileu |
| Mae angen buddsoddiad cyfalaf isel ar y dechrau a gallai unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ei wasgaru dros amser | O bosibl yn atal dangos gweithiau eraill ar yr un pryd oherwydd prinder lle yn yr orielau partner |
| Gwella'n sylweddol ar amodau orielau (maint, amodau amgylcheddol a diogelwch) ledled Cymru, gan arwain at yr holl sector yn elwa | O bosibl nid oes ganddo elfennau gwir frand cenedlaethol |
| Adeiladu ar fodel wedi'i brofi (trwy Gyfoeth Cymru Gyfan), sydd eisoes â set o argymhellion i wella'r canlyniadau a'r gwerthuso | |
| Sicrhau ei roi ar waith yn gyflym – rhaglenni Categori 2 a 3 yn rhwydd eu gweithredu | |
| Sicrhau codi sgiliau proffesiynol staff trwy weithio mewn partneriaeth | |
| Gall greu cyfranogiad ychwanegol a mwy o gymryd rhan gan gynulleidfaoedd lleol, a fyddai fel arall wedi'u datgysylltu o gyfleoedd o'r fath | |
| Gallai weithio ochr yn ochr neu mewn dilyniant â modelau eraill | |

# Opsiwn 1: Partneriaeth Rhannu Celf Gyfoes

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Wedi'i glymu'n agos â hunaniaeth dreftadaeth Amgueddfa Cymru | Datblygu strategaeth brandio clir ar gam cynnar; defnyddio hunaniaeth dreftadaeth Amgueddfa Cymru yn greadigol er mantais i'r Bartneriaeth | 3 | 2 | 6 |
| Nid oes ganddi elfennau brand gwirioneddol ac efallai na chaiff ei gweld ond fel rhaglen sy'n cael ei chyflwyno gan Amgueddfa Cymru, yn hytrach nag fel oriel gelf gyfoes ddeinamig sy'n cystadlu ar lwyfan rhyngwladol | Recriwtio arweinyddiaeth a rheolaeth artistig sydd ag ethos cydweithredu, sgiliau cyfathrebu cryf a gweledigaeth uchelgeisiol; Datblygu strategaeth brandio clir ar gam cynnar; Cynnwys costau marchnata priodol yn y model gweithredu | 3 | 4 | 12 |
| Gwella mynediad yn yr oriel, yn hytrach na darparu unrhyw ofynion oriel uchelgeisiol o'r 21ain ganrif | Sicrhau bod arddangosfeydd a rhaglenni yn uchelgeisiol a gwneud defnydd creadigol o'r mannau mewn orielau a thu allan iddynt | 5 | 2 | 10 |
| Wedi'i arafu gan fiwrocratiaeth / gweithio ar draws adrannau ar lefel awdurdod lleol | Sefydlu prosesau clir ynghylch gwneud penderfyniadau ar ddechrau'r rhaglen; rhoi digon o adnoddau i adrannau iddynt allu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol; Nodi rhwystrau penodol wrth gychwyn y rhaglen a dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain trwy strwythurau staff, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau | 4 | 4 | 16 |
| **Mae risgiau sydd wedi'u codi o werthusiad Cyfoeth Cymru Gyfan yn parhau'n berthnasol:** | | | | |
| Staff yn ystyried gweithredu Cyfoeth Cymru Gyfan fel rhywbeth *ychwanegol* i'w disgrifiad swydd bresennol, yn hytrach nag yn integredig ynddi | Meithrin cymeradwyaeth ac ymrwymiad i'r rhaglen ar gam cynnar, gan weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid i ddeall a yw hyn/sut mae hyn yn cyd-fynd â swyddogaethau swyddi presennol a pha adnoddau ychwanegol fyddai eu hangen; Cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda thîm ar draws y sector ac iddynt agenda glir i drafod sut mae'r rhaglennu'n datblygu, ymhle mae'r anawsterau a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau'r Bartneriaeth yn ffurfiol ac yn anffurfiol - yn fewnol ac yn allanol | 2 | 5 | 10 |
| Mae'r rhaglen ond yn bodoli yn ymwybyddiaeth proffesiwn yr amgueddfa; Nid oes ffactor gwahaniaethu i gynulleidfaoedd ei ddeall | Nodi cynulleidfaoedd presennol a rhai targed a datblygu cyfathrebu cyson; Datblygu hunaniaeth brand clir ar gam cynnar; Cynnwys costau marchnata priodol yn y model gweithredu | 2 | 5 | 10 |
| Diffyg cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru | Olrhain a mesur llwyddiant y rhaglen – effaith ar gynulleidfaoedd yn enwedig; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau'r Bartneriaeth yn allanol | 3 | 5 | 15 |

# Opsiwn 1: Partneriaeth Rhannu Celf Gyfoes







Ystafelloedd Artistiaid:
Oriel Gelf Leeds, Leeds, Joseph Beuys, 2018
Tate, Sol LeWitt, Wall Drawing #1136, 2004
BALTIC+ Anselm Kiefer: Palm Sunday, 2006





Celf Cymru Gyfan (Y Clogwyn ym Mhenarth, Min Nos, Trai, SISLEY, Alfred, 1839 - 1899)





Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures

# Opsiwn 2: Breichled Swyn

“Mae llawer iawn i’w ddweud dros y dull ar wasgar. Mae’n fodel soffistigedig sy’n pwysleisio cryfder y casgliadau presennol ac yn darparu arddangosfeydd teithiol fydd yn cryfhau lleoliadau fel rhaglen genedlaethol. Gellid cydguradu rhywbeth gan bob un ohonynt. Casgliad ar wasgar a gwasanaeth curadu ar wasgar.” **Cyfarwyddwr**

“A yw pobl yn mynd i adeiladau? A oes angen i adeiladau newid i gael pobl i ddod mewn iddynt? Os yw’n adeilad mawreddog yng Nghymru sut gallwch chi ddarparu mynediad i bobl Cymru? Rwy’n cefnogi’r model gwasgaru allan.”
**Cyfarwyddwr**

“Byddai oriel/casgliad cenedlaethol estynedig/ar wasgar yn syniad ardderchog... oherwydd mae tirweddau a morluniau Cymru wedi chwarae rhan mor bwysig wrth ysbrydoli celf gyfoes Cymru efallai y gellid deall y gelf orau trwy ei harddangos yng nghyd-destun y tirwedd - yn agos at ble y’i gwnaed.”
**Cyfarwyddwr Sefydliad**



# Opsiwn 2: Breichled Swyn

**Disgrifiad o'r model**
Grŵp dethol o orielau celf weledol a dylunio modern a chyfoes (6 i 8 sefydliad) yn cael estyniad lled-barhaol i'w safle ffisegol ac yna brandio hwn yn Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru. Mae un rhaglen guradurol yn ymestyn ei ffordd trwy bob un o'r safleoedd cysylltiol. Byddai'r orielau yn y rhwydwaith yn sefydlu partneriaeth gyfartal i gydweithio i ddarparu corff gwaith cenedlaethol. Gellid arddangos rhaglenni ar draws y *freichled* mewn unrhyw nifer o ffurfiadau (er enghraifft, gall rhaglen neu arddangosfa symud o un lleoliad i'r llall, neu gellid adrodd stori ar draws yr holl safleoedd partner).

**Gofynion o ran Cyfalaf**
Strwythur cyfalaf newydd i'w osod ym mhob lleoliad; byddai lefel y buddsoddiad yn amrywio yn seiliedig ar faint strwythur, hirhoedledd a gwaith cyfalaf diweddar (er enghraifft nid yw estyniad 2016 Glynn Vivian, fel enghraifft yn unig, ar hyn o bryd angen adeilad ffisegol newydd; fodd bynnag fel rhan o'r rhwydwaith, gellid gosod ateb pensaernïol dros dro yn agos at y safle wedi'i frandio fel yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol).

Byddai cost cyfalaf estyniadau lled-barhaol yn debygol o fod oddeutu £3,000-£3,500 am bob metr sgwâr.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad newydd bychan lled-barhaol yn £4.5m. Mae hyn yn tybio oddeutu 480m$^2$ i fannau cyhoeddus, 300m$^2$ i fannau oriel dros dro, tua 300m$^2$ i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 300m$^2$ fel man cefn y tŷ.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad canolig lled-barhaol oddeutu £8m. Mae hyn yn tybio tua 600m$^2$ i fannau cyhoeddus, 800m2 i fannau oriel dros dro, tua 600m$^2$ i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 480m2 fel cefn y tŷ.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad mawr lled-barhaol oddeutu £13m. Mae hyn yn tybio tua 940m$^2$ i fannau cyhoeddus, 1,300m$^2$ i fannau oriel dros dro a mannau cymunedol, tua 950m$^2$ i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 830m$^2$ fel man cefn y tŷ

**Elfennau Gweithredol**
**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Pwyllgor curadurol i sicrhau llais curadurol cydlynol ar gyfer arddangosfeydd ar y cyd;
- Perthynas gyfartal ar draws lleoliadau, yn hytrach nag Amgueddfa Cymru *yn rhoi cyfarwyddiadau tuag allan*;
- Cyfleoedd amlwg i ddatblygu sgiliau proffesiynol – yn ffurfiol ac yn anffurfiol;
- Capasiti estynedig i gynnal rhaglenni casglu cenedlaethol a rhaglenni addysg a chymunedol cysylltiedig sy'n bodloni gofynion cynulleidfa pob lleoliad cysylltiol (nid darpariaeth unffurf sydd yr un fath i bawb o ran addysg ac allgymorth);
- Cynllun marchnata cadarn i sicrhau gweledeedd ac adnabod brand;
- Potensial ar gyfer rhannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol gan ddibynnu ar sefydliadau angori i godi arian, marchnata, cadwraeth.

**Rhaglen ac Arddangosfa ym mhob lleoliad**
- Bydd lleoliadau cyswllt yn dal i gynnig eu rhaglenni cyfredol, ond bydd ganddynt gasgliad/oriel genedlaethol fel man ffisegol penodol ar y safle (neu gerllaw);
- Disgwylir ac anogir lleoliadau cyswllt i sicrhau cydlyniad rhaglen gydlynol rhwng y *cenedlaethol* a'u gwaith annibynnol.

**Symudedd Casgliadau**
- Ychydig o logisteg yn fewnol a chostau yswiriant a chludiant isel o ran symud casgliadau (h.y. nid oes angen dadosod casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro gan dybio y bydd
- Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn awtomatig yn un o'r safleoedd sy'n cael estyniad lled-barhaol);
- Yn allanol, costau canolig yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

**Addysg ac Ymgysylltu**
- Cael timau dysgu a marchnata yr Amgueddfa Genedlaethol a sefydliadau partner i fod yn rhan ar gam cynnar er mwyn sicrhau ymagwedd integredig. Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle. Y cynnig addysg yn gydlynol ar draws pob safle;
- Dealltwriaeth glir o gynulleidfaoedd lleol ym mhob lleoliad er mwyn sicrhau bod diddordebau ac anghenion y cyhoedd yn cael eu diwallu;
- Angen 'mewngymorth' cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld. Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu. Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol.

**Cyfleoedd Masnachol**
- Angen staff arlwyo, manwerthu a digwyddiadau.

**Marchnata**
- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant.

# Opsiwn 2: Breichled Swyn

**Datblygiad**

- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol – ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Angenrheidiol mesur a meithrin y Cymry alltud;
- Y potensial i sicrhau y bydd cynllun aelodaeth newydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau wrth greu cymdeithas aelodaeth.

**Cynnal a chadw adeiladau**

- Costau cyfleusterau, cynnal a chadw a diogelwch cyson a rhagweladwy yn unol â chyfartaleddau'r diwydiant.

**Partneriaid**

6 i 8 safle wedi'u dewis oherwydd eu haliniad strategol gan gynnwys:

- Lleoliad a dalgylch daearyddol;
- Ffocws curadurol (e.e. Pontio /syrcas; Plas Glyn-y-weddw/preswyliadau i artistiaid);
- Llywodraethu.

**Amserlen**

- Blwyddyn 1: Nodi partneriaid a sefydlu pwyllgor curadurol; sefydlu brandio; asesu cyfleoedd cyfalaf ym mhob lleoliad partner
- Blwyddyn 2 i 4: Sefydlu rhaglen guradurol; cyflwyno'r estyniadau cyfalaf
- Blwyddyn 5: Partneriaid ychwanegol yn cael eu hychwanegu yn unol â meini prawf asesu a nodwyd
- Yn parhau: gwerthuso'r rhaglen (tynnu allan neu fynd i'r afael ag unrhyw leoliadau nad ydynt yn gweithio), potensial i ychwanegu partneriaid eraill.

## Opsiwn 2: Breichled Swyn

| Gwerth Ychwanegol i Gymru |
|---|
| Mae'n ehangu arlwy twristiaeth ddiwylliannol |
| Mynegi hyder yn y celfyddydau gweledol ac yn codi eu proffil yng Nghymru a thu hwnt |
| Lleddfu pryderon Caerdydd-ganolog ymysg sefydliadau a chynulleidfaoedd nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd |
| Gwariant cyfunol y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardal leol, yn cynnwys cyflogaeth adeiladu a gwario ychwanegol posibl gan ymwelwyr |
| |

| Cryfderau | Gwendidau (gweler y risgiau dros y dudalen) |
|---|---|
| Caniatáu ar gyfer cyfnod peilot i weld beth sy'n gweithio, gweld ymhle y ceir cynnydd yn y niferoedd sy'n ymweld neu mewn cyrhaeddiad a sut y gellid cyflwyno'r syniad ar raddfa fwy. Gellid gosod strwythurau mwy parhaol ar ôl gweld eu bod yn llwyddiant | Angen cymeradwyaeth ac ymrwymiad cynllunwyr ac awdurdodau lleol |
| Sicrhau bod casgliadau yn cael eu gwasgaru'n eang ledled Cymru a bod casgliadau nas gwelir yn cael eu gwneud yn weladwy | Nid pob sefydliad celfyddydol all gymryd rhan |
| Sicrhau bod *cenedlaethol* wir yn genedlaethol ac yn wasgaredig yn ddaearyddol | Mae angen mwy o le arno y tu hwnt i batrwm presennol yr adeiladau |
| Potensial ar gyfer ymyriadau pensaernïol gwahanol ym mhob safle, gan ddathlu natur unigryw pob lleoliad | Creu mwy o gystadleuaeth am gyllid, yn enwedig cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol |
| Caniatáu i raglenni/arddangosfeydd cyfredol y partneriaid presennol gael eu cyflwyno a'u harddangos; e.e. nid oes angen eu tynnu i lawr er mwyn dangos y casgliad; | |
| Ysbrydoli deialog a chyfosodiad rhwng rhaglenni presennol y partneriaid a gweithiau o'r casgliad cenedlaethol; | |
| Gwella datblygiad proffesiynol curaduron trwy gydweithio (trefnu benthyciadau ac arddangosfeydd mewn partneriaeth); | |
| Annog pob sefydliad i fynd ati o *ddifrif* i gael eu gweld fel cyrchfan ar freichled o leoliadau; | |
| Nid yw'n dibynnu ar y seilwaith o fewn adeilad sy'n bodoli eisoes | |
| Mae'r model hwn yn caniatáu ar gyfer mynd ag arddangosfeydd ar daith i sawl lleoliad ar yr un pryd yn ogystal ag ar ôl ei gilydd | |
| Gellid ei weld yn gyfochrog neu ei gynnal mewn dilyniant â modelau eraill | |

# Opsiwn 2: Breichled Swyn

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Sefydliadau celfyddydol gweledol yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r Freichled ac unrhyw gyfleoedd cyllido cyhoeddus neu breifat cysylltiedig | Datblygu a chyfleu rhesymeg a meini prawf clir ar gyfer pam fod sefydliadau wedi'u cynnwys yn y freichled; Nodi rhaglenni, ymchwil, arddangosfeydd neu ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth sy'n weithredol yn cynnwys rhai nad ydynt yn aelodau o'r freichled; Sicrhau bod eiriolaeth ledled y sector ar gyfer celf weledol yn integreiddio negeseuon cydlynol o'r sector cyfan. | 5 | 4 | 20 |
| Nid ystyrir ei fod yn berthnasol yn lleol fel dull unffurf sydd yr un fath i bawb | Cynnal ymchwil a sgyrsiau hwyluso sy'n galluogi partneriaid i ddatblygu amcanion a diddordebau a rennir; Nodi nodweddion, cynulleidfaoedd a phosibiliadau unigryw ym mhob safle i safleoli pob lleoliad yn wahanol. | 1 | 3 | 3 |
| Prinder ymweliadau i rai safleoedd (e.e. gwledig) | Sicrhau bod arlwy ddeniadol yn cael ei chyfathrebu am bob safle; Nodi cyfleoedd a chymhellion i annog ymwelwyr i ddychwelyd, ac annog ymwelwyr i deithio ar draws y rhwydwaith; Partneru â Chroeso Cymru i sicrhau bod yr holl leoliadau yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i dwristiaid domestig a rhyngwladol | 3 | 4 | 12 |
| Staff yn ystyried gweithredu'r rhaglen estyniad i'r oriel genedlaethol fel rhywbeth 'ychwanegol' i'w disgrifiad swydd bresennol, yn hytrach nag yn integredig ynddi | Meithrin cymeradwyaeth ac ymrwymiad i'r rhaglen ar gam cynnar, gan weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid i ddeall a yw hyn/sut mae hyn yn cyd-fynd â swyddogaethau swyddi presennol a pha adnoddau ychwanegol fyddai eu hangen; Cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda thîm ar draws y sector ac iddynt agenda glir i drafod sut mae'r rhaglennu'n datblygu, ymhle mae'r anawsterau a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau yn ffurfiol ac yn anffurfiol – yn fewnol ac yn allanol | 2 | 5 | 10 |
| Diffyg cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru | Olrhain a mesur llwyddiant y rhaglen – effaith ar gynulleidfaoedd yn enwedig; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau'r Bartneriaeth yn allanol. | 1 | 5 | 5 |

# Opsiwn 2: Breichled Swyn



Blwch Humboldt, Berlin, yr Almaen
Arddangosfa, Watch Out: Children! Protected. Loved. Threatened. Blwch Humboldt, Berlin
Info-Box, Potsdamer Platz, Berlin



Pafiliwn Oriel Serpentine
Toyo Ito + Cecil Balmond + Arup, 2002
Herzog & de Meuron ac Ai Weiwei, 2012
Asif Khan, 2016



Amgueddfa Garage ar gyfer Diwylliant Cyfoes gan Shigeru Ban, Moscow




Triongl Cerfluniau Swydd Efrog
Parc Cerfluniau Swydd Efrog
Sefydliad Henry Moore

# Opsiwn 3: Teulu'r Celfyddydau Gweledol

"Er y bydd yn cymryd llawer o flynyddoedd, dyma ein cyfle i ddatblygu casgliad o orielau cenedlaethol i'r celfyddydau gweledol fydd o'r radd flaenaf ac o fri rhyngwladol." **Cyfarwyddwr Oriel**

"Nid wyf yn siŵr mai adeilad ydyw; rwy'n credu y gallai fod yn grŵp o adeiladau, math o gyfres o adeiladau ledled Cymru - ar draws mannau sydd eisoes yn bodoli." **Cyfarwyddwr Oriel**



# Opsiwn 3: Teulu'r Celfyddydau Gweledol

**Disgrifiad o'r model**
Grŵp dethol o orielau celf weledol a dylunio modern a chyfoes wedi'u halinio'n strategol o dan un corff llywodraethol.

Bydd pob safle cysylltiol yn gyfrifol am ei ddull curadurol ei hun, ond bydd ymdeimlad o gydweithio gan y byddant yn mynd ati gyda'i gilydd i adeiladu'r canlynol:

- corff gwaith cenedlaethol sydd ag ymagwedd addysgol gyson;
- rhaglen gomisiynu a chaffael uchelgeisiol;
- profiad cyson i'r gynulleidfa, gyda dadansoddiad soffistigedig ac integredig ar ddata yn sail iddo;
- presenoldeb cydlynol a chysylltiedig ar-lein;
- brand a delwedd marchnata gydlynol (neu is-frandiau);
- gwasanaeth cwsmeriaid sy'n gyson uchel;
- cynnig manwerthu ac arlwyo cydlynol a chysylltiedig;
- y gallu i arwain sgwrs genedlaethol am gelf gyfoes ar unrhyw nifer o lwyfannau.

Bydd pob oriel yn cael ei brandio fel rhan o Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru.

**Gofynion o ran Cyfalaf**
Strwythur cyfalaf newydd parhaol (estyniad) i'w osod ym mhob lleoliad os oes angen; byddai lefel y buddsoddiad yn amrywio yn seiliedig ar faint y strwythur, hirhoedledd a gwaith cyfalaf diweddar (er enghraifft nid yw estyniad 2016 Glynn Vivian, fel enghraifft yn unig, ar hyn o bryd angen adeilad ffisegol newydd).

Byddai cost cyfalaf estyniad parhaol yn debygol o fod oddeutu £4,000 am bob metr sgwâr.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad newydd bychan parhaol yn £5.8m. Mae hyn yn tybio oddeutu 480m$^2$ i fannau cyhoeddus, 300m$^2$ i fannau oriel dros dro, tua 300m$^2$ i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 300m$^2$ fel man cefn y tŷ.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad canolig parhaol oddeutu £10.5m. Mae hyn yn tybio tua 600m$^2$ i fannau cyhoeddus, 800m$^2$ i fannau oriel dros dro, tua 600m2 i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 480m$^2$ fel man cefn y tŷ.

Byddai cyllideb ragarweiniol ar gyfer estyniad mawr parhaol oddeutu £16.8m. Mae hyn yn tybio tua 940m$^2$ i fannau cyhoeddus, 1,300m$^2$ i fannau oriel dros dro a mannau cymunedol, tua 950m$^2$ i storio casgliadau a mwynderau cysylltiedig a 830m$^2$ fel man cefn y tŷ.

**Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Cyfarwyddwr Arweiniol a 3 i 4 o Gyfarwyddwyr Oriel;
- Bydd pob lleoliad yn parhau i reoli ei hun o ran cyfeiriad curadurol a bydd ganddo ffocws penodol;
- Rhannu cronfa adnoddau ledled y teulu o ran marchnata, codi arian, aelodaeth, manwerthu, datblygu casgliadau a chadwraeth.

**Rhaglen ac Arddangosfa ym mhob lleoliad**
- Rhaglen guradurol uchelgeisiol, strategol, creadigol a phwrpasol;
- Cynllunio gweithredol o ran y ffordd orau i fanteisio ar y farchnad deithiol bosibl yn ddomestig ac yn rhyngwladol ar gyfer arddangosfeydd dros dro;
- Curadu cydweithredol ar draws lleoliadau lle bo hynny'n briodol.

**Symudedd Casgliadau**
- Ychydig o logisteg yn fewnol a chostau yswiriant a chludiant isel o ran symud casgliadau (h.y. nid oes raid dadosod y casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro);
- Yn allanol, costau canolig yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

**Addysg ac Ymgysylltu**
- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle. Y cynnig addysg yn gydlynol ar draws pob safle;
- Angen 'mewngymorth' cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld. Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu. Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol.

**Cyfleoedd Masnachol**
- Angen staff arlwyo, manwerthu a digwyddiadau.

**Marchnata**
- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant.

**Datblygiad**
- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol - ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Angenrheidiol mesur a meithrin y Cymry alltud;
- Mae potensial i sicrhau y bydd cynllun aelodaeth newydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau wrth greu cymdeithas aelodaeth;
- Mae potensial i ddatblygu achos clir dros gefnogaeth i'r sector corfforaethol o ystyried datblygu seilwaith uchel ei broffil mewn prifddinas.

**Cynnal a chadw adeiladau**
- Costau cyfleusterau, cynnal a chadw a diogelwch cyson a rhagweladwy yn unol â chyfartaleddau'r diwydiant.

**Partneriaid**

- Awdurdodau lleol;
- Llywodraeth Cymru;
- Artes Mundi;
- Partneriaid diwylliannol ac addysgol lleol;
- Artistiaid a chydweithfeydd artistiaid;
- Grwpiau cymunedol lleol;
- Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW);
- Clystyrau creadigol;
- Addysg uwch;
- Y sector corfforaethol;
- Cymheiriaid rhyngwladol.

**Amserlen**

- 3 i 5 blynedd

| **Gwerth Ychwanegol i Gymru** |
|---|
| Ehangu arlwy twristiaeth ddiwylliannol |
| Mynegi hyder yn y celfyddydau gweledol ac yn codi eu proffil yng Nghymru a thu hwnt |
| Lleddfu pryderon Caerdydd-ganolog ymysg sefydliadau a chynulleidfaoedd nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd |
| Arwain at effaith economaidd gadarnhaol wedi'i diffinio gan wariant cyfunol y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardal leol, yn cynnwys cyflogaeth adeiladu a gwario ychwanegol posibl gan ymwelwyr |
| |

| **Cryfderau** | **Gwendidau (gweler y risgiau drosodd)** |
|---|---|
| Sicrhau bod *cenedlaethol* wir yn genedlaethol ac yn wasgaredig yn ddaearyddol | Angen ystyried sut y gellir datblygu hyn ochr yn ochr â brand a theulu presennol Amgueddfa Cymru |
| Sicrhau bod casgliadau yn cael eu dosbarthu'n eang ledled Cymru a bod casgliadau nas gwelir yn cael eu gwneud yn weladwy | Gallai rhai sefydliadau deimlo wedi'u heithrio o gyfleoedd cyllid cyhoeddus |
| Alinio â chyfoedion rhyngwladol | |

# Opsiwn 3: Teulu'r Celfyddydau Gweledol

| **Risgiau** | **Lliniaru** | **Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel)** | **Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel)** | **Sgôr Risg** |
|---|---|---|---|---|
| Sefydliadau celfyddydol gweledol yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r Teulu Cenedlaethol ac unrhyw gyfleoedd cyllid cyhoeddus neu breifat cysylltiedig | Sicrhau bod Aelodau'r Teulu yn ymwybodol bod eu rolau fel endidau *cenedlaethol* yn cynnwys galluogi, hwyluso a broceru sgyrsiau, rhannu casgliadau a rhwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol er budd pawb; Datblygu a chyfleu rhesymeg a meini prawf clir ar gyfer pam fod sefydliadau wedi'u henwi i fod yn y teulu cenedlaethol; Nodi rhaglenni, ymchwil, arddangosfeydd neu ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth sy'n weithredol yn cynnwys y sector; Sicrhau bod eiriolaeth ledled y sector ar gyfer celf weledol yn integreiddio negeseuon cydlynol o'r sector cyfan. | 5 | 3 | 15 |
| Nid ystyrir ei fod yn berthnasol yn lleol fel dull unffurf sydd yr un fath i bawb | Cynnal ymchwil a sgyrsiau hwyluso sy'n galluogi partneriaid i ddatblygu amcanion a diddordebau a rennir; Nodi nodweddion, cynulleidfaoedd a phosibiliadau unigryw ym mhob safle i safleoli pob lleoliad yn wahanol | 2 | 4 | 8 |
| Prinder ymweliadau i rai safleoedd (e.e. gwledig) | Sicrhau bod arlwy ddeniadol yn cael ei gyfathrebu am bob safle; Nodi cyfleoedd a chymhellion i annog ymwelwyr i ddychwelyd, ac annog ymwelwyr i deithio ar draws y rhwydwaith; Partneru â Chroeso Cymru i sicrhau bod yr holl leoliadau yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i dwristiaid domestig a rhyngwladol | 2 | 5 | 10 |
| Mae'n cymryd amser hir i sefydlu enw da | Cyhoeddusrwydd i'r strategaeth gyfathrebu; Adroddiadau blynyddol uchel eu proffil; Symposia ledled y wlad; Cymryd rhan mewn rhaglenni rhyngwladol; Cydweithio'n agos â'r wasg genedlaethol a rhyngwladol; Meithrin ymdeimlad o berchnogaeth leol drwy ymgysylltu â chymunedau ac addysg | 3 | 5 | 15 |

# Opsiwn 3: Teulu'r Celfyddydau Gweledol










Tate Modern, Llundain
Tate Lerpwl, Lerpwl

Tate St Ives, St Ives
Tate Prydain, Llundain

> "Yn hytrach na bod yn sbwng sy'n amsugno dŵr, dylai fod yn sbwng wedi'i lenwi â dŵr sy'n gwneud y pwll yn fwy."
>
> **Curadur ac Ymchwilydd**

> "Un o'r trafodaethau a'r dadleuon sy'n parhau gyda'r saith sefydliad cenedlaethol yw sut y gallant arddangos haelioni ysbryd. Beth fydd yn rhaid inni ei sefydlu ar y dechrau i sicrhau bod yr ethos hwn yn dal ymlaen?"
>
> **Cyllidwr**



# Opsiwn 4: Rhwydwaith Clwb Aelodau

**Disgrifiad o'r model**
Fe'i diffinnir gan gydweithredu ac arwain agweddau, mae'r rhwydwaith strategol hwn ar ffurf clwb aelodau ar gyfer sector y celfyddydau gweledol. Bydd y rhwydwaith yn rhagweithiol wrth chwilio am gyfleoedd i alluogi a hyrwyddo adegau o drobwyntiau mewn celf weledol gyfoes, a chyniga raglen gyfnewid gwybodaeth gadarn a chreadigol.

**Gofynion o ran Cyfalaf**
Lleiafswm.

**Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**

- Bydd Cynhyrchydd Creadigol ar lefel cyfarwyddwr yn sbarduno syniadau, yn datblygu prosiectau yn lleoliadau angori'r celfyddydau gweledol ac yn hwyluso sgwrs genedlaethol;
- Bydd uwch reolwr yn sicrhau ceisiadau codi arian, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, ymchwil ac eiriolaeth ledled y sector. Bydd ymchwil sgiliau a bylchau mewn adnoddau yn nodi meysydd allweddol ar gyfer gwasanaethau a rennir (e.e. cadwraeth), gan arwain at ddatblygu cronfa gwasanaeth a rennir ar gyfer y rhwydwaith;
- Bydd rheolwr/curadur arddangosfeydd yn hwyluso arddangosfeydd a rennir ac yn datblygu rhaglen o arddangosfeydd fydd yn teithio yn genedlaethol/rhyngwladol, gan dynnu ar y casgliad cenedlaethol a syniadau a chasgliadau'r lleoliadau angori;
- Bydd swyddog masnachol yn datblygu cynnig manwerthu atyniadol ledled y wlad, (brand celf weledol i Gymru), gan bartneru â myfyrwyr dylunio cynnyrch/ffasiwn mewn ysgolion celf i dynnu ar asedau o bob cwr o'r wlad a'u gwerthu mewn sawl safle ar-lein ac all-lein;
- Bydd cydlynydd yn sicrhau bod aelodau yn elwa o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth ffurfiol ac anffurfiol parhaus, gwasanaethau a rennir a datblygu sgiliau. Mae'n bosib y gallai hyn gynnwys cymrodoriaeth i guradur ac/neu artist, neu raglen interniaeth ledled y wlad, a'r cyfranogwyr yn cylchdroi drwy'r rhwydwaith.

**Rhaglen ac Arddangosfa**

- Arddangosfeydd wedi'u datblygu ar y cyd i'w rhannu ar draws y sefydliadau angori, ac ar gyfer teithio yn rhyngwladol.

**Symudedd Casgliadau**

- Gofynion logistaidd canolig. Gofynion cludiant canolig. Costau yswiriant uchel;
- Bydd teithio rhyngwladol yn peri gofynion logisteg o'r radd uchaf, ynghyd â chostau yswiriant a chludiant uchel;
- Nid yw'n datrys y broblem yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, sydd â gofynion logistaidd uchel yn fewnol i symud y casgliad parhaol ar gyfer arddangosfeydd dros dro.

**Addysg ac Ymgysylltu**

- Ymchwil deinamig i gynulleidfaoedd ledled y wlad i fod yn sail i raglennu a safleoli'r sector;
- Arddangosfeydd teithiol, rhaglen addysg gydgysylltiedig, gan ddibynnu ar bobl leol i gyd-ddatblygu a chyflwyno rhaglenni sy'n berthnasol i bobl yr ardal.

**Cyfleoedd Masnachol**

- Bydd mynd ag arddangosfeydd ar daith yn rhyngwladol yn codi proffil Cymru a gallai ddod ag elw ariannol bychan;
- Potensial am arlwy manwerthu arloesol, fel yr amlinellir uchod;
- Pwyslais ar brosiectau ac arddangosfeydd sy'n treiddio drwy'r rhwydwaith ar draws y wlad – ffocws ar farchnata rhanbarthol a chenedlaethol a safleoli twristiaeth ddomestig/ar draws y ffin.

**Marchnata**

- Pwyslais ar y sector diwylliannol yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Datblygiad**

- Gall arddangosfeydd a rhaglennu ar draws y sector fod yn gynnig arbennig o ddeniadol i gyllidwyr – cyhoeddus a phreifat – os gellir cynllunio, gwerthuso a dysgu effaith gymdeithasol mewn rhaglenni. Cyfle i gyd-drafod marchnad y Cymry alltud ar gyfer rhaglenni arbennig o uchelgeisiol ar draws y rhwydwaith;
- Gall cefnogaeth gorfforaethol fod yn hyfyw os oes aliniad brand clir a chyrhaeddiad marchnad eang;
- Cyfle i ddatblygu ymhellach ar gerdyn aelodaeth cenedlaethol – e.e. ymuno ar y cyd â'r National Art Pass (Art Fund) ac integreiddio ag unrhyw gynnig hyper-leol.

**Cynnal a chadw**

- Dim

**Partneriaid**

- Mentrau llawr gwlad;
- Ysgolion Celf;
- Sefydliadau celfyddydol gweledol;
- Brandiau manwerthu;
- Partneriaid corfforaethol;
- Cymheiriaid rhyngwladol;
- Rhwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol.

**Amserlen**

- 6 i 9 mis – recriwtio a sefydlu rhwydwaith;
- 9 mis – y gwaith yn parhau.

# Opsiwn 4: Rhwydwaith Clwb Aelodau

| Gwerth Ychwanegol i Gymru |
|---|
| Codi proffil sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru trwy alluogi cydweithio i sicrhau arddangosfeydd teithiol rhyngwladol |
| Codi set sgiliau sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru ac yn rhoi mynediad at arferion gorau ac arbenigedd arbenigol |
| Darparu ysgogiad ac adnoddau i annog y sector i weithio gyda'i gilydd yn fwy strategol ac uchelgeisiol |
| Helpu i gynnal a datblygu ecoleg y celfyddydau gweledol, gan sicrhau cefnogi arweinyddiaeth bresennol y celfyddydau gweledol ac yn rhoi capasiti ychwanegol i gyflawni rhaglenni cenedlaethol a lleol |
| Ennyn hyder yn sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru, gan gydnabod yr asedau diwylliannol presennol yng Nghymru |
| Cyrhaeddiad eang i gynulleidfaoedd a gall ddarparu llwyfan i ddatblygu drwy ddata marchnad drylwyr |
| |

# Opsiwn 4: Rhwydwaith Clwb Aelodau

| Cryfderau | Gwendidau (gweler y risgiau drosodd) |
|---|---|
| Potensial hirdymor i gael effaith sylweddol ar gelfyddydau gweledol Cymru trwy godi set sgiliau a thrwy gynyddu y tu hwnt i rwydweithiau Cymru | Anodd ei gynnal a sicrhau bod pob aelod yn elwa |
| Yn cynorthwyo canolbwyntiau a chlystyrau creadigol, rhwydweithiau a gofod wedi'i rannu | Gallai rhai sefydliadau deimlo wedi'u heithrio os nad ydynt yn aelod |
| Sicrhau sgyrsiau ddwyffordd (neu ragor) | Byddai heriau o ran cadw ffocws ar weledigaeth os oes nifer fawr o bartneriaid |
| Annog perchnogaeth leol a thynnu'n weithredol ar wybodaeth leol | Posibilrwydd y gall fod yn rhy gymhleth neu'n rhy guddiedig i gael effaith sylweddol o safbwynt y cyhoedd |
| Potensial cynnal prosiectau mawr a phrosiectau bach lleol ystyrlon gan ei fod yn galluogi sefydliadau mawr a mudiadau llai i gydweithio | |
| Partneriaethau amrywiol yng Nghymru a thu hwnt | |
| Caniatáu ar gyfer perchnogaeth wasgaredig ond yn sicrhau bod llais unigol yn cynrychioli sector y celfyddydau gweledol. Fersiwn ffurfiol o Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW) sy'n eirioli ac yn ysgogi newid i'r sector | |
| Yn ddigon hyblyg i newid wrth i ymarfer celf gyfoes esblygu | |
| Posibilrwydd i werthu arbenigedd i eraill yn genedlaethol neu'n rhyngwladol ac o ganlyniad gallai fod yn llai dibynnol ar gymhorthdal cyhoeddus | |
| Posibilrwydd i gyfuno adnoddau ac o ganlyniad lleihau'r straen ar gapasiti | |

# Opsiwn 4: Rhwydwaith Clwb Aelodau

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Colli gweledigaeth gydlynol mewn rhwydwaith cymhleth | Recriwtio arweinyddiaeth artistig sydd ag ethos cydweithredu, sgiliau cyfathrebu cryf, hanes cryf a gweledigaeth uchelgeisiol; Sicrhau cyfathrebu da ar y weledigaeth guradurol a bod ymdeimlad o berchnogaeth yn cael ei rhannu'n eang | 3 | 5 | 15 |
| Mae'n datblygu fel sefydliad aelodau proffesiynol, yn hytrach nag Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol sy'n weledol | Datblygu hunaniaeth brand sy'n galluogi pob aelod o'r Clwb i ddangos hynny i'w cynulleidfaoedd; Datblygu amcanion strategol clir sy'n cynnwys arddangosfeydd neu raglenni priodol ar draws y sector sy'n cyfiawnhau ymgyrch farchnata uchelgeisiol. Partneru â Chroeso Cymru i sicrhau bod yr holl aelodau yn cael eu hyrwyddo'n strategol i dwristiaid domestig a rhyngwladol | 5 | 5 | 25 |
| Rhwydd ei chanslo os nad yw'r rhaglen yn dangos llwyddiant neu effaith glir yn y tymor byr | Olrhain a mesur llwyddiant y rhaglen – ei heffaith ar gynulleidfaoedd yn enwedig; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau'r Clwb yn allanol | 4 | 5 | 20 |
| Staff yn ystyried gweithredu elfennau'r Clwb Aelodau fel rhywbeth 'ychwanegol' i'w disgrifiad swydd bresennol, yn hytrach nag yn integredig ynddi | Meithrin cymeradwyaeth ac ymrwymiad i'r Clwb ar gam cynnar, gan weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid i ddeall a yw hyn/sut mae hyn yn cyd-fynd â swyddogaethau swyddi presennol a pha adnoddau ychwanegol fyddai eu hangen; Cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda thîm ar draws y sector ac iddynt agenda glir i drafod sut mae'r rhaglennu'n datblygu, ymhle mae'r anawsterau a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau yn ffurfiol ac yn anffurfiol – yn fewnol ac yn allanol | 4 | 5 | 20 |
| Mae'r Clwb ond yn bodoli yn ymwybyddiaeth cymuned broffesiynol y celfyddydau gweledol; Nid oes ffactor gwahaniaethu i gynulleidfaoedd ei ddeall | Nodi cynulleidfaoedd presennol a rhai targed a datblygu cyfathrebu cyson; Datblygu hunaniaeth brand clir ar gam cynnar; Cynnwys costau marchnata priodol yn y model gweithredu | 5 | 5 | 25 |
| Diffyg cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru | Olrhain a mesur llwyddiant y rhaglen – effaith ar gynulleidfaoedd yn enwedig; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau'r Clwb yn allanol | 4 | 5 | 20 |

# Opsiwn 4: Rhwydwaith Clwb Aelodau


1 ARNOLFINI
2 BALTIC CENTRE FOR CONTEMPORARY ART
3 CORNERHOUSE / HOME
4 FIRSTSITE
5 GLYNN VIVIAN ART GALLERY
6 GRIZEDALE ARTS
7 THE HEPWORTH WAKEFIELD
8 IKON
9 KETTLE'S YARD
10 MIMA
11 MOSTYN
12 NEWLYN ART GALLERY & THE EXCHANGE
13 NOTTINGHAM CONTEMPORARY
14 THE PIER ARTS CENTRE
15 TATE
16 TOWNER
17 TURNER CONTEMPORARY
18 WHITWORTH ART GALLERY
19 WYSING ARTS CENTRE




Rhwydwaith PlusTate

# Opsiwn 5: Canfas Cenedlaethol

“Yn hollol unigryw, yn gwbl benodol i safle, llawn syndod. Dylai celf gyfoes wneud hynny. Nid oes angen gofod pensaernïol arno. Byddai’r artistiaid a’r curaduron wedi’u hysbrydoli’n llwyr. Byddai’n fodel newydd.” **Beirniad**



“Mae’r model gwasgaredig yn rhywbeth y mae pobl ei eisiau. Mae’n mynd yn anodd gyda rhai darnau gwaith - cyfyngiadau amgylcheddol a diogelwch. Er na allwch roi Cezanne mewn neuadd bentref... gallwch greu gosodwaith fideo mewn traphont yn Rhuthun.” **Curadur**

“Gall Cymru ei rhoi ei hun ar y map ac mi ddylai’n sicr wneud hynny! Gall gychwyn yn newydd sbon yn yr 21ain ganrif a bod wir yn wirioneddol ffres.” **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

“Mae prosiect Ffordd Cymru, sy’n seiliedig ar syniad o fynd igam-ogam, yn y bôn yn ymwneud â rhoi pobl mewn tirluniau ysgubol, annisgwyl. Rwy’n credu y gellid cael cysylltiadau pwysig ag unrhyw oriel ‘amgen’, ‘rhithwir’.” **Cyfarwyddwr Twristiaeth**

“Dynwared arddull esblygol yr artistiaid eu hunain, yr endid newydd yn dynwared arfer celf gyfoes. Mae’n ennyn pobl i ddod yn rhan. Mae’n newid. Mae’n diflannu.” **Athro**

“Mae celf gyfoes genedlaethol yn ymwneud â datblygu lleoedd cyfranogol heb endid. Tirwedd, blaen siopau, tai, cymdeithasau tai. Dod â hen adeiladau yn fyw. Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud.” **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

# Opsiwn 5: Canfas Cenedlaethol

**Disgrifiad o'r model**
Oriel genedlaethol sy'n canolbwyntio ar y tirwedd ac yn cynnwys comisiynau artistig uchelgeisiol dros dro, lled-barhaol, neu barhaol ledled Cymru. Mae'r casgliadau celf gyfoes wedi'u lleoli yn yr awyr agored neu mewn amrywiaeth o leoedd traddodiadol ac anhraddodiadol neu leoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio. Diffinnir y Canfas Cenedlaethol gan fodel comisiynu bywiog, a byddai'n tynnu ar Ffordd Cymru, sef y tri llwybr sy'n cael ei hyrwyddo i dwristiaid domestig a rhyngwladol.

Mae'r Canfas Cenedlaethol yn ddull arloesol o guradu cyhoeddus ac yn cynnig mynediad cenedlaethol, democrataidd i ddiwylliant cyfoes. Bydd Grŵp Ymchwil Curadurol yn dod at ei gilydd i ddatblygu a churadu'r gwaith. Mae pob aelod yn cyflwyno neu'n comisiynu gwaith celf unigol ac yn cefnogi taith pob darn i'w leoliad, boed yn eitem ar fenthyg o'r casgliad cenedlaethol neu un rhyngwladol neu'n gomisiwn a ddatblygwyd gyda chymunedau ac artistiaid cyfoes. Mae'r model yn adeiladu ar syniadau ynghylch ymgysylltu cymunedol o'r iawn ryw a archwilir mewn portffolio o weithiau fel rhan o raglen Creu Cymunedau Cyfoes Cyngor Celfyddydau Cymru.

**Gofynion Cyfalaf**
- Clustnodi cyllideb comisiynau mawr ar gyfer y gweithiau celf cyntaf, tua 50 i 100 gwaith celf ar draws y wlad. Y comisiynau i amrywio o ran cost rhwng £20,000 a £5m;
- Angen y gwariant lleiaf ar gyfer seilwaith cefnogol (e.e. mannau addysg gwarchodol, unedau manwerthu, bwyd a diod, neu ardaloedd gwylio wrth ymyl comisiynau);
- Angen gosod arwyddion ledled Cymru (ar-lein ac yn ffisegol).

**Elfennau Gweithredol**
**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Cyfarwyddwr Artistig Arweiniol a thîm o gynhyrchwyr creadigol sy'n dechrau ac yn goruchwylio'r rhaglen yn eu clystyrau daearyddol;
- Pwyllgor Ymchwil Curadurol sy'n cynnwys y cyhoedd, artistiaid a chreadigwyr yn gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr i gydguradu'r arddangosfa a chomisiynu gwaith sy'n benodol i'r safle;
- Potensial i rannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol gan ddibynnu ar sefydliadau angori i godi arian, marchnata, cadwraeth.

**Rhaglen ac Arddangosfa**
- Bydd cyfran sylweddol o'r comisiynau allanol yn barhaol; bydd y comisiynau dros dro mewn mannau nad ydynt yn cael eu defnyddio;
- Rhaglen dreigl o gomisiynau yn cael eu hychwanegu dros amser;
- Systemau ar gyfer comisiynu i'w caffael gan Amgueddfa Cymru.

**Symudedd Casgliadau**
- Gofynion logistaidd canolig. Cludiant isel. Costau yswiriant uchel.

**Addysg ac Ymgysylltu:**
- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle.

**Cyfleoedd Masnachol:**
- Potensial i ddatblygu cyfleoedd masnachol ar ffurfiau newydd (gan gofio'r briff mannau anhraddodiadol), gan gynnwys bwytai, caffis, lleoliadau bwyd ar y stryd, dros dro. Posibilrwydd cytundeb comisiynu ag arlwyo a manwerthu;
- Bydd swyddog masnachol yn datblygu cynnig manwerthu atyniadol ledled y wlad (brand celf weledol i Gymru), gan bartneru â myfyrwyr dylunio cynnyrch/ffasiwn mewn ysgolion celf i dynnu ar asedau o bob cwr o'r wlad a'u gwerthu mewn sawl safle ar-lein ac all-lein.

**Marchnata:**
- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant;
- Cysylltu â Ffordd Cymru.

**Datblygu:**
- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol - ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Y potensial i dynnu arian o brosiectau buddsoddiad cyfalaf mewn sectorau eraill (Adran 106, creu lleoedd a chelf cyhoeddus);
- Nawdd gan y sector corfforaethol ar gyfer comisiynau penodol;
- Codi arian cymynroddion;
- Ymgyrchoedd cyllido torfol parhaus.

**Cynnal a chadw**
- Gofynion diogelwch ac yswiriant ym mhob safle;
- Gofynion cynnal a chadw ar gyfer gweithiau celf yn yr awyr agored.

**Partneriaid**
- Partneriaid;
- Artistiaid a chydweithfeydd artistiaid;
- Sefydliadau celfyddydol gweledol;
- Awdurdodau lleol a rhanbarthol;
- Croeso Cymru (hyrwyddwr);
- Cwmnïoedd bwyd;
- Partneriaid corfforaethol;
- Cymheiriaid rhyngwladol;
- Llysgenadaethau.

**Amserlen**
- Blwyddyn 1: Recriwtio arweinyddiaeth a thîm curadurol; sefydlu pwyllgor ymchwil curadurol; sefydlu partneriaethau allweddol; sefydlu dulliau marchnata a chodi arian; datblygu rhaglen addysg genedlaethol; lansio rhaglen gomisiynu.
- Blwyddyn 2 i 4 (ac ymlaen): Comisiynau ledled Cymru.

# Opsiwn 5: Canfas Cenedlaethol

| **Gwerth Ychwanegol i Gymru** |
|---|
| Ymestyn arlwy twristiaeth ddiwylliannol y wlad |
| Tarfu ar y model oriel gelf gyfoes draddodiadol (mannau blwch gwyn, wedi'i gynllunio gan bensaer o fri) ond yn bod yn driw a dilys a defnyddio asedau gorau Cymru |
| Meithrin cynulleidfa i gelfyddyd gyfoes yng Nghymru trwy ddatblygu deialog ac ymgysylltu ar lefel leol |
| Darparu mynediad gwirioneddol ddemocrataidd i'r casgliad ac unrhyw gomisiynau newydd ar gyfer pobl Cymru, yn enwedig y rheiny sy'n teimlo nad yw celf neu orielau ar eu cyfer hwy |
| Arwain at fudd economaidd anuniongyrchol yn sgil gwariant gan ymwelwyr undydd a chreu swyddi tymor byr |
| Datblygu ffyrdd newydd o 'gasglu'r anghasgladwy' yn y casgliad cenedlaethol |
| |


# Opsiwn 5: Canfas Cenedlaethol

| **Cryfderau** | **Gwendidau (gweler y risgiau drosodd)** |
|---|---|
| Yn weladwy iawn yng Nghymru ac yn rhoi cyfleoedd grymus yn y wasg ac i farchnata | Rhy wasgaredig |
| Hynod arloesol. Mae'n cynnig profiad hygyrch - gan fynd y tu hwnt i'r oriel. Mae'n ymestyn arferion curadurol cyfredol ac yn annog model addysg ac ymgysylltu newydd | Yn dibynnu ar seilwaith trafnidiaeth Cymru i fod o'r radd flaenaf; gallai'r diffyg seilwaith bennu lleoliad gweithiau celf |
| Canolbwyntio ar y tirwedd, sy'n cyd-fynd â chryfderau celf fodern a chyfoes Cymru | Yn cyfyngu ar fynediad i'r bobl hynny nad oes ganddynt gerbyd |
| Safleoli'r tirwedd yn gyfle yn hytrach nag yn rhwystr a defnyddio adeiladau segur i gynnig cyfleoedd cyffrous i artistiaid weithio ynddynt | Efallai yr ystyrir bod yr elfennau awyr agored yn ffactor sy'n cyfyngu |
| Gwthio gwaith artistiaid celf weledol gyfoes ymlaen, gan eu hannog i ymateb i'r tirlun – yn hytrach na chyfleoedd blwch gwyn | Er y gallai adeiladau segur arddangos comisiynau newydd, nid yw'r rhain yn debygol o fod yn amgylcheddol-gadarn |
| Y dull datganoledig yn golygu bod modd ei gynnal ledled Cymru, mewn gwahanol fathau o leoliadau – trefol a gwledig, poblog ac anghyfannedd, etc. | Nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r problemau capasiti a godwyd gan y sector |
| Darparu cyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru | |
| Cynyddu ymdeimlad o gymuned a pherchnogaeth trwy gydguradu a chomisiynu | |
| Datblygu casgliad cenedlaethol drwy gomisiynau newydd, ar yr un pryd â chynnig cyfleoedd i arddangos gwaith cyfoes mawr (nad yw'n aml yn cael ei weld) | |
| Datblygu cyfleoedd cyllido newydd sy'n torri tir newydd | |

# Opsiwn 5: Canfas Cenedlaethol

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Colli'r weledigaeth guradurol ar hyd rhaglen gymhleth | Recriwtio arweinyddiaeth artistig sydd ag ethos cydweithredu, sgiliau cyfathrebu cryf, hanes cryf a gweledigaeth uchelgeisiol; Sicrhau cyfathrebu da ar y weledigaeth guradurol a bod ymdeimlad o berchnogaeth yn cael ei rhannu'n eang | 1 | 5 | 5 |
| Diffyg gwelededd amlwg | Sicrhau cyflwyno'r rhaglen yn uchelgeisiol, gan gynnwys comisiynu artistiaid o'r radd flaenaf (artistiaid Cymreig a thramor) a phresenoldeb ar-lein; sicrhau bod gwaith celf wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol, ond yn hygyrch; Partneru â Chroeso Cymru i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei hyrwyddo'n strategol i dwristiaid domestig a rhyngwladol | 2 | 4 | 8 |
| Rhwydd ei chanslo os nad yw'r rhaglen yn dangos llwyddiant neu effaith glir yn y tymor byr | Olrhain a mesur llwyddiant y rhaglen – effaith ar gynulleidfaoedd, artistiaid, hunaniaeth genedlaethol, economïau lleol, atyniadau cyfagos (ar Ffordd Cymru) a'r buddsoddiad cysylltiedig yn y cynllun a sylw'r wasg. | 3 | 5 | 15 |
| Staff yn ystyried gweithredu elfennau'r Canfas Cenedlaethol fel rhywbeth 'ychwanegol' i'w disgrifiad swydd bresennol, yn hytrach nag yn integredig ynddi | Meithrin cymeradwyaeth ac ymrwymiad i'r Canfas Cenedlaethol ar gam cynnar, gan weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid i ddeall a yw hyn/sut mae hyn yn cyd-fynd â swyddogaethau swyddi presennol a pha adnoddau ychwanegol fyddai eu hangen; Sefydlu tîm pwrpasol; Cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r clystyrau creadigol rhanbarthol gan fod ag agenda glir i drafod sut mae'r rhaglennu yn datblygu, ymhle y mae'r anawsterau a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain; Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau yn ffurfiol ac yn anffurfiol – yn fewnol ac yn allanol | 3 | 3 | 6 |

# Opsiwn 5: Canfas Cenedlaethol


Art Everywhere, y Deyrnas Unedig
Beatrice Dillon, Taut Line, Peak Cavern, Gŵyl Abandon Normal Devices, 2017





Artangel, Llundain





A Current Under Sea: Margate Journeys with ‘The Waste Land’
Cy Twombly Four Seasons a Henrik Håkansson A Tree Divided
Laura Ford, A&E Monkey
Doug White, Black Palm





Olympiad Diwylliannol 2012
JocJonJosch, cyfres Head to Head, Fideo, 2014
Robert Smithson, Spiral Jetty, yr UDA





The Public Space, 2017-18, Nationalmuseum, Sweden
Christo a Jeanne-Claude, The Floating Piers Lake, Yr Eidal 2014-16
Christo a Jeanne Claude, Y Giatiau, Central Park, Efrog Newydd 1979-2005

# Opsiwn 6: Syrcas


## "Rydym yn breuddwydio am roi arddangosfa at ei gilydd a mynd â hi ar daith ledled Cymru a dod â churaduron ifanc gyda ni. Byddai hyn oll yn bwydo i'r ecosystem." **Curadur**

"Cymerwch y swm yna o arian (£2.5m) a'i wario ar raglen. Ac ymgysylltu."
**Cyllidwr**

"Nid oes rhaid iddo gael cartref, mae'n defnyddio celf a'r celfyddydau perfformio a hanes a diwylliant a gwyddoniaeth. Mae'n fodel peripatetig, model Cymreig sy'n hyrwyddo ac yn annog cyfranogiad ac yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg." **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

"Mae meithrin perthynas â'r gymuned yn mynd â llawer o amser...mae'n hirdymor."
**Addysgwr**

"Mae National Theatre Wales yn fodel diddorol - llynges ar droed, cydweithredol - mae'n adeiladu cymunedau pan fydd yn mynd allan atynt. Pan ddaw i dref, mae'n hwb. Mae'n gyffrous iawn i'r gymuned." **Cyllidwr**



# Opsiwn 6: Syrcas

**Disgrifiad o'r model**
Endid ffisegol sy'n mynd â'r un arddangosfa ar daith o dref i'r dref, o le i le ar draws Cymru. Bob blwyddyn neu ddwywaith y flwyddyn gall ddychwelyd i'r un ardaloedd gan feithrin etifeddiaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Llysgenhadon lleol, gan gynnwys artistiaid, addysgwyr a gweithwyr cymdeithasol yn cynhyrchu gweithgareddau a rhaglenni. Mae'r rhain yn benodol i bob cymuned a rhanbarth ac fe'u datblygir ymlaen llaw ac mewn partneriaeth â'r tîm craidd.

**Gofynion Cyfalaf**
Gallai'r gwariant cyfalaf amrywio o £500,000 i £1m am strwythur symudol, bychan, dros dro, yn dibynnu ar y deunyddiau a'r uchelgais. Tybir y bydd y man oriel dros dro yn o leiaf 200m$^2$, ochr yn ochr ag ychydig bach iawn o fannau cyhoeddus a chefn y tŷ. Gellid dyblu maint yr uned symudol, ond ar y raddfa hon, mae'r gwariant cyfalaf oddeutu £2.5m.

Gallai gynnwys arddangosfa dros dro y gellid ei phacio'n hawdd, heb fawr ddim difrod yn bosibl, ac angen y lleiaf posibl o lafur medrus i'w gosod. Byddai hyn yn cynnwys yr holl offer AV, gwaith cefndir yr arddangos a'i chasglu, a dim ond ei gosod fyddai angen.

Bydda angen ataliad aer a rheoli hinsawdd ar y cerbydau cludo. At ddiben yr astudiaeth hon, rydym yn tybio y byddai un uned symudol, fodd bynnag, gellid graddio hyn i gynnwys sawl uned symudol sy'n teithio Cymru ar yr un pryd.

**Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Un arweinydd llawn gweledigaeth yn partneru â churaduron gwadd a chynhyrchwyr creadigol lleol;
- Mae'r Tîm Teithio Curadurol yn ymchwilio ac yn datblygu arddangosfa, graffigwaith a'r dehongli, yn trefnu yswiriant a chasgliadau. Maent hefyd yn gyfrifol am gynllunio a goruchwylio gosod/dadosod (os yw in *situ*);
- Mae'r Tîm Teithio Curadurol yn gyfrifol am feithrin perthynas â phartneriaid a'r lletywyr.

**Rhaglen ac Arddangosfa**
- Casgliad teithiol lled-barhaol ac/neu sioeau dros dro sydd wedi'u curadu a'u hadnewyddu'n gyson ac a gaiff eu diweddaru unwaith y flwyddyn;
- Potensial i rannu adnoddau â sector y celfyddydau gweledol yn ymwneud â chodi arian, ymchwilio i gynulleidfaoedd, marchnata ac addysg.

**Symudedd Casgliadau**
- Gofynion logistaidd helaeth o ran symud casgliadau. Costau cludiant, yswiriant, diogelwch uchel.

**Addysg ac Ymgysylltu**
- Athroniaeth addysg nad yw'n ddidactig trwy ddysgu in-situ a phartneru â llysgenhadon;
- Mae'r tîm craidd yn hyfforddi llysgenhadon ar lefel leol i gyrraedd cynulleidfaoedd lleol ac ymylol. Gweithgareddau a rhaglenni addysgol wedi'u datblygu'n lleol;
- Achos cryf dros raglen cyfnewid gwybodaeth, lle gallai sector presennol y celfyddydau gweledol ddod yn rhan yn yr ardal honno.

**Cyfleoedd Masnachol**
- Bydd swyddog masnachol yn datblygu cynnig manwerthu atyniadol ledled y wlad (brand celf weledol i Gymru), gan bartneru â myfyrwyr dylunio cynnyrch/ffasiwn mewn ysgolion celf i dynnu ar asedau o bob cwr o'r wlad a'u gwerthu mewn sawl safle ar-lein ac all-lein.

**Marchnata**
- Mae'r marchnata yn hyperleol, yn lleol, yn y clystyrau, drwy Ffordd Cymru ac yn genedlaethol.

**Datblygiad**
- Strategaeth codi arian amrywiol;
- Potensial ar gyfer partneriaethau corfforaethol arloesol. Cymorth awdurdodau lleol yn fwy tebygol i raglenni sy'n dychwelyd.

**Cynnal a chadw**
- Cost isel ond angen cynnal a chadw aml.

**Arall**
- Angen cynllunio o flaen llaw – gan gynnwys datblygu cynulleidfa, marchnata a rhaglen addysg.

**Partneriaid**
- 'Lletywyr' a phartneriaid wedi'u nodi ledled Cymru, gan gynnwys sefydliadau a lleoliadau'r celfyddydau gweledol sy'n bodoli eisoes, awdurdodau lleol a grwpiau lleol eraill;
- Creadigwyr gan gynnwys artistiaid, cwmnïau theatr, arbenigwyr digidol, perfformwyr syrcas, cwmnïau ffilm, etc.;
- Potensial i fanteisio ar sawl gŵyl..

**Amserlen**
- Cyfnod rhagarweiniol cymharol gyflym.
- 1 i 6 mis: datblygu a dylunio'r seilwaith gofynnol, adeiladu amserlen teithiau, cysylltu â lletywyr a phartneriaid, creu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgymorth, cynllun marchnata, cynllun gwerthuso ar gyfer teithio, cynllunio a chyflwyno ceisiadau am gyllid/nawdd ychwanegol.
- 6-18 mis: adeiladu neu drefnu cludiant, datblygu rhaglen arddangos a chasglu, cynllun marchnata a chyfathrebu a datganiadau i'r wasg, gwaith parhaus gyda noddwyr;
- 18 mis: Dechrau ar y daith, a pharhau i ddatblygu'r daith nesaf.

# Opsiwn 6: Syrcas

| Gwerth Ychwanegol i Gymru |
| --- |
| Meithrin cynulleidfa i gelfyddyd gyfoes yng Nghymru trwy ddatblygu deialog ac ymgysylltu ar lefel leol |
| Darparu mynediad gwirioneddol ddemocrataidd i'r casgliad ac unrhyw gomisiynau newydd ar gyfer pobl Cymru, yn enwedig y rheiny sy'n teimlo nad yw celf neu orielau ar eu cyfer hwy |
| Darparu budd economaidd anuniongyrchol yn sgil gwariant gan ymwelwyr undydd a chreu swyddi tymor byr |

# Opsiwn 6: Syrcas

| **Cryfderau** | **Gwendidau (gweler y risgiau drosodd)** |
|---|---|
| Darparu mynediad rheolaidd, o bosibl yn amlach, i'r casgliad | Pwysleisio cynnal rhaglenni ond nid yw'n mynd i'r afael â diffyg capasiti sefydliadol yn lleoliadau'r celfyddydau gweledol ledled Cymru |
| Galluogi ymgysylltu uniongyrchol un-i-un â'r casgliad, artistiaid, arbenigwyr ac felly yn cynyddu dyfnder yr ymgysylltu | Angen yswiriant ar gyfer y dull symudol |
| Mae'n dechrau gyda'r cynulleidfaoedd ac yn ddelfrydol yn denu rhai newydd – o gofio ei fod yn *mynd* at y gynulleidfa | Dibynnu ar seilwaith o safon uchel (ffordd / rheilffyrdd), sydd yn ddiffygiol ar hyn o bryd |
| Caniatáu i arddangosfeydd ymddangos mewn lleoliadau diddorol ac yn cynnig gwahanol ffyrdd o weld y casgliad | Angen capasiti i newid rhaglenni yn amlach |
| Cynnig profiad trawsnewidiol ar gyfer artistiaid | |
| Creu cynnwrf ac yn denu cynulleidfaoedd i'r safleoedd gan nad ydynt mewn un ardal ond am gyfnod penodol h.y. mae'n rhoi naws *gŵyl* i'r safleoedd – os nad ydynt yn ymweld nawr, efallai y byddant yn ei golli | |
| Diddordeb yn y wasg ynghylch *syrcas* yn dod i dref sy'n codi proffil y celfyddydau ac artistiaid lleol | |
| Wir yn cynnwys artistiaid lleol. Gellir defnyddio artistiaid fel cyfryngwyr i'r gymuned leol. | |
| Y potensial i adael etifeddiaeth barhaol trwy annog pobl i fynd i'w horiel leol drwy gydfarchnata a rhaglenni cyhoeddus | |
| Cyfleoedd cyllido torfol yn ymwneud â rhaglenni, gan gynyddu'r cyllid a diddordeb y cyhoedd | |
| Gellid ei weld ochr yn ochr â modelau eraill | |

# Opsiwn 6: Syrcas

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Methu â chreu etifeddiaeth hirdymor, effaith gymdeithasol positif neu newid | Sicrhau bod y strategaeth 3 i 5 mlynedd cychwynnol yn sicrhau bod teithiau yn ail ymweld yn flynyddol i'r un cymunedau/rhanbarthau, ac felly bod etifeddiaeth yn cael ei hadeiladu dros amser – grwpiau lleol sy'n croesawu'r syrcas yn cydweithio ac yn cynllunio ar gyfer ei ymweliad blynyddol; Datblygu grŵp cenedlaethol o drefnwyr sy'n cwrdd yn rheolaidd i fireinio strategaeth y Syrcas, ei llwybr, yr arlwy manwerthu/ arlwyo a rhaglenni cysylltiedig; Sefydlu astudiaeth ymchwil hydredol i asesu effaith ar gynulleidfaoedd, artistiaid, ymdeimlad hunaniaeth leol/cenedlaethol, economïau lleol, atyniadau cyfagos (ar Ffordd Cymru) a'r buddsoddiad cysylltiedig yn y cynllun a sylw'r wasg; Mynd ati'n weithredol i adnabod cyfleoedd i bobl leol ymuno â'r syrcas neu ei gyflenwi in situ – gan gynnwys interniaethau/tiwtora preswyl, preswylfeydd tymor byr ar gyfer artistiaid a rhaglenni mewn ysgolion lleol. Mynd ati'n greadigol i olrhain taith y syrcas ledled Cymru – blog fideo, ac ati – i sicrhau bod edrych ymlaen eiddgar amdano a chreu momentwm wrth iddo deithio | 4 | 4 | 16 |
| Methu ag integreiddio â'r rhaglenni ledled ecoleg y celfyddydau gweledol na dylanwadu arnynt | Meithrin cymeradwyaeth ac ymrwymiad gan sector y celfyddydau ar gam cynnar, nodi pwyllgor uchel ei broffil a gweithgar i sicrhau broceru cysylltiadau realistig â lleoliadau celfyddydol *lleol*; gweithio'n agos â'r holl bartneriaid i ddiffinio sut mae rhaglen y Syrcas yn integreiddio â'u strategaeth arddangos/rhaglennu 3 i 5 mlynedd hwy, ac ymhle mae yna gyfleoedd arbennig i ddwyn pwysau (rhaglenni, cyllid, y wasg). | 2 | 4 | 8 |
| Diffyg cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau hirdymor â chynulleidfaoedd | Sicrhau bod y strategaeth 3 i 5 mlynedd cychwynnol yn sicrhau bod teithiau yn ail ymweld yn flynyddol i'r un cymunedau/rhanbarthau, ac felly bod etifeddiaeth yn cael ei hadeiladu dros amser – grwpiau lleol sy'n *croesawu'r* syrcas yn cydweithio ac yn cynllunio ar gyfer ei ymweliad blynyddol | 2 | 5 | 10 |
| Cael ei weld yn ddidactig, wedi'i orfodi'n genedlaethol neu'n wleidyddol | Recriwtio arweinyddiaeth artistig sydd ag ethos cydweithredu, sgiliau cyfathrebu cryf, hanes cryf a gweledigaeth uchelgeisiol; Ystyried cyfleoedd cydguradu ar gyfer arddangosfeydd yn y syrcas – e.e. partneriaethau ar arddull *Beth Nesaf?* sy'n gwthio'r diffiniad o *awdurdod curadurol* yn y 21ain ganrif | 1 | 4 | 8 |

# Opsiwn 6: Syrcas





Ashes and Snow, Amgueddfa Nomadig, Shigeru Ban, 2002, Pier 54 ar Afon Hudson, yr UDA





Eisteddfod Genedlaethol Cymru





Adain Avion, Marc Rees, 2012, Artistiaid yn Cymryd y Blaen, Cymru
Lab BMW Guggenheim







Artrain, yr UDA






National Theatre Wales
Cuddfan Sain Dunwyd
Julie's Bicycle
Crouch, Touch, Pause, Engage, Robin Soans, 2015

## ““Byddai’n ffantastig. Ond yr ail beth gorau yw edrych ar bwy sy’n gwneud pethau’n dda a’u cefnogi.” Artist

“Mae yna oriel celf gyfoes genedlaethol yn barod. Mae’n un llwyddiannus iawn, sef Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.”
**Museum Director**

“Does dim rhaid iddo fod ar gyfer dangos. Gallai fod yn elfen breswyl i bobl ei defnyddio.” **Cyfarwyddwr Amgueddfa**

“Byddai ei lleoli yn yr Amgueddfa Genedlaethol... yn golygu y gallai fanteisio ar y nifer o bobl sy’n dod yno eisoes ac mae’r Artes Mundi wedi’i leoli yno.”
**Artist**



# Opsiwn 7: Estyniad

**Disgrifiad o'r model**
Estyniad i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, wedi'i ddylunio i arddangos gwaith celf a dylunio modern a chyfoes. Yn yr estyniad gellid cael arddangosfa barhaol o'r casgliad celf a dylunio modern a chyfoes cenedlaethol a darparu mannau dros dro ar gyfer rhaglen artistig arbrofol a chyfres o fannau cymdeithasol croesawgar.

Byddai'r model estyniad i'w bennu gan sefydliad canolog (Amgueddfa Cymru), ond yn weithredol bydd partneriaid yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**Gofynion o ran Cyfalaf**
Byddai cost cyfalaf yn debygol o fod oddeutu £25m gyda'r lleiafswm gwariant yn £4,500 am bob metr sgwâr.

Rhagdybir y byddai hyn yn cynnwys 940m$^2$ o fannau cyhoeddus, ochr yn ochr â rhai ardaloedd allanol wedi'u tirlunio, 2,500m$^2$ o fannau oriel (mannau oriel parhaol, dros dro a chymunedol), 650m$^2$ o storfa i arddangosfeydd a 1,050m$^2$ i gefn y tŷ.

**Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Rheolaeth ganolog. Un arweinydd â gweledigaeth. Curaduron mewnol a gwadd.

**Rhaglen ac Arddangosfa**
- Arddangosfa barhaol wedi'i gosod unwaith, gyda hyblygrwydd 5-10% ar gyfer cyfnewid blynyddol;
- Arddangosfa dros dro i'w gosod yn rheolaidd (3 fawr bob blwyddyn; 4 i 5 bach bob blwyddyn);
- O'r arddangosfeydd dros dro, 1 neu 2 wedi'u cynllunio i fynd ar daith yn genedlaethol / rhyngwladol.

**Symudedd Casgliadau**
- Ychydig o logisteg yn fewnol a chostau yswiriant a chludiant isel o ran symud casgliadau (h.y. nid oes raid dadosod y casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro);
- Yn allanol, costau canolig yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

**Addysg ac Ymgysylltu**
- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle;
- Angen mewngymorth cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld. Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu. Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol.

**Commercial Opportunities**
- Angen staff arlwyo, manwerthu, llogi, digwyddiadau;
- Prin yw'r potensial ar gyfer rhannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol. Fodd bynnag, gellid tynnu ar yr arbenigedd mewn celf a dylunio cyfoes a gyflogir eisoes yn Amgueddfa Cymru.

**Marchnata**
- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant. Yn benodol, angen marchnata yn ardaloedd mawr trefol De Lloegr, megis Llundain, Bryste, Swindon a Chaerfaddon.

**Datblygiad**
- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol - ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Angenrheidiol mesur a meithrin y Cymry alltud;
- Mae potensial i sicrhau y bydd cynllun aelodaeth newydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau wrth greu cymdeithas aelodaeth;
- Mae potensial i ddatblygu achos clir dros gefnogaeth i'r sector corfforaethol o ystyried datblygu seilwaith uchel ei broffil mewn prifddinas.

**Cynnal a Chadw Adeiladau**
- Costau cyfleusterau, cynnal a chadw a diogelwch cyson a rhagweladwy yn unol â chyfartaleddau'r diwydiant.

**Partneriaid**
- Cyngor Caerdydd (nodi safle, cymorth â gweithredu, y broses gynllunio, integreiddio â'r seilwaith presennol, partneriaethau broceru, cyfraniad ariannol i gyfalaf a chymorth refeniw parhaus tebygol);
- Artes Mundi;
- Grwpiau cymunedol lleol;
- Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW);
- Addysg uwch;
- Y sector corfforaethol;
- Clwstwr Creadigol;
- Cymheiriaid rhyngwladol.

**Amserlen**
- Blwyddyn 1: Datblygu briff swyddogaethol ar gyfer gofynion a gwasanaethau gofodol; Ymgyrch gyfalaf; Gwerthuso'r effaith ar y sefydliad; Cael gafael ar aelodau tîm/ sgiliau ychwanegol yn ôl yr angen.
- Blwyddyn 2 i 4: Datblygu dyluniad ac adeiladu estyniad, paratoi a gosod casgliad.

# Opsiwn 7: Estyniad

| Gwerth Ychwanegol | |
|---|---|
| Ehangu arlwy twristiaeth ddiwylliannol y brifddinas | |
| Sector y celfyddydau gweledol yng Nghaerdydd yn elwa drwy gynnyddu pa mor weladwy yw celf weledol yn y ddinas | |
| Adeiladu ar y Clwstwr Creadigol (1 o 22 ar y rhestr fer) ac yn cyfrannu at dwf yr economi creadigol (Caerdydd sydd ar y brig o'r 10 dinas greadigol uchaf) | |
| Sbarduno Amgueddfa Cymru i weithredu Uwchgynllun a gwneud penderfyniad ynghylch pa gasgliadau fydd yn aros yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | |
| Cael effaith economaidd gadarnhaol drwy'r gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardal leol, yn cynnwys creu swyddi, cyflogaeth adeiladu a gwario ychwanegol posibl gan ymwelwyr (gwariant aros noson o bosibl) | |
| **Cryfderau** | **Gwendidau (gweler y risgiau drosodd)** |
| Cynnal a chryfhau brand Amgueddfa Cymru | Mae'n rhoi'r holl fuddsoddiad yn Amgueddfa Cymru, ac nid yw eraill yn sector y celfyddydau gweledol yn elwa yn uniongyrchol |
| Posibilrwydd i ddenu ymwelwyr cenedlaethol a rhyngwladol i Gaerdydd | Cyfyngu ar fynediad democrataidd i'r casgliad, o ystyried y ffocws ar Gaerdydd |
| Posibilrwydd i gynyddu nifer ymwelwyr ac ehangu cynulleidfaoedd i safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | O bosibl yn cyfyngu ar y gronfa ymwelwyr o draws y ffin ac o Ogeldd Cymru |
| Tynnu ar adnoddau presennol (fel timau addysg), ar yr un pryd ag angen arbenigedd ychwanegol | |
| Darparu platfform ar gyfer casgliadau ac arddangosiadau traws-ddisgyblaethol, o ystyried y cyfoeth o gasgliadau amlddisgyblaethol yn safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | |
| Darparu mwy o fynediad i ragor o'r casgliadau celf gyfoes | |
| Pan fo Artes Mundi yn cael ei arddangos, sicrhau y gellir hefyd weld y casgliad parhaol o gelf gyfoes ar yr un pryd – gan ganiatáu mwy o ddeialog rhwng casgliadau, a mwy o fynediad i gynulleidfaoedd sy'n ymweld yn benodol ar gyfer yr Artes Mundi | |
| Gellid ei weld ochr yn ochr â modelau eraill | |
| Mae tystiolaeth sy'n bodoli o farchnad gynyddol yn y celfyddydau cyfoes ac ymweliadau tua 500,000 y flwyddyn yn awgrymu bod hwn yn gynnig cadarn | |
| Mae digon o fannau dros dro yn golygu bod modd dangos arddangosfeydd drwy'r amser er mwyn sicrhau na cheir unrhyw wythnosau tywyll | |


# Opsiwn 7: Estyniad

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Arwain at y farn nad oes digon o newid yn y sector | Tynnu ar ethos cydweithredol presennol timau curadu / casglu Amgueddfa Cymru i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr estyniad sy'n tynnu ar arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol cyfoes; Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn genedlaethol; Ystyried cyflwyno modelau eraill a nodwyd cyn adeiladu estyniad a'r rheiny'n canolbwyntio ar ddatblygu arddangosfeydd/ casgliadau cydweithredol uchelgeisiol ledled Cymru | 5 | 5 | 25 |
| Canoli ar Amgueddfa Cymru ac yn cyfyngu ar yr effaith ar Gymru gyfan | Sicrhau bod y rhaglen yn genedlaethol ei chwmpas – o ran sut y caiff ei datblygu a'i gweithredu; Olrhain llwyddiant yr estyniad a mesur ei effaith ar Gymru – e.e. ymchwil i dwristiaeth ddiwylliannol; ymwybyddiaeth o Gymru dramor, etc. Sicrhau bod yr estyniad yn driw i Gymru | 5 | 5 | 25 |
| Dod yn rhy gaeedig a chul – ddim bellach angen i Artes Mundi bartneru â lleoliadau eraill | Fel uchod, tynnu ar ethos cydweithredol presennol timau curadu/casglu Amgueddfa Cymru i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr estyniad sy'n tynnu ar arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol cyfoes; Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn genedlaethol | 3 | 5 | 15 |
| Angen cyllid refeniw sylweddol | Fel uchod, tynnu ar ethos cydweithredol presennol timau curadu/casglu Amgueddfa Cymru i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr estyniad sy'n tynnu ar arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol cyfoes; Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn genedlaethol | 3 | 5 | 15 |
| Dim cymeradwyaeth ac ymrwymiad gan y sector | Sicrhau bod tîm Amgueddfa Cymru yn diffinio eu cylch gwaith fel endid celf gyfoes cenedlaethol sy'n cynnwys galluogi, hwyluso a broceru sgyrsiau, rhannu casgliadau a rhwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol er budd pawb; Datblygu a chyfleu rhesymeg a meini prawf clir ar gyfer gweithredu'r model-estyniad; Rhannu llwyddiannau; Sicrhau bod staff Amgueddfa Cymru yn cael yr adnoddau i gyflawni model *cenedlaethol* ar y safle ac oddi arno. | 4 | 4 | 16 |

# Opsiwn 7: Estyniad

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Arwain at y farn nad oes digon o newid yn y sector | Tynnu ar ethos cydweithredol presennol timau curadu / casglu Amgueddfa Cymru i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr estyniad sy'n tynnu ar arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol cyfoes; Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn genedlaethol; Ystyried cyflwyno modelau eraill a nodwyd cyn adeiladu estyniad a'r rheiny'n canolbwyntio ar ddatblygu arddangosfeydd/ casgliadau cydweithredol uchelgeisiol ledled Cymru | 3 | 4 | 12 |
| Canoli ar Amgueddfa Cymru ac yn cyfyngu ar yr effaith ar Gymru gyfan | Sicrhau bod y rhaglen yn genedlaethol ei chwmpas – o ran sut y caiff ei datblygu a'i gweithredu; Olrhain llwyddiant yr estyniad a mesur ei effaith ar Gymru – e.e. ymchwil i dwristiaeth ddiwylliannol; ymwybyddiaeth o Gymru dramor, etc. Sicrhau bod yr estyniad yn driw i Gymru | 3 | 5 | 15 |
| Dod yn rhy gaeedig a chul – ddim bellach angen i Artes Mundi bartneru â lleoliadau eraill | Fel uchod, tynnu ar ethos cydweithredol presennol timau curadu/casglu Amgueddfa Cymru i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr estyniad sy'n tynnu ar arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol cyfoes; Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn genedlaethol | 2 | 4 | 8 |

# Opsiwn 7: Estyniad




Estyniad yn Tate St Ives, y Deyrnas Unedig



Hamburger Kunsthalle, Hamburg, yr Almaen



Fondazione Prada, Milan, Yr Eidal



Palais de Tokyo, Paris, Ffrainc


## "O'm rhan i, os ydym am wneud hyn, yna rhaid iddo fod yn eiconig i ddenu ymwelwyr, dim cyfaddawd." **Cyfarwyddwr Twristiaeth**

"Mae Cymru hefyd yn haeddu sefydliad creadigol/diwylliannol sy'n wirioneddol eiconig sy'n diffinio ac yn ailddiffinio ein lle yn y byd. Yn amlwg byddai hyn yn dechrau gyda'r cynnwys/y gelf ei hun."

**Cyfarwyddwr Twristiaeth**

"Mae adeilad yn hierarchaidd, yn ddelfryd gwrywaidd iawn. Mae'n fonolithig. Dewch ar daith atom."

**Athro [gwrywaidd]**



# Opsiwn 8: Allbost yn y Brif Ddinas

**Disgrifiad o'r model**
Yn chwaer-oriel i Amgueddfa Cymru, byddai'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol hon yn darparu digon o le i arddangos celf gyfoes uchelgeisiol yng Nghaerdydd.

Sefydlir anghenion pensaernïol y model hwn o'r *dechrau un* a datblygu canolfan sy'n gwbl addas *i'r pwrpas*. Yn y man newydd hwn byddai mannau storio ac arddangos casgliadau ac oriel gymunedol, oll yn bwrpasol, rhai yn barhaol ac eraill dros dro, a mannau i'r cyhoedd gan gynnwys mannau dysgu, bwyd a diod a manwerthu a chefn tŷ.

**Gofynion Cyfalaf**
Byddai adeilad newydd eiconig yn costio oddeutu £50m. Mae hyn yn rhagdybio £5,000 am bob metr sgwâr a thua arwynebedd llawr gros o 10,500m². Er hynny byddai'r gost cyfalaf gymaint â £7,000 am bob metr sgwâr o gael pensaer enwog, oddeutu £75.5 am rywbeth o'r un maint.

I gael adeilad mwy swyddogaethol yn costio oddeutu £4,000 am bob metr sgwâr, byddai'r gyllideb ragarweiniol tua £42m.

**Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Rheolaeth ganolog. Un arweinydd llawn gweledigaeth. Curaduron mewnol a gwadd;
- Prin yw'r potensial ar gyfer rhannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol. Fodd bynnag, gellid tynnu ar yr arbenigedd mewn celf a dylunio cyfoes a gyflogir eisoes yn Amgueddfa Cymru.

**Rhaglen ac Arddangosfa**
- Arddangosfa barhaol wedi'i gosod unwaith, gyda hyblygrwydd 5-10% ar gyfer cyfnewid blynyddol;
- Arddangosfa dros dro i'w gosod yn rheolaidd (3 fawr bob blwyddyn; 4-5 bach bob blwyddyn);
- O'r arddangosfeydd dros dro, 1-2 wedi'u cynllunio i fynd ar daith yn genedlaethol / rhyngwladol.

**Symudedd Casgliadau**
- Ychydig o logisteg yn fewnol a chostau yswiriant a chludiant isel o ran symud casgliadau (h.y. nid oes raid dadosod y casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro);
- Yn allanol, costau canolig yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

**Addysg ac Ymgysylltu**
- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle;
- Angen *mewngymorth* cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld. Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu. Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol.

**Cyfleoedd Masnachol**
- Angen staff llogi, arlwyo, manwerthu a digwyddiadau.

**Marchnata**
- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant. Yn enwedig, angen marchnata yn ardaloedd mawr trefol De Lloegr, megis Llundain, Bryste, Swindon a Chaerfaddon.

**Datblygiad**
- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol – ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Angenrheidiol mesur a meithrin y Cymry alltud. Mae potensial i sicrhau y bydd cynllun aelodaeth newydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau wrth greu cymdeithas aelodaeth;
- Mae potensial i ddatblygu achos clir dros gefnogaeth i'r sector corfforaethol o ystyried datblygu seilwaith uchel ei broffil mewn prifddinas.

**Cynnal a Chadw Adeiladau**
- Costau cyfleusterau, cynnal a chadw a diogelwch cyson a rhagweladwy yn unol â chyfartaleddau'r diwydiant.

**Partneriaid**
- Cyngor Caerdydd (nodi safle, cymorth â gweithredu, y broses gynllunio, integreiddio â'r seilwaith presennol, partneriaethau broceru, cyfraniad ariannol i gyfalaf a chymorth refeniw parhaus tebygol)
- Y Llywodraeth;
- Artes Mundi;
- Cyfleusterau cyfagos;
- Partneriaid diwylliannol ac addysgol lleol yng Nghaerdydd;
- Grwpiau cymunedol lleol;
- Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW);
- Addysg uwch;
- Caerdydd Greadigol/Prifysgol Caerdydd/ Clwstwr Creadigol;
- Y sector corfforaethol;
- Cymheiriaid rhyngwladol;
- Y BBC.

**Amserlen**
- 3 i 7 blynedd.

# Opsiwn 8: Allbost yn y Brif Ddinas

| **Gwerth Ychwanegol i Gymru** | |
|---|---|
| Ehangu arlwy twristiaeth ddiwylliannol y brifddinas | |
| Sector y celfyddydau gweledol yng Nghaerdydd yn elwa drwy gynyddu pa mor weladwy yw celf weledol yn y ddinas | |
| Adeiladu ar y Clwstwr Creadigol (1 o 22 ar y rhestr fer) ac yn cyfrannu at dwf yr economi creadigol (Caerdydd sydd ar y brig o'r 10 dinas greadigol uchaf ) | |
| Cyfrannu at Gynllun Economaidd Caerdydd | |
| Cael effaith economaidd gadarnhaol trwy gyfrwng gwariant y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardal leol, yn cynnwys creu swyddi, cyflogaeth adeiladu a gwario ychwanegol gan ymwelwyr | |
| **Cryfderau** | **Gwendidau (gweler y risgiau drosodd)** |
| Sicrhau adeilad addas i'r diben sydd â dyluniad o ansawdd uchel. Nid yw wedi'i gyfyngu gan seilwaith na safle presennol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | O bosibl yn cyfyngu ar yr effaith ar Gymru gyfan |
| Cynnig hunaniaeth newydd mewn ardal | Er y gallai o bosibl elwa o agoriad uchel ei broffil, gallai fod yn anodd cynnal cyllid, proffil a momentwm |
| Rhoi cyfle adfywio i ardal | Mae'n rhoi'r holl fuddsoddiad yn Amgueddfa Cymru, ac nid yw eraill yn sector y celfyddydau gweledol yn elwa yn uniongyrchol |
| Potensial i ddenu cynulleidfaoedd newydd yn dibynnu ar y lleoliad | |
| Canolbwyntio ar gelf weledol fodern a chyfoes, gan roi llwyfan newydd i'r ddisgyblaeth hon yn Amgueddfa Cymru a rhyddhau lle yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | |
| Cynnig cyfleoedd yn y wasg am y tymor byr | |
| Potensial i adfywio ardal o'i wneud yn gywir, yn strategol, yn gydlynus, yn garedig | |
| Mae digon o fannau dros dro yn golygu bod modd dangos arddangosfeydd drwy'r amser er mwyn sicrhau na cheir unrhyw wythnosau tywyll | |

# Opsiwn 8: Allbost yn y Brif Ddinas

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n creu mwy o gystadleuaeth i arlwy bresennol y celfyddydau gweledol a'r cynnig diwylliannol yng Nghymru, a Chaerdydd, a'r rhanbarth, yn benodol | Tynnu ar ethos cydweithredol presennol timau curadu/casglu Amgueddfa Cymru i ddatblygu cyd-weledigaeth ar gyfer yr estyniad sy'n tynnu ar arbenigedd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol cyfoes; Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn tynnu ar asedau diwylliannol/creadigol/sefydliadau AU sy'n bodoli eisoes yn rhanbarth Caerdydd (ac yn genedlaethol) | 5 | 5 | 25 |
| Crebachu'r cynnig craidd a llai yn ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (effaith Tate Modern/Tate Britain) | Datblygu cynllun clir ar gyfer cysylltu safleoedd trwy raglenni, arddangosfeydd, addysg a marchnata; Tynnu ar gasgliadau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i ddangos arddangosfeydd rhyngddisgyblaethol; Partneru â'r awdurdod lleol i sicrhau creu lleoedd a bod llwybrau i'r ddau leoliad (a'r cynnig ehangach yng Nghaerdydd) yn glir | 4 | 4 | 16 |
| Trafodaethau yn parhau am hir | Datblygu partneriaeth gydweithredol gyda'r holl randdeiliaid yn gynnar, gan fod yn dryloyw ynghylch rhwystrau, risgiau a heriau a ragwelir a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain ar y cyd; Ceisio deall uchelgeisiau'r datblygwyr a'r awdurdod lleol a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r model allbost, a pha agweddau ar uchelgeisiau'r allbost sy'n ffactorau nad oes trafod arnynt ac sy'n hollol angenrheidiol i lwyddiant. Ystyried ar y cyd sut y gellir cyflawni'r rhain. Sicrhau bod rhaglen glir oddi ar y safle wedi'i sefydlu, gan dynnu ar asedau diwylliannol a chymunedol ledled Caerdydd a'r rhanbarth; Sicrhau bod y llwyfannau hyn yn dal yn cael eu defnyddio ar ôl i'r allbost agor | 2 | 4 | 8 |
| Ystyrir nad oes arloesedd iddo - ond yn copïo pob oriel gelf weledol arall yn y byd | Sicrhau bod y dyluniad, creu lleoedd a'r cynnwys yn benodol i Gymru; sicrhau bod unrhyw gystadleuaeth bensaernïol yn canolbwyntio ar y dilysrwydd hwn a'r gofyniad bod yr oriel yn ysgogi ysbryd cenedlaethol a chydweithredol ac yn dryloyw ac agored yn ei dyluniad ffisegol | 4 | 4 | 16 |

## Opsiwn 8: Allbost yn y Brif Ddinas

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Methu ag arloesi neu ysgogi sector cyfan y celfyddydau gweledol | Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn genedlaethol; Recriwtio bwrdd/endid cenedlaethol o unigolion uchel eu proffil sydd â hanes o sbarduno newid allweddol yn y celfyddydau gweledol ac mewn unrhyw ddiwydiant arall. Ystyried cyflwyno modelau eraill a nodwyd cyn agor y ffocws hwnnw ar arddangosfeydd cydweithredol, uchelgeisiol / datblygu casgliadau ledled Cymru | 4 | 5 | 20 |
| Oedi posibl yn gallu effeithio ar ymweliadau i Amgueddfa Cymru | Sicrhau bod rhaglen glir oddi ar y safle wedi'i sefydlu, gan dynnu ar asedau diwylliannol a chymunedol ledled Caerdydd a'r rhanbarth; sicrhau bod y llwyfannau hyn yn dal yn cael eu defnyddio ar ôl i'r allbost agor | 3 | 4 | 12 |

# Opsiwn 8: Allbost yn y Brif Ddinas





V&A, Llundain
Cynigion ar gyfer V&A Dwyreiniol, theatr Sadler's Wells, Coleg Ffasiwn Llundain a Choleg Prifysgol Llundain ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth, Llundain





IMMA, Dulyn
Oriel Genedlaethol Iwerddon, Dulyn








Oriel Celf Fodern Genedlaethol yr Alban, Caeredin
Oriel Genedlaethol yr Alban, Caeredin
Oriel Portreadau Genedlaethol yr Alban, Caeredin




event

# Opsiwn 9: Allbost y tu allan i'r Brif Ddinas

"Mae yna deimlad cryf yn y Canolbarth a'r Gogledd fod popeth yn mynd i Gaerdydd. Mae cyfle yma i ystyried ateb i leoliad oriel genedlaethol sydd ychydig yn fwy datganoledig ac yn gallu ymgysylltu â chynulleidfaoedd canolbarth a gorllewin y wlad trwy gydweithio."

**Cyfarwyddwr Oriel**

"Byddem [twristiaid diwylliannol] yn fodlon mynd i unrhyw le os oes rhywbeth i'w weld. Os yw'n teimlo fel petaem yn mynd i Tate Modern, yn mynd i Baltig, os yw'n teimlo fel pe bai'n debyg i unrhyw nifer helaeth o hen fannau diwydiannol sy'n dod allan o'u darfodedigrwydd fel lle ciwb gwyn, yna byddem yn amharod i fynd yno. Mae'n batrwm cyffredin iawn. Nid yw pobl yn mynd i deithio i Gymru i weld rhyw Turner-Cyfoes arall o beth, sy'n dangos artistiaid rydych chi eisoes wedi eu gweld ym mhob man arall." **Beirniad**



# Opsiwn 9: Allbost y tu allan i'r Brif Ddinas

**Disgrifiad o'r model**
Yn chwaer-oriel i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, mae'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol hon yn darparu digon o le i arddangos celf gyfoes uchelgeisiol y tu allan i'r brifddinas.

Mae'n caniatáu sefydlu anghenion pensaernïol o'r *dechrau* un ac i fod yn hollol addas *i'r pwrpas*. Gellid ei leoli mewn ardal wledig neu drefol.

**Gofynion Cyfalaf**
Byddai adeilad newydd eiconig yn costio oddeutu £50m. Mae hyn yn rhagdybio £5,000 am bob metr sgwâr a thua arwynebedd llawr gros o $10,500^2$.

I gael adeilad mwy swyddogaethol yn costio oddeutu £4,000 am bob metr sgwâr byddai'r gyllideb ragarweiniol tua £42m.

**Elfennau Gweithredol**
**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Rheolaeth ganoledig ond gyda mwy o hyblygrwydd ac annibyniaeth. Un arweinydd llawn gweledigaeth. Curaduron mewnol a gwadd;
- Prin yw'r potensial ar gyfer rhannu cronfa adnoddau ledled ecoleg y celfyddydau gweledol. Fodd bynnag, gellid tynnu ar yr arbenigedd mewn celf a dylunio cyfoes a gyflogir eisoes yn Amgueddfa Cymru.

**Rhaglen ac Arddangosfa**
- Arddangosfa barhaol wedi'i gosod unwaith, gyda hyblygrwydd 5-10% ar gyfer cyfnewid blynyddol;
- Arddangosfa dros dro i'w gosod yn rheolaidd (3 fawr bob blwyddyn; 4-5 bach bob blwyddyn);
- O'r arddangosfeydd dros dro, 1 i 2 wedi'u cynllunio i fynd ar daith yn genedlaethol / rhyngwladol.

**Symudedd Casgliadau**
- Gofynion logistaidd sylweddol wrth sefydlu;
- Costau canolig parhaus yn gysylltiedig â symud casgliadau (h.y. nid oes raid dadosod y casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro, fodd bynnag rhaid cludo casgliad cenedlaethol y tu hwnt i Gaerdydd);
- Yn allanol, costau canolig yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

**Addysg ac Ymgysylltu**
- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle;
- Angen *mewngymorth* cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld. Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu. Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol.

**Cyfleoedd Masnachol**
- Angen staff llogi, arlwyo, manwerthu a digwyddiadau.

**Marchnata**
- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac ar dwristiaeth ryngwladol a'r diwydiant diwylliant.

**Datblygiad**
- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol - ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Angenrheidiol mesur a meithrin y Cymry alltud. Mae potensial i sicrhau y bydd cynllun aelodaeth newydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau wrth greu cymdeithas aelodaeth.

**Cynnal a Chadw Adeiladau**
- Costau cyfleusterau, cynnal a chadw a diogelwch cyson a rhagweladwy yn unol â chyfartaleddau'r diwydiant.

**Partneriaid**
- Awdurdod lleol (nodi safle, cymorth â gweithredu, y broses gynllunio, integreiddio â'r seilwaith presennol, partneriaethau broceru, cyfraniad ariannol i gyfalaf a chymorth refeniw parhaus tebygol);
- Y Llywodraeth;
- Artes Mundi;
- Cyfleusterau cyfagos;
- Partneriaid diwylliannol ac addysgol lleol;
- Grwpiau cymunedol lleol;
- Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW);
- Addysg uwch;
- Y sector corfforaethol;
- Cymheiriaid rhyngwladol.

**Amserlen**
- 3 i 7 blynedd.

# Opsiwn 9: Allbost y tu allan i'r Brif Ddinas

| Gwerth Ychwanegol i Gymru |
|---|
| Ymestyn arlwy twristiaeth ddiwylliannol, yn enwedig os yw wedi'i leoli ar Ffordd Cymru |
| Mynegi hyder yn y celfyddydau gweledol ac yn codi eu proffil yng Nghymru a thu hwnt |
| Lleddfu pryderon Caerdydd-ganolog ymysg sefydliadau a chynulleidfaoedd nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd |
| Catalydd posibl ar gyfer adfywio y tu allan i'r brifddinas |
| Cael effaith economaidd gadarnhaol trwy gyfrwng gwariant y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardal leol, yn cynnwys creu swyddi, cyflogaeth adeiladu a gwario ychwanegol gan ymwelwyr |

# Opsiwn 9: Allbost y tu allan i'r Brif Ddinas

| Cryfderau | Gwendidau (gweler y risgiau drosodd) |
|---|---|
| Sicrhau adeilad addas i'r diben sydd â dyluniad o ansawdd uchel. Nid yw wedi'i gyfyngu gan seilwaith na safle presennol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | O bosibl yn cyfyngu ar yr effaith ar Gymru gyfan |
| Cynnig hunaniaeth newydd mewn ardal | Er y gallai o bosibl elwa o agoriad uchel ei broffil, gallai fod yn anodd cynnal cyllid, proffil a momentwm |
| Potensial i ddenu cynulleidfaoedd newydd yn dibynnu ar y lleoliad | Mae'n rhoi'r holl fuddsoddiad yn Amgueddfa Cymru, ac nid yw eraill yn sector y celfyddydau gweledol yn elwa yn uniongyrchol |
| Canolbwyntio ar gelf weledol fodern a chyfoes, gan roi llwyfan newydd i'r ddisgyblaeth hon yn Amgueddfa Cymru a rhyddhau lle yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | |
| Cynnig cyfleoedd yn y wasg am y tymor byr | |

# Opsiwn 9: Allbost y tu allan i'r Brif Ddinas

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n creu mwy o gystadleuaeth i arlwy bresennol y celfyddydau gweledol a'r cynnig diwylliannol yng Nghymru | Tynnu ar ethos cydweithredol presennol timau curadu/casglu Amgueddfa Cymru i ddatblygu cyd-weledigaeth ar gyfer yr estyniad sy'n tynnu ar arbenigedd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau gweledol cyfoes; Nodi ffyrdd pendant y gallai'r sector gydgyflawni agweddau ar y rhaglen i sicrhau ei bod yn tynnu ar asedau diwylliannol/creadigol/ sefydliadau AU sy'n bodoli eisoes yn y rhanbarth dan sylw | 5 | 5 | 25 |
| Trafodaethau yn parhau am hir | Datblygu partneriaeth gydweithredol gyda'r holl randdeiliaid yn gynnar, gan fod yn dryloyw ynghylch rhwystrau, risgiau a heriau a ragwelir a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain ar y cyd; Ceisio deall uchelgeisiau'r datblygwyr a'r awdurdod lleol a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r model allbost, a pha agweddau ar uchelgeisiau'r allbost sy'n ffactorau nad oes trafod arnynt ac sy'n hollol angenrheidiol i lwyddiant. Ystyried ar y cyd sut y gellir cyflawni'r rhain. Sicrhau bod rhaglen glir oddi ar y safle wedi'i sefydlu, gan dynnu ar y diwylliant a'r gymuned; sicrhau bod y llwyfannau hyn yn dal i gael eu defnyddio'n greadigol ar ôl i'r oriel agor. | 2 | 4 | 8 |
| Ystyrir nad oes arloesedd iddo - ond yn copïo pob oriel gelf weledol arall yn y byd | Sicrhau bod y dyluniad, creu lleoedd a'r cynnwys yn benodol i Gymru; sicrhau bod unrhyw gystadleuaeth bensaernïol yn canolbwyntio ar y dilysrwydd hwn a'r gofyniad bod yr oriel yn ysgogi ysbryd cenedlaethol a chydweithredol ac yn dryloyw ac agored yn ei dyluniad ffisegol. Ystyried cyflwyno modelau eraill a nodwyd cyn mynd ati i agor y ffocws hwnnw ar arddangosfeydd cydweithredol, uchelgeisiol / datblygu casgliadau ledled Cymru. | 3 | 3 | 9 |

# Opsiwn 9: Allbost y tu allan i'r Brif Ddinas





Hauser & Wirth, Llundain, y Deyrnas Unedig
Hauser & Wirth, Somerset, y Deyrnas Unedig





Louvre, Paris, Ffrainc
Louvre Lens, Ffrainc





Newlyn Art Gallery, Newlyn, y Deyrnas Unedig
The Exchange, Penzance, y Deyrnas Unedig





The Getty Center, LA, yr UDA
The Getty Villa, Malibu, yr UDA

# Opsiwn 10: Cwch Gwenyn / Cydleoli

“Mae arnom angen model cymysg arloesol sydd â lle i gynhyrchu ynddo ochr yn ochr ag orielau traddodiadol – mae celf wedi symud ymlaen.”
**Cyllidwr**

“Credaf fod y cwch gwenyn yn fodel diddorol, rhywle lle ceir gweithgareddau sy’n cysylltu ac yn rhyngweithio mewn ffyrdd gwahanol.”
**Cyfarwyddwr Amgueddfa**

# Opsiwn 10: Cwch Gwenyn / Cydleoli

**Disgrifiad o'r model**
Byddai hwn yn lleoliad bywiog, cymysg ei ddefnydd, ac yn ganolbwynt creadigol, ac iddo sawl aelod cyswllt wedi'u cydleoli ar un safle. Byddai gan y partneriaid cyswllt yr un cyfleoedd i gydweithio a rhyngweithio ag i weithio'n annibynnol. Dyma adlewyrchiad o'r gadwyn gyflenwi ddiwylliannol o dan yr un to – o hyfforddiant a chynhyrchu i arddangos ac ymwneud diwylliannol.

Byddai'r cwch gwenyn yn curadu portffolio o sefydliadau tebyg neu sy'n ategu ei gilydd, yn cynnwys sefydliadau creadigol, stiwdios artistiaid a gwneuthurwyr, technoleg greadigol, entrepreneuriaid creadigol, mentrau cymdeithasol.

**Gofynion Cyfalaf**
Gallai hwn fod yn adeilad sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd), un wedi'i adnewyddu neu'n adeilad newydd.

Byddai'r gwariant cyfalaf yn amrywio o tua £25m ar gyfer adnewyddu safle presennol i gymaint â £80m ar gyfer datblygiad mawr cymysg ei ddefnydd.

**Elfennau Gweithredol**

**Arweinyddiaeth a'r Tîm**
- Rheolaeth ganolog ond y tenantiaid yn endidau sy'n rheoli eu hunain;
- Un arweinydd llawn gweledigaeth. Pobl greadigol a churaduron mewnol a gwadd;
- Cydlynydd profiadol (rheolwr y cwch gwenyn) yn gyfrifol am annog rhwydweithio, cyfnewid a phrosiectau ar y cyd;
- Platfform ar gyfer arwain agweddau, ymchwil a datblygu, cyfnewid gwybodaeth a datblygu sgiliau;
- Adnoddau, arbenigedd arbenigol a gwasanaethau cymorth cyffredinol (marchnata, codi arian, seilwaith) yn cael eu rhannu o fewn y cwch.

**Rhaglen ac Arddangosfa**
- Arddangosfa barhaol wedi'i gosod unwaith, gyda hyblygrwydd 5-10% ar gyfer cyfnewid blynyddol;
- Arddangosfa dros dro i'w gosod yn rheolaidd (3 fawr bob blwyddyn);
- O'r arddangosfeydd dros dro, 1 i 2 wedi'u cynllunio i fynd ar daith yn genedlaethol / rhyngwladol;
- Arddangosfeydd bychain dros dro wedi'u datblygu mewn cydlyniad â phartneriaid cysylltiedig a phartneriaid rhwydwaith. Byddai hyn yn cynnwys unedau creadigol, prifysgolion a mentrau cymdeithasol. Potensial ar gyfer 4 i 6 bach bob blwyddyn.

**Symudedd Casgliadau**
- Costau canolig parhaus yn gysylltiedig â symud casgliadau (h.y. nid oes raid dadosod y casgliad parhaol pan ddangosir arddangosfa dros dro, er hynny rhaid cludo'r casgliad cenedlaethol o fewn Caerdydd neu du hwnt);
- Yn allanol, costau canolig yn gysylltiedig â symud casgliadau. Costau yswiriant a chludiant canolig.

**Addysg ac Ymgysylltu**
- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar-lein ac ar safle;
- Angen *mewngymorth* cymunedol i ymestyn y cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rheiny sy'n ymweld. Cydguradu gyda grwpiau wedi'u targedu. Angen swyddogion ymgysylltu ffurfiol/anffurfiol;
- Cyfle i ysgol gelf fod wedi'i lleoli in situ ac i gydweithredu'n agos ag addysg uwch (megis yn yr Oriel Wyddoniaeth, Coleg y Drindod Dulyn);
- Cyfleoedd i gael artist preswyl.

**Cyfleoedd Masnachol**
- Angen staff llogi, arlwyo, manwerthu a digwyddiadau;
- Swyddog masnachol sy'n broceru perthynas â'r holl denantiaid.

**Marchnata**
- Pwyslais ar farchnata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Datblygiad**
- Strategaeth codi arian glasurol amrywiol - ymddiriedolaethau, sefydliadau, rhoddion unigol a nawdd corfforaethol;
- Y potensial i sbarduno a denu buddsoddwyr sydd â diddordeb mewn effaith gymdeithasol a menter greadigol, yn enwedig y rhai â chyfleoedd twf ar lefel sgiliau uchel;
- Angenrheidiol mesur a meithrin y Cymry alltud;
- Mae potensial i sicrhau y bydd cynllun aelodaeth newydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio arferion gorau wrth greu cymdeithas aelodaeth.

**Cynnal a chadw adeiladau**
- Costau cyfleusterau, cynnal a chadw a diogelwch cyson a rhagweladwy yn unol â chyfartaleddau'r diwydiant.

**Partneriaid**
- Awdurdod lleol (nodi safle, cymorth â gweithredu, y broses gynllunio, integreiddio â'r seilwaith presennol, partneriaethau broceru, cyfraniad ariannol i gyfalaf a chymorth refeniw parhaus tebygol);
- Llywodraeth Cymru;
- Artes Mundi;
- Cyfleusterau cyfagos;
- Partneriaid diwylliannol ac addysgol lleol;
- Grwpiau cymunedol lleol;
- Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW);
- Addysg uwch;
- Y sector corfforaethol;
- Cymheiriaid rhyngwladol;
- Mentrau cymdeithasol a chreadigol;
- Artistiaid;
- Busnesau sy'n dechrau;
- Orielau masnachol;
- Mannau manwerthu;
- Bwyd a diod.

**Amserlen**
- 3 i 7 blynedd

# Opsiwn 10: Cwch Gwenyn / Cydleoli

| Gwerth Ychwanegol i Gymru |
|---|
| Cynnig model anghonfensiynol i sefydliad cenedlaethol (mae modelau cydleoli yn gynyddol gyffredin, ond nid o reidrwydd o fewn sefydliadau treftadaeth) |
| Dangos meddwl ymlaen i'r dyfodol, cydnabyddiaeth o bŵer diwydiannau creadigol cydweithredol i roi hwb i'r economi |
| Adleisio addysg draws-ddisgyblaeth mewn ysgolion a phrifysgolion |
| Rhoi sylw a hwb i ecoleg y celfyddydau gweledol yng Nghymru (addysg, ysgolion celf, marchnad celf fasnachol, datblygiad proffesiynol curaduron ac artistiaid) |
| Y gadwyn gyflenwi ddiwylliannol oll i'w gweld o dan un to, felly gellir nodi'n glir elfennau arloesedd a bylchau mewn sgiliau |
| Cael effaith economaidd gadarnhaol trwy gyfrwng gwariant y gadwyn gyflenwi a gwariant a ysgogwyd yn yr ardal leol, yn cynnwys creu swyddi, cyflogaeth adeiladu a gwario ychwanegol gan ymwelwyr |
| Meithrin busnesau creadigol lleol a'u hannog i roi yn ôl i'r gymuned trwy fentora lleol, hyfforddi a chodi arian |
| |

# Opsiwn 10: Cwch Gwenyn / Cydleoli

| Cryfderau | Gwendidau (gweler y risgiau drosodd) |
|---|---|
| Annog cydweithio a chydweithredu rhwng yr holl denantiaid ac o ganlyniad mae cyfle i gael mwy o weithio a meddylfryd rhyngddisgyblaethol | Yr arlwy wedi'i ganoli mewn un safle |
| Y gadwyn gyflenwi ddiwylliannol gyfan i'w gweld o dan un to | Diffyg mynediad democrataidd i'r casgliadau ledled Cymru |
| Apelio at gynulleidfaoedd gan fod yma ymdeimlad 24/7 ac yn ychwanegu at fywiogrwydd yr ardal | Angen cael tenantiaid a chadw'r mannau wedi'u prydlesu yn barhaus |
| Posibilrwydd y gellir helpu ecoleg y celfyddydau (addysg, ysgol gelf, datblygiad gyrfa artistiaid, adeiladu casgliadau) | Creu ghetto diwylliant o dan un to |
| Adfywio safle presennol gan roi swyddogaethau ychwanegol iddo | |
| Galluogi cyfleoedd newydd, yn enwedig i artistiaid datblygol ac artistiaid canol eu gyrfa | |
| Cynnig cyfleoedd i greu incwm ar y cyd | |
| Cynnig cyfleoedd i rannu adnoddau, ac arbenigedd megis marchnata, codi arian, addysg, cadwraeth | |
| Darparu mannau hyblyg a all newid yn organig a deinamig dros amser | |

# Opsiwn 10: Cwch Gwenyn / Cydleoli

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Diffyg hunaniaeth glir | Datblygu gweledigaeth a nodi brand clir o'r cychwyn cyntaf; Defnyddio portffolio amrywiol o denantiaid fel ased; Ystyried y ffordd orau o wahaniaethu (a chyfathrebu'r gwahaniaeth hwnnw) rhwng y nifer anferth o leoedd cydleoli wedi'u hagor/yn agor – defnyddio ei rôl a'i safle fel lleoliad cenedlaethol – gan gynnwys digwyddiadau'r celfyddydau gweledol, perfformiadau, ac ati. | 1 | 4 | 4 |
| Gormod o agendâu gwahanol yn gallu arwain at anallu i wneud penderfyniadau clir | Sicrhau cael arweinydd creadigol cydweithredol; Ystyried sut mae agendâu gwahanol yn ased, a pha elfennau o'r agenda y mae'n rhaid eu rhannu er mwyn llwyddo. | 2 | 4 | 8 |
| Ddim yn genedlaethol | Sicrhau bod y dyluniad, creu lleoedd a'r cynnwys yn benodol i Gymru; sicrhau bod unrhyw gystadleuaeth bensaernïol ar gyfer man newydd yn canolbwyntio ar y dilysrwydd hwn a'r gofyniad bod yr oriel yn ysgogi ysbryd cenedlaethol, cydweithredol; ystyried sut y gellir cyflwyno elfennau'r cwch gwenyn i leoliadau eraill – oddi ar y safle/masnachfraint/symposia/partneriaethau – a sut y gallent gysylltu'n ôl i mewn i'r cwch gwenyn canolog, ac yn hollbwysig – sut mae'r cwch gwenyn canolog yn cysylltu allan. Ystyried partneriaethau rhyngwladol â sefydliadau tebyg o safon fyd-eang (e.e. Somerset House) a sut y gall sefydliadau o'r fath gysylltu â'i gilydd. | 4 | 4 | 16 |
| Gormod o leoedd nad ydynt yn rhentu'n gyflym | Sicrhau cynnig deniadol i'r holl bartneriaid; Sicrhau bod cytundebau prydles wedi'u trefnu yn gynnar yn y broses ddatblygu; Nodi cyfansoddiad delfrydol o bortffolio'r celfyddydau gweledol a'r celfyddydau anweledol (e.e. cwmnïau bychain, mentrau cymdeithasol, cwmnïau technoleg) | 3 | 5 | 15 |

# Opsiwn 10: Cwch Gwenyn / Cydleoli






Toronto Distillery, Toronto, Canada
Snape Maltings, Aldeburgh, y Deyrnas Unedig
The Alliance Centre, Denver, yr UDA





Andreas Hudelmayer, Maker Studio, Peckham Levels, y Deyrnas Unedig
Man bwyd a diod, Peckham Levels
Oriel Gwyddoniaeth, Coleg y Drindod Dulyn, Iwerddon





Winzavod, Moscow, Rwsia






Chapter, Caerdydd
Gallery, Chapter, Caerdydd
Somerset House Exchange






Strelka, Moscow, Rwsia

# Opsiwn 11: Uno

"Fwyfwy, rydyn ni oll yn mynd i oroesi trwy gydweithio."

**Cyfarwyddwr Oriel**

# Opsiwn 11: Uno

**Disgrifiad o'r model**
Efallai y bydd cyfle i ddau neu ragor o sefydliadau gymharol gyfartal sy'n cydategu ei gilydd ac sy'n gweithredu yn y sector celfyddydau diwylliannol a gweledol fynd ati'n ffurfiol i uno (yn hytrach na dim ond mynd i bartneriaeth) er mwyn creu endid cenedlaethol i gelf gyfoes ar y cyd.

Mae'r model hwn felly wedi'i nodweddu orau fel *opsiwn gweithredu* y gellid ei ystyried yn y cam nesaf. Mae'n werth ystyried yma o gofio y codir uno yn y sector diwylliannol (fel ym mhob sector) yn aml fel opsiwn, yn enwedig ar adegau pan fo adnoddau yn brin neu wedi'u cyfyngu, ond nid ydynt wedi'u diogelu rhag methu (fel y dangoswyd gan Bale'r Alban ac Opera Cenedlaethol yr Alban 1999-2000).

**Gofynion o ran Cyfalaf**
Mae hyn yn ddibynnol iawn ar weithrediadau'r sefydliadau sy'n uno. O'i gadw mewn adeilad gallai hwn fod yn safle presennol, wedi'i adnewyddu, yn estyniad neu'n adeilad newydd.Byddai'r gwariant cyfalaf yn amrywio o tua £25m ar gyfer adnewyddu safle presennol i gymaint â £80m ar gyfer datblygiad mawr cymysg ei ddefnydd.

**Elfennau Gweithredol**
Byddai'r rhain yn benodol ac yn dibynnu ar y sefydliadau sy'n uno.

**Amserlen**
- 3 i 7 blynedd

| Gwerth Ychwanegol i Gymru |
|---|
| I'w bennu |

| Cryfderau | Gwendidau (gweler y risgiau drosodd) |
|---|---|
| Posibilrwydd i wella gwerth cyfranddalwyr hirdymor a pherfformiad cyffredinol y cwmni | Colli posibl ar hunaniaeth a threftadaeth |
| Darparu adnoddau, asedau a galluoedd i'w rhannu sy'n arwain at gostau llai, yn ogystal â chyfuno setiau sgiliau | Diswyddiadau staff posibl |
| Cynnig cyfleoedd adnewyddu brandio | Gwanhau brand |
| Posibilrwydd i feithrin/cyfuno cynulleidfaoedd | Posibilrwydd o gweryla mewnol |
| Cyfyngu ar y gystadleuaeth am gyllid, talent a chynulleidfaoedd | Diffyg cyfatebiaeth mewn cynulleidfaoedd |
| Cynyddu cyfleoedd yn y wasg | Angen posibl i gyfaddawdu |
| Cynyddu'r gronfa llywodraethu | Blinder sefydliadol yn bosibl |
| Byddai modd i'r arbedion cefn ystafell (er enghraifft, cwtogi ar farchnata, cost deunyddiau) a grëwyd trwy'r uno gael eu hailfuddsoddi mewn mannau eraill | |
| Byddai gan uno a symud i ofod pwrpasol y potensial i roi hwb i enw da cwmni yn genedlaethol a rhyngwladol | |
| Mae gan nifer o sefydliadau sefydledig y potensial i fod yn fagnet i arferion creadigol eraill ac entrepreneuriaid | |



event

# Opsiwn 11: Uno

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Colli rhanddeiliaid neu gynulleidfaoedd ffyddlon | Cynnal ymarfer mapio cynulleidfa a rhanddeiliaid ar y dechrau un; nodi gorgyffwrdd rhwng sefydliadau; datblygu strategaeth gyfathrebu bwrpasol ar gyfer pob grŵp rhanddeiliad; nodi ffyrdd y gall cynulleidfaoedd ymuno â'r daith uno | 5 | 5 | 25 |
| Methu, a chryn adnoddau, egni a syniadau wedi'u buddsoddi mewn uno nad yw byth yn cael ei wireddu'n llwyddiannus | Sicrhau gonestrwydd ac eglurder mewn trafodaethau cynnar ynghylch uno - beth yw'r risgiau, a sut y bydd y rhain yn cael eu lliniaru; pa adnoddau sydd eu hangen a sut y bydd angen ailstrwythuro'r sefydliad; a mynd ati'n gadarnhaol i ddatblygu gweledigaeth yn deillio o'r uno sy'n tynnu ar gryfderau'r ddau sefydliad. Adolygu'r asesiad risg yn rheolaidd fel tîm | 4 | 5 | 20 |
| Lleihau effaith sefydliadau unigol | Nodi pa agweddau ar effaith sefydliad sy'n hanfodol i'w cadw ac ystyried sut i adeiladu'r rhain yn y strategaeth | 3 | 4 | 12 |
| Gor-ymestyn adnoddau | Sicrhau bod y model busnes yn bragmatig ac yn nodi'n glir yr adnoddau angenrheidiol; profi'r model busnes ar gamau dichonoldeb i sicrhau ei fod yn gadarn | 3 | 5 | 15 |

# Opsiwn 11: Uno





HOME, Manceinion, y Deyrnas Unedig





MAS, Antwerp, Gwlad Belg





Amgueddfa Gelf Milwaukee, yr UDA




Jeu de Paume, Ffrainc

# Opsiwn 12: Gwneud Dim Byd

“Rwy’n bryderus nad dyma’r amser cywir. Gallai presenoldeb ffisegol newydd mewn ecosystem fregus fod yn ddinistriol. Mae yna gymaint o weithgarwch deinamig yng Nghymru eisoes, pam adeiladu rhywbeth newydd?”
**Cyfarwyddwr Amgueddfa**

“Mae’r agenda gyfalaf i’r llywodraeth yn eithaf llawn ar hyn o bryd.” **Cyllidwr**

# Opsiwn 12: Gwneud Dim Byd

**Disgrifiad o'r model**
Mae Amgueddfa Cymru a sector y celfyddydau gweledol yn parhau yn ôl eu harfer heb unrhyw fuddsoddiad na datblygiad pellach ar endid cenedlaethol i'r celfyddydau cyfoes ar yr adeg hon.

Nid yw hyn i ddweud na ellid cymryd camau eraill. Yn lle hynny, mae'n amau ai nawr yw'r adeg iawn ar gyfer endid cenedlaethol newydd, o ystyried y cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael a'r toriadau i gyllid a'r amgylchedd gwleidyddol.

# Opsiwn 12: Gwneud Dim Byd

| Gwerth Ychwanegol i Gymru |
| --- |
| Mae'n rhoi cyfle i gyrff rhanddeiliaid egluro eu rôl, eu huchelgeisiau a'u cysylltiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol |

| Cryfderau | Gwendidau |
| --- | --- |
| Mae'n cynnig cyfle i sector y celfyddydau gweledol ystyried rôl eiriolaeth fwy strategol (e.e. drwy Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru [VAGW]) ac i fynd ati'n rhagweithiol i nodi a mynd i'r afael ag anghenion ac uchelgeisiau cyfunol y sector (er enghraifft, trwy ymchwil cynulleidfa) | Colli cyfleoedd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid, curaduron a chynulleidfaoedd |
| Gellid rhoi adnoddau ariannol ychwanegol a ddyranwyd ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb tuag at gryfhau ymhellach ac/neu hyrwyddo ecosystem y celfyddydau gweledol sy'n bodoli eisoes | Gwaethygu ymhellach ar y syrffedu ar ymgynghori. Pe byddai'r broses ymgynghori bedwar mis yn arwain at ychydig iawn o weithredu, byddai'n cadarnhau'r agweddau sy'n bodoli eisoes |
| Rhoi cyfle o'r newydd i ganolbwyntio ar gysylltiadau strategol allweddol, rhwng sefydliadau megis Croeso Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a MALD | Cyfle wedi'i golli i neidio dros y tueddiadau i fuddsoddi mewn seilwaith diwylliannol ledled y byd a chael profiad newydd uchelgeisiol a gwirioneddol i Gymru |
| Nid yw'n cyflwyno unrhyw fygythiad i ansefydlogi'r arlwy bresennol (o leiaf nid o ganlyniad uniongyrchol i Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol) | Yn methu mynd ati gyda'i gilydd i lunio marchnata twristiaeth ddiwylliannol |
| Osgoi methiant | Colli arian dynodedig. Nid yw wedi'i glustnodi ar gyfer y celfyddydau gweledol a bydd yn cael ei ailddyrannu |
| Rhoi cyfle i gynyddu cyllid posibl gan y llywodraeth | |
| Rhoi cyfle i adolygu'r gronfa casgliadau a blaenoriaethau casglu | |
| Rhoi cyfle i adolygu a chryfhau partneriaethau rhwng sefydliadau | |

# Opsiwn 12: Gwneud Dim Byd

| Risgiau | Lliniaru | Tebygolrwydd ohono'n digwydd (1=isel, 5=uchel) | Effaith pe digwyddai (1=isel, 5=uchel) | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|
| Y celfyddydau gweledol wedi'u dadsefydlogi ymhellach – yn enwedig drwy syrffedu ar ymgynghori | Nodi canlyniadau'r broses ymgynghori hon y gellir eu defnyddio i ddatblygu'r sector; Annog MALD, Cyngor y Celfyddydau, Amgueddfa Cymru, Croeso Cymru, Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru (VAGW) ac eraill y tu allan i'r endidau hynny i ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion o'r astudiaeth hon a gweld beth ellir ei roi ar waith i fynd i'r afael â heriau'r sector.<br><br>Sicrhau bod canfyddiadau astudiaethau yn cael eu rhannu gyda'r sector, ac yn enwedig y rheiny sydd wedi rhoi eu hamser a'u gwybodaeth i'r broses ymgynghori – i'w galluogi i nodi sut y gallai eu strategaethau eu hunain fynd i'r afael neu adeiladu ymhellach ar yr uchelgais a rennir a nodwyd yn y broses. | 4 | 5 | 20 |
| Colli cyfle cyllido | Annog y sector i baratoi cynnig ar gyfer sut y gellid mynd ati'n arloesol i ailddyrannu unrhyw arian a neilltuwyd ar gyfer endid cenedlaethol heb gyflawni Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol | 5 | 5 | 25 |

# Opsiynau: Costau Cyfalaf Dangosol

| **Math o adeilad** | **Mannau Cyhoeddus nid casgliadau (MCNC) (m²)** | | | | | **Mannau Cyhoeddus: casgliadau (MCC) (m²)** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Allanol | Mynedfa | Mannau cymdeithasol | Mwynderau | Dysgu | Parhaol | Dros dro | Cymuned |
| **Adeilad newydd eiconig** | 800 | 600 | 400 | 220 | 480 | 2000 | 1200 | 500 |
| ***Pensaer enwog*** | **Cyfanswm MCNC: 2500** | | | | | **Cyfanswm MCC: 3700** | | |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 2500** | | | | | **Cyfanswm MCC: 3700** | | |
| ***Adeilad swyddogaethol*** | **Cyfanswm MCNC: 2500** | | | | | **Cyfanswm MCC: 3700** | | |
| **Estyniad newydd – safle Parc Cathays** | 300 | 200 | 200 | 120 | 120 | 1200 | 1200 | 100 |
| ***Adeilad swyddogaethol*** | **Cyfanswm MCNC: 940** | | | | | **Cyfanswm MCC: 2500** | | |
| **Estyniad mawr newydd - Safle ar wasgar** | 300 | 200 | 200 | 100 | 120 | 0 | 1200 | 100 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 920** | | | | | **Cyfanswm MCC: 1300** | | |
| **Estyniad canolig newydd - Safle ar wasgar** | 200 | 200 | 60 | 60 | 80 | | 800 | |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 600** | | | | | **Cyfanswm MCC: 800** | | |
| **Estyniad bach newydd - Safle ar wasgar** | 200 | 100 | 60 | 60 | 60 | 0 | 300 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 480** | | | | | **Cyfanswm MCC: 300** | | |
| **Adnewyddu mawr- Safle ar wasgar** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1200 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 0** | | | | | **Cyfanswm MCC: 1200** | | |
| **Adnewyddu canolig - Safle ar wasgar** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 800 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 0** | | | | | **Cyfanswm MCC: 800** | | |
| **Adnewyddu bach - Safle ar wasgar** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 0** | | | | | **Cyfanswm MCC: 300** | | |
| **Strwythur mawr symudol dros dro** | 40 | 40 | 40 | 20 | 60 | 0 | 300 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 200** | | | | | **Cyfanswm MCC: 300** | | |
| **Strwythur bach symudol dros dro** | 40 | 25 | | 20 | | 0 | 200 | 0 |
| ***Canol yr amrediad*** | **Cyfanswm MCNC: 85** | | | | | **Cyfanswm MCC: 200** | | |

Ffigwr 54: Costau cyfalaf rhagarweiniol ar gyfer oriel gelf gyfoes yn seiliedig ar gyfraddau cyfredol fesul metr sgwâr (yn unol â meincnodau rhyngwladol).

# Opsiynau: Costau Cyfalaf Dangosol

| **Mannau Ddim yn Gyhoeddus: casgliadau (MDCC) ($m^2$)** | | | | **Mannau Ddim yn Gyhoeddus: nid casgliadau (MDCNC) ($m^2$)** | | | | **Cyfanswm arwynebedd llawr net ($m^2$)** | **5%** | **GFA Total** | **Cost pm2 (£)** | **Preliminary Budget (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Storio casgliadau | Cadwraeth | Storfa arddangosfeydd | Tramwy | Swyddfeydd | Technegol | Ceginau / Siop manwerthu etc. | Cyfarpar | | | | | |
| 1000 | 250 | 300 | 250 | 200 | 300 | 300 | 1200 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 1800** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 2000** | | | | 10000 | 500 | 10500 | £7,000 | **£73,500,000** |
| **Cyfanswm MDCC: 1800** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 2000** | | | | 10000 | 500 | 10500 | £5,000 | **£52,500,000** |
| **Cyfanswm MDCC: 1800** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 2000** | | | | 10000 | 500 | 10500 | £4,000 | **£42,000,000** |
| 0 | 0 | 400 | 250 | 150 | 100 | 200 | 600 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 650** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 1050** | | | | 5140 | 257 | 5397 | £4,500 | **£24,286,500** |
| 300 | 0 | 400 | 250 | 80 | 100 | 200 | 450 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 950** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 830** | | | | 4000 | 200 | 4200 | £4,000 | **£16,800,000** |
| 200 | 0 | 200 | 200 | 40 | 60 | 80 | 300 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 600** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 480** | | | | 2480 | 124 | 2604 | £4,000 | **£10,416,000** |
| 100 | 0 | 100 | 100 | 20 | 40 | 40 | 200 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 300** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 300** | | | | 1380 | 69 | 1449 | £4,000 | **£5,796,000** |
| 0 | 0 | 400 | 0 | 10 | 30 | 0 | 20 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 400** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 60** | | | | 1660 | 83 | 1743 | £4,000 | **£6,972,000** |
| 0 | 0 | 200 | 0 | 10 | 30 | 0 | 20 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 200** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 60** | | | | 1060 | 53 | 1113 | £4,000 | **£4,452,000** |
| 0 | 0 | 100 | 0 | 10 | 30 | 0 | 20 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 100** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 60** | | | | 460 | 23 | 483 | £4,000 | **£1,932,000** |
| 0 | 0 | 40 | 0 | 10 | 10 | 40 | 20 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 40** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 80** | | | | 620 | 31 | 651 | £3,500 | **£2,278,500** |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 0 | 20 | | | | | |
| **Cyfanswm MDCC: 0** | | | | **Cyfanswm MDCNC: 40** | | | | 325 | 0 | 325 | £3,000 | **£975,000** |

Palais de Tokyo, Paris
Ffynhonnell: Event, Rhagfyr 2017

# Atodiad 7: Enghreifftiau o Weledigaethau a Chenadaethau



# Atodiad 7: Enghreifftiau o Weledigaethau a Chenadaethau

| Sefydliad celfyddydol | Disgrifiad | Gweledigaeth | Cenhadaeth |
|---|---|---|---|
| **Orielau Cenedlaethol (Hanesyddol, Modern a Chyfoes)** | | | |
| Amgueddfa Cymru - National Museum Wales | Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i gefnogi democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol, ac mae bellach yn arweinydd cydnabyddedig yn y sector amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig wrth gydgynhyrchu ac ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector ac elusennau ar lefel y stryd. Mae wedi bod yn amgueddfa genedlaethol sydd â sawl safle dan frand Amgueddfa Cymru ers 1948 pan agorwyd Sain Ffagan yn Amgueddfa Werin Cymru. Mae'r saith amgueddfa yn y grŵp yn cynnig safbwyntiau lluosog ar gelfyddyd, dylunio, technoleg, gwyddorau naturiol a hanes Cymru trwy'r amgueddfeydd diwydiannol ym Mlaenafon, Abertawe, Drefach-Felindre a Llanberis, yn ogystal â Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerllion. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Amgueddfa wedi datblygu rhaglenni cyfnewid arddangosfeydd teithiol rhyngwladol gyda Tsieina a Japan yn ogystal â'r Unol Daleithiau, ac mae wrthi'n meithrin cysylltiadau proffesiynol cryf yn seiliedig ar gyd-ymrwymiad i egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol gydag amgueddfeydd yn Iwerddon, America Ladin ac Ewrop. Mae'r Amgueddfa hefyd yn lletya arddangosfa a gwobr eilflwydd yr Artes Mundi. | Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau | Yn 2015, datblygodd Amgueddfa Cymru Weledigaeth newydd a phellgyrhaeddol: i fod yn sefydliad sy'n Ysbrydoli pobl, yn Newid bywydau. Mae'r Weledigaeth hon yn adlewyrchu dyhead i wreiddio'n gwaith yn nhraddodiadau diwylliannol a deallusol Cymru ac i ddatblygu patrwm newydd ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol ledled y byd.<br><br>Ein pwrpas er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon yw ysbrydoli pobl trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau i ganfod ymdeimlad o hunaniaeth a lles, ac i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog, a deall lle Cymru yn y byd. |
| Tate, Lloegr | Ailddyfeisiodd Tate y syniad bod oriel i fod yn un sefydliad a'i droi'n gasgliad brand o brofiadau – cyfres o gyrchfannau sy'n denu cynulleidfaoedd a democrateiddio diwylliant. Mae'n gartref i gasgliad cenedlaethol celf Prydain, a chelf gyfoes a modern rhyngwladol. Mae'n rhwydwaith o bedair oriel gelf: Tate Britain,Tate Lerpwl, Tate St Ives a Tate Modern, a gwefan ategol, Tate Online. | Mae Tate yn hyrwyddo celf a'i gwerth i gymdeithas. Cred y gall dealltwriaeth o'r gweledol gyfoethogi ein holl fywydau a bod artistiaid yn gwneud cyfraniad arbennig i'r gymuned. Felly, mae gan Tate yr uchelgais i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o arwyddocâd y gweledol mewn bywyd cyfoes a sut mae artistiaid yn ein helpu i weld a dehongli'r byd. | Cynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o gelf Prydain o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd heddiw a chelf fodern a chyfoes ryngwladol. |

# Atodiad 7: Enghreifftiau o Weledigaethau a Chenadaethau

| Sefydliad celfyddydol | Disgrifiad | Gweledigaeth | Cenhadaeth |
|---|---|---|---|
| National Theatre Wales, Cymru | Crëwyd NTW yn 2008, ac mae'n fudiad hyblyg nad yw'n seiliedig ar adeilad sy'n cynnig cynyrchiadau theatrig dychmygus, yn hwyluso ysbryd o gydweithredu, yn codi proffil rhyngwladol y gwaith gorau a grëir yng Nghymru, yn meithrin talent ac yn adlewyrchu ac yn sylwi ar ddiwylliant a chymdeithas Cymru, yn y gorffennol a'r presennol. Ei nod yw cysylltu â chynulleidfaoedd Cymru a sicrhau bod theatr o'r radd flaenaf yn fwy hygyrch, yn enwedig i'r rheiny nad ydynt yn mynychu theatr y brif ffrwd. | Creu profiadau rhyfeddol: ar gyfer Cymru a'r byd | "Cymru y wlad yw ein llwyfan: o fforestydd i draethau, o awyrendai i drefi ôl-ddiwydiannol, o neuaddau pentref i glybiau nos. Rydym yn dod â beirdd sy'n adrodd straeon, gweledyddion gweledol a dyfeiswyr syniadau ynghyd. Rydym yn cydweithio gydag artistiaid, cynulleidfaoedd, cymunedau a chwmnïau i greu theatr yn Saesneg, wedi'i gwreiddio yng Nghymru, gydag apêl ryngwladol. Fe welwch ni rownd y gornel, ar draws y mynydd ac yn eich iard gefn ddigidol." Rydym yn ystyried mai ein cyfrifoldeb ni, fel cwmni cenedlaethol, yw helpu meithrin artistiaid, cwmnïau bychain a'r sector creadigol yng Nghymru; i osod Cymru ar flaen y gad o ran creadigrwydd digidol; i lobïo cyllidwyr i fuddsoddi yn y sector diwylliannol a chreadigol yng Nghymru; ac i ddod o hyd i ffyrdd newydd o annog creadigrwydd ymhlith pobl ifanc ac mewn ardaloedd o anfantais economaidd a chymdeithasol. |
| Oriel Genedlaethol yr Alban, Oriel Portreadau Genedlaethol yr Alban, Oriel Celf Fodern Genedlaethol yr Alban, yr Alban | Mae'r NGS yn cynnwys tair oriel yng Nghaeredin a dwy oriel bartner yng Ngogledd a De yr Alban (Paxton House a Duff House). Mae'r NGS yn gofalu am un o gasgliadau gorau'r byd o gelf y Gorllewin yn amrywio o'r Oesoedd Canol hyd heddiw. Mae'r daliadau hyn yn cynnwys casgliad cenedlaethol celf yr Alban sy'n cael ei arddangos mewn cyd-destun rhyngwladol. | Yr NGS i fod yn bwerdy i gelf: yn gynhwysol, yn wreiddiol ac yn uchelgeisiol, gan sicrhau bod y casgliad yn hygyrch i bawb ac yn ysbrydoli chwilfrydedd ledled y byd. | Sicrhau bod gan y cyhoedd y mynediad mwyaf posibl i'r celfyddydau gweledol; ein bod yn addysgu ac yn ysbrydoli'r cyhoedd; a'n bod yn hyrwyddo enw da rhyngwladol yr Alban am gelf a diwylliant, yn ansawdd ein casgliadau yn ogystal â chryfder a dyfnder ein cymuned gelf. Rydym yn gofalu, cadw ac yn ychwanegu at y gwrthrychau yn ein casgliadau; sicrhau bod y gwrthrychau yn cael eu harddangos i'r cyhoedd; sicrhau bod y gwrthrychau ar gael i bobl sydd am eu hastudio mewn cysylltiad ag astudiaeth neu ymchwil; ac yn gyffredinol i hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Celfyddydau Cain; at y dibenion hynny i ddarparu addysg, cyfarwyddyd a chyngor ac i gynnal ymchwil. |
| Yr Oriel Genedlaethol, Llundain | Wedi'i sefydlu yn 1824, mae'r Oriel Genedlaethol yn cadw casgliad parhaol o dros 2,300 o luniau sy'n dyddio o ganol y 13eg ganrif hyd at 1900 a'r rheiny'n adrodd stori gydlynol am ddatblygiad celf gorllewin Ewrop. | Sefydlu rôl ganolog ar gyfer hen baentiadau'r meistri mewn bywyd diwylliannol modern. | Diogelu'r casgliad trwy gynnal y safonau gofal a chadwraeth uchaf, gwella'r casgliad trwy gaffael darluniau gwych a'u harddangos mewn modd sensitif ar gyfer mwynhad a dealltwriaeth y cyhoedd |
| Oriel Genedlaethol Iwerddon, Dulyn, Iwerddon | Mae'r oriel yn gartref i gasgliad cenedlaethol celf Gwyddelig ac Ewropeaidd. Mae gan yr Oriel gasgliad helaeth a chynrychioliadol o baentiadau Gwyddelig. | Profiad rhagorol sy'n ennyn diddordeb a gwerthfawrogiad pawb mewn celf | Dehongli, datblygu, arddangos a gofalu am gelf mewn ffordd sy'n gwneud Oriel Genedlaethol Iwerddon yn lle cyffrous i ddod wyneb yn wyneb â chelf. |

# Atodiad 7: Enghreifftiau o Weledigaethau a Chenadaethau

| Sefydliad celfyddydol | Disgrifiad | Gweledigaeth | Cenhadaeth |
|---|---|---|---|
| Amgueddfa Celf Fodern Iwerddon, Dulyn, Iwerddon | IMMA yw Sefydliad Diwylliannol Cenedlaethol Iwerddon ar gyfer Celf Gyfoes. Mae'n gartref i Gasgliad Cenedlaethol Celf Fodern a Chyfoes Gwyddelig a Rhyngwladol, a bellach yn cynnwys dros 3,500 gwaith celf. Mae'r rhaglen yn cynnwys arddangosfeydd, comisiynau a phrosiectau gan artistiaid blaenllaw Gwyddelig a rhyngwladol, yn ogystal â rhaglen ymgysylltu a dysgu sy'n rhoi cyfle i gynulleidfaoedd o bob oedran gysylltu â chelf gyfoes a datgloi eu creadigrwydd. | Heb ei nodi | Re-connect audiences and art, providing an extraordinary space in Ireland where contemporary life and contemporary art connect, challenge and inspire on another. IMMA shares, develops and conserves the Irish National Collection of Modern and Contemporary Art for now for the future. |
| Museo Reina Sofía, Madrid, Sbaen | Mae'r amgueddfa yn cynnwys gwahanol leoliadau, gwahanol brofiadau a chynulleidfaoedd. Mae'n arbenigo yn y gorau o fyd celf Sbaen a chyniga gymysgedd o arddangosfeydd dros dro cenedlaethol a rhyngwladol yn ei nifer o orielau, gan ei gwneud yn un o amgueddfeydd mwyaf y byd ar gyfer celf fodern a chyfoes. | Darparu cydchwilio gyda ffurfiau di-fertigol ac anawdurdodol o weithredu diwylliannol, gan hwyluso llwyfannau ar gyfer gwelededd a thrafodaeth gyhoeddus. | Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ailddiffinio swyddogaeth amgueddfeydd.... Mae'r amgueddfa yn lle ar gyfer dadl ac ymchwilio. Fe'i hystyrir yn lle sy'n creu cyfleoedd i gymdeithasu a thrafod yn gyhoeddus. |
| Oriel Genedlaethol Celf, Washington, yr UDA | Diogelu, casglu, arddangos, meithrin dealltwriaeth | Atgoffa pobl drwy wrthrychau diriaethol o bŵer yr ysbryd dynol a harddwch mynegiant artistig. | Cenhadaeth yr Oriel Gelf Genedlaethol yw gwasanaethu Unol Daleithiau America mewn rôl genedlaethol trwy ddiogelu, casglu, arddangos a meithrin dealltwriaeth o waith celf i'r safonau amgueddfa ac ysgolheigaidd uchaf posibl. |
| Oriel Genedlaethol Victoria, Melbourne, Awstralia | Amgueddfa gelf hynaf, mwyaf ei maint a mwyaf poblogaidd Awstralia, sy'n gartref i gasgliad celf gynhwysfawr ar draws dau safle. | Fel sefydliad diwylliannol blaenllaw Victoria a chartref casgliad celf gorau Awstralia, caiff Oriel Gelf Victoria ei chydnabod fel un o brif amgueddfeydd celf y byd. | Goleuo bywyd trwy gasglu, gwarchod a chyflwyno celf wych. |
| Oriel Genedlaethol Awstralia | | Ysbrydoliaeth i bobl Awstralia | Datblygu a chynnal casgliad cenedlaethol o weithiau celf; arddangos, neu wneud ar gael i'w harddangos gan eraill, gwaith celf o'r casgliad cenedlaethol neu'r gweithiau celf sydd ym meddiant yr Oriel, a gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd mwyaf manteisiol o'r casgliad cenedlaethol er budd cenedlaethol. |

# Atodiad 7: Enghreifftiau o Weledigaethau a Chenadaethau

| Sefydliad celfyddydol | Disgrifiad | Gweledigaeth | Cenhadaeth |
|---|---|---|---|
| **Amgueddfeydd Celf Gyfoes Rhanbarthol** | | | |
| Serpentine/ Sepentine Sackler, y Deyrnas Unedig | Dau fan arddangos: Oriel Serpentine ac Oriel Serpentine Sackler. Heb gasgliad parhaol, mae'r Serpentine a'r Serpentine Sackler yn cadw eu henw da drwy fynd ati'n gyson i gynnig arddangosfeydd newydd, cyffrous a mawreddog. Ynghyd â rhaglen arddangosfa dymhorol, cyflwyna Bafiliwn blynyddol yn yr Haf. Ategir rhaglenni gan brosiectau cerfluniau awyr agored, comisiynau artistiaid, comisiynau digidol, rhaglenni cyhoeddus ac addysgol, a phrosiectau allgymorth mawr. | Gwneud y Serpentine nid yn unig yn fangre lle caiff celf ei gweld, ond yn fangre dan arweiniad artistiaid lle caiff syniadau ac atebion eu creu. | Mae'r Serpentine yn hyrwyddo dealltwriaeth o gelf, pensaernïaeth a dylunio, a'r ffordd y mae'r meysydd hyn yn cyd-fynd â disgyblaethau eraill, trwy ei arddangosfeydd, pensaernïaeth, dylunio, addysg a rhaglenni cyhoeddus yn ogystal â'i brosiectau digidol. |
| Turner Contemporary | Sefydliad y celfyddydau gweledol sydd am ddathlu, gosod mewn cyd-destun, ac adeiladu ar gysylltiad JMW Turner â Margate. Mae'n gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywiad Margate, gyda'r nod o adfywio balchder dinesig ac ysbrydoli pobl i ehangu eu gorwelion a chyflawni eu potensial llawn. | Celf yn ysbrydoli newid | Dathlu artistiaid, creadigrwydd a dysgu trwy raglen ragoriaeth uchelgeisiol, mae Turner Contemporary yn Margate yn cyfoethogi bywydau ac yn meithrin hyder i arwain trawsnewidiad |
| Nottingham Contemporary | Oriel gelf gyfoes sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, arbrofi, uchelgais ac arloesedd. Mae'r oriel yn hyrwyddo ymchwilio, cyfnewid a lledaenu syniadau sydd wedi'u hysbrydoli gan arferion celf heddiw ledled disgyblaethau a diwylliannau. Gweithia gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i gefnogi grymuso artistiaid a chynulleidfaoedd yn greadigol a beirniadol. | Credwn fod artistiaid cyfoes yn cynnig safbwyntiau eithriadol ar gymdeithas gyfoes. | Mae Nottingham Contemporary yn ganolfan gelf ryngwladol sydd ag ymdeimlad cryf o bwrpas lleol. |
| SFMOMA, San Francisco, yr UDA | Amgueddfa celf fodern sydd â chasgliad a gydnabyddir yn rhyngwladol o gelf gyfoes a modern. Mae'n rhyngwladol ei chwmpas, ar yr un pryd ag adlewyrchu cymeriad nodedig y rhanbarth. Mae arddangosfeydd a rhaglenni'r amgueddfa yn cyflwyno ac yn dehongli'r mynegiant ar ddiwylliant gweledol mewn ffordd drawiadol. | Heb ei nodi. | Mae SFMOMA yn ymroddedig i wneud celf ein hoes yn rhan hollbwysig ac ystyrlon o fywyd cyhoeddus. Am y rheswm hwnnw, rydym yn casglu casgliadau nad oes mo'u tebyg unrhyw le arall, yn creu arddangosfeydd cyffrous, ac yn datblygu rhaglenni difyr i'r cyhoedd. Ym mhob un o'r ymdrechion hyn, cawn ein harwain gan ein hymrwymiad parhaol i feithrin creadigrwydd a choleddu ffyrdd newydd o weld y byd. |

# Atodiad 7: Enghreifftiau o Weledigaethau a Chenadaethau

| Sefydliad celfyddydol | Disgrifiad | Gweledigaeth | Cenhadaeth |
|---|---|---|---|
| MOMA, Efrog Newydd, yr UDA | Addysgu'r cyhoedd am gelf Fodern | Bod yr amgueddfa celf fodern a chyfoes fwyaf difyr – i bawb | Casglu, diogelu, astudio, arddangos ac ysgogi gwerthfawrogiad a gwybodaeth uwch o weithiau celf sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli sbectrwm ehangaf cyflawniad dynol ar ansawdd o'r lefel uchaf, oll er budd y cyhoedd ac yn unol â'r safonau proffesiynol uchaf. |
| Stedelijk Museum voor Actuele Kunst, SMAK, Ghent, Gwlad Belg | Mae Stedelijk Museum voor Actuele Kunst yn enwog am ei chasgliad parhaol ac am ei harddangosfeydd dadleuol. Mae'n rhoi'r artist wrth wraidd ei gweithredoedd. Cyflwyna ei hun fel man arbrofi. | Deinamig ac anghofensiynol. Yn cadw'r bys ar y pyls. Ond weithiau ar y pethau dadleuol hefyd. | Sefydlu amgueddfa annibynnol sy'n canolbwyntio ar dueddiadau cyfoes yn y byd celf. |
| Palais de Tokyo, Paris, Ffrainc | Mae Palais de Tokyo yn amgueddfa sy'n benodol ar gyfer celf gyfoes ac mae wedi'i leoli yn adain orllewinol Amgueddfa Celf Fodern Dinas Paris. Dyma un o'r lleoliadau mwyaf sy'n ymroddedig i gelfyddyd ein hoes yn Ewrop, gyda man arddangos 22,000m2. Mae'n bwrpasol ar gyfer artistiaid datblygol a sefydledig o Ffrainc a'r byd. | Palais de Tokyo yw'r lle dynamig i artistiaid ein hoes. | Mae'r Palais de Tokyo wedi'i ysgogi gan yr awydd i newid ein gweledigaeth o gelf, ac mae'n ein gwahodd i fod yn dyst i wendidau ein hoes ac i fyw profiad celf yn cael ei lunio, ar bob ffurf. |
| Amgueddfa Gelf Gyfoes Estonia, Tallinn | Man celf amgen mewn adeilad a arferai fod yn swyddfeydd ar dec boelerdy. Mae'n fenter di-elw hunansefydledig, sy'n gosod ei hun rhwng sefydliadau swyddogol a redir gan y wladwriaeth a menter dan arweiniad artistiaid. Mae'n gysyniad anghonfensiynol o amgueddfa gelf gyfoes sy'n gweithio tuag at gynhyrchu, arddangos, casglu a phoblogeiddio celf gyfoes lleol a rhyngwladol ar yr un pryd â newid dulliau gweithio cyfredol sefydliadau celf sefydledig. Mae'n arf hunansefydlu i artistiaid, curaduron a myfyrwyr celf y genhedlaeth iau. | Dull o hunansefydliadoli ar gyfer artistiaid a churaduron y genhedlaeth iau. | Bod yn gyfryngwr rhwng sefydliadau celf swyddogol ac orielau amgen, a pharhau i ofyn sut beth yw gwir natur amgueddfa gelf gyfoes? |
| Amgueddfa Van Abbe, Eindhoven, yr Iseldiroedd | Mae'r oriel gelf gyfoes yn cynnwys casgliad o tua 2,700 gwaith celf o 1909 hyd heddiw. Mae ganddi ymagwedd arbrofol tuag at rôl celf yn y gymdeithas ac yn herio cynulleidfaoedd i feddwl am gelf a'i le yn y byd. Mae cydweithio a chyfnewid rhyngwladol wedi ei gwneud yn lle llawn croesfffrwythloni creadigol. | Heb ei nodi. | Meddwl am le celf yn y byd trwy ystod o bynciau, gan gynnwys rôl y casgliad fel *cof* diwylliannol a'r amgueddfa fel safle cyhoeddus. Mae bod yn agored, yn groesawgar a chyfnewid gwybodaeth yn bwysig i ni. |

creating
worldclass
destinations
worldwide